



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 26 Mai 2010  
Wednesday, 26 May 2010**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 4 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol  
Questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme
- 8 Pwynt o Drefn  
Point of Order
- 9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Questions for the Minister for Social Justice and Local Government
- 29 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Questions for the Minister for Children, Education and Lifelong Learning
- 47 Cwestiwn Brys: Refferendwm  
Urgent Question: Referendum
- 61 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar Fesur Arfaethedig Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Taliadau)  
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed National Assembly for  
Wales (Remuneration) Measure
- 61 Annibyniaeth, Bod yn Agored ac yn Gynhwysol (Gwelliant 17)  
Independence, Openness and Inclusiveness (Amendment 17)
- 66 Anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Bwrdd (Gwelliannau 10, 1 a 2)  
Disqualification from Membership of the Board (Amendments 10, 1 and 12)
- 68 Penodi Aelodau'r Bwrdd (Gwelliannau 11, 12, 13, 14, 15 a 16)  
Appointment of the Members of the Board (Amendments 11, 12, 13, 14, 15 and 16)
- 72 Arfer Swyddogaethau mewn perthynas â Chyflogau (Gwelliannau 3, 4 a 5)  
Exercise of Functions in relation to Salaries (Amendments 3, 4 and 5)
- 74 Arfer Swyddogaethau mewn Perthynas ag Ad-dalu Costau a Ysgwyddwyd wrth  
Gyflogi Staff (Gwelliannau 6 a 7)  
Exercise of Functions in Relation to Reimbursement of Costs Incurred in Employing  
Staff (Amendments 6 and 7)
- 76 Enw Byr a Chychwyn (Gwelliannau 8 a 9)  
Short Title and Commencement (Amendments 8 and 9)
- 77 Cynnig yng Nghyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo Mesur  
Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)  
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed National Assembly  
for Wales (Remuneration) Measure
- 78 Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf  
The Public Accounts Committee's Report on Communities First
- 107 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cyswllt Awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn  
Welsh Liberal Democrats Debate: The Cardiff-Anglesey Air Link

- 132 Cyfnod Pleidleisio  
Voting Time
- 133 Dadl Fer: Gwella Cyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rheini sy'n  
Gadael Gofal  
Short Debate: Raising the Educational Attainment of Looked-after Children and Care  
Leavers

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Counsel General.

### **Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol Questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme**

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0148(CGE), i'w ateb yn ysgrifenedig. **The Presiding Officer:** Question 1, OAQ(3)0148(CGE), was transferred for written answer.

#### **Llywodraeth y DU**

#### **The UK Government**

**C2 David Lloyd:** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU? OAQ(3)0146(CGE)

**Q2 David Lloyd:** What recent discussions has the Counsel General had with the UK Government? OAQ(3)0146(CGE)

**C3 Nerys Evans:** Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Gweinidogion y DU? OAQ(3)0145(CGE)

**Q3 Nerys Evans:** What recent discussions has the Counsel General had with UK Ministers? OAQ(3)0145(CGE)

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths):** Yn rhinwedd fy swydd fel Cwnsler Cyffredinol, yr wyf yn trafod materion pwysig Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Llywodraeth San Steffan yn gyson.

**The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths):** In my role as Counsel General, I regularly discuss important Welsh Assembly Government matters with the Westminster Government.

**David Lloyd:** Diolch yn fawr iawn ichi am yr ateb hwnnw, Gwnsler Cyffredinol. Ymhellach i hynny, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael am yr LCO drafft ynghylch tai, yn benodol yr angen i symud ar fyrder ar y mater hwn, ar agenda a danseiliwyd yn gyfan gwbl gan y Toriaid cyn yr etholiad?

**David Lloyd:** Thank you very much for that response, Counsel General. Further to that, what discussions have you had on the draft LCO on housing, specifically on the need to progress with this issue as a matter of urgency, on an agenda that was utterly undermined by the Tories before the election?

**John Griffiths:** There has been much discussion around the draft LCO on sustainable homes, which, as you know, Dai, has widespread support from the housing sector in Wales. It received what I think could fairly be described as positive and constructive scrutiny here in the Assembly and by the Welsh Affairs Committee. Therefore, I was very disappointed when the necessary cross-party support was not available for it to be approved during the last UK Parliament. The Welsh Assembly Government now very much wishes to see it

**John Griffiths:** Bu llawer o drafod am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ynghylch tai cynaliadwy, ac fel y gwyddoch, Dai, mae cefnogaeth eang iddo ymhlith y sector tai yng Nghymru. Cafodd yr hyn y credaf y gellid ei ddisgrifio'n deg fel gwaith craffu cadarnhaol ac adeiladol yma yn y Cynulliad a chan y Pwyllgor Materion Cymreig. Felly, yr oeddwn yn siomedig iawn pan nad oedd y gefnogaeth drawsbleidiol angenrheidiol ar gael i'w gymeradwyo yn ystod Senedd ddiwethaf y DU. Yn awr, mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus iawn

proceed in its current format.

**Nerys Evans:** The discussions over the past 24 hours about the possibility of a referendum have proven that the mutual respect agenda that the Con-Dem Government talked about has ended already, after a week. There is a lack of consistency between members of the UK Government and the parties of the UK Government, and a complete lack of respect for the Assembly Government's wishes in this regard. Is it not true, Counsel General, that when we last had the referendum in Wales in 1997, Labour won the election in May and a referendum was held in September? Does the fact that yesterday's events and the Prime Minister's comments were reported to the Government through the media show the need for formal channels of communication between the Welsh Government and the London Government?

**John Griffiths:** There are proper and established channels of communication for these matters, and they do not appear to have been used and respected in this instance, which is disappointing. In addition, the possible autumn date for the referendum could still be achieved with the necessary political will, but it is again disappointing that that seems to have been ruled out.

**Alun Davies:** I return to the subject raised by Dai Lloyd, namely the draft LCO on affordable housing. Several of us in the Chamber have sat on the committees that dealt with the matter, and also stood for election on the basis of manifestos that committed to delivering that legislation. We saw how the Conservative Party frustrated that process before the election. I have no confidence that this coalition at Westminster will see affordable housing in Wales as a priority. Therefore, I ask you, Counsel General, to ensure that this is a top priority for you and the Government here as a whole, and will you continue to press the Secretary of State for Wales for progress on this matter?

i'w weld yn mynd yn ei flaen yn ei ffurf bresennol.

**Nerys Evans:** Mae'r trafodaethau dros y 24 awr ddiwethaf ar bosibilrwydd cynnal refferendwm wedi profi bod yr agenda o barch gan y naill blaidd i'r llall y bu Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn sôn amdani wedi dod i ben yn barod, ar ôl wythnos. Mae diffyg cysondeb rhwng aelodau o Lywodraeth y DU a phleidiau Llywodraeth y DU, a diffyg parch llwyr at ddymuniadau Llywodraeth y Cynulliad yn hyn o beth. Onid yw'n wir, Gwnsler Cyffredinol, pan gawsom y refferendwm diwethaf yng Nghymru yn 1997, fod y Blaidd Lafur wedi ennill yr etholiad ym mis Mai a bod refferendwm wedi'i gynnal ym mis Medi? A yw'r ffaith fod digwyddiadau ddoe a sylwadau'r Prif Weinidog wedi eu hadrodd wrth y Llywodraeth drwy'r cyfryngau yn dangos bod angen dulliau cyfathrebu ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Llundain?

**John Griffiths:** Mae dulliau cyfathrebu priodol yn bodoli ac wedi'u hen sefydlu ar gyfer y materion hyn, ac nid yw'n ymddangos iddynt gael eu defnyddio a'u parchu yn yr achos hwn, sy'n siomedig. Yn ogystal, gellid sicrhau o hyd bod refferendwm yn cael ei gynnal yn yr hydref o bosibl, gyda'r ewyllys wleidyddol angenrheidiol, ond eto mae'n siomedig gweld bod hynny fel pe bai wedi ei ddiystyru.

**Alun Davies:** Dychwelaf at y pwnc a godwyd gan Dai Lloyd, sef y Gorchymyn drafft ynghylch tai fforddiadwy. Mae nifer ohonom yn y Siambr wedi bod yn rhan o'r pwyllgorau a fu'n ymdrin â'r mater, a hefyd wedi ymladd etholiad ar sail maniffestos a oedd yn ymrwymo i gyflwyno'r ddeddfwriaeth honno. Gwelsom y modd y rhwystrodd y Blaidd Geidwadol y broses honno cyn yr etholiad. Nid oes gennyf ddim hyder y bydd y glymblaid hon yn San Steffan yn ystyried bod tai fforddiadwy yng Nghymru yn flaenoriaeth. Felly, gofynnaf ichi, Gwnsler Cyffredinol, sicrhau bod hyn yn brif flaenoriaeth i chi a'r Llywodraeth yma yn ei chyfanrwydd, ac a wnewch chi barhau i bwysu ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru am gynnydd ar y mater hwn?

**John Griffiths:** I am happy to stress that the Welsh Assembly Government remains very much committed to the draft LCO on sustainable homes in its current format, and we very much wish it to proceed. I note that the UK coalition Government's programme for government includes a commitment to proceed with the draft LCO on sustainable homes, and I very much hope that that happens in short order.

**Michael German:** Will you give me your opinion on whether devolution guidance note 16, which governs the relationship between the Assembly and the Westminster Government, should be revised or whether it is perfectly appropriate and fit for purpose as it stands now?

**John Griffiths:** We are always looking at the guidance notes, as well as other agreements and protocols that govern our relationship with the UK Government, because it is obviously a crucial relationship. We believe that things have worked reasonably well in the past, although there was a necessary period of ourselves and Westminster colleagues—Ministers and officials—learning the best ways of conducting the relationship as we moved forward, particularly under the new Government of Wales Act 2006. We now have a new UK Government. It is early days yet, but we will continue to monitor the relationship, as well as the guidance notes and other documentation that govern that relationship.

#### Welsh-language Legal Terms

**Q4 William Graham:** Has the Counsel General had any discussions about the need to establish a definitive Welsh-language vocabulary of legal terms? OAQ(3)0147(CGE)

**John Griffiths:** I have discussed this matter with my officials, who are considering the issues involved in establishing such a vocabulary.

**William Graham:** Thank you for your answer, Counsel General. I hope that you will

**John Griffiths:** Yr wyf yn hapus i bwysleisio bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n bendant iawn i'r Gorchymyn drafft ynghylch tai fforddiadwy yn ei ffurf bresennol, ac yr ydym yn awyddus iawn iddo fynd yn ei flaen. Gwelaf fod rhaglen Llywodraeth glymbleidiol y DU ar gyfer llywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r Gorchymyn drafft ynghylch cartrefi cynaliadwy, a gobeithio'n fawr y bydd hynny'n digwydd yn fuan.

**Michael German:** A wnewch chi roi eich barn imi am y cwestiwn a ddylid adolygu nodyn cyfarwyddyd datganoli 16, sy'n rheoli'r berthynas rhwng y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan, ynteu a yw'n gwbl briodol ac yn addas at y diben yn ei ffurf bresennol?

**John Griffiths:** Yr ydym bob amser yn edrych ar y nodiadau cyfarwyddyd, yn ogystal â chytundebau a phrotocolau eraill sy'n rheoli ein perthynas â Llywodraeth y DU, oherwydd mae'n amlwg yn berthynas hollbwysig. Credwn fod pethau wedi gweithio'n weddol dda yn y gorffennol, er bod cyfnod angenrheidiol pan oeddem ni a chydweithwyr yn San Steffan—Gweinidogion a swyddogion—yn dysgu'r ffyrdd gorau i gynnal y berthynas wrth inni symud ymlaen, yn enwedig dan Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd 2006. Yn awr, mae gennym Lywodraeth newydd yn y DU. Mae'n gynnar eto, ond byddwn yn parhau i fonitro'r berthynas, yn ogystal â'r nodiadau cyfarwyddyd a'r dogfennau eraill sy'n rheoli'r berthynas honno.

#### Termau Cyfreithiol Cymraeg

**C4 William Graham:** A yw'r Cwnsler Cyffredinol wedi cael unrhyw drafodaethau am yr angen i sefydlu rhestr swyddogol o dermau cyfreithiol Cymraeg? OAQ(3)0147(CGE)

**John Griffiths:** Yr wyf wedi trafod y mater hwn gyda'm swyddogion, sy'n ystyried y materion yn ymwneud â sefydlu geirfa o'r fath.

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Gwnsler Cyffredinol. Gobeithio y byddwch

give some priority to this issue, as you will know that it has given rise to some difficulties, although, fortunately, only of a minor nature so far. Will you consider—perhaps in the future, when funds allow—following the example of the Catalan Government, where it is possible to find a definitive legal term by telephone?

**John Griffiths:** That is an interesting suggestion. We will always monitor these matters and seek to improve our practices as we go forward. Our TermCymru website is a useful resource of legal terms as well as terminology in general, ensuring that we conduct ourselves in a properly bilingual way. Other useful practices have also been established, including that of the First Welsh Legislative Counsel and his office, which accepts representations from public bodies as to the best terminology that might be used for a particular piece of legislation. Therefore, we will continue to consider these matters. As you will know, Bill, this issue arose during my evidence to a recent meeting of the Constitutional Affairs Committee.

### Wales Legislation Online

**Q5 William Graham:** Will the Counsel General make a statement on the Welsh Assembly Government's funding of Wales Legislation Online? OAQ(3)0149(CGE)

**John Griffiths:** For several years, the Welsh Assembly Government has provided grant funding of £20,000 a year to support the establishment and maintenance of the Wales Legislation Online website. We are awaiting a revised business case from them regarding future levels of funding.

**William Graham:** You will know that Wales Legislation Online is a most impressive undertaking by Cardiff Law School. It provides a comprehensive and embracing service not only of Welsh primary legislation, but also of Welsh delegated legislation, as well as devolved, executive and legislative functions. I urge you to consider the business case, and I hope that you will be able to fund this to greater effect

yn rhoi rhywfaint o flaenoriaeth i'r mater hwn, oherwydd gwyddoch ei fod wedi achosi rhai anawsterau, er mai mân anawsterau, yn ffodus, a gafwyd hyd yma. A wnewch chi ystyried—yn y dyfodol, efallai, pan fydd arian yn caniatáu—dilyn enghraifft Llywodraeth Catalonia, lle mae'n bosibl cael gwybodaeth am derm cyfreithiol swyddogol dros y ffôn?

**John Griffiths:** Mae hwnnw'n awgrym diddorol. Byddwn bob amser yn monitro'r materion hyn ac yn ceisio gwella'n harferion wrth inni symud ymlaen. Mae ein gwefan TermCymru yn adnodd defnyddiol ar gyfer termau cyfreithiol yn ogystal â therminoleg yn gyffredinol, gan sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gwbl ddwyieithog. Mae arferion defnyddiol eraill hefyd wedi eu sefydlu, gan gynnwys arfer Prif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru a'i swyddfa, sy'n derbyn sylwadau gan gyrff cyhoeddus am y derminoleg orau i'w defnyddio ar gyfer darn penodol o ddeddfwriaeth. Felly, byddwn yn parhau i ystyried y materion hyn. Fel y gwyddoch, Bill, cododd y mater hwn yn ystod fy nhystiolaeth i gyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

### Deddfwriaeth Cymru Ar-lein

**C5 William Graham:** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Deddfwriaeth Cymru Ar-lein? OAQ(3)0149(CGE)

**John Griffiths:** Ers llawer blwyddyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid grant o £20,000 y flwyddyn i gefnogi sefydlu a chynnal gwefan Deddfwriaeth Cymru Ar-lein. Yr ydym yn aros am achos busnes wedi'i adolygu ganddynt ar lefelau cyllid yn y dyfodol.

**William Graham:** Gwyddoch fod Deddfwriaeth Cymru Ar-lein yn fenter sylweddol gan Ysgol y Gyfraith Caerdydd. Mae'n darparu gwasanaeth cynhwysfawr a chynhwysol yn ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol Cymru a hefyd deddfwriaeth ddirprwyedig Cymru, yn ogystal â swyddogaethau datganoledig, gweithredol a deddfwriaethol. Yr wyf yn eich annog i ystyried yr achos busnes, a gobeithio y

in the future.

byddwch yn gallu darparu mwy o gyllid i'r fenter yn y dyfodol.

**John Griffiths:** My general remarks to some of the earlier questions apply equally here, Bill. We are always monitoring services and practices to improve and build on them as we go forward. However, once that revised business case is received, we will consider it carefully.

**John Griffiths:** Mae fy sylwadau cyffredinol am rai o'r cwestiynau cynharach yr un mor berthnasol yma, Bill. Yr ydym bob amser yn monitro gwasanaethau ac arferion i'w gwella ac adeiladu arnynt wrth inni symud ymlaen. Fodd bynnag, pan gawn yr achos busnes hwnnw wedi'i adolygu, byddwn yn ei ystyried yn ofalus.

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**The Presiding Officer:** Michael German has a point of order, rising out of questions to the Counsel General.

**Y Llywydd:** Mae gan Michael German bwynt o drefn, sy'n codi o'r cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol.

**Michael German:** My point of order relates to the conduct of business in the Chamber. In previous Assemblies, it has always been the case that Members were referred to as they would want to be referred, regarding their name, and that the same applied to the names of political parties. Do such rules still apply to the National Assembly and, if so, could you remind Members of them, so that we do not prolong any discussions on different names being used for different purposes?

**Michael German:** Mae fy mhwynt o drefn yn ymwneud â'r modd y caiff busnes ei gynnal yn y Siambr. Yng Nghynulladau'r gorffennol, y drefn bob amser oedd cyfeirio at Aelodau fel y byddent yn dymuno cyfeirio atynt, o ran eu henw, a bod yr un peth yn wir am enwau pleidiau gwleidyddol. A yw rheolau o'r fath yn berthnasol o hyd i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac os felly, a allech atgoffa Aelodau ohonynt, fel na fyddwn yn treulio mwy o amser nag sydd raid yn trafod defnyddio gwahanol enwau at wahanol ddibenion?

1.40p.m.

**The Presiding Officer:** I am grateful for that point of order, as it gives me an opportunity to state clearly what I have stated in previous rulings on this matter. The names of political parties are those that are recognised by and registered with the Electoral Commission for the purposes of contesting elections. Political parties and political groups in the National Assembly for Wales are generally known by the titles that they have chosen for themselves and such titles should be used. Members will know that I never call members of Plaid 'Nationalists', because I am not one myself. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh?'] Order. I will explain that another day. [Laughter.] I have never called the Welsh Conservatives 'Tories', not even in private.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am y pwynt hwnnw o drefn, oherwydd mae'n gyfle imi ddatgan yn glir yr hyn yr wyf wedi'i ddatgan wrth ddyfarnu ar y mater hwn yn y gorffennol. Enwau'r pleidiau gwleidyddol yw'r rheini sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol ac a gydnabyddir gan y comisiwn at ddibenion ymladd etholiadau. Yn gyffredinol, caiff pleidiau gwleidyddol a grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol eu hadnabod wrth y teitlau y maent wedi'u dewis iddynt eu hunain, a dylid defnyddio'r teitlau hynny. Gŵyr Aelodau na fyddaf byth yn galw aelodau Plaid Cymru yn 'Genedlaetholwyr', gan nad wyf yn un fy hun. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O?'] Trefn. Egluraf hynny rywbyrd eto. [Chwerthin.] Nid wyf erioed wedi defnyddio'r gair 'Torïaid' wrth gyfeirio at Geidwadwyr Cymru, hyd yn



oed yn breifat.

**David Melding:** Well, I do. [*Laughter.*]

**David Melding:** Wel, yr wyf fi'n gwneud hynny. [*Chwerthin.*]

**The Presiding Officer:** I know that some of you do. However, as far as the National Assembly is concerned, the coalition that we have here is known as 'the One Wales Government'. That is its title, and that is what everyone calls it. Therefore, if the coalition at Westminster prefers to be known by another name, it is for it to decide what that name should be. By custom and practice, the same name should be used here as is used at Westminster; otherwise, it is confusing. While I am about it, I have heard Members refer to 'the London Government', but the London Government consists of the Mayor of London and the Greater London Assembly. I will think of a few others in a minute, so I had better move on.

**Y Llywydd:** Gwn fod rhai ohonoch yn gwneud hynny. Fodd bynnag, o ran y Cynulliad Cenedlaethol, 'Llywodraeth Cymru'n Un' yw'r enw ar y glymblaid sydd gennym yma. Dyna'i theitl, a dyna y mae pawb yn ei galw. Felly, os yw'n well gan y glymblaid yn San Steffan gael ei hadnabod wrth enw arall, y glymblaid ei hun sydd i benderfynu beth ddylai'r enw hwnnw fod. Yn ôl arfer a defod, dylid defnyddio'r un enw yma ag a ddefnyddir yn San Steffan; bydd dryswch fel arall. O sôn am hynny, yr wyf wedi clywed Aelodau'n cyfeirio at 'Lywodraeth Llundain', ond mae Llywodraeth Llundain yn cynnwys Maer Llundain a Chynulliad Llundain Fwyaf. Byddaf yn meddwl am enghreifftiau eraill yn y man, felly, byddai'n well imi symud ymlaen.

**Michael German:** Thank you very much.

**Michael German:** Diolch yn fawr iawn.

**The Presiding Officer:** My pleasure.

**Y Llywydd:** Pleser.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions for the Minister for Social Justice and Local Government**

### **The Budget for Local Government**

### **Cyllideb Llywodraeth Leol**

**Q1 William Graham:** What discussions has the Minister had concerning increasing the budget for local government? OAQ(3)1206(SJL)

**C1 William Graham:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ar gynyddu'r gyllideb ar gyfer llywodraeth leol? OAQ(3)1206(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** I have regular discussions with the Welsh Local Government Association covering a wide range of issues, including the local government funding settlement. I also have regular meetings with representatives of individual local authorities. The revenue settlement for 2010-11 was finalised and approved by the National Assembly in January.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ystod eang o faterion, gan gynnwys y setliad ar gyfer cyllido llywodraeth leol. Yn ogystal, byddaf yn cael cyfarfodydd rheolaidd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol unigol. Cafodd y setliad refeniw ar gyfer 2010-11 ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ionawr.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. It is striking that the 'Better

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae'n drawiadol nad yw'r

Outcomes for Tougher Times: The Next Phase of Public Service Improvement' document does not go far enough in incentivising and supporting change. You will recall that, in 2006, Beecham said that the Assembly Government had not made enough progress on this matter and described the public sector as an 'ethos' rather than a service.

**Carl Sargeant:** My message to local government has been clear. I have met with all 22 authorities, and I met with Swansea council last week, which was the last one. We have a clear message on the collaboration agenda. To be fair, there has been a massive improvement in relation to working together. I have some great examples: the public services summit, which was held earlier this year, and the establishment of the efficiency and innovation board, chaired by the Minister for Business and Budget, which is taking significant strides to drive the collaboration agenda throughout the whole public service.

**David Lloyd:** Weinidog, yn wyneb y toriadau a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan Lywodraeth Geidwadol Ryddfrydol mewn dinas arall, pa drafodaethau yr ydych yn eu cynnal â llywodraeth leol yng Nghymru ar yr amser dyrs hwn?

**Carl Sargeant:** We are still considering the implications of the cuts that were passed on to us from Westminster this week. As Ministers, we are going through our budgets line by line to work out the potential implications. Having less money to deliver services in Wales will clearly have an effect. I will give you one example from the public sector, Dai. The nature of police funding means that around 40 per cent of the funding for police authorities in Wales comes from the Home Office, but the cuts announced this week include a reduction of £115 million in revenue-specific grants provided by the Home Office. From that, Welsh police authorities can expect to have to manage their share of this reduction. Therefore, this is already having direct consequences for the police forces in Wales.

ddogfen 'Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: Y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus' yn mynd yn ddigon pell wrth gymell a chefnogi newid. Fe gofiwch i Beecham ddweud, yn 2006, nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud digon o gynnydd ar y mater hwn, a disgrifiodd y sector cyhoeddus fel 'ethos' yn hytrach na gwasanaeth.

**Carl Sargeant:** Mae fy neges i lywodraeth leol wedi bod yn glir. Yr wyf wedi cyfarfod â phob un o'r 22 awdurdod, a chyfarfûm â'r un olaf, sef cyngor Abertawe, yr wythnos diwethaf. Mae gennym neges glir am yr agenda gydweithredu. A bod yn deg, bu gwelliant enfawr o safbwynt cydweithio. Mae gennyf rai enghreifftiau gwych: yr uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus, a gynhaliwyd yn gynharach eleni, a sefydlu'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, sy'n cymryd camau breision i yrru'r agenda gydweithredu drwy'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd.

**David Lloyd:** Minister, in light of the cuts announced this week by a Conservative-Liberal Government in another city, what discussions are you having with local government in Wales during this difficult time?

**Carl Sargeant:** Yr ydym yn dal i ystyried goblygiadau'r toriadau a drosglwyddwyd inni o San Steffan yr wythnos hon. Fel Gweinidogion, yr ydym yn mynd drwy ein cyllidebau fesul llinell i weld beth yw'r goblygiadau posibl. Yn amlwg, bydd cael llai o arian i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru yn cael effaith. Rhoddaf un enghraifft ichi o'r sector cyhoeddus, Dai. Mae natur cyllido'r heddlu'n golygu mai'r Swyddfa Gartref sy'n darparu tua 40 y cant o'r cyllid ar gyfer awdurdodau heddlu yng Nghymru, ond mae'r toriadau a gyhoeddwyd yr wythnos hon yn cynnwys gostyngiad o £115 miliwn mewn grantiau sy'n benodol i refferniw a ddarperir gan y Swyddfa Gartref. O hynny, gall awdurdodau heddlu Cymru ddisgwyl gorfod rheoli eu cyfran hwy o'r gostyngiad hwn. Felly, mae hyn eisoes yn cael canlyniadau uniongyrchol ar yr heddlu yng Nghymru.

**Peter Black:** Minister, you will know that local government has already had to institute substantial cuts and is already projecting further cuts and redundancies based on the current financial settlements that they have in front of them. Given that things will not get better, what undertakings can you give that, when the Assembly Government next puts together a budget, local government will not be treated any worse than any other budget heading?

**Carl Sargeant:** As I said, Peter, I have been clear with local authorities across Wales about future financial settlements. I intend to continue that open dialogue with them. I am operating on a 'no surprise' basis, and I hope that that works both ways. As soon as I have further clarity on future budget settlements, I will inform local government.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister, and I am sure that local government appreciates that you are batting on its behalf. I want to clarify that, when the Assembly Government next puts together its budget, you will be fighting hard to ensure that local government does not have a worse settlement than any other department, as has happened in the past, but did not happen with the current budget settlement.

**Carl Sargeant:** That is a concern of mine, as the Minister for local government. I will act in line with our Government priorities in the future.

**Brian Gibbons:** I was interested in Peter Black's comment, because one of the Bills mentioned in the Queen's Speech yesterday referred to the financing of local government and indicated that the UK Government intended to extend those powers to Wales. We know that the Assembly Government, notwithstanding what Peter said, has funded local government considerably more generously than has been the case in England. In view of the fact that the Government in Westminster has targeted local government for particularly stringent cuts at the moment, will you make representations to ensure that we, in Wales,

**Peter Black:** Weinidog, gwyddoch fod llywodraeth leol eisoes wedi gorfod cyflwyno toriadau sylweddol, ac mae eisoes yn rhagweld toriadau pellach a diswyddiadau'n seiliedig ar y setliadau ariannol presennol sydd ganddynt o'u blaen. O gofio na fydd pethau'n gwella, pa addewidion y gallwch eu rhoi na fydd llywodraeth leol yn cael ei thrin yn waeth nag unrhyw bennawd arall yn y gyllideb, pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio cyllideb nesaf?

**Carl Sargeant:** Fel y dywedais, Peter, yr wyf wedi bod yn glir gydag awdurdodau lleol ledled Cymru am setliadau ariannol yn y dyfodol. Bwriadaf barhau i gael y ddeialog agored honno â hwy. Yr wyf yn gweithredu ar sail 'dim newyddion annisgwyl', a gobeithio bod hynny'n gweithio'r ddwy ffordd. Cyn gynted ag y bydd gennyf eglurder pellach am setliadau'r gyllideb yn y dyfodol, byddaf yn rhoi gwybod i lywodraeth leol.

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac yr wyf yn siŵr fod llywodraeth leol yn sylweddoli eich bod yn brwydro ar ei rhan. Hoffwn ichi egluro y byddwch yn brwydro'n galed, pan fydd Llywodraeth y Cynulliad yn llunio'i chyllideb nesaf, i sicrhau na fydd llywodraeth leol yn cael setliad gwaeth nag unrhyw adran arall, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol ond na ddigwyddodd yn achos y setliad presennol.

**Carl Sargeant:** Mae hwnnw'n bryder imi, fel y Gweinidog dros Lywodraeth Leol. Byddaf yn gweithredu'n unol â blaenoriaethau ein Llywodraeth yn y dyfodol.

**Brian Gibbons:** Yr oedd gennyf ddiddordeb yn sylw Peter Black, oherwydd yr oedd un o'r Mesurau y soniwyd amdano yn Araith y Frenhines ddoe yn cyfeirio at ariannu llywodraeth leol ac yn awgrymu bod Llywodraeth y DU yn bwriadu ymestyn y pwerau hynny i Gymru. Gwyddom fod Llywodraeth y Cynulliad, er gwaetha'r hyn a ddywedodd Peter, wedi ariannu llywodraeth leol yn fwy hael o lawer nag sydd wedi bod yn wir yn Lloegr. O gofio bod y Llywodraeth yn San Steffan wedi targedu llywodraeth leol ar gyfer toriadau arbennig o lym ar hyn o bryd, a wnewch chi gyflwyno achos i sicrhau bod gennym ni, yng Nghymru, gymaint o

have maximum flexibility in looking at how we can finance local government funding in the future as primary legislation is brought forward in Westminster?

**Carl Sargeant:** The detail of the cuts that have been passed on to us are still to be worked up by me and Cabinet colleagues, but one of the other issues to understand on funding is something that I feel strongly about, namely the Holtham commission. We should be pressing the Government in Westminster to consider seriously how it will implement Holtham. I do not accept that it has any link whatsoever with the referendum. Therefore, I hope that my opposition colleagues will, in the future, press that upon their colleagues in Westminster.

**Alun Davies:** You will be aware that some of the funding that is allocated to local authorities is part of a formula that is determined by statistics and information supplied by the Department for Work and Pensions. Many of us have had reason to believe that the statistical evidence base that is collected by the DWP is not very accurate and does not describe the real situation facing many local authorities. Would you be willing to follow this up, Minister, and investigate some of the statistical evidence provided by the DWP to enable local authorities to have more confidence that their allocation is dependent on an accurate reflection of the situation and the demography of the areas that they cover?

**Carl Sargeant:** It is clear that we need accurate data to ensure that we get the correct funding in Wales. I will ask my officials to look at the matter closely and also involve the Minister for Business and Budget.

### Violence Against Women

**Q2 Eleanor Burnham:** What recent discussions has the Minister had with regard to ending violence against women? OAQ(3)1243(SJL)

**Carl Sargeant:** I have many discussions on

hyblygrwydd ag sy'n bosibl wrth edrych ar y modd y gallwn ariannu cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol wrth i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei chyflwyno yn San Steffan?

**Carl Sargeant:** Nid yw manylion y toriadau sydd wedi eu trosglwyddo inni wedi eu paratoi gennyf fi a'm cydweithwyr yn y Cabinet eto, ond un o'r materion eraill y mae angen eu deall ynghylch ariannu yw rhywbeth yr wyf yn teimlo'n gryf yn ei gylch, sef comisiwn Holtham. Dylem fod yn pwysu ar y Llywodraeth yn San Steffan i ystyried o ddifrif sut y bydd yn gweithredu argymhellion Holtham. Nid wyf yn derbyn fod ganddo gysylltiad o gwbl â'r refferendwm. Felly, gobeithio y bydd fy nghydweithwyr yn yr wrthblaid yn gwthio'r ddadl honno gyda'u cydweithwyr yn San Steffan yn y dyfodol.

**Alun Davies:** Gwyddoch fod rhywfaint o'r arian a ddyrennir i awdurdodau lleol yn rhan o fformiwla a bennir gan ystadegau a gwybodaeth a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae nifer ohonom wedi cael rheswm i gredu nad yw'r sylfaen dystiolaeth ystadegol a gaiff ei chasglu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn arbennig o gywir, ac nad yw'n disgrifio'r sefyllfa go iawn sy'n wynebu nifer o awdurdodau lleol. A fydddech yn fodlon rhoi sylw i hyn, Weinidog, ac ymchwilio i rywfaint o'r dystiolaeth ystadegol a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, fel y gall awdurdodau lleol fod yn fwy hyderus bod eu dyraniad yn ddibynnol ar adlewyrchiad manwl gywir o sefyllfa a demograffeg yr ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt?

**Carl Sargeant:** Mae'n amlwg fod angen data manwl gywir arnom i sicrhau ein bod yn cael yr arian cywir yng Nghymru. Gofynnaf i'm swyddogion edrych ar y mater yn agos ac i gynnwys y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb hefyd.

### Trais yn Erbyn Merched

**C2 Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch rhoi terfyn ar drais yn erbyn merched? OAQ(3)1243(SJL)

**Carl Sargeant:** Byddaf yn cael nifer o

this and I recently launched 'The Right to be Safe' integrated violence against women strategy and associated implementation plan, following a full public consultation. Before the launch, I met with a variety of key stakeholders to ensure that I had listened to their views first-hand on how to end violence against women.

1.50 p.m.

**Eleanor Burnham:** As you know from our recent discussion, it is extremely disappointing that the core funding for the Wales Women's National Coalition has not been continued and that, as a result, the organisation will probably cease quite soon. Assembly Member Joyce Watson has recently highlighted the extent of ongoing trafficking in Wales. When you announced the new 'Right to be Safe' strategy in March, you announced funding for a new project to tackle prostitution and trafficking in north Wales. Could you provide an update on that? Would you like to take this opportunity to distance yourself from recent comments made about violence against women by the Member of Parliament for Pontypridd, Owen Smith?

**Carl Sargeant:** Thank you for your question. I take this issue of violence against women very seriously indeed. It is one of my priorities as Minister for Social Justice and Local Government. I was delighted yesterday to join Joyce Watson at the launch of her impressive report on trafficking. It is a sad fact that this is a hidden crime that exploits the most vulnerable, desperate and socially isolated women, as well as children and men, and it is happening across Wales today. I have offered my support to Joyce and the cross-party group in how we take this forward. As for our new strategy, it includes a commitment to develop a trafficking project in north Wales, which will build on the projects that the Black Association of Women Step Out and Safer Wales Ltd are delivering in south Wales.

drafodaethau am hyn, ac yn ddiweddar lansiais 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', sef strategaeth integredig i atal trais yn erbyn merched a chynllun gweithredu cysylltiedig, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Cyn y lansiad, cyfarfûm ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i sicrhau fy mod wedi gwranddo ar eu barn yn uniongyrchol am y ffordd i roi terfyn ar drais yn erbyn merched.

**Eleanor Burnham:** Fel y gwyddoch o'n trafodaeth yn ddiweddar, mae'n hynod o siomedig na pharhawyd i ddarparu arian craidd ar gyfer Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a'i bod yn debygol y daw'r sefydliad i ben cyn hir o ganlyniad. Yn ddiweddar mae'r Aelod Cynulliad Joyce Watson wedi tynnu sylw at hyd a lled y broblem barhaus o fasnachu mewn pobl yng Nghymru. Pan gyhoeddwyd y strategaeth newydd 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' gennych ym mis Mawrth, cyhoeddasoch arian ar gyfer prosiect newydd i fynd i'r afael â phuteindra a masnachu mewn pobl yn y gogledd. A allech ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny? A hoffech fanteisio ar y cyfle hwn i ymbellhau oddi wrth sylwadau'n ddiweddar a wnaed am drais yn erbyn merched gan yr Aelod Seneddol dros Bontypridd, Owen Smith?

**Carl Sargeant:** Diolch am eich cwestiwn. Yr wyf yn ystyried trais yn erbyn merched yn fater difrifol iawn. Mae'n un o'm blaenoriaethau fel y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Yr oeddwn yn falch iawn ymuno â Joyce Watson ddoe i lansio'i hadroddiad trawiadol ar fasnachu mewn pobl. Mae'n ffaith drist fod hon yn drosedd gudd sy'n ecsbloetio'r menywod sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf anobeithiol, sydd fwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u hynysu fwyaf mewn cymdeithas; mae'n effeithio ar blant a dynion hefyd ac mae'n digwydd ledled Cymru heddiw. Yr wyf wedi cynnig fy nghefnogaeth i Joyce a'r grŵp trawsbleidiol gyda'r ffordd y dylem symud hyn yn ei flaen. O ran ein strategaeth newydd, mae'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu prosiect masnachu mewn pobl yn y gogledd, a fydd yn adeiladu ar y prosiectau y mae Black Association of Women Step Out a Cymru Ddiogelach Cyf

yn eu darparu yn y de.

**Ann Jones:** A north Wales women's centre in Rhyl does an excellent job of supporting women who have the courage to say 'no' and to stand up to violence through their partnerships. The great encouragement and support that is given to these women helps to rebuild their lives, and even takes them into areas of further education, which enables them to be self-sufficient. Your predecessor, Brian Gibbons, visited the north Wales women's centre with me to see at first-hand the work that it is doing. Could I extend an invitation to you to see the work that goes on there? I am sure that you will be mightily pleased with the work that they do despite receiving so little funding.

**Ann Jones:** Mae canolfan merched yn y Rhyl yn y gogledd yn gwneud gwaith ardderchog i gefnogi menywod sydd â'r dewrder i ddweud 'na' a gwrthwynebu trais drwy eu partneriaethau. Mae'r anogaeth a'r gefnogaeth enfawr a roddir i'r menywod hyn yn helpu ailadeiladu eu bywydau, ac mae hyd yn oed yn mynd â hwy i feysydd addysg bellach, sy'n eu galluogi i fod yn hunangynhaliol. Ymwelodd eich rhagflaenydd, Brian Gibbons, â Chanolfan Merched Gogledd Cymru gyda mi i weld drosto'i hun y gwaith y mae'n ei wneud. A allwn estyn gwahoddiad i chi i weld y gwaith sy'n cael ei wneud yno? Yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch iawn o'r gwaith y maent yn ei wneud, er eu bod yn cael cyn lleied o arian.

**Carl Sargeant:** You are right that an awful lot of good work is done on the ground supporting this programme. As for Rhyl, I have recently had an invitation from a colleague I knew a long while ago, a local police officer, who is directly involved in dealing with domestic abuse. He has offered me the opportunity to go out with him on the beat on a Friday evening, and I have accepted that, so perhaps I can combine that with a visit to the women's centre, where I would be delighted to join you.

**Carl Sargeant:** Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod llawer iawn o waith da'n cael ei wneud ar lawr gwlad i gefnogi'r rhaglen hon. O ran y Rhyl, yr wyf wedi cael gwahoddiad yn ddiweddar gan gydweithiwr yr oeddwn yn ei adnabod amser maith yn ôl, sef heddwes lleol, sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymdrin â cham-drin domestig. Mae wedi cynnig y cyfle imi fynd allan gydag ef ar ei rownd ryw nos Wener, ac yr wyf wedi derbyn y gwahoddiad hwnnw. Felly, efallai y gallaf gyfuno hynny ag ymweliad â'r ganolfan merched, lle byddwn wrth fy modd i ymuno â chi.

**Angela Burns:** You spoke earlier, in your answer to Eleanor Burnham, about building on partnerships in order to help to tackle such things as abuse against women. I want to refer back to the closure of the Wales Women's National Coalition, which had been going for 11 years and successfully represented women throughout the country. I understand that there are funding issues, and I do not want to rehearse that argument, but I am slightly concerned that your department is saying that it did not get funding because its funding application was flawed. I have spoken to WWNC, and it does not know anything about this. Could you confirm that that is correct, and if so, on what grounds is it flawed? Was WWNC, which is so critical to combating abuse against women, told at any point in the application process that there

**Angela Burns:** Yn eich ateb i Eleanor Burnham yn gynharach, yr oeddech yn sôn am adeiladu ar bartneriaethau i helpu mynd i'r afael â phroblemau fel cam-drin menywod. Yr wyf am gyfeirio'n ôl at gau Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, a fu'n rhedeg am 11 mlynedd ac yn cynrychioli menywod yn llwyddiannus ledled y wlad. Yr wyf yn deall bod problemau ariannu, ac nid wyf am ailadrodd y ddadl honno, ond yr wyf ychydig yn bryderus fod eich adran yn dweud na chafodd arian oherwydd bod ei chais am arian yn ddiffygiol. Yr wyf wedi siarad â Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, ac nid yw'n gwybod dim am hyn. A allech gadarnhau bod hynny'n gywir, ac os felly, ar ba sail y mae'n ddiffygiol? A ddywedwyd wrth Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, sydd mor hanfodol i frwydro yn

were inconsistencies or inaccuracies that it should put right?

**Carl Sargeant:** As you are aware, I have offered to meet with you to discuss the detail of this at a time that is mutually convenient. The broader picture is that WWNC, along with many other organisations, went through a consistent bidding process for the funding. Its bid was not strong enough compared with other organisations that were successful—such as Cardiff Women’s Safety Unit, the Black Association of Women Step Out, Welsh Women’s Aid, New Pathways, Domestic Abuse 24-hour helpline. There was a raft of organisations that applied for this funding, and some were successful while some were not. I have great respect for WWNC, but unfortunately its bid fell short, and it was fully informed of that. In fact, my predecessor, Brian Gibbons, had written twice to the organisation on the prospect of transitional funding, and it, as all organisations, had to prepare for when the funding ends. Therefore, that was of no surprise to the organisation. I am more than happy to discuss the detail of the process with you, but it is appropriate to emphasise that we have not cut funding on this—it is a bidding process and that organisation was unsuccessful.

**Nerys Evans:** Soniasoch yn eich ateb cyntaf am y strategaeth a gyhoeddwyd gennych i atal trais yn erbyn menywod; croesawaf y strategaeth honno’n fawr. Un o’r pethau yr wyf wedi bod yn ymgychu yn ei gylch yw i gael ymgyrch hysbysebu ar y teledu i godi ymwybyddiaeth o drais yn y cartref a hefyd i ddangos lle mae modd derbyn cymorth. Mae cynllun tebyg wedi bod yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf yn yr Alban. Yn ystadegol, yr ydym yn gwybod bod nifer yr achosion sy’n cael eu hadrodd i’r heddlu adeg pencampwriaeth RBS y 6 Gwlad, er enghraifft, yn cynyddu, a bod y patrwm i’w weld hefyd adeg gemau pêl droed mawr. Bydd Cwpan y Byd yn dechrau yn ystod yr wythnosau nesaf, felly a allwch ein

erbyn cam-drin menywod, ar unrhyw adeg yn y broses ymgeisio, fod anghysondebau neu anghywirdebau y dylai eu cywiro?

**Carl Sargeant:** Fel y gwyddoch, yr wyf wedi cynnig cyfarfod â chi i drafod manylion hyn ar adeg sy’n gyfleus inni ein dau. Y darlun ehangach yw bod Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, wedi mynd drwy broses gyson o gyflwyno ceisiadau am yr arian. Nid oedd ei chais yn ddigon cryf o’i gymharu â cheisiadau sefydliadau eraill a fu’n llwyddiannus—megis Uned Diogelwch Menywod Caerdydd, Black Association of Women Step Out, Cymorth i Ferched Cymru, New Pathways, a Llinell Gymorth Cam-drin Domestic 24 awr y dydd. Yr oedd llawer iawn o sefydliadau wedi cyflwyno ceisiadau am yr arian hwn, a bu rhai ohonynt yn llwyddiannus ac eraill yn aflwyddiannus. Mae gennyf barch mawr i Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, ond yn anffodus methodd ei chais â chyrraedd y nod, a rhoddwyd gwybod yn llawn iddi am hynny. A dweud y gwir, yr oedd fy rhagflaenydd, Brian Gibbons, wedi ysgrifennu at y sefydliad ddwywaith am bosibilrwydd cael arian pontio, ac fel pob sefydliad yr oedd yn rhaid iddi baratoi ar gyfer yr adeg pan ddaw’r arian i ben. Felly, nid oedd hynny’n syndod o gwbl i’r sefydliad. Yr wyf yn fwy na pharod trafod manylion y broses gyda chi, ond mae’n briodol pwysleisio nad ydym wedi torri’r cyllid ar gyfer hyn—proses ymgeisio ydyw ac yr oedd y sefydliad hwnnw’n aflwyddiannus.

**Nerys Evans:** In your initial reply, you mentioned the strategy which you announced to prevent violence against women; I very much welcome the strategy. One of the things I have been campaigning for is a television advertising campaign to raise awareness of domestic violence and to show where assistance is available. A similar scheme has been successful over the past few years in Scotland. Statistically, we know that there is an increase in the number of cases reported to police during the RBS 6 Nations championship, for example, and that the same pattern can also be found during major football matches. The World Cup will start in the coming weeks, so can you update us on Welsh Government plans to establish a

diweddarau ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i sefydlu ymgyrch hysbysebu teledu?

**Carl Sargeant:** You are absolutely right; this issue is an important part of the strategy. I did not think that I would be able to announce this so quickly, but I will be launching the campaign tomorrow. Therefore, that was a quick question from you and a quick answer from me. *[Laughter.]* The campaign will include television advertisements, posters and a website, which will help to generate a debate around the important issues that affect one in four women in Wales. The television advertisements will run throughout the World Cup period, given that, as you mentioned, there is a higher occurrence of violence against women during major sporting events, for some reason.

#### Disabled Community

**Q3 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the provision of services for the disabled community? OAQ(3)1228(SJL)

**Carl Sargeant:** The Welsh Assembly Government is working in collaboration with the public sector in Wales to improve the provision of services to disabled people. The city-centre electric bus trial in Cardiff announced this month is one such example.

**Jenny Randerson:** I am glad that you mentioned public transport, because the Petitions Committee yesterday heard evidence from Scope about the lack of facilities for disabled people on public transport, particularly on railway services. The number of stations in Wales with appropriate facilities is very small. I appreciate that public transport is not directly within your remit, but I am sure that you take a great interest in this issue. The particular problem, or the most prevalent problem, in relation to train stations is the lack of disabled toilet facilities. Will you undertake to have discussions with the Minister for the Economy and Transport to ensure that a more proactive approach is taken to improve stations, because the evidence that we received showed that Wales was receiving

television advertising campaign?

**Carl Sargeant:** Yr ydych yn gwbl iawn; mae'r mater hwn yn rhan bwysig o'r strategaeth. Nid oeddwn yn credu y byddai modd imi gyhoeddi hyn mor gyflym, ond byddaf yn lansio'r ymgyrch yfory. Felly, yr oedd hwnnw'n gwestiwn cyflym gennych chi ac yn ateb cyflym gennyf fi. *[Chwerthin.]* Bydd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebion teledu, posterï a gwefan a fydd yn helpu ysgogi trafodaeth ar y materion pwysig sy'n effeithio ar un fenyw o bob pedair yng Nghymru. Bydd yr hysbysebion teledu'n rhedeg drwy gydol cyfnod Cwpan y Byd, o gofio bod mwy o achosion o drais yn erbyn merched yn ystod digwyddiadau chwaraeon mawr, am ryw reswm, fel y dywedasoeh.

#### Cymuned Anabl

**C3 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau i'r gymuned anabl? OAQ(3)1228(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl anabl. Mae arbrawf y bws trydan yng nghanol dinas Caerdydd a gyhoeddwyd y mis hwn yn un enghraifft o'r fath.

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch eich bod wedi sôn am gludiant cyhoeddus, oherwydd ddod clywodd y Pwyllgor Deisebau dystiolaeth gan Scope am y diffyg cyfleusterau i bobl anabl ar gludiant cyhoeddus, yn enwedig ar wasanaethau rheilffordd. Mae nifer y gorsafoedd yng Nghymru sydd â chyfleusterau priodol yn fach iawn. Sylweddolaf nad yw cludiant cyhoeddus yn rhan uniongyrchol o'ch cylch gwaith, ond yr wyf yn siŵr fod gennych ddi-ddordeb mawr yn y mater hwn. Y broblem benodol, neu'r broblem fwyaf cyffredin, o safbwynt gorsafoedd trên yw'r prinder cyfleusterau toiledau i'r anabl. A wnewch chi ymrwymo i gael trafodaethau gyda'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i sicrhau dull mwy rhagweithiol i wella gorsafoedd, oherwydd



much less than its Barnett share of the fund for the UK Railways for All strategy, which was designed for this sort of improvement?

**Carl Sargeant:** You are quite right to say that public transport does not come under my portfolio, but I will take this up with the Minister for transport. These issues are important around the national transport plan, and the national stations improvement programme will involve getting better access to toilet provision and to services. I will take up this matter with the Minister.

**Helen Mary Jones:** We know that, too often, even given the amount of resources that have been available in our public services, disabled people across public services have to wait too long for the services that they need, whether they are adaptations to houses, the provision of wheelchair services and a range of other care and support services. In the difficult times that are facing us in the provision of public services, will you undertake to discuss with ministerial colleagues and colleagues in local government how to ensure that waiting times are not worsened by the current situation and that local authorities, particularly, are encouraged to prioritise services to the most vulnerable citizens, particularly to disabled people, when difficult decisions must be made?

2.00 p.m.

**Carl Sargeant:** That is something that I have already asked my department to look at. I have asked my officials to look, in particular, at the disabled facilities grant, and differences in the delivery of service between the 22 authorities. My officials will come back to me on this with more details. We should bear in mind that we now have outcome agreements that may drive forward a better level of understanding and achievement, in terms of access to disabled facilities grants through local authorities. It is something that I am working on now.

dangosodd y dystiolaeth a gawsom fod Cymru'n cael llai o lawer nai'i chyfran Barnett o'r gronfa ar gyfer strategaeth Rheilffyrdd i Bawb y DU, a fwriadwyd ar gyfer y mathau hyn o welliannau?

**Carl Sargeant:** Yr ydych yn iawn wrth ddweud nad yw cludiant cyhoeddus yn rhan o'm portffolio i, ond codaf hyn gyda'r Gweinidog dros drafnidiaeth. Mae'r materion hyn yn bwysig o safbwynt y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, a bydd y rhaglen genedlaethol o wella gorsafodded yn golygu sicrhau mynediad gwell i ddarpariaeth toiledau a gwasanaethau. Codaf y mater hwn gyda'r Gweinidog.

**Helen Mary Jones:** Gwyddom, yn rhy aml, fod pobl anabl ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn gorfod aros yn rhy hir am y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen, boed yn addasiadau i dai, gwasanaethau cadair olwyn ac ystod o wasanaethau gofal a chymorth eraill, hyd yn oed o ystyried yr adnoddau sydd wedi bod ar gael yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Yn yr amseroedd anodd sy'n ein hwynebu o safbwynt darparu gwasanaethau cyhoeddus, a wnewch chi ymrwymo i drafod gyda chyd-Weinidogion a chydweithwyr mewn llywodraeth leol sut i sicrhau na fydd y sefyllfa bresennol yn arwain at waethygu amseroedd aros, a bod awdurdodau lleol, yn benodol, yn cael eu hannog i flaenoriaethu gwasanaethau i'r dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed, yn enwedig pobl anabl, pan fydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd?

**Carl Sargeant:** Mae hynny'n rhywbeth yr wyf eisoes wedi gofyn i'm hadran edrych arno. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych, yn benodol, ar y grant cyfleusterau i'r anabl, a gwahaniaethau yn y modd y caiff gwasanaethau eu darparu ar draws y 22 awdurdod. Bydd fy swyddogion yn dod yn ôl ataf gyda mwy o fanylion ar hyn. Dylem gofio bod gennym gytundebau canlyniadau yn awr a all arwain at lefel well o ddealltwriaeth a chyflawni, o ran gallu cael grantiau cyfleusterau i'r anabl drwy awdurdodau lleol. Mae'n rhywbeth yr wyf yn gweithio arno yn awr.

**Jonathan Morgan:** I would like to echo the point that has just been made by Helen Mary Jones. I am concerned about the ability of local authorities to meet their obligations in the use of disabled facilities grants, and also to meet their general obligations to provide support for people who are disabled and may require home adaptations. When you look at the figures over a two-year period, you can see that there has been a 40 per cent reduction in the amount of money spent by local authorities in Wales. In 2006-07, more than £100 million was spent, and this fell to £60 million in 2008-09. That is clearly worrying, when you consider the large numbers of people throughout Wales who require different kinds of home adaptations.

The Government has found that it is very difficult to monitor local authorities, because there is a huge variance in the standard of delivery and in how quickly people can get their home adaptations completed. One of the main problems has been the lack of oomph on the part of Government in ensuring that we have consistency in how the data are collected. Home adaptations are looked at in the round, but they need to be looked at according to category. A home extension cannot be seen as the same as installing a bath rail in somebody's bathroom. Therefore, it is important that the Government sets out very clear standards for what is expected of local authorities, and it needs to review progress over the next few years. Otherwise, those people who require adaptations will be left behind.

**Carl Sargeant:** I share your concerns about the delivery of services. I am not sure that I agree that I lack 'oomph' to drive this agenda forward. However, this issue continues to concern me. As I said to Helen Mary, these services are delivered in 22 very different ways. Through outcome agreements, I am pursuing this to see whether there is something that might drive this agenda forward more quickly.

#### Credit Unions

**Q4 Lorraine Barrett:** Will the Minister make a statement on what the Welsh

**Jonathan Morgan:** Hoffwn adleisio'r pwynt y mae Helen Mary Jones newydd ei wneud. Yr wyf yn pryderu am allu awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiadau o safbwynt defnyddio grantiau cyfleusterau i'r anabl, a hefyd i gyflawni eu hymrwymiadau cyffredinol i ddarparu cymorth i bobl sy'n anabl ac y gall fod arnynt angen addasiadau i'w cartrefi. O edrych ar y ffigurau dros gyfnod o ddwy flynedd, gwelwch fod gostyngiad o 40 y cant yn yr arian a gaiff ei wario gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn 2006-07 gwariwyd dros £100 miliwn, a gostyngodd hyn i £60 miliwn yn 2008-09. Yn amlwg, mae hynny'n peri pryder pan ystyriwch y niferoedd mawr o bobl ledled Cymru y mae arnynt angen gwahanol fathau o addasiadau yn eu cartrefi.

Mae'r Llywodraeth wedi gweld ei bod yn anodd iawn monitro awdurdodau lleol, oherwydd bod amrywiadau mawr yn safon y ddarpariaeth a'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau addasiadau yng nghartrefi pobl. Un o'r prif broblemau fu'r diffyg egni ar ran y Llywodraeth wrth sicrhau bod gennym gysondeb yn y modd y caiff data eu casglu. Edrychir ar addasiadau cartrefi yn gyffredinol, ond mae angen edrych arnynt yn ôl categori. Ni ellir ystyried bod estyniad i gartref yr un fath â gosod rheilen wrth ymyl y bath yn ystafell ymolchi rhywun. Felly, mae'n bwysig i'r Llywodraeth osod safonau clir iawn ar gyfer yr hyn a ddisgwyllir gan awdurdodau lleol, ac mae angen iddi adolygu cynnydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fel arall, bydd y bobl hynny y mae arnynt angen addasiadau yn cael eu gadael ar ôl.

**Carl Sargeant:** Yr wyf fi, fel chithau, yn pryderu am ddarparu gwasanaethau. Nid wyf yn siŵr a wyf yn cytuno nad oes gennyf ddigon o egni i yrru'r agenda hon yn ei blaen. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn dal i beri pryder imi. Fel y dywedais wrth Helen Mary, caiff y gwasanaethau hyn eu darparu mewn 22 o ffyrdd gwahanol iawn. Drwy gytundebau canlyniadau, yr wyf yn mynd ar drywydd hyn i weld a oes rhywbeth a allai yrru'r agenda hon yn ei blaen yn gyflymach.

#### Undebau Credyd

**C4 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth

Assembly Government is doing to support credit unions? OAQ(3)1237(SJL)

**Carl Sargeant:** Since April 2009, credit unions have received £750,000 of Assembly Government and European funding. Our credit union action plan, supported by a proposed further £3 million programme between 2010 and 2013, provides a strategic approach to the governance, skills and financial issues that we need to address to ensure the movement's longer-term sustainability.

**Lorraine Barrett:** Thank you for that response, Minister. I congratulate the Welsh Government on the support that it has given credit unions since its inception. Will you give an assurance that you will continue to actively and positively promote and support credit unions as much as you can, even more so now that the UK coalition Government of Conservatives and Liberal Democrats—to give the parties their full titles—is getting rid of child trust funds, which have complemented the role of credit unions in encouraging whole families to save money for their futures?

**Carl Sargeant:** I will continue, as will my department, to support credit unions, as stated in our strategy. I am as concerned as you are about the cuts that are coming this way. We accept that there will be some challenges ahead, but it does worry me that the Conservative and Liberal Democrat Government in Westminster has attacked the youngest people—and our children in Wales—first. That really worries me.

**David Melding:** I hope that you have the good grace to accept this compliment from a wicked Welsh Tory, but we all agree that credit unions are important: I commend the Government of which you are now a member on commissioning a very important piece of research on credit unions. Indeed, the all-party group on co-operatives, of which I am a member and which has an extensive membership across this Chamber, heard the author of that report, Molly Cato, outline the challenges ahead. I know that the Assembly

Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi undebau credyd? OAQ(3)1237(SJL)

**Carl Sargeant:** Er mis Ebrill 2009, mae undebau credyd wedi cael £750,000 o arian Llywodraeth y Cynulliad ac arian Ewropeaidd. Mae ein cynllun gweithredu ar undebau credyd, sy'n cael ei gefnogi gan raglen arfaethedig gwerth £3 miliwn arall rhwng 2010 a 2013, yn darparu dull strategol o ymdrin â materion llywodraethu, sgiliau ac arian y mae angen inni fynd i'r afael â hwy i sicrhau cynaliadwyedd y mudiad yn y tymor hwy.

**Lorraine Barrett:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn llongyfarch Llywodraeth Cymru am y gefnogaeth y mae wedi'i rhoi i undebau credyd o'r dechrau. A rowch chi sicrwydd y byddwch yn parhau i wneud cymaint ag y gallwch i hybu a chefnogi undebau credyd yn weithredol ac yn gadarnhaol, a hynny'n fwy felly, yn awr, o gofio bod Llywodraeth glymbleidiol y DU o Geidwadwyr a Democratiaid Rhyddfrydol—i roi eu teitlau llawn i'r pleidiau—yn dileu cronfeydd ymddiriedolaeth plant, sydd wedi ategu rôl undebau credyd drwy annog teuluoedd cyfan i gynilo arian ar gyfer eu dyfodol?

**Carl Sargeant:** Byddaf fi, a'm hadran, yn parhau i gefnogi undebau credyd, fel y nodir yn ein strategaeth. Yr wyf yn pryderu gymaint â chithau am y toriadau sy'n ein hwynebu. Yr ydym yn derbyn y bydd rhai heriau o'n blaenau, ond mae'n fy mhoeni bod Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi ymosod ar y bobl ieuengaf—a'n plant ni yng Nghymru—yn gyntaf. Mae hynny'n fy mhoeni'n fawr.

**David Melding:** Gobeithio y byddwch cystal â derbyn y ganmoliaeth hon gan Dori Cymreig drwg, ond yr ydym i gyd yn cytuno bod undebau credyd yn bwysig: yr wyf yn cymeradwyo'r Llywodraeth yr ydych bellach yn aelod ohoni am gomisiynu darn pwysig iawn o ymchwil ar undebau credyd. Yn wir, clywodd y grŵp hollbleidiol ar gwmnïau cydweithredol yr wyf yn aelod ohono, ac sydd ag aelodaeth helaeth ar draws y Siambur hon, awdur yr adroddiad hwnnw, Molly Cato, yn amlinellu'r heriau sydd o'n blaenau. Gwn

Government has already taken up the recommendations and intends to implement most of them, at least.

That report calls for better marketing so that we can increase the number of people in credit unions from roughly 2 per cent to 6 per cent. Do you agree that, to market effectively, we need some sort of national champion? I am not saying that you lack presence, Minister, but let us face it: politicians do not always reach the parts of Wales that we need to reach in terms of promoting this worthy cause. I think that a celebrity, perhaps a sports person, might be an ideal person to get out there and show many people that credit unions are the answer to an awful lot of financial planning and its associated worries.

**Carl Sargeant:** Thank you for your contribution, David. I agree with you. There is certainly an opportunity to support and enhance credit unions. I tried my best last week when visiting Cardiff credit union, where I had a photograph taken for its marketing campaign. I am not quite sure how successful that will be, but perhaps we can take some advice from the staff there on whether there is growth or reduction in its market as a result. [*Laughter.*] I will certainly ask officials to look at the proposal of identifying a celebrity to support this work.

**Leanne Wood:** As we have seen from recent events in Greece, and to a lesser extent in Spain and Portugal, the global economy is still in a very fragile state, and the LIBOR rate—the rate at which banks lend to each other—is also rising at a very worrying rate. In light of this, do you agree that it is vital to progress towards creating a Welsh people's bank? A people's bank that builds on the credit union movement and the post office network could bring much-needed confidence to retail banking, allowing customers to invest money without worrying that their money is being gambled away on dodgy ventures by the investment arm of their bank. It would also allow people with poor credit ratings who are currently frozen out by the commercial banks to open an

fod Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi mynd ar ôl yr argymhellion a'i bod yn bwriadu gweithredu'r rhan fwyaf ohonynt, o leiaf.

Mae'r adroddiad hwnnw'n galw am farchnata gwell er mwyn inni allu cynyddu nifer y bobl mewn undebau credyd o ryw 2 y cant i 6 y cant. A ydych yn cytuno bod arnom angen rhyw fath o hyrwyddwr cenedlaethol i farchnata'n effeithiol? Nid wyf yn dweud nad oes gennych bresenoldeb, Weinidog, ond gadewch inni wynebu'r gwir: nid yw gwleidyddion bob amser yn cyrraedd y rhannau o Gymru y mae angen inni eu cyrraedd o ran hyrwyddo'r achos teilwng hwn. Credaf y gallai rhywun enwog, ym maes chwaraeon efallai, fod yn ddelfrydol i fynd allan a dangos i lawer o bobl mai undebau credyd yw'r ateb i lawer iawn o waith cynllunio ariannol a'i bryderon cysylltiedig.

**Carl Sargeant:** Diolch am eich cyfraniad, David. Yr wyf yn cytuno â chi. Yn bendant mae cyfle i gefnogi a gwella undebau credyd. Ceisiais fy ngorau yr wythnos diwethaf wrth ymweld ag undeb credyd Caerdydd, lle tynnwyd fy llun ar gyfer ei ymgyrch farchnata. Nid wyf yn siŵr pa mor llwyddiannus fydd yr ymgyrch, ond efallai y gallwn gael cyngor gan y staff yno i weld a yw ei farchnad yn tyfu neu'n lleihau o ganlyniad. [*Chwerthin.*] Yn bendant, byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar y syniad o gael rhywun enwog i gefnogi'r gwaith hwn.

**Leanne Wood:** Fel yr ydym wedi gweld o ddigwyddiadau'n ddiweddar yng Ngwlad Groeg, ac i raddau llai yn Sbaen a Phortiwgal, mae'r economi fyd-eang mewn cyflwr bregus iawn o hyd, ac mae'r Gyfradd Gwerthu Rhwng Banciau Llundain—y gyfradd a ddefnyddir pan fydd banciau'n benthyca i'w gilydd—hefyd yn codi ar raddfa sy'n peri pryder mawr. A hynny mewn cof, a ydych yn cytuno'i bod yn hanfodol symud tuag at greu banc y bobl yng Nghymru? Gallai banc y bobl sy'n adeiladu ar y mudiad undebau credyd a'r rhwydwaith swyddfeydd post ddod â hyder y mae mawr ei angen i fancio adwerthu, gan ganiatáu i gwsmeriaid fuddsoddi arian heb boeni bod eu harian yn cael ei gamblo ar fentrau amheus gan gangen fuddsoddi eu banc. Byddai hefyd yn caniatáu

account without being forced to pay extortionate interest rates. What discussions have you had to progress this vital institution?

**Carl Sargeant:** You are absolutely right that we need to have a secure and confident market for the people of Wales. I have had some early discussions with the Minister for Business and Budget about banking proposals in Wales. Again, the credit union is the catalyst for all this, and I will continue to have discussions with the relevant Ministers in promoting a secure, safe financial institution in Wales.

**Brian Gibbons:** Providing support for socially and financially excluded people is a key part of the mission statement of credit unions in Wales, but if our credit unions are to be sustainable in the long term, they must become a mainstream competitive financial service that makes sense to the majority of working people in Wales. In that context, you may be aware that the multi-union shop stewards' committee, made up of Corus, Community, the Union of Construction, Allied Trades and Technicians and the other trade unions working in Corus, have worked very successfully with the management of Corus across south Wales to support the credit union in that workplace. Do you or your officials have any plans to have further discussions with employers and the trade union movement to build on this good practice?

**Carl Sargeant:** Thank you, Brian. I am aware of the discussions going on. I continue to ask my officials to promote this enterprise. Recently, I had a discussion on whether we should have our own credit union here for the Welsh Assembly Government. I encourage people to promote credit unions. It is a massive organisation in Ireland, and there is no reason why we cannot go down the same track.

#### Communities First

**Q5 Chris Franks:** Will the Minister make a

i bobl sydd â statws credyd gwael ac wedi eu cau allan ar hyn o bryd gan y banciau masnachol agor cyfrif heb gael eu gorfodi i dalu cyfraddau llog gormodol. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael i ddatblygu'r sefydliad hanfodol hwn?

**Carl Sargeant:** Yr ydych yn gwbl iawn wrth ddweud bod angen inni gael marchnad ddiogel a hyderus i bobl Cymru. Yr wyf wedi cael rhai trafodaethau cynnar gyda'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ynghylch cynigion bancio yng Nghymru. Eto, yr undeb credyd yw'r sbardun ar gyfer hyn i gyd, a byddaf yn parhau i gael trafodaethau gyda'r Gweinidogion perthnasol i hybu sefydliad ariannol diogel a saff yng Nghymru.

**Brian Gibbons:** Mae darparu cefnogaeth i bobl sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol ac yn ariannol yn rhan allweddol o ddatganiad cenhadaeth undebau credyd yng Nghymru, ond os yw ein hundebau credyd am fod yn gynaliadwy yn y tymor hir, rhaid iddynt ddod yn wasanaeth ariannol cystadleuol yn y brif ffrwd sy'n gwneud synnwyr i fwyafrif y bobl sy'n gweithio yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwnnw, efallai eich bod yn gwybod bod y pwyllgor swyddogion undeb aml-undeb, sy'n cynnwys Corus, Community a'r Undeb Adeiladu, Crefftau Perthynol a Thechnegwyr a'r undebau llafur eraill sy'n gweithio yn Corus, wedi gweithio'n llwyddiannus iawn gyda thîm rheoli Corus ar draws y de i gefnogi'r undeb credyd yn y gweithle hwnnw. A oes gennych chi neu'ch swyddogion gynlluniau i gael trafodaethau pellach gyda chyflogwyr a'r mudiad undebau llafur i adeiladu ar yr arfer da hwn?

**Carl Sargeant:** Diolch, Brian. Yr wyf yn ymwybodol o'r trafodaethau sy'n mynd ymlaen. Yr wyf yn dal i ofyn i'm swyddogion hybu'r fenter hon. Yn ddiweddar, cefais drafodaeth am y cwestiwn a ddylem gael ein hundeb credyd ein hunain yma ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Anogaf bobl i hybu undebau credyd. Mae'n sefydliad enfawr yn Iwerddon, ac nid oes dim rheswm pam na allwn ni ddilyn yr un llwybr.

#### Cymunedau yn Gyntaf

**C5 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog

statement regarding the effectiveness of the Communities First programme? OAQ(3)1215(SJL)

**Carl Sargeant:** I have commissioned an independent evaluation of the Communities First programme. This will look at the outcomes and processes of the programme and the extent to which the programme has achieved its aims and objectives. It is expected that the evaluation report will be published in spring 2011.

2.10 p.m.

**Chris Franks:** I appreciate that information. There is a tendency not to give core funding for training officers in Communities First areas. An example would be the Communities First area in Perthcelyn, Cynon valley, which has lost a training officer. That member of staff started life as a young person not in employment, education and training, but became the training officer. Will the Minister ensure that priority is given to funding related to training and young people? What assessment has been made of the likely impact of public sector cuts from the Conservative-Liberal Democrat administration in London on the Communities First areas in Rhondda Cynon Taf, the Vale of Glamorgan and Cardiff?

**Carl Sargeant:** I will start at the end of your question. It is far too early to say what the impacts will be on my budget, but we are doing line-by-line scrutiny of our budgets to see what the implications are. In terms of training, it is important that we drive funding to front-line services. I know that previous Ministers were committed to that, and that is where I also want to be in terms of the Communities First outcomes fund.

Partnerships have training budgets, and they determine the types of training to be undertaken at local level. That could also relate to engaging with young people. In terms of partnerships and their ability to understand, themselves, what training is available, training, advice and support is available through the Wales Council for Voluntary Action's national Communities

ddatganiad ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)1215(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd hwn yn edrych ar ganlyniadau a phrosesau'r rhaglen ac yn ystyried i ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni ei nodau a'i hamcanion. Disgwylir i'r adroddiad gwerthuso gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2011.

**Chris Franks:** Yr wyf yn gwerthfawrogi'r wybodaeth honno. Mae tuedd i beidio â rhoi arian craidd ar gyfer swyddogion hyfforddi mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ardal Cymunedau yn Gyntaf ym Mherthcelyn, Cwm Cynon, sydd wedi colli swyddog hyfforddi, yn un enghraifft. Dechreuodd yr aelod hwnnw o'r staff fel unigolyn ifanc a oedd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ond daeth yn swyddog hyfforddi. A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i arian yn ymwneud â hyfforddiant a phobl ifanc? Pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith debygol y toriadau yn y sector cyhoeddus gan weinyddiaeth y Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain ar yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Chaerdydd?

**Carl Sargeant:** Dechreuaf ar ddiwedd eich cwestiwn. Mae'n rhy gynnar o lawer dweud beth fydd yr effaith ar fy nghyllideb, ond yr ydym yn craffu fesul llinell ar ein cyllidebau i weld beth yw'r goblygiadau. O ran hyfforddiant, mae'n bwysig inni yrru cyllido i wasanaethau rheng flaen. Gwn fod Gweinidogion blaenorol wedi ymrwymo i hynny, a dyna lle'r wyf fi am fod o ran cronfa ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf.

Mae gan bartneriaethau gyllidebau hyfforddiant, a byddant yn penderfynu'r math o hyfforddiant sydd i'w wneud yn lleol. Gallai hynny hefyd ymwneud ag ymgysylltu â phobl ifanc. O ran partneriaethau a'u gallu i ddeall, eu hunain, pa hyfforddiant sydd ar gael, mae hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth ar gael drwy dîm cysylltiadau cenedlaethol Cymunedau yn Gyntaf sy'n rhan o Gyngor

First contacts team.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** I know that a lot of what happens in Communities First areas is first-class and excellent spending. You mentioned the evaluation study, which I very much welcome. I note that it is reporting in around a year's time. I am not quite sure what terms of reference you have given, but, clearly, a lot of the partnership money—some two thirds, I think—is spent on staffing and administration. I recognise that much of that is absolutely necessary, but bearing in mind what the First Minister has, quite rightly, said about bearing down on back-office functions so that we can deliver more for less, are you particularly keen that the review should look at the administration costs to ensure that they are delivering value for money and are kept to the absolute minimum?

**Carl Sargeant:** I would encourage collaboration and working together on this right across my portfolio. If this can be developed through the Communities First programme, I would, again, encourage that. In terms of releasing money to the front line a good example is where partnerships that are close to each other can work together and share administration staff. I will certainly be looking at releasing funding to go into the communities.

**Brian Gibbons:** I know from my own constituency that the success of Communities First has been somewhat uneven, although in the last 12 or 18 months, particularly since the focus of the outcome fund, a breath of fresh air has been put into the programme and real progress is being made. You may be aware that Neath Port Talbot County Borough Council, the Council for Voluntary Service in Neath Port Talbot, and other key Communities First partners have been involved in a very intensive review of the lessons of Communities First in the Neath Port Talbot area. There is a lot to be learned from that review. Would you be willing, at some stage, to meet those stakeholders in Neath Port Talbot to discuss the lessons and challenges that arise from the programme?

Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Gwn fod llawer o'r hyn sy'n digwydd mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o'r radd flaenaf ac yn wariant gwyach. Soniech am yr astudiaeth werthuso, ac yr wyf yn ei chroesawu'n fawr. Sylwaf y bydd yn cael ei chyhoeddi ymhenn tua flwyddyn. Nid wyf yn siŵr pa gylch gorchwyl yr ydych wedi'i roi, ond, yn amlwg, caiff llawer o'r arian partneriaeth—rhyw ddwy ran o dair, mi gredaf—ei wario ar staffio a gweinyddu. Yr wyf yn cydnabod bod llawer o hynny'n gwbl angenrheidiol, ond o gofio'r hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud, a hynny'n iawn, am wasgu ar swyddogaethau cefn swyddfa er mwyn inni allu cyflawni mwy am lai, a ydych yn arbennig o awyddus i sicrhau bod yr adolygiad yn edrych ar y costau gweinyddu i sicrhau eu bod yn rhoi gwerth yr arian ac yn cael eu cadw mor isel ag sy'n bosibl?

**Carl Sargeant:** Byddwn yn annog cydweithredu a chydweithio ar hyn ar draws fy mhorthfolio cyfan. Os gellir datblygu hyn drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, eto byddwn yn annog hynny. O safbwynt rhyddhau arian i'r rheng flaen, un enghraifft dda o hynny yw lle gall partneriaethau sy'n agos at ei gilydd gydweithio a rhannu staff gweinyddol. Yn bendant, byddaf yn ystyried rhyddhau arian i fynd i mewn i'r cymunedau.

**Brian Gibbons:** Gwn o'm hetholaeth fy hun fod llwyddiant Cymunedau yn Gyntaf wedi bod ychydig yn anwastad, er bod chwa o awyr iach yn y rhaglen yn ystod y 12 neu 18 mis diwethaf, yn enwedig ers cael canolbwynt y gronfa ganlyniadau, ac mae cynnydd go iawn yn digwydd. Efallai y byddwch yn gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, a phartneriaid allweddol eraill Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn ymwneud ag adolygiad dwys iawn o'r gwersi sy'n codi o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae llawer i'w ddysgu o'r adolygiad hwnnw. A fydddech yn fodlon cyfarfod â'r rhanddeiliaid hynny yng Nghastell-nedd Port Talbot, rywbryd, i drafod y gwersi a'r heriau sy'n codi o'r rhaglen?

**Carl Sargeant:** If I am not available, I will certainly ensure that one of my officials is able to meet them to understand the detail of the report to which you alluded.

### Communities First

**Q6 Sandy Mewies:** Will the Minister make a statement on how the public gets information about Communities First? OAQ(3)1241(SJL)

**Carl Sargeant:** Each of the 157 partnerships has its own mechanism to distribute information to its Communities First area effectively, including regular newsletters and the use of community notice boards. On a national level, there is a Communities First information service, which includes a dedicated website, monthly bulletins and annual conference.

**Sandy Mewies:** As you and others have clearly stated, it is important for us all to remember the good work that has been carried out by the Communities First teams in many constituencies. In my constituency, I recently attended events in Mold, where I opened a community garden project, and in Talacre, which showcased the good practice of Communities First in rural Flintshire. Both events were attended by individuals and organisations who were very interested in what was going on. Minister, would you agree that this is an excellent way of informing people of the valuable work that Communities First does?

**Carl Sargeant:** I know that you and many Members support the Communities First network wholesale. The past couple of months have been difficult for me in respect of understanding the difficulties that some of the Communities First partnerships have experienced. Some of that process is about our giving them support centrally and, in particular, giving them advice about governance and supporting their management structures. I will take that forward in the reviews that we will be undertaking.

**Carl Sargeant:** Os nad wyf ar gael, yn sicr byddaf yn sicrhau bod un o'm swyddogion yn gallu eu cyfarfod i ddeall manylion yr adroddiad yr oeddech yn cyfeirio ato.

### Cymunedau yn Gyntaf

**C6 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae'r cyhoedd yn cael gwybodaeth am Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)1241(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae gan bob un o'r 157 partneriaeth ei system ei hun ar gyfer dosbarthu gwybodaeth yn effeithiol i'w hardal Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys anfon cylchlythyrau rheolaidd a defnyddio hysbysfyrddau yn y gymuned. Ar lefel genedlaethol, mae yna wasanaeth gwybodaeth Cymunedau yn Gyntaf, sy'n cynnwys gwefan benodol, bwletinâu sy'n cael eu cyhoeddi bob mis, a chynhadledd flynyddol.

**Sandy Mewies:** Fel yr ydych chi ac eraill wedi'i ddweud yn glir, mae'n bwysig inni i gyd gofio'r gwaith da y mae timau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud mewn llawer etholaeth. Yn fy etholaeth i, bûm mewn digwyddiadau yn yr Wyddgrug yn ddiweddar lle agorais brosiect gardd gymunedol, ac yn Nhalacre, a oedd yn arddangos arfer da Cymunedau yn Gyntaf yn rhannau gwledig Sir y Fflint. Yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad yr oedd unigolion a sefydliadau a oedd â diddordeb mawr yn yr hyn a oedd yn digwydd. Weinidog, a fydech yn cytuno bod hon yn ffordd wych i ddarparu gwybodaeth i bobl am y gwaith gwerthfawr y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud?

**Carl Sargeant:** Gwn eich bod chi a nifer o Aelodau yn cefnogi'r rhwydwaith Cymunedau yn Gyntaf yn gyfan. Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn anodd imi o safbwynt deall yr anawsterau y mae rhai o'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi'u cael. Mae rhywfaint o'r broses honno'n golygu rhoi cefnogaeth iddynt yn ganolog ac, yn benodol, rhoi cyngor iddynt am lywodraethu a chefnogi eu strwythurau rheoli. Byddaf yn symud hynny yn ei flaen yn yr adolygiadau y byddwn yn eu cynnal.



I am familiar with the partnerships Mold and rural Flintshire. In fact, I saw a picture of you in the paper, Sandy, attending the recent event—it was a lovely picture. [Laughter.] I welcome the work that is being done on the ground. The real way to passport how and what Communities First can do is to see it at first hand. Long may it continue.

**Mark Isherwood:** We must, of course, celebrate success, good practice and community effort. Sandy made reference to rural north Flintshire. During the last Assembly, I submitted concerns to the Wales Audit Office about the council's original submissions under the Communities First programme in relation to rural north Flintshire. It produced a report, acknowledging the omission of Gwespyr from Communities First. It said that

'there is a wider issue in terms of the potential impact of the errors, which was not addressed at the time, and is still not addressed',

It concluded that the most appropriate organisation to address the impact of the errors in the council's submission was the Welsh Assembly Government, which assessed and approved the original submission and included data that, in the words of the auditor, were flawed and inappropriate. Why, therefore, is Gwespyr still outside? What action did the Welsh Assembly Government take, bearing in mind that this report is now over three years old?

**Carl Sargeant:** The way in which you can pull one-liners from a report that condemn programmes while missing out wholesale all the good things that happen in Communities First is unique. The specific issue that you have raised has been brought to my attention by the local Member, Sandy Mewies, on various occasions. A number of individuals have raised concerns since the application was made. In consequence, the matter has been investigated on more than one occasion by Flintshire County Council and by the Wales Audit Office. Consequently, the

Yr wyf yn gyfarwydd â'r partneriaethau yn yr Wyddgrug a rhannau gwledig Sir y Fflint. A dweud y gwir, gwelais lun ohonoch yn y papur, Sandy, yn y digwyddiad yn ddiweddar—yr oedd yn llun hyfryd. [Chwerthin.] Yr wyf yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad. Y ffordd go iawn i ddangos beth y gall Cymunedau yn Gyntaf ei wneud, a sut, yw drwy ei weld yn uniongyrchol. Hir y parhaed hynny.

**Mark Isherwood:** Wrth gwrs, rhaid inni ddatlu llwyddiant, arfer da ac ymdrech gymunedol. Cyfeiriodd Sandy at rannau gwledig gogledd Sir y Fflint. Yn ystod y Cynulliad diwethaf, cyflwynais bryderon i Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cyflwyniadau gwreiddiol y cyngor dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf o safbwynt rhannau gwledig gogledd Sir y Fflint. Cynhyrchodd adroddiad, yn cydnabod bod Gwesbyr wedi ei hepgor o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Dywedodd

'bod mater ehangach o ran effaith bosibl y camgymeriadau hyn, nad aethpwyd i'r afael â hwy ar y pryd, ac nad ydynt wedi cael sylw o hyd',

Daeth i'r casgliad mai'r sefydliad mwyaf priodol i fynd i'r afael ag effaith y camgymeriadau yng nghyflwyniad y cyngor oedd Llywodraeth y Cynulliad, a fu'n gyfrifol am asesu a chymeradwyo'r cyflwyniad gwreiddiol, gan gynnwys data a oedd yn ddiffygiol ac yn amhriodol, yng ngeiriau'r archwilydd. Pam, felly, y mae Gwesbyr wedi'i hepgor o hyd? Pa gamau gweithredu a gymerodd Llywodraeth y Cynulliad, o gofio bod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi dros dair blynedd yn ôl erbyn hyn?

**Carl Sargeant:** Mae'r ffordd yr ydych yn gallu tynnu llinellau unigol o adroddiad sy'n condemnio rhaglenni gan hepgor yn llwyr yr holl bethau da sy'n digwydd yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn unigryw. Mae'r Aelod lleol, Sandy Mewies, wedi tynnu fy sylw droeon at y mater penodol yr ydych wedi'i godi. Mae nifer o unigolion wedi mynegi pryderon ers i'r cais gael ei wneud. O ganlyniad, ymchwiliwyd i'r mater fwy nag unwaith gan Gyngor Sir y Fflint a chan Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ei bod

Assembly Government does not consider it worth while to reopen this issue as it has been fully investigated by those parties.

**Mark Isherwood:** I will restate that the Wales Audit Office said that it was the role of the Welsh Government to address the impact of the errors. I am not talking about investigating the complaint. When Wales Audit Office acknowledged the errors that occurred, it fell to you as a Government, although you were not the Minister with responsibility at that time, to address the impact. That impact does not appear to have been addressed in the context of those areas that should have qualified but are still outside the scheme. I back this up with the Wales Audit Office report on Communities First published last July, which said,

‘Serious weaknesses in financial planning and processes for funding the programme led to widespread variation in funding, with no clear rationale for funding decisions’.

How will you ensure that the lack of a clear rationale for funding decisions is addressed so that areas that should be receiving extra help, but are not, can receive it?

**Carl Sargeant:** As I have said, and will repeat, the consequences of this issue were investigated on more than one occasion by Flintshire County Council and the Wales Audit Office.

**Janet Ryder:** Minister, you did say that, despite all the good work that has happened, there have been one or two projects where communication between the community that they are meant to represent and the partnership or the board has deteriorated quite badly. How do you intend to reinstate the good communication and support from the community that needs to exist to ensure that the Communities First projects stay in those communities and benefit them long after Communities First has gone?

2.20 p.m.

yn fuddiol ailagor y mater hwn gan fod y ddau gorff hynny wedi ymchwilio i'r mater yn llawn.

**Mark Isherwood:** Dywedaf eto fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud mai rôl Llywodraeth Cymru oedd mynd i'r afael ag effaith y camgymeriadau. Nid wyf yn sôn am ymchwilio i'r gŵyn. Pan gydnabu Swyddfa Archwilio Cymru y camgymeriadau a fu, eich cyfrifoldeb chi, fel Llywodraeth, oedd mynd i'r afael â'r effaith, er nad chi oedd y Gweinidog â chyfrifoldeb bryd hynny. Ymddengys nad yw'r effaith honno wedi cael sylw yng nghyd-destun yr ardaloedd hynny a ddylasai fod yn gymwys ond sy'n dal wedi'u hepgor o'r cynllun. Yr wyf yn ategu hyn ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a gyhoeddwyd fis Gorffennaf y llynedd, a ddywedodd,

‘Arweiniodd gwendidau difrifol yn y gwaith cynllunio ariannol a'r prosesau ar gyfer ariannu'r rhaglen at amrywiad eang yn yr arian a roddwyd heb unrhyw sail resymegol glir dros benderfyniadau'n ymwneud ag ariannu’.

Sut y byddwch yn sicrhau rhoi sylw i'r diffyg sail resymegol glir dros benderfyniadau ariannu, fel y gall cymorth ychwanegol gyrraedd ardaloedd a ddylai fod yn ei gael, ond nad ydynt yn ei gael?

**Carl Sargeant:** Fel y dywedais, ac fe ailadroddaf, ymchwiliwyd i ganlyniadau'r mater hwn fwy nag unwaith gan Gyngor Sir y Fflint a Swyddfa Archwilio Cymru.

**Janet Ryder:** Weinidog, bu ichi ddweud bod yna un neu ddau o brosiectau lle mae cyfathrebu rhwng y gymuned y maent i fod i'w chynrychioli a'r bartneriaeth neu'r bwrdd wedi dirywio'n eithaf drwg, er yr holl waith da sydd wedi ei wneud. Sut yr ydych yn bwriadu adfer y cyfathrebu da a'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau bod y prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn aros yn y cymunedau hynny ac o fudd iddynt ymhell ar ôl i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf fynd?

**Carl Sargeant:** There is no point in grant recipient bodies and partnership boards arguing about who does what and where. We need to grow up about delivery of service and changing communities. There are some great examples, one being Caia Park Partnership Ltd in Wrexham. It is a fantastic partnership; it was recently inspected and it came out with flying colours. That is a great example of how such partnerships can make a difference on the ground with community engagement. This is sometimes down to personalities and we have to become broader than that in terms of how we develop these relationships with the community. This is about community engagement; it is not easy, but the communities that we have been dealing with have been in a difficult place. This is about having the key people who can reach out to the community. Following training by my department, I hope that that approach will become effective for some of the partnerships to which you allude.

**Carl Sargeant:** Nid oes diben i fyrddau partneriaeth a chyrff sy'n cael grantiau ddadlau ynghylch pwy sy'n gwneud beth ac ymhle. Mae angen inni beidio â bod yn blentynnaidd ynghylch darparu gwasanaethau a newid cymunedau. Mae enghreifftiau gwych yn bodoli, ac un ohonynt yw Partneriaeth Parc Caia Cyf yn Wrecsam. Mae'n bartneriaeth wych; cafodd ei harolygu'n ddiweddar a chafodd ganmoliaeth fawr. Mae honno'n enghraifft wych o'r modd y gall partneriaethau o'r fath wneud gwahaniaeth ar lawr gwlad drwy ymgysylltu â'r gymuned. Weithiau mae a wnelo hyn â phersonoliaethau, a rhaid inni fod yn fwy eang na hynny o ran y ffordd yr ydym yn datblygu'r gydberthynas hon â'r gymuned. Mae hyn yn golygu ymgysylltu â'r gymuned; nid yw'n hawdd, ond mae'r cymunedau yr ydym wedi bod yn ymdrin â hwy wedi bod mewn sefyllfa anodd. Mae a wnelo hyn â chael y bobl allweddol a all estyn allan i'r gymuned. Ar ôl cael hyfforddiant gan fy adran, gobeithio y bydd y dull hwnnw'n dod yn effeithiol i rai o'r partneriaethau yr ydych yn cyfeirio atynt.

### Voluntary Sector

**Q7 Darren Millar:** Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for the voluntary sector? OAQ(3)1200(SJL)

**Carl Sargeant:** The Welsh Assembly Government remains committed to working in partnership with the sector. Our code of practice for funding details the key principles underpinning funding for the sector. Fundamental to this is the principle that funding for the sector should be determined no differently than for other sectors or agencies.

**Darren Millar:** You will be aware that the voluntary sector plays a huge role in contributing to a large number of partnerships, both statutory and non-statutory, around the country, many of which are working with local government. Will you do everything that you can to ensure that the voluntary sector's work in participating in those partnerships will be adequately resourced by local government budgets to

### Y Sector Gwirfoddol

**C7 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r sector gwirfoddol? OAQ(3)1200(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn da wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r sector. Mae ein cod ymarfer ar gyfer ariannu yn rhoi manylion yr egwyddorion allweddol sy'n sail i ariannu'r sector. Yn sylfaenol i hyn mae'r egwyddor na ddylai arian ar gyfer y sector gael ei bennu yn wahanol i'r modd y caiff ei bennu ar gyfer sectorau neu asiantaethau eraill.

**Darren Millar:** Gwyddoch fod gan y sector gwirfoddol rôl enfawr i gyfrannu at nifer mawr o bartneriaethau, rhai statudol ac anstatudol, ledled y wlad, ac mae llawer ohonynt yn gweithio gyda llywodraeth leol. A wnewch chi bopeth o fewn eich gallu i sicrhau bod cyllidebau llywodraeth leol yn rhoi digon o adnoddau i waith y sector gwirfoddol o safbwynt cymryd rhan yn y partneriaethau hynny, er mwyn sicrhau y

ensure that they can play a full role in developing policy ideas and that the voluntary sector's voice is heard? Recently, I have engaged with a number of voluntary organisations and it is clear that they are concerned about being able to participate and continue to contribute to those fora simply because of a lack of basic things, such as covering fuel expenses of those who participate.

**Carl Sargeant:** I have also had many discussions with the voluntary sector and with local government, which prompted me recently to write to all local authorities to reinforce the principles of collaborative working.

### Gweinidogion y DU

**C8 Nerys Evans:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Gweinidogion y DU? OAQ(3)1234(SJL)

**Carl Sargeant:** I have had a meeting with Wayne David MP, the then Wales Office Parliamentary Under Secretary of State, and David Hanson MP, the then Minister of State for Security, Counter-Terrorism, Crime and Policing, to discuss matters of joint interest to the UK Government and the Welsh Assembly Government.

**Nerys Evans:** Mae'n ymrwymiad gan 'Cymru'n Un' i edrych i ddatganoli pwerau dros y system cyfiawnder troseddol. Mae hwnnw'n bwysig o ran cydlynu polisïau yn y maes pwysig hwn. A allwch roi diweddariad inni ar ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad?

**Carl Sargeant:** This is ongoing work to which the Welsh Assembly Government is still committed in terms of the agreement in the 'One Wales' document. We are looking at this matter and we expect papers to come through to the Cabinet over the next few months.

**Mohammad Asghar:** It is worrying that over recent months, a number of press reports across South Wales East have focused on public concern about the level of anti-social behaviour. One source of problems appears to be alcohol consumption. The Conservative

gallant chwarae rôl lawn wrth ddatblygu syniadau polisi, a bod llais y sector gwirfoddol yn cael ei glywed? Yn ddiweddar yr wyf wedi ymwneud â nifer o fudiadau gwirfoddol, ac mae'n amlwg eu bod yn pryderu am allu cymryd rhan yn y fforymau hynny a pharhau i gyfrannu atynt, dim ond oherwydd diffyg pethau sylfaenol, megis talu costau tanwydd yr unigolion sy'n cymryd rhan.

**Carl Sargeant:** Yr wyf fi hefyd wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r sector gwirfoddol a chyda llywodraeth leol, a'm symbylodd yn ddiweddar i ysgrifennu at bob awdurdod lleol i atgyfnerthu egwyddorion cydweithio.

### UK Ministers

**Q8 Nerys Evans:** What recent discussions has the Minister had with UK Ministers? OAQ(3)1234(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf wedi cael cyfarfod â Wayne David AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Swyddfa Cymru ar y pryd, ac â David Hanson AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddiogelwch, Gwrthderfysgaeth, Troseddau a Phlisma ar y pryd, i drafod materion sydd o ddiddordeb i Lywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad.

**Nerys Evans:** It is a 'One Wales' commitment to look to the devolution of powers over the criminal justice system. That is important in co-ordinating policies in this important area. Can you give us an update on that Government commitment?

**Carl Sargeant:** Mae hwn yn waith parhaus y mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal wedi ymrwymo iddo o ran y cytundeb yn y ddogfen 'Cymru'n Un'. Yr ydym yn edrych ar y mater hwn ac yn disgwyl i bapurau gyrraedd y Cabinet dros yr ychydig fisoedd nesaf.

**Mohammad Asghar:** Mae'n peri pryder fod nifer o adroddiadau yn y wasg dros y misoedd diwethaf ar draws Dwyrain De Cymru wedi canolbwyntio ar bryder y cyhoedd ynghylch lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n ymddangos mai

and Liberal Democratic coalition has resolved to review alcohol taxation and pricing to tackle binge drinking without penalising responsible drinkers, pubs and local industries. One measure announced, welcomed by retailers such as Tesco, was a pledge to ban the sale of alcohol at below cost price. Are you planning to hold any discussions with the Minister in the new Government about this issue given that, as we all know, it has the potential to play a significant role in reducing the level of anti-social behaviour across Wales? Could you clarify whether it is still the intention of the Welsh Assembly Government to seek legislative competence in this area, given the announcement made by the Westminster coalition Government last week?

**Carl Sargeant:** The pricing of alcohol and the alcohol abuse strategy falls under the Minister for Health and Social Services's portfolio. I will ask her to write to you with details of her proposals.

On the anti-social behaviour element of your question, I am not sure that that will be curbed following the cuts initiated by your party's Government in Westminster and what that means for police forces in Wales.

alcohol yw un o ffynonellau problemau o'r fath. Mae clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi penderfynu adolygu treth ar alcohol a phrisiau alcohol er mwyn mynd i'r afael â goryfed mewn pyllau heb gosbi yfwyr cyfrifol, tafarnau a diwydiannau lleol. Un mesur a gyhoeddwyd, ac a groesawyd gan fanwerthwyr megis Tesco, oedd addewid i wahardd siopau rhag gwerthu alcohol islaw pris cost. A ydych yn bwriadu cael trafodaethau gyda'r Gweinidog yn y Llywodraeth newydd ar y mater hwn, o gofio bod ganddo'r potensial i chwarae rôl sylweddol wrth leihau lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Cymru, fel y gwyddom i gyd? A allech egluro a yw'n fwiad o hyd gan Lywodraeth y Cynulliad i geisio cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn, o gofio'r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth glymbleidiol San Steffan yr wythnos diwethaf?

**Carl Sargeant:** Mae prisio alcohol a'r strategaeth ar gamddefnyddio alcohol yn dod dan bortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnaf iddi ysgrifennu atoch i roi manylion ei chynigion.

O safbwynt yr elfen o'ch cwestiwn sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, nid wyf yn siŵr y bydd hynny'n cael ei reoli yn dilyn y toriadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth eich plaid yn San Steffan a'r hyn y mae hynny'n ei olygu i'r heddluoedd yng Nghymru.

## **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions for the Minister for Children, Education and Lifelong Learning**

### **Welsh-medium Education**

**Q1 Sandy Mewies:** Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government support for Welsh-medium education? OAQ(3)1394(CEL)

**The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews):** I recently announced the publication of the Welsh-medium education strategy, which aims to develop effective Welsh-medium provision from nursery through to further and higher education. Despite current financial

### **Addysg Cyfrwng Cymraeg**

**C1 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i addysg cyfrwng Cymraeg? OAQ(3)1394(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Yn ddiweddar, gwneuthum ddatganiad ynghylch cyhoeddi'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n ceisio datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg effeithiol, o addysg feithrin i addysg bellach ac addysg uwch. Er

pressures, I have increased support for the strategy in 2010-11 by £1.725 million to just over £10 million.

**Sandy Mewies:** The Welsh-medium education strategy, which was, as you said, recently published, is an important document for Welsh-medium education in the future. It clearly states that it is fundamental to its success that there are sufficient numbers of practitioners in all phases of education and training with high quality Welsh language and teaching skills. Can you comment on how this will be achieved?

**Leighton Andrews:** We are seeking to invest in the Welsh-medium education workforce. We are expanding the sabbatical scheme, which already provides practitioners with high-level skills in Welsh to include further courses. Welsh-medium and Welsh language training will form part of the planning of practitioner development in the future. This will build on the training that is currently available.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Minister, the strategy that you have recently published outlines the importance of a continuum of educational opportunities through the medium of Welsh from nursery to further and higher education. That is a vision that I wholeheartedly support. What guidance can you give to local authorities to ensure that there is equality of access to such provision? For example, there are significant concerns in mid and south Powys about the ability for children studying through the medium of Welsh to progress from primary school to secondary school because we do not have a dedicated Welsh-medium secondary school in that area. Parents there are concerned that, as Powys County Council looks to reorganise education in its area, Welsh-medium education will be bolted on at the end rather than be included as an integral part of the planning for educational provision in Powys. What guidance will you be giving to local authorities to back up your strategy to ensure that people have access to Welsh-medium education wherever they are in Wales?

gwaetha'r pwysau ariannol presennol, yr wyf wedi rhoi £1.725 miliwn yn rhagor o gymorth i'r strategaeth yn 2010-11, sy'n golygu ei bod yn cael ychydig dros £10 miliwn.

**Sandy Mewies:** Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, fel yr oeddech yn sôn, yn ddogfen bwysig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Mae'n nodi'n glir fod cael digon o ymarferwyr ym mhob cyfnod o addysg a hyfforddiant sydd â sgiliau addysgu a sgiliau Cymraeg o safon yn hanfodol i'w llwyddiant. A allwch wneud sylw ynghylch y modd y bydd hynny'n cael ei gyflawni?

**Leighton Andrews:** Yr ydym yn ceisio buddsoddi yn y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Yr ydym yn ehangu'r cynllun sabothol, sydd eisoes yn sicrhau bod gan ymarferwyr lefel uchel o sgiliau yn yr iaith Gymraeg, er mwyn iddo gynnwys rhagor o gysgiau. Bydd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg yn rhan o gynllunio datblygiad ymarferwyr yn y dyfodol. Bydd hynny'n adeiladu ar yr hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Weinidog, mae'r strategaeth yr ydych wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar yn egluro pwysigrwydd cael continwmm o gyfleoedd addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, o addysg feithrin i addysg bellach ac addysg uwch. Mae honno'n weledigaeth yr wyf yn ei chefnogi'n gyfan gwbl. Pa arweiniad y gallwch ei roi i awdurdodau lleol i sicrhau mynediad cyfartal i ddarpariaeth o'r fath? Er enghraifft, mae pobl yng nghanol a de Powys yn pryderu'n fawr am y gallu i blant sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg wneud cynnydd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, oherwydd nid oes gennym ysgol uwchradd Gymraeg benodedig yn yr ardal honno. Wrth i Gyngor Sir Powys geisio ad-drefnu addysg yn ei ardal, mae rhieni yno'n pryderu y bydd addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyried ar y diwedd, yn hytrach na'i chynnwys fel rhan annatod o waith cynllunio ar gyfer darpariaeth addysgol ym Mhowys. Pa arweiniad y byddwch yn ei roi i awdurdodau lleol i gefnogi'ch strategaeth er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg ble bynnag y maent yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** I will not comment on any specific reorganisation proposals in Powys, but, in general terms, the starting point has to be the fact that we expect, as a result of the new Welsh-medium education strategy, that local authorities will undertake, first of all, effective measurement of demand for places in Welsh-medium education, whether primary or secondary.

Secondly, we want to encourage local authorities to collaborate across borders in the provision of Welsh-medium education. At secondary level, that may be particularly important, because the level of demand in a particular area may not be sufficient to support the provision of a Welsh-medium secondary school.

Thirdly, in general terms, in respect of our transformation strategy for post-14 education, I published a written statement in January outlining the importance that we attach to ensuring that transformation strategies do not, in the proposals that they put forward, undermine the provision of existing Welsh-medium education.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yr wyf yn eich llongyfarch yn fawr iawn ar y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'ch ymdrechion i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac ymestyn cyfleoedd plant i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae problem yn codi wrth osod trothwy cenedlaethol ar gyfer yr hyn sy'n cael ei ystyried yn addysg cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae'r sefyllfa yn fy etholaeth i yn sir Gaerfyrddin yn dra gwahanol i rai manau eraill yng Nghymru. Mae addysg ddwyieithog wedi cael ei datblygu yn helaeth yn sir Gaerfyrddin. Byddai'r trothwy yn cynnwys addysg ddwyieithog yn yr hyn sy'n cael ei ddiffinio fel addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn Nyffryn Tywi, er enghraifft, mae'r ysgol gynradd, Ysgol Gymraeg Teilo Sant, yn llawn ar hyn o bryd, a gall yr awdurdod addysg ddweud wrth yr ysgol y gall plant sydd y tu allan i'r dalgylch gael addysg mewn ysgol categori A, er mai dim ond 70 y cant o'r addysg fyddai'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y sector uwchradd,

**Leighton Andrews:** Nid wyf am wneud sylw am gynigion penodol ar gyfer ad-drefnu ym Mhowys, ond yn gyffredinol rhaid mai'r man dechrau yw'r ffaith ein bod yn disgwyl, o ganlyniad i'r strategaeth newydd ar addysg cyfrwng Cymraeg, y bydd awdurdodau lleol i ddechrau yn mesur yn effeithiol y galw am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cynradd ynteu'r sector uwchradd.

Yn ail, yr ydym am annog awdurdodau lleol i gydweithio ar draws ffiniau wrth ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg. Ar lefel addysg uwchradd, gallai hynny fod yn hynod o bwysig, oherwydd efallai na fydd lefel y galw mewn ardal benodol yn ddigonol i gefnogi darparu ysgol uwchradd Gymraeg.

Yn drydydd, yn gyffredinol, o ran ein strategaeth drawsnewid ar gyfer addysg ôl-14, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ym mis Ionawr a oedd yn egluro'r pwys yr ydym yn ei roi ar sicrhau nad yw strategaethau trawsnewid, yn y cynigion y maent yn eu cyflwyno, yn tansilio'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a geir eisoes.

**Rhodri Glyn Thomas:** I very much congratulate you on the Welsh-medium education strategy and your efforts to promote Welsh-medium education and to extend the opportunities for children to study through the medium of Welsh. However, a problem arises in setting a national threshold for what is considered to be Welsh-medium education. For example, the situation in my constituency in Carmarthenshire is quite different from that in others in Wales. Bilingual education has been developed substantially in Carmarthenshire. The threshold would include bilingual education within what is defined as Welsh-medium education.

In the Towy valley, for example, the primary school, Ysgol Gymraeg Teilo Sant, is full and the local education authority can say to the school that children who are outside the catchment area can receive education in a category A school, although only 70 per cent of the education would be through the medium of Welsh. In the secondary sector,

gall yr awdurdod addysg ddweud, ‘Gallwch fynd i ysgol 2 B’, er bod y rhieni’n dymuno i’w plant fynd i ysgol 2 A. Pe bai ysgol 2 A yn Nyffryn Tywi, byddai hynny’n datrys rhai o’r problemau y mae Kirsty Williams wedi’u codi ynglŷn â dilyniant ym Mhowys. A wnewch chi edrych ar y sefyllfaoedd hyn a chynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Gâr yn benodol ynglŷn â hyn? Gwn eich bod yn ymwybodol o’r broblem, Weinidog.

2.30 p.m.

**Leighton Andrews:** Yn y cyfarfod y bore yma, cododd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y pwynt hwn gyda mi, a deallaf y pwynt. Mae’n amhosibl i mi i ddweud unrhyw beth ar y sefyllfa yn sir Gâr, ond gofynnaf i chi ysgrifennu ataf, ac fe drafodaf y pwynt gyda’r swyddogion.

### Pupil Councils

**Q2 Eleanor Burnham:** Will the Minister make a statement on pupil councils? OAQ(3)1378(CEL)

**Leighton Andrews:** A commitment to pupil voice based on the United Nations Convention on the Rights of the Child is at the centre of our approach in Wales, as demonstrated by the school effectiveness framework. We are actively supporting pupil councils through the Pupil Voice Wales website, sharing best practice and training.

**Eleanor Burnham:** Thank you for your statement, Minister. What discussions have you had with educational organisations and teachers regarding better provision of support from elected members? I know that the Assembly education department is very fruitful and works very diligently, and we often get involved. However, many of us do not get an invitation from certain schools because they do not understand the difference between constituency Members and regional Assembly Members, or Assembly Members and MPs and so on. What are you doing to better inform on this very important matter?

**Leighton Andrews:** As you may know, we

the education authority can say ‘You can go to a 2 B school’ even though the parents want their children go to a 2 A school. If there was a 2 A school in Dyffryn Tywi, that would solve some of the issues which Kirsty Williams has raised about continuity in Powys. Will you look at these situations and have discussions with Carmarthenshire County Council in particular about this? I know you are aware of the problem, Minister.

**Leighton Andrews:** In this morning’s meeting, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg raised that point with me, and I understand the point. It is impossible for me to say anything about the situation in Carmarthenshire, but I ask you to write to me and I will discuss the issue with my colleagues.

### Cynghorau Disgyblion

**C2 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynghorau disgyblion? OAQ(3)1378(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae ymrwymiad i lais y disgybl yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn ac yn ganolog i’n ffordd o weithio yma yng Nghymru, fel a fynegwyd yn y fframwaith effeithlonrwydd ysgolion. Yr ydym yn ymroi i gefnogi cynghorau disgyblion drwy wefan Llais Disgyblion Cymru, sy’n rhannu arferion gorau a hyfforddiant.

**Eleanor Burnham:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Pa drafodaethau yr ydych wedi’u cael gyda sefydliadau addysgol ac athrawon ynghylch gwell darpariaeth cefnogaeth gan aelodau etholedig? Gwn fod adran addysg y Cynulliad yn gynhyrchiol iawn a’i bod yn gweithio’n ddiwyd iawn, a bydd gennym ran i’w chwarae’n aml. Fodd bynnag, mae nifer ohonom nad ydym yn cael gwahoddiad gan rai ysgolion am nad ydynt yn deall y gwahaniaeth rhwng Aelodau etholaethol ac Aelodau rhanbarthol y Cynulliad, neu rhwng Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol, ac yn y blaen. Beth yr ydych yn ei wneud i rannu gwybodaeth yn well am y mater pwysig iawn hwn?

**Leighton Andrews:** Fel y gwyddoch, efallai,



recently launched a Pupil Voice Wales website, which includes training materials, modules and research and it disseminates good practice. It is a basis for encouraging professionals to promote and develop pupil participation locally. We are very pleased at the response that we have had to that website over the last couple of months since it was launched. Pupil Voice Wales is also at the heart of our school effectiveness framework. We believe that effective school councils contribute to the development of better practice in schools and many of us will have had the experience of being visited here in the Assembly by school councils from our own constituencies. We are seeing the development of an active network and we are putting in place the methods to support them.

**Leanne Wood:** As you already know, the proposals to reform post-16 education in Rhondda Cynon Taf have been met with strong opposition by both parents and pupils. The Welsh Assembly Government has signed up to the United Nations Convention on the Rights of the Child, which you just mentioned. Article 12 says that children and young people should have a say when people make decisions that affect them. What can you do to ensure that pupils are listened to in a meaningful way while their education is being reorganised?

**Leighton Andrews:** We would expect local authorities, in planning proposals for post-16 education, to consult widely on those proposals. In that context, we would therefore expect them to consider representations from organisations of young people, including school councils within their area. Obviously, I will not comment on the particular situation in Rhondda Cynon Taf, which will ultimately come to Ministers for decision, although clearly I have a strong constituency interest myself.

**Darren Millar:** Minister, will you join me in congratulating the school council at St George Controlled Primary School near Abergele, which, like many others this May, organised mock elections in which pupils could participate? You will obviously be aware that mock elections engage people in

cafodd gwefan Llais Disgyblion Cymru ei lansio gennym yn ddiweddar, sy'n cynnwys deunyddiau hyfforddi, modiwlau ac ymchwil, ac mae hefyd yn lledaenu arfer da. Mae'n sail i annog gweithwyr proffesiynol i hyrwyddo a datblygu cyfranogiad disgyblion yn lleol. Yr ydym yn falch iawn o'r ymateb yr ydym wedi'i gael i'r wefan honno yn yr ychydig fisoedd diwethaf ers ei lansio. Mae Llais Disgyblion Cymru hefyd yn ganolog i'n fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Credwn fod cynghorau ysgol effeithiol yn cyfrannu at ddatblygu arfer gwell mewn ysgolion, a bydd nifer ohonom wedi cael y profiad o weld cynghorau ysgol o'n hetholaeth yn ymweld â ni yma yn y Cynulliad. Yr ydym yn gweld rhwydwaith gweithgar yn datblygu, ac yr ydym yn rhoi'r dulliau priodol ar waith i'w gefnogi.

**Leanne Wood:** Fel y gwyddoch eisoes, mae rhieni a disgyblion wedi gwrthwynebu'n gryf y cynigion i ddiwygio addysg ôl-16 yn Rhondda Cynon Taf. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yr ydych newydd sôn amdano. Mae Erthygl 12 yn dweud y dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i ddweud eu dweud pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Beth y gallwch ei wneud i sicrhau y gwrandewir yn ystyrllon ar ddisgyblion wrth i'w haddysg gael ei had-drefnu?

**Leighton Andrews:** Byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol, wrth gynllunio cynigion ar gyfer addysg ôl-16, ymgynghori'n eang am y cynigion hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, felly, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried sylwadau gan gyrff pobl ifanc, gan gynnwys cynghorau ysgol yn eu hardal. Yn amlwg, nid wyf am wneud sylw ar y sefyllfa benodol yn Rhondda Cynon Taf. Bydd Gweinidogion yn gorfod penderfynu yn ei chylch yn y pen draw, er ei bod yn amlwg fod gennyf innau ddi-ddordeb mawr yn yr etholaeth fy hun.

**Darren Millar:** Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y cyngor ysgol yn Ysgol Gynradd Reoledig San Siôr ger Abergele, a drefnodd, fel nifer o ysgolion eraill ym mis Mai eleni, etholiadau ffug i'r disgyblion gymryd rhan ynddynt? Wrth gwrs, byddwch yn gwybod bod etholiadau ffug yn

the political process, and I am sure that you would want to encourage them in the future. I must confess that as a misguided youth I stood in a mock election as a Labour Party candidate, but as my learning increased, my politics changed. Therefore, what will you do to promote the sort of mock elections that we have seen this year?

**Leighton Andrews:** Any election in which you stand is a mock election, Darren. [*Laughter.*] I was pleased to visit some schools in your constituency last week and I met with the school council in one of those schools. Your point is well taken. Organisations such as the Hansard Society, and others, have taken a great interest in stimulating political interest around election times, and we would want to encourage that.

**Michael German:** You may be aware that, in the second Assembly, the then Local Government and Public Services Committee, which was ably chaired by Ann Jones, published a report that considered the nature of political education in schools, and took evidence from around Europe. It concluded that our politics education in schools—from a young age onwards—is inadequate. Would you care to revisit that report and its recommendations to see whether it is relevant to any changes that we might want to make to our school curriculum in this area?

**Leighton Andrews:** I would be happy to do so.

### First Aid

**Q3 Lorraine Barrett:** Will the Minister make a statement on the teaching of first aid in schools? OAQ(3)1386(CEL)

**Leighton Andrews:** Personal and social education delivered in primary and secondary schools provides opportunities for learners to develop the practical skills necessary for everyday life. This includes basic emergency aid procedures and how to administer first aid.

ennyn diddordeb pobl yn y broses wleidyddol, ac yr wyf yn siŵr y byddech am eu hannog yn y dyfodol. Rhaid imi gyfaddef imi sefyll fel ymgeisydd dros y Blaid Lafur mewn etholiad ffug pan oeddwn yn ifanc ac ar gyfeiliorn, ond wrth imi ddysgu mwy, newidiodd fy ngwleidyddiaeth. Felly, beth y byddwch yn ei wneud i hyrwyddo'r math o etholiadau ffug yr ydym wedi'u gweld eleni?

**Leighton Andrews:** Mae unrhyw etholiad yr ydych chi'n sefyll ynddo yn etholiad ffug, Darren. [*Chwerthin.*] Yr oeddwn yn falch ymweld â rhai ysgolion yn eich etholaeth yr wythnos diwethaf, a chyfarfŵm â'r cyngor ysgol yn un o'r ysgolion hynny. Mae gennych bwynt da. Mae sefydliadau megis Sefydliad Hansard, ac eraill, wedi dangos awydd mawr i ysgogi diddordeb mewn gwleidyddiaeth adeg etholiadau, a byddem am annog hynny.

**Michael German:** Efallai y gwyddoch, yn yr ail Gynulliad, fod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, fel yr oedd bryd hynny, dan gadeiryddiaeth fedrus Ann Jones, wedi cyhoeddi adroddiad yn ystyried natur addysg wleidyddol mewn ysgolion, a'i fod wedi casglu tystiolaeth o bob cwr o Ewrop. Daeth i'r casgliad bod ein haddysg gwleidyddiaeth mewn ysgolion—o oed ifanc ymlaen—yn annigonol. A fyddech yn fodlon ailystyried yr adroddiad hwnnw a'i argymhellion i weld a yw'n berthnasol i unrhyw newidiadau y gallem fod am eu gwneud yn ein cwricwlwm ysgol yn y maes hwn?

**Leighton Andrews:** Byddwn yn fodlon gwneud hynny.

### Cymorth Cyntaf

**C3 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu cymorth cyntaf mewn ysgolion? OAQ(3)1386(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae addysg bersonol a chymdeithasol a ddarperir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd. Mae'n cynnwys gweithdrefnau cymorth brys sylfaenol, a sut i roi cymorth cyntaf.

**Lorraine Barrett:** Thank you for that, Minister—it is much appreciated. My question was prompted by a constituent who wrote to me recently, to say that her son had saved someone's life days after receiving first aid lessons in school. She asked me to ask you whether you would consider making first aid—or at least a basic understanding of first aid—compulsory, possibly in secondary schools. However, I appreciate the pressures on the curriculum.

**Lorraine Barrett:** Diolch am hynny, Weinidog—yr wyf yn ei werthfawrogi'n fawr. Yr hyn a barodd imi ofyn fy nghwestiwn oedd y ffaith fod etholwr wedi ysgrifennu ataf yn ddiweddar i ddweud bod ei mab wedi achub bywyd rhywun ddiwrnodau ar ôl cael gwersi cymorth cyntaf yn yr ysgol. Gofynnodd imi ofyn ichi a fyddech yn ystyried sicrhau bod cymorth cyntaf—neu ddealltwriaeth sylfaenol o gymorth cyntaf, o leiaf—yn orfodol, mewn ysgolion uwchradd efallai. Fodd bynnag, yr wyf yn sylweddoli'r pwysau sydd ar y cwricwlwm.

**Leighton Andrews:** Lorraine, I am sure that we would all want to congratulate your constituent's son for the initiative that he took in that regard. First aid is already taught in schools, usually as one of the practical life skills, and is delivered through our personal and social education programme. All primary and secondary schools are required to provide a balanced programme of PSE, although, ultimately, decisions on the precise content of a school's PSE programme lie with headteachers and their governors. However, you may like to write to me on this.

**Leighton Andrews:** Lorraine, yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom am longyfarch mab eich etholwr am ei flaengaredd yn hynny. Caiff cymorth cyntaf ei addysgu eisoes mewn ysgolion, fel un o'r sgiliau bywyd ymarferol fel rheol, a chaiff ei ddarparu drwy ein rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gofyn i bob ysgol gynradd ac uwchradd ddarparu rhaglen ABCh gytbwys, er mai penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion fydd yn penderfynu yn y pen draw ar union gynnwys rhaglen ABCh ar gyfer ysgol. Fodd bynnag, efallai yr hoffech ysgrifennu ataf am hyn.

**Janet Ryder:** St John Ambulance is par excellence in offering training in first aid. Although it is good to teach young people first aid, looking after their health is also crucial. That is why the role of the school nurse is so valuable, and I know that your Government is looking at developing that role. Can you assure me that, given the pressure on budgets, that commitment to roll out school nurses across Wales will be kept, and that we will see school nurses in every secondary school?

**Janet Ryder:** Mae Gwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan yn wych am gynnig hyfforddiant mewn cymorth cyntaf. Er bod addysgu cymorth cyntaf i bobl ifanc yn beth da, mae gofalu am eu hiechyd hefyd yn hollbwysig. Dyna pam mae rôl y nyrs ysgol mor werthfawr, a gwn fod eich Llywodraeth yn ystyried datblygu'r rôl honno. A allwch roi sicrwydd imi y bydd yr ymrwymiad hwnnw i gyflwyno nyrsys ysgol ar draws Cymru yn parhau, o gofio'r pwysau sydd ar gyllidebau, ac y byddwn yn gweld nyrsys ysgol ym mhob ysgol uwchradd?

**Leighton Andrews:** Support for school nurses is provided by my colleague, the Minister for Health and Social Services. As you probably know, she announced a further extension of the scheme on Monday. We want to continue to invest in the provision of school nursing services and school counselling services. We have further invested in the school counselling service, for example, over the course of this year. Therefore, we believe that these are

**Leighton Andrews:** Fy nghydweithiwr, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer nyrsys ysgol. Fel y gwyddoch, mae'n debyg, cyhoeddodd y Gweinidog estyniad pellach i'r cynllun ddydd Llun. Yr ydym am barhau i fuddsoddi yn y ddarpariaeth gwasanaethau nyrsio a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Er enghraifft, yr ydym wedi buddsoddi ymhellach yn y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn ystod

important subjects for schools, and we will seek to protect them, as far as we are able to, in the context of any UK Government cuts that may be imposed on us.

**William Graham:** I am sure that you will join me, Minister, in applauding the St John Cymru Wales Young Lifesaver Scheme. I particularly wish to draw to your attention to two incidents in south-east Wales. First, a pupil named Elliot Dunn from Abercarn Primary School, having participated in this scheme, was able to save his mother from choking. Secondly, Rhys and James Terry, from Ynysddu Primary School, having seen the Heartstart video, saved their father when he had an epileptic fit. This goes to show how good this scheme is, and I am sure that you will applaud it with me.

**Leighton Andrews:** I am happy to lend my endorsement to what you have just said in respect of the extraordinary actions of those young people, and the schemes through which they learned their skills.

2.40 p.m.

#### Looked-after Children

**Q4 David Melding:** What percentage of looked-after children received five GCSEs at grade C or above in the last 12 months? OAQ(3)1371(CEL)

**Leighton Andrews:** Nine per cent of looked-after children left care with five or more GCSEs at grade C or above, or the vocational equivalent, in the year to March 2009.

**David Melding:** I know that the Assembly will be shocked by that, although it needs to be put in context—the figure was only 5 per cent in 2002, so that is a significant increase. When we compare that with the figure for the general population at 60 per cent, we can see that a vast catch-up has to happen before we can say to looked-after children that we are taking our corporate parenting role seriously. Do you agree that we need a series of aggressive measures so that this group of vulnerable children can achieve what the rest

eleni. Felly, credwn fod y rhain yn bynciau pwysig i ysgolion, a byddwn yn ceisio'u diogelu gymaint ag y gallwn yng nghydestun unrhyw doriadau a allai gael eu gorfodi arnom gan Lywodraeth y DU.

**William Graham:** Yr wyf yn siŵr yr ymunwch â mi, Weinidog, i gymeradwyo Cynllun Achubwyr Bywyd Ifanc Sant Ioan Cymru. Hoffwn dynnu'ch sylw'n benodol at ddau ddigwyddiad yn y de-ddwyrain. Yn gyntaf, medrodd disgybl o'r enw Elliot Dunn o Ysgol Gynradd Aber-carn arbed ei fam rhag tagu, ar ôl cymryd rhan yn y cynllun hwn. Yn ail, ar ôl gweld fideo Heartstart, achubodd Rhys a James Terry o Ysgol Gynradd Ynys-ddu fywyd eu tad pan gafodd ffit epileptig. Mae hynny'n dangos mor dda yw'r cynllun, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn ei gymeradwyo gyda mi.

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn falch ategu'r hyn yr ydych newydd ei ddweud am weithredoedd rhyfeddol y bobl ifanc dan sylw, a'r cynlluniau a'u galluogodd i ddysgu eu sgiliau.

#### Plant sy'n Derbyn Gofal

**C4 David Melding:** Pa ganran o blant sy'n derbyn gofal a gafodd bum TGAU gradd C neu uwch yn y 12 mis diwethaf? OAQ(3)1371(CEL)

**Leighton Andrews:** Naw y cant o blant sy'n cael gofal a adawodd eu gofal gyda phump neu ragor o gymwysterau TGAU gradd C neu uwch, neu'r cymwysterau galwedigaethol cyfatebol, yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2009.

**David Melding:** Gwn y bydd y Cynulliad yn synnu at hynny, er bod angen i'r ffigur gael ei roi yn ei gyd-destun—dim ond 5 y cant oedd y ffigur yn 2002, felly mae'n gynnydd sylweddol. O'i gymharu â'r ffigur ar gyfer y boblogaeth gyffredinol, sef 60 y cant, gallwn weld bod bwlch mawr i'w gau cyn y gallwn ddweud wrth blant sy'n cael gofal ein bod yn cymryd o ddifrif ein rôl o ran rhianta corfforaethol. A ydych yn cytuno bod angen inni gael cyfres o fesurau cadarn, fel y gall y grŵp hwn o blant sy'n agored i niwed

of the population can hope to achieve at GCSE, which is the gateway to so many of life's opportunities?

**Leighton Andrews:** I agree that we have to do considerably more, and you have a debate that will touch on this subject later today. My officials are visiting all local authorities to discuss the educational attainment of the children under their care and to explore ways in which their approaches can be enhanced. We will be issuing revised guidance to schools and local authorities in 2010 to build on the progress that has been made through the looked-after children RAISE grant, and to embed new powers contained within the Children and Young Persons Act 2008.

**Helen Mary Jones:** Thank you for your answer to David Melding. Further to that, you mentioned that you are discussing these issues with local authorities, which I am sure that we are all pleased to hear, and that you will be reviewing the actions that they are taking. One of the issues that has been of concern to me and others is that the target for looked-after children is so low—it is only five GCSEs at grades A to G, whereas the minimum for the general population is five GCSEs at grades A to C. I realise that looked-after children often go into care having missed a great deal of education, but we also know that children will often attain what is expected of them. If expectations are low, my concern is that that can perpetuate low performance, albeit entirely unintentionally by, for example, foster carers and local authorities. In the course of the review and discussions that you are having with local authorities, will you review that target of A to G grades and give consideration as to whether it should be raised, even though it makes the target more difficult to meet, in order to raise our aspirations for looked-after children to those that we have for our own?

**Leighton Andrews:** I am happy to look at the target in the context of what you said. The point that you make about aspiration is important, not just in respect of looked-after children, but throughout the education system. I have said in the Chamber before

gyflawni'r hyn y mae gweddill y boblogaeth yn gallu gobeithio'i gyflawni ar lefel TGAU, sy'n borth i gynifer o gyfleoedd bywyd?

**Leighton Andrews:** Cytunaf ei bod yn rhaid inni wneud llawer iawn mwy, ac mae gennych ddadl a fydd yn cyffwrdd â'r pwnc hwn yn ddiweddarach heddiw. Mae fy swyddogion yn ymweld â phob awdurdod lleol i drafod cyrhaeddiad addysgol y plant sydd dan eu gofal, ac i archwilio ffyrdd i wella'u dulliau gweithredu. Byddwn yn cyhoeddi arweiniad diwygiedig i ysgolion ac awdurdodau lleol yn 2010 i adeiladu ar y cynnydd a wnaed drwy'r grant Rhagori i blant sy'n cael gofal, ac i sefydlu pwerau newydd sydd yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

**Helen Mary Jones:** Diolch am eich ateb i David Melding. Yn ychwanegol at hynny, yr oeddech yn sôn eich bod yn trafod y materion hyn gydag awdurdodau lleol, ac yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn falch clywed hynny ac y byddwch yn adolygu'r camau y maent yn eu cymryd. Un o'r materion sydd wedi peri pryder i mi ac eraill yw'r ffaith fod y targed ar gyfer plant sy'n cael gofal mor isel—dim ond pum TGAU gradd A i G yw'r targed, tra mae'r isafswm ar gyfer y boblogaeth gyffredinol yn bum TGAU gradd A i C. Sylweddolaf y bydd plant sy'n cael gofal yn aml yn dechrau cael gofal ar ôl colli llawer iawn o addysg, ond gwyddom hefyd y bydd plant yn aml yn cyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Os yw disgwyliadau'n isel, yr wyf yn pryderu y gallai hynny beri iddynt berfformio'n wael, er mai rhywbeth hollol anfwriadol yw hynny ar ran gofalwyr maeth ac awdurdodau lleol, er enghraifft. Yn ystod yr adolygiad a'r trafodaethau yr ydych yn eu cael gydag awdurdodau lleol, a wnewch chi adolygu'r targed hwnnw ar gyfer graddau A i G, ac ystyried a ddylid codi'r targed, er y bydd hynny'n ei gwneud yn anos cyrraedd y targed, er mwyn codi ein dyheadau ar gyfer plant sy'n cael gofal, fel y byddant yn nes at ein dyheadau ar gyfer ein plant ein hunain?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn fodlon ystyried y targed yng nghyd-destun yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Mae'r pwynt yr ydych yn ei wneud am ddyheadau yn bwysig, nid yn unig o ran plant sy'n cael gofal, ond drwy'r system addysg gyfan. Yr wyf wedi dweud yn

that I regard the quality of school leadership as being critical to help us to drive up standards, and as part of that, there must be an expectation that all young people are capable of high achievement. We have to provide the encouragement and support for them to do so. We certainly do not want a culture of low aspirations.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)1399(CEL), yn ôl.

### Reducing Child Poverty

**Q6 Angela Burns:** Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for reducing child poverty in Wales? OAQ(3)1372(CEL)

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** The Assembly Government has recently launched its new child poverty strategy and delivery plan for Wales. This sets out our three strategic objectives to direct our cross-Government action on child poverty, which will enable us to improve the lives and futures of children and parents living in low-income families.

**Angela Burns:** Thank you very much for that, Minister, and thank you very much for the strategy. I will be responding to you formally in my capacity as an Assembly Member for Carmarthen West and South Pembrokeshire, as the strategy is currently out to consultation in my area with local organisations. In the interim period, have you had any further thoughts on taking forward recommendation 17 of the 'Child Poverty and Social Exclusion in Rural Wales' report that was produced by End Child Poverty Network Cymru? The recommendation focuses on the Welsh Assembly Government ensuring that all policy documents are rural poverty proofed and child poverty proofed. Will you be able to move that forward, or will you wait until the strategy is finalised?

**Huw Lewis:** We will be taking that forward as part of the consultation, Angela, and also in terms of the more immediate work that will go on during the next three to four months to identify areas of Wales that will be

y Siambr o'r blaen fy mod yn ystyried ansawdd arweinyddiaeth ysgol yn hollbwysig i'n helpu i wella safonau, ac fel rhan o hynny rhaid disgwyl bod pob person ifanc yn gallu cyflawni ar lefel uchel. Rhaid inni ddarparu'r anogaeth a'r gefnogaeth iddynt wneud hynny. Yn sicr, nid ydym am gael diwylliant o ddyheadau isel.

**The Presiding Officer:** Question 5, OAQ(3)1399(CEL), has been withdrawn.

### Lleihau Tlodi Plant

**C6 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lleihau tlodi plant yng Nghymru? OAQ(3)1372(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ei strategaeth a'i chynllun gweithredu newydd i Gymru ar dlodi plant. Mae'r ddogfen yn egluro ein tri amcan strategol i lywio ein camau gweithredu trawslywodraethol ar dlodi plant. Bydd hyn yn ein galluogi i wella bywydau a dyfodol plant a rhieni sy'n byw mewn teuluoedd ag incwm isel.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog, a diolch yn fawr iawn am y strategaeth. Byddaf yn ymateb ichi'n ffurfiol yn fy rôl fel Aelod Cynulliad dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, gan fod y strategaeth yn destun ymgynghori â sefydliadau lleol yn fy ardal ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, a ydych wedi meddwl ymhellach am weithredu ar sail argymhelliad 17 yn yr adroddiad 'Tlodi Plant ac Allgáu Cymdeithasol yn y Gymru Wledig', a gynhyrchwyd gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru? Mae'r argymhelliad yn canolbwyntio ar sicrhau gan Lywodraeth y Cynulliad fod pob dogfen bolisi'n cael ei phrawfesur o safbwynt tlodi gwledig a thlodi plant. A fyddwch yn gallu symud hynny yn ei flaen, neu a fyddwch yn aros nes caiff y strategaeth ei chwblhau?

**Huw Lewis:** Byddwn yn symud yr argymhelliad hwnnw yn ei flaen fel rhan o'r ymgynghori, Angela, ac fel rhan o waith mwy uniongyrchol a fydd yn digwydd yn y tri neu bedwar mis nesaf i nodi ardaloedd yng

used as pilot areas to consolidate the strategy, which we hope to roll out as an all-Wales strategy sometime in 2011. I intend to ensure that at least one of the pilot areas is a rural area, and that we learn the lessons as we go along of what special contingencies and ways of working might be necessary in a rural area, over and above those in urban or Valleys areas of Wales.

**Brian Gibbons:** Deputy Minister, I commend you on the comprehensive consultation document that underpins the strategy to tackle child poverty and improve the life chances of children in Wales. Last night, I attended a meeting of Action on Smoking and Health Wales, which is involved in tackling the use and abuse of tobacco in Wales, and it highlighted the importance of reducing our young people's exposure to tobacco and tobacco products, directly and indirectly. In that context, I was somewhat disappointed to see a relatively small emphasis placed on reducing tobacco smoking and the risk of tobacco smoking in chapter 5 of the strategy. I am aware that the Minister for Health and Social Services is developing a tobacco strategy for Wales, which will, hopefully, be published before the end of the year. Can you liaise with the Minister for health to ensure that the importance of tobacco and exposure to tobacco products is fully factored into the strategy, because failing to do so will damage our children's prospects, not only from birth, but from before birth?

**Huw Lewis:** Thank you for that, Brian. Our health targets and the measures that we take to improve the health of children in poverty are an integral part of this strategy, because children suffer according to every conceivable measure of health when compared with the general population. You have just given me your input, saying that you feel that the abuse of tobacco smoking is not given enough weight in the document as it stands. I will take that as an early response to the consultation and give it further thought.

Nghymru a ddefnyddir fel ardaloedd peilot i atgyfnerthu'r strategaeth. Gobeithiwn gyflwyno honno fel strategaeth i Gymru gyfan rywbryd yn 2011. Bwriadaf sicrhau bod o leiaf un o'r ardaloedd peilot yn ardal wledig, a sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi wrth fynd ymlaen ynghylch pa gynlluniau arbennig a ffyrdd o weithio a allai fod yn angenrheidiol mewn ardal wledig, yn ychwanegol at y rheini mewn ardaloedd trefol neu yn ardaloedd y Cymoedd yng Nghymru.

**Brian Gibbons:** Ddirprwy Weinidog, hoffwn eich canmol am y ddogfen ymgynghori gynhwysfawr sy'n sail i'r strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant a gwella cyfleoedd bywyd plant yng Nghymru. Neithiwr bûm yng nghyfarfod Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd Cymru, sy'n ymwneud â mynd i'r afael â'r modd y caiff tybaco ei ddefnyddio a'i gamddefnyddio yng Nghymru. Yr oedd yn pwysleisio pwysigrwydd lleihau cysylltiad ein pobl ifanc â thybaco a chynnyrch tybaco, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Yn y cyd-destun hwnnw, yr oeddwn braidd yn siomedig gweld mai pwyslais digon bach a roddwyd ar leihau nifer y bobl sy'n ysmegu tybaco a risg ysmegu tybaco ym mhennod 5 yn y strategaeth. Gwn fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn datblygu strategaeth ar dybaco i Gymru a fydd, gobeithio, yn cael ei chyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. A allwch drafod gyda'r Gweinidog dros iechyd i sicrhau bod pwysigrwydd tybaco a chysylltiad â chynnyrch tybaco yn cael eu hystyried yn llawn yn y strategaeth. Bydd methu â gwneud hynny'n niweidio rhagolygon ein plant, nid yn unig o'u geni, ond cyn hynny hefyd?

**Huw Lewis:** Diolch am hynny, Brian. Mae ein targedau iechyd, a'r mesurau yr ydym yn eu cymryd i wella iechyd plant sydd mewn tlodi, yn rhan annatod o'r strategaeth hon, oherwydd o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol bydd plant yn dioddef yn ôl pob dull posibl o fesur iechyd. Yr ydych newydd roi eich cyfraniad imi gan ddweud eich bod yn teimlo na roddir digon o bwyslais yn y ddogfen, fel y mae ar hyn o bryd, ar gamddefnyddio tybaco. Cymeraf eich cyfraniad fel ymateb cynnar i'r ymgynghoriad, ac fe'i ystyriaf ymhellach.

**Bethan Jenkins:** Would the Deputy Minister agree with me that it is disappointing to see that there is no specific legislation to address child poverty in the new Queen's Speech, which was delivered by the coalition Government in the United Kingdom? Could you outline what discussions you will have on the welfare reform Bill with the UK Government, because the End Child Poverty Network Cymru has said that cuts to family security will backfire and cost more, in the long term, for families in Wales. We really need to know what impact the changes in the welfare reform Bill will have on children in Wales, to see how we can deliver on our child poverty criteria in Wales.

**Huw Lewis:** You are right, Bethan. There was a deafening silence in the Queen's Speech when it came to questions surrounding child poverty and the new UK Government's stance on the issue. It is all the more curious, because it is now bound by the Child Poverty Act 2010 to act on these issues. I look forward to any communication from the UK Government on how it intends to be our partners in driving down child poverty figures here in Wales. Thus far, we have had the odd homily from the Conservatives and the Liberal Democrats, but nothing in any concrete form on how they intend to have an impact on the lives of the children of Wales—other than the withdrawal of the child trust fund, of course. When it came to their fiscal priorities, it was not bankers' bonuses but babies and young children who were first for the axe in the new UK Government's initial announcement.

As for welfare reform, Bethan, we must be fleet of foot and swift to respond to any form of welfare reform that travels down the M4 towards us from Westminster. It is early days as yet, but I can tell you that officials are already working on various contingencies that might have an impact on the skills agenda, for instance, and other areas of responsibility, as the Assembly Government may have to pick up the pieces when it comes to any welfare reform that the UK Government implements. It is early days as

**Bethan Jenkins:** A wnaiff y Dirprwy Weinidog gytuno â mi ei bod yn siomedig gweld nad oes deddfwriaeth benodol i fynd i'r afael â thlodi plant, yn Araith newydd y Frenhines a gafodd ei thraddodi gan y Llywodraeth glymbleidiol yn y Deyrnas Unedig? A allech egluro pa drafodaethau y byddwch yn eu cael gyda Llywodraeth y DU ar y Mesur diwygio lles, oherwydd mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru wedi dweud y bydd torri nawdd i deuluoedd yn achosi mwy o broblemau ac yn costio rhagor, yn y tymor hir, i deuluoedd yng Nghymru. Mae gwir angen inni wybod pa effaith y bydd y newidiadau yn y Mesur diwygio lles yn ei chael ar blant yng Nghymru, er mwyn gweld sut y gallwn gyflawni yn ôl ein meini prawf ar gyfer tlodi plant yng Nghymru.

**Huw Lewis:** Yr ydych yn iawn, Bethan. Ni chlywyd yr un gair yn Araith y Frenhines i ateb cwestiynau ar dlodi plant a safbwynt Llywodraeth newydd y DU ar y mater. Mae'n fwy rhyfedd fyth, oherwydd mae'n awr yn orfodol iddi weithredu ar y materion hyn dan Ddeddf Tlodi Plant 2010. Edrychaf ymlaen at gael unrhyw wybodaeth gan Lywodraeth y DU am y modd y mae'n bwriadu bod yn bartneriaid inni wrth geisio gostwng ffigurau tlodi plant yma yng Nghymru. Hyd yn hyn, yr ydym wedi cael ambell homili gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond dim byd cadarn am y modd y maent yn bwriadu effeithio ar fywydau plant yng Nghymru—ar wahân i dynnu'r gronfa ymddiriedolaeth plant yn ôl, wrth gwrs. O ran eu blaenoriaethau ariannol, nid taliadau bonws i fancwyr a dorrrwyd i ddechrau yng nghyhoeddiad cyntaf Llywodraeth newydd y DU, ond arian ar gyfer babanod a phlant ifanc.

O ran diwygio lles, Bethan, rhaid inni symud yn gyflym ac ymateb ar unwaith i unrhyw fath o ddiwygio lles sy'n teithio i lawr yr M4 tuag atom o San Steffan. Mae'n ddyddiau cynnar hyd yn hyn, ond gallaf ddweud wrthyh fod swyddogion eisoes yn gweithio ar amrywiol gynlluniau a allai gael effaith ar yr agenda sgiliau, er enghraifft, ynghyd â meysydd cyfrifoldeb eraill. Efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ymdrin â'r difrod a achosir gan unrhyw gamau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU i ddiwygio



yet, but we are ready for anything, we hope.

lles. Mae'n ddyddiau cynnar hyd yn hyn, ond yr ydym yn barod am unrhyw beth, gobeithio.

### XL Wales

**C7 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am XL Wales? OAQ(3)1392(CEL)

**Leighton Andrews:** I am aware of, and welcome the work undertaken by, XL Wales to promote science and technology through the centre's work with schools and the wider community in south and west Wales.

2.50 p.m.

**David Lloyd:** Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r sector gwirfoddol ac elusennau megis XL Wales yn darparu addysg yn lleol ac yn rhanbarthol i blant ysgol, fel y crybwyllwyd gennych eisoes. Mae'n werth nodi hefyd fod XL Wales yn Abertawe yn cyfateb i Techniquet yng Nghaerdydd, sy'n derbyn arian cyhoeddus ar gyfer ei raglen addysgol gan Lywodraeth y Cynulliad. Pa obaith sydd am arian tebyg i XL Wales?

**Leighton Andrews:** I am aware that you and a number of other Members have written to me on the subject of funding for XL Wales. We are not aware of any recent approaches for funding or clarification of eligibility for support, but there is nothing to rule out XL Wales presenting a case for support. However, you should be aware that, with limited resources, we are giving priority to innovative approaches to the promotion of science that can be applied to schools and communities across the whole of Wales.

**Andrew R.T. Davies:** XL Wales offers a great resource for schools to tap into. In addition, one of the commitments made in 'One Wales' when you formed the Government was to establish pilot projects for Saturday clubs and for arts and sports clubs in school environments. Can you give us a progress report on what has been achieved to date by the One Wales Government in establishing those pilot

### XL Wales

**Q7 David Lloyd:** Will the Minister make a statement on XL Wales? OAQ(3)1392(CEL)

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn ymwybodol o XL Wales ac yn croesawu'r gwaith y mae'n ei wneud i hyrwyddo gwyddoniaeth a thechnoleg, drwy waith y ganolfan gydag ysgolion a'r gymuned ehangach yn y de a'r gorllewin.

**David Lloyd:** Thank you for that answer, Minister. The voluntary sector and charities such as XL Wales provide education locally and regionally to schoolchildren, as you have already referred. It is also worth noting that XL Wales in Swansea corresponds to Techniquet in Cardiff, which receives public funding for its educational programme from the Assembly Government. What hope is there of similar funding for XL Wales?

**Leighton Andrews:** Yr wyf yn ymwybodol eich bod chi a nifer o Aelodau eraill wedi ysgrifennu ataf ynghylch cyllido XL Wales. Ni wyddom am ddim ceisiadau'n ddiweddar am gyllid, neu eglurhad pa mor gymwys ydyw i gael cymorth, ond nid oes dim rheswm pam na all XL Wales gyflwyno achos dros gael cefnogaeth. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol, oherwydd yr adnoddau prin sydd ar gael, ein bod yn rhoi blaenoriaeth i ddulliau arloesol o hyrwyddo gwyddoniaeth, rhai y gellir eu defnyddio mewn ysgolion a chymunedau ar draws Cymru gyfan.

**Andrew R.T. Davies:** Mae XL Wales yn adnodd gwych y gall ysgolion ei ddefnyddio. Yn ogystal, un o'r ymrwymadau a wnaed yn 'Cymru'n Un' pan ffurfiwyd y Llywodraeth gennych oedd sefydlu prosiectau peilot ar gyfer clybiau Sadwrn a chlybiau celfyddydau a chwaraeon mewn amgylcheddau ysgol. A allwch roi adroddiad inni ar gynnydd gyda'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma gan Lywodraeth Cymru'n Un i sefydlu'r

projects and tell us how successful they have been?

**Leighton Andrews:** The question was about XL Wales, so I will focus a bit more on the support that is potentially available for XL Wales to apply for. For example, we have the Reach the Heights programme, financed by the European social fund, which includes the development of local hubs to deliver science outreach for young people. I understand that XL Wales has also held initial discussions with the Wales Co-operative Centre to explore the potential for involvement in the Communities 2.0 digital inclusion initiative. I therefore encourage it to continue to work with local partners to consider how they can contribute to such work.

### Priorities

**Q8 Nick Ramsay:** What are the Minister's priorities for the next 12 months? OAQ(3)1359(CEL)

**Leighton Andrews:** The Government's priorities remain as set out in 'One Wales', with additional measures in response to the economic downturn. I have also made it clear that I want more funding to reach the education front line by freeing up resources, as highlighted in the review of the cost of administering the education system in Wales.

**Nick Ramsay:** Thank you for that answer, Minister, and I welcome your commitment to trying to ensure that more money reaches the front line. The Westminster Government announced yesterday its intention to allow schools in England to become academies. While I know that that is not part of your Government's agenda, many schools have identified certain advantages to becoming an academy, such as specialisation and promoting best practice. How do you intend to ensure that best practice is pursued in Welsh schools, that our schools are not left behind, and that they are at the cutting edge of innovation and improvement in education?

prosiectau peilot dan sylw, a dweud wrthym i ba raddau y maent wedi bod yn llwyddiannus?

**Leighton Andrews:** Yr oedd y cwestiwn yn ymwneud ag XL Wales, felly, hoffwn ganolbwyntio ychydig yn fwy ar y cymorth a all fod ar gael i XL Wales wneud cais amdano. Er enghraifft, mae gennym y rhaglen Cyrraedd y Nod, a ariennir gan gronfa gymdeithasol Ewrop ac sy'n cynnwys datblygu canolfannau lleol i ddarparu allgymorth ym maes gwyddoniaeth i bobl ifanc. Deallaf fod XL Wales hefyd wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru i archwilio posibilrwydd cymryd rhan ym menter cynhwysiant digidol Cymunedau 2.0. Felly, anogaf XL Wales i barhau i weithio gyda phartneriaid lleol i ystyried sut y gallant gyfrannu at waith o'r fath.

### Blaenoriaethau

**C8 Nick Ramsay:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1359(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth yn dal fel sydd wedi ei osod allan yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd. Yr wyf hefyd wedi egluro fy mod am i ragor o gyllid gyrraedd rheng flaen addysg drwy ryddhau adnoddau, fel y pwysleisiwyd yn yr adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, a chroesawaf eich ymrwymiad i geisio sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd y rheng flaen. Ddoe cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan ei bwriad i adael i ysgolion yn Lloegr ddod yn academïau. Er y gwn nad yw hynny'n rhan o agenda eich Llywodraeth chi, mae nifer o ysgolion wedi nodi rhai manteision penodol o fod yn academi, megis y cyfle i arbenigo a hybu arfer gorau. Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau bod ysgolion Cymru yn mynd ar drywydd arfer gorau, sicrhau nad yw ein hysgolion yn cael eu gadael ar ôl, a sicrhau eu bod yn rhan o'r datblygiadau mwyaf blaengar o safbwynt arloesi a gwella ym maes addysg?

**Leighton Andrews:** Neither the academy schools programme nor the free schools policy has any place in our education policies in Wales. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’]

**Nerys Evans:** Da clywed yr ateb hwnnw gan y Gweinidog. [*Torri ar draws.*] Un elfen bwysig arall o raglen y Llywodraeth—

**The Presiding Officer:** Order. I cannot hear the question.

**Nerys Evans:** Elfenn bwysig arall yn rhaglen y Llywodraeth yw ei strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Gyda'r strategaeth wedi ei chyhoeddi, mae angen gweithredu. Un peth sy'n amlwg ar draws Cymru yw nad yw'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd. Un o'r camau sylfaenol cyntaf byddai sicrhau bod pawb sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn ei chael. Mae'n warthus nad yw miloedd o blant yn derbyn addysg yn eu dewis iaith. Nid yw hynny'n or-ddweud: mae miloedd sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn ei chael. A ydych yn cytuno, felly, fod angen i'n hawdurdodau addysg lleol symud yn gyflym i ddiwallu'r angen mawr am addysg Gymraeg? I'r perwyl hwnnw, mae angen penderfyniad ffafriol yn fuan gan Lywodraeth y Cynulliad am gynlluniau Cyngor Caerdydd i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg yn ein prifddinas. Mae perygl y bydd ein strategaeth yn cael ei thanseilio os na cheir penderfyniad ffafriol a buan am gynlluniau Cyngor Caerdydd.

**Leighton Andrews:** Obviously, I will not comment on the proposals that are currently before the Welsh Ministers in respect of Cardiff or any other local authority. What I will say is that we have had a positive response to the roll-out of the Welsh-medium education strategy. One of the most important features of that strategy is the requirement on local authorities to measure demand for Welsh-medium education. I want to see that being taken seriously. It is my view that there is demand that is not being measured at the present time in a wide range of local authorities in Wales. The effective measurement of that demand could result in

**Leighton Andrews:** Nid oes lle i'r rhaglen ysgolion academi na'r polisi ysgolion rhydd yn ein polisiâu addysg ni yng Nghymru. [AELODAU'R CYNULLIAD: ‘O.’]

**Nerys Evans:** It is good to hear that response from the Minister. [*Interruption.*] Another important element of the Government's programme—

**Y Llywydd:** Trefn. Ni allaf glywed y cwestiwn.

**Nerys Evans:** Another important element of the Government's programme is its Welsh-medium education strategy. Now that the strategy has been published, it needs to be implemented. One thing which is apparent throughout Wales is that the need for Welsh-medium education is not being met at the moment. One of the most fundamental first steps would be to ensure that everyone who wishes to access Welsh-medium education can do so. It is a disgrace that thousands of children do not receive their education in the language of their choice. That is not an overstatement: thousands want Welsh-medium education but cannot access it. Do you agree, therefore, that our local education authorities need to move quickly to respond to the huge demand for Welsh-medium education? To that end, we need the Welsh Assembly Government to make a favourable decision and soon on the plans by Cardiff Council to expand Welsh-medium education in our capital city. There is a danger that our strategy will be undermined unless we get a quick and favourable decision on the plans by Cardiff Council.

**Leighton Andrews:** Yn amlwg, ni fyddaf yn gwneud sylw ar y cynigion sydd gerbron Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yng nghyswllt awdurdod lleol Caerdydd neu unrhyw awdurdod lleol arall. Yr hyn yr wyf am ei ddweud yw inni gael ymateb cadarnhaol i'r broses o gyflwyno'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Un o nodweddion pwysicaf y strategaeth honno yw'r gofyniad ar awdurdodau lleol i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Yr wyf am weld hynny'n cael ei gymryd o ddifrif. Yn fy marn i, mae yna alw nad yw'n cael ei fesur ar hyn o bryd mewn ystod eang o awdurdodau lleol yng Nghymru. Gallai

further places in Welsh-medium education and wider Welsh-medium provision. We will be looking to see the implementation of that programme backed by the additional resources that we have put in to support the Welsh-medium education strategy.

**Paul Davies:** Last week, I had the privilege of welcoming Chinese delegates to Pembrokeshire College. Like other education institutions, it is trying to promote itself on an international stage and attract students from across the world. Forging links such as those is not just about attracting students to our colleges, but about giving our students and lecturers the opportunity to visit educational institutions overseas to teach, learn and experience different cultures. It is important that we give our students the opportunity to learn about the richness of different cultures. In the circumstances, will you tell us what the Welsh Assembly Government will be doing in the next 12 months to support educational institutions that are looking to promote themselves and Wales on the international stage?

**Leighton Andrews:** We have, in the past, supported teachers and students to travel abroad. When I was in the constituency of your colleague, Darren Millar, last week, I met students and teachers who were fundraising for a project in Madagascar, and will be going there in due course. We continue to encourage and support activities where we can, in the context of the budgets that we will be able to manage over the next few years and the cuts that are likely to be imposed on our budgets by the UK Government.

**Paul Davies:** To move you on to a separate issue, during the business statement yesterday, I asked your colleague, the business manager, whether a statement could be made on school reorganisation guidance. I know that that is a priority of yours and that you have promised to bring forward new guidance on this, because you are concerned that decisions about school reorganisations are taking too long. You will also be aware that the organisation called Hyrwyddo Ysgolion Bach published a report into the

mesur y galw hwnnw'n effeithiol olygu rhagor o leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ehangach. Byddwn yn disgwyl gweld gweithredu'r rhaglen honno gyda chymorth yr adnoddau ychwanegol yr ydym wedi'u rhoi i gefnogi'r strategaeth ar addysg cyfrwng Cymraeg.

**Paul Davies:** Yr wythnos diwethaf cefais y fraint o groesawu cynrychiolwyr o Tsieina i Goleg Sir Benfro. Fel sefydliadau addysg eraill, mae'r coleg yn ceisio'i hyrwyddo'i hun ar lwyfan rhyngwladol a denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd. Yn ogystal â denu myfyrwyr i'n colegau, mae creu cysylltiadau o'r fath yn gyfle i'n myfyrwyr a'n darlithwyr ymweld â sefydliadau addysgol tramor i addysgu, dysgu a chael profiad o wahanol ddiwylliannau. Mae'n bwysig inni roi'r cyfle i'n myfyrwyr ddysgu am gyfoeth gwahanol ddiwylliannau. Dan yr amgylchiadau, a wnewch chi ddweud wrthym beth y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud yn ystod y 12 mis nesaf i gynorthwyo sefydliadau addysgol sy'n ceisio'u hyrwyddo'u hunain a hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol?

**Leighton Andrews:** Yn y gorffennol yr ydym wedi cynorthwyo athrawon a myfyrwyr i deithio dramor. Pan oeddwn yn etholaeth eich cydweithiwr, Darren Millar, yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â myfyrwyr ac athrawon a oedd yn codi arian ar gyfer prosiect ym Madagascar, a byddant yn mynd yno maes o law. Yr ydym yn parhau i annog a chefnogi gweithgareddau lle gallwn, yng nghyd-destun y cyllidebau y byddwn yn gallu eu rheoli dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a'r toriadau sy'n debygol o gael eu gorfodi ar ein cyllidebau gan Lywodraeth y DU.

**Paul Davies:** I'ch symud ymlaen at fater gwahanol, yn ystod y datganiad busnes ddoe gofynnais i'ch cydweithiwr, y rheolwr busnes, a ellid gwneud datganiad ar arweiniad ynghylch ad-drefnu ysgolion. Gwn fod hynny'n flaenoriaeth ichi a'ch bod wedi addo cyflwyno arweiniad newydd ar y mater am eich bod yn pryderu bod penderfyniadau ar ad-drefnu ysgolion yn cymryd gormod o amser. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod y sefydliad a elwir Hyrwyddo Ysgolion Bach wedi cyhoeddi adroddiad ar gostau ysgolion

costs of small primary schools in Wales recently, which had some interesting findings. Would you consider looking at these findings and telling us when you will be in a position to bring forward the new guidance on school reorganisation?

**Leighton Andrews:** I was discussing that particular report and the impact of some of its implications in my meeting with Ffred Ffrancis and his colleagues from Cymdeithas yr Iaith Gymraeg this morning. I take the view that we will need to revisit the guidance on school reorganisation. The current guidance took effect only from January this year. As I said in the debate that we held earlier this year on school closures, it would be my intention to review the school reorganisation proposals after the current round of determinations has been made.

**Jenny Randerson:** Minister, you will be aware that there was some coverage on television of your speech about universities yesterday. It revealed a strongly centralising socialist agenda, which is not a surprise, but what did surprise me was the harshness of your comments about the university sector in Wales. I am well aware that a few sentences excerpted from a speech can be misleading, but can you tell us why you feel that universities in Wales are doing so much less well than universities in England?

3.00 p.m.

**Leighton Andrews:** I caution you against believing entirely the headlines that have been running on the BBC. The text of my lecture is available and has been in great demand this morning from the higher education sector. The points that I was making in respect of the need for higher education institutions to respond to the 'For Our Future' agenda, launched last year by my predecessor, Jane Hutt, echo the remarks of previous Ministers for education and the Assembly's Audit Committee, now the Public Accounts Committee. I quoted from the then Audit Committee report in respect of the reconfiguration of the higher education sector and I have acted on the recommendations of the Audit Committee

cynradd bach yng Nghymru yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys rhai darganfyddiadau diddorol. A fydddech yn ystyried edrych ar y darganfyddiadau hynny a dweud wrthym pryd y byddwch mewn sefyllfa i gyflwyno'r arweiniad newydd ar ad-drefnu ysgolion?

**Leighton Andrews:** Yr oeddwn yn trafod yr adroddiad penodol hwnnw, ac effaith rhai o'i oblygiadau, yn fy nghyfarfod gyda Ffred Ffrancis a'i gydweithwyr o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg y bore yma. Yr wyf o'r farn y bydd angen inni ailystyried yr arweiniad ar ad-drefnu ysgolion. Dim ond ym mis Ionawr eleni y daeth yr arweiniad presennol i rym. Fel y dywedais yn y ddadl a gawsom yn gynharach eleni ar gau ysgolion, fy mwriad yw adolygu'r cynigion ar ad-drefnu ysgolion ar ôl i'r rownd bresennol o benderfyniadau ddod i ben.

**Jenny Randerson:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod rhywfaint o sylw wedi'i roi ar y teledu i'ch araith ddoe am brifysgolion. Yr oedd yn dadlennu agenda sosialaidd sydd â phwys mawr ar ganoli, nad yw'n syndod, ond yr hyn a barodd syndod i mi oedd llymder eich sylwadau am y sector prifysgolion yng Nghymru. Gwn hyn iawn y gall rhai brawddegau a ddyfynnir o araith fod yn gamarweiniol, ond a allwch ddweud wrthym pam yr ydych yn teimlo bod perfformiad prifysgolion yng Nghymru gymaint â hynny'n waeth na phrifysgolion yn Lloegr?

**Leighton Andrews:** Yr wyf am eich rhybuddio rhag credu popeth yn y penawdau a ddangoswyd ar y BBC. Mae testun fy narlith ar gael, ac mae galw mawr wedi bod amdano y bore yma gan y sector addysg uwch. Mae'r pwyntiau yr oeddwn yn eu gwneud fod angen i sefydliadau addysg uwch ymateb i'r agenda 'Er Mwyn Ein Dyfodol', a lanswyd y llynedd gan fy rhagflaenydd, Jane Hutt, yn adleisio sylwadau Gweinidogion blaenorol dros addysg a Phwyllgor Archwilio'r Cynulliad, sef y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus erbyn hyn. Dyfynnais o adroddiad y Pwyllgor Archwilio bryd hynny ar ad-drefnu'r sector addysg uwch, ac yr wyf wedi gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Archwilio yn fy llythyr cylch

report in my remit letter to the Higher Education Funding Council for Wales this year, in which I made it clear that, in future, we expect the bulk of Assembly Government investment in the higher education sector to drive forward our strategy. We expect HEFCW to act on that—in other words, we expect to see reconfiguration and collaboration taking place in the sector. We also expect that the money that we invest as a whole drives that agenda forward, and that there is not simply a reliance on a part of the budget through the reconfiguration fund, which was, of course, a recommendation of the Assembly's Audit Committee. Therefore, as far as I can see, the speech that I delivered had all-party support.

**Jenny Randerson:** You will be aware that universities are competing not just within Wales, but also very much with those across the border in England and globally, and they are conscious of that on a daily basis. Universities in Wales have suffered over many years from a growing funding gap between England and Wales, which has been a considerable problem. It is not likely that you will tell me that you are about to put that right, but the issue that I feel that you need to address with regard to your approach to universities is how to ensure that universities in Wales have the funding for research that enables them to be truly competitive on a global scale. What are your plans to ensure that research at Welsh universities is properly funded and that that funding is used to ensure that our ideas and our best research fertilises the business sector?

**Leighton Andrews:** When you have the time to read my lecture, you will find that a significant section of it is devoted to the issue of internationally competitive research, and I congratulate universities in Wales on some specific examples of the internationally competitive research that is being undertaken. However, we clearly need to win more research council funding for Wales; we do not punch our full weight. Part of the agenda, therefore, must be more collaboration between researchers in different higher education institutions. I gave a number

gwaith at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru eleni, lle eglurais ein bod yn disgwyl, yn y dyfodol, i'r rhan fwyaf o fuddsoddiad Llywodraeth y Cynulliad yn y sector addysg uwch hybu ein strategaeth. Yr ydym yn disgwyl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru weithredu ar hynny—hynny yw, yr ydym yn disgwyl gweld gwaith ad-drefnu a chydweithredu'n digwydd yn y sector. Yr ydym hefyd yn disgwyl bod yr arian yr ydym yn ei fuddsoddi'n gyffredinol yn gyrru'r agenda honno ymlaen, ac na fydd dibynnu'n syml ar ran o'r gyllideb drwy'r gronfa ad-drefnu, a oedd, wrth gwrs, yn argymhellid gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad. Felly, hyd y gwelaf, yr oedd pob plaid yn cefnogi'r araith a draddodais.

**Jenny Randerson:** Byddwch yn ymwybodol bod prifysgolion yn cystadlu â'i gilydd, nid yn unig yng Nghymru, ond i raddau helaeth hefyd â phrifysgolion y tu hwnt i Glawdd Offa ac yn fyd-eang, ac maent yn ymwybodol o hynny bob dydd. Mae prifysgolion yng Nghymru wedi dioddef ers blynyddoedd lawer oherwydd bwlich cyllido cynyddol rhwng Cymru a Lloegr, sydd wedi bod yn broblem fawr. Nid ydych yn debygol o ddweud wrthyf eich bod ar fin datrys y broblem honno, ond y broblem y teimlaf fod angen ichi fynd i'r afael â hi o ran eich agwedd at brifysgolion yw sut i sicrhau bod gan brifysgolion yng Nghymru y cyllid ar gyfer ymchwil sy'n eu galluogi i fod yn wirioneddol gystadleuol ar raddfa fyd-eang. Beth yw eich cynlluniau ar gyfer sicrhau bod ymchwil ym mhrifysgolion Cymru yn cael ei gyllido'n iawn, a bod y cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio i sicrhau bod ein syniadau a'n hymchwil gorau yn ffrwythloni'r sector busnes?

**Leighton Andrews:** Pan gewch gyfle i ddarllen fy narlith, gwelwch fod darn sylweddol ohoni'n rhoi sylw i ymchwil sy'n gystadleuol ar lefel ryngwladol, ac yr wyf yn llongyfarch prifysgolion Cymru ar rai enghreifftiau penodol o ymchwil sy'n gystadleuol ar lefel ryngwladol. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod angen inni ddenu rhagor o gyllid gan gynghorau ymchwil i Gymru; nid ydym yn cael yr holl gyllid y gallem ei gael. Felly, rhaid i ran o'r agenda gynnwys rhagor o gydweithredu rhwng ymchwilwyr mewn gwahanol sefydliadau

of examples of how academics in a variety of disciplines are doing that and how higher education institution managements need to follow the lead of their own academics.

In respect of the funding gap that you spoke about between England and Wales, I note that the UK Government announced £200 million of cuts in higher education funding in England this week, so I do not know what the current figures are, if there are any, for a funding gap between England and Wales.

addysg uwch. Rhoddais nifer o enghreifftiau o'r ffordd y mae academyddion mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau'n gwneud hynny, a sut mae angen i dimau rheoli sefydliadau addysg uwch ddilyn esiampl eu hacademyddion eu hunain.

O ran y bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr yr oeddech yn sôn amdano, sylwaf fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi toriadau gwerth £200 miliwn yng nghyllid addysg uwch yn Lloegr yr wythnos hon, felly ni wn beth yw'r ffigurau presennol, os oes rhai, ar gyfer bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr.

### **Cwestiwn Brys Urgent Question**

#### **Refferendwm Referendum**

**Alun Davies:** What discussions have Welsh Ministers had with UK Ministers about implementing the National Assembly's decision to request the holding of a referendum under the Government of Wales Act 2006? EAQ(3)2924(FM)

**Alun Davies:** Pa drafodaethau mae Gweinidogion Cymru wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch gweithredu penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i wneud cais am gynnal refferendwm dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006? EAQ(3)2924(FM)

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** Thank you for the question. The First Minister and I raised this issue with the Secretary of State for Wales and the Prime Minister at our first meeting with them. We made it clear that our preference was for a referendum in October of this year.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Diolch am y cwestiwn. Cododd y Prif Weinidog a minnau y mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Weinidog y DU yn ein cyfarfod cyntaf â hwy. Gwnaethom yn glir mai ein dewis oedd cael refferendwm ym mis Hydref eleni.

**Alun Davies:** Thank you for that response, Deputy First Minister. I am sure that many in this Chamber and elsewhere were shocked to hear the Prime Minister's statement in the House of Commons yesterday. Last week, many of us saw the rhetoric of this new Conservative-Liberal Government—a rhetoric of co-operation and respect—and this week we saw the reality, which is a lack of respect and no co-operation at all.

**Alun Davies:** Diolch am eich ymateb, Ddirprwy Brif Weinidog. Yr wyf yn siŵr fod llawer o bobl yn y Siambr hon ac mewn mannau eraill wedi synnu clywed datganiad y Prif Weinidog yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe. Yr wythnos diwethaf gwelodd nifer ohonom rethreg y Llywodraeth Ryddfrydol-Geidwadol newydd hon—rhethreg am gydweithredu a pharch—a'r wythnos hon gwelsom realiti'r sefyllfa, sef diffyg parch a dim cydweithredu o gwbl.

Many of us were disappointed with the tone of the Prime Minister's announcement. He said that he would allow us to have a referendum—that was very big of him; the

Yr oedd nifer ohonom yn siomedig â thôn datganiad Prif Weinidog y DU. Dywedodd y byddai'n caniatáu inni gael refferendwm—chwarae teg iddo; mae'r ddeddfwriaeth yn

legislation gives us the right to a referendum—before going on to state that he would be deciding the date for the referendum, and that it would be sometime next year. This throws aside all the protocols and the agreements that I know of between the Government here and the Government in London. There has to be a way of resolving these issues, Deputy First Minister. In February, there was agreement across the whole Chamber on this issue. I assume that, today, others will have changed their minds on this issue, as they have on other issues over the last few weeks. Deputy First Minister, I hope that the Assembly Government will respond to this, and I hope that you will be having urgent discussions with the Wales Office and the Prime Minister to resolve this absolute crisis of confidence in the new Government.

**The Deputy First Minister:** It is extremely disappointing that the Prime Minister has announced, without prior warning, that he believes that the referendum should be held next year. It is right, as I think you suggested in your question, Alun, that we should continue our discussions on this matter with the Secretary of State for Wales. The First Minister and I have agreed to meet with her the week after the recess.

**Nick Bourne:** I am grateful for the response of the Deputy First Minister. I assume that the First Minister is otherwise engaged, because I know that he would be able to cast light on the discussions that he has had with the outgoing Secretary of State for Wales. The Deputy First Minister will be aware of my consistent support for an early referendum, and I hope that he will confirm that. He will know that the leader of the Welsh Liberal Democrats and I both urged, at an early stage, movement from the then Secretary of State to get things moving and to rule out a date for the referendum next year—specifically, the date of the Assembly election, something that the All-Wales Convention recommends. It recommends that there should not be a referendum within three months of the Assembly election date. I agree with that point, which was made by a convention set up by the Assembly Government.

rhoi inni'r hawl i gael refferendwm—cyn mynd ymlaen i ddweud y byddai'n penderfynu'r dyddiad ar gyfer y refferendwm, ac y byddai rywbyrd y flwyddyn nesaf. Mae hynny'n diystyru'r holl brotocolau a'r cytundebau y gwn i amdanant rhwng y Llywodraeth yma a'r Llywodraeth yn Llundain. Rhaid bod rhyw ffordd i ddatrys y problemau hyn, Ddirprwy Brif Weinidog. Ym mis Chwefror yr oedd pawb ar draws y Siambr gyfan yn gytûn ar y mater hwn. Cymeraf y bydd eraill, heddiw, wedi newid eu meddwl ar y mater hwn, fel y gwnaethant ar faterion eraill dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Ddirprwy Brif Weinidog, gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i hyn, a gobeithio y byddwch yn cael trafodaethau brys gyda Swyddfa Cymru a Phrif Weinidog y DU i ddatrys y diffyg hyder llwyr hwn yn y Llywodraeth newydd.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Mae'n siom aruthrol fod Prif Weinidog y DU wedi cyhoeddi, heb rybudd, ei fod yn credu y dylid cynnal y refferendwm y flwyddyn nesaf. Fel yr awgrymoch yn eich cwestiwn, mi gredaf, Alun, mae'n iawn inni barhau ein trafodaethau ar y mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cytuno i gyfarfod â hi yn ystod yr wythnos ar ôl y toriad.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar am ymateb y Dirprwy Brif Weinidog. Cymeraf fod y Prif Weinidog yn brysur fel arall, oherwydd gwn y byddai'n gallu rhoi goleuni ar y trafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol diwethaf Cymru. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn gwybod fy mod bob amser wedi cefnogi cynnal refferendwm yn gynnar, a gobeithio y bydd yn cadarnhau hynny. Bydd yn gwybod bod arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a minnau wedi mynd ati'n gynnar i annog yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd i ddechrau cael pethau i symud ac i ddiystyru dyddiad y flwyddyn nesaf ar gyfer y refferendwm—ac yn benodol, i ddiystyru dyddiad etholiad y Cynulliad, rhywbeth y mae Confensiwn Cymru Gyfan yn ei argymhell. Mae'n argymhell na ddylid cynnal refferendwm o fewn tri mis i ddyddiad etholiad y Cynulliad. Cytunaf â'r pwynt hwnnw, a wnaed gan gonfensiwn a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.



Let us first trace back what has happened. The former First Minister and the present First Minister will know that I urged the setting up of a 'yes' campaign from a very early stage, so that there would be early movement. Long after this spat about the date—and it is a spat—has passed, there is the important point of delivering a 'yes' vote, which I think that most, if not all, of us here want. That is what is important. Therefore, everybody needs to get behind that, because it is what is really important in terms of delivering the vote.

I put the point to the Deputy First Minister that he will know that the Electoral Commission wrote to all party leaders, including him and the First Minister, setting out the timetable that, in its view, has to be followed. This was a letter dated 10 February. It said that the commission needed 10 weeks to consult on a question; that was the time given by the commission, which is an independent body set up by your Government. I have no complaint about that, but it is an independent, arm's-length body, and we cannot disagree with what it says, willy-nilly, without the risk of calls for a judicial review from people on either side of the argument, or people on neither side of the argument. The commission has also said—and this is again a point made by the All-Wales Convention—that there needs to be a minimum campaign period of 10 weeks, and a maximum period of six months. If you add those two 10-week periods together, you already have a period of 20 weeks. I bemoan the fact that no work seems to have been done by the outgoing Secretary of State. He will be aware that the BBC has confirmed that it has submitted a freedom of information request, which will disclose all evidence relating to the relevant correspondence. Had work commenced on that question, and then been held up for the general election before recommencing, an October or November referendum would be deliverable.

Alun Davies referred to the respect agenda earlier, but I am disappointed by his tone. Presumably, he wants a 'yes' vote, but that

Yn gyntaf, gadewch inni olrhain yr hyn sydd wedi digwydd. Bydd cyn-Brif Weinidog Cymru a'r Prif Weinidog presennol yn gwybod imi bwysu am sefydlu ymgyrch 'ie' yn gynnar iawn, fel y byddai modd symud yn gynnar. Ymhell wedi i'r ffræ hon am y dyddiad—a ffræ ydyw—ddod i ben, bydd gennym y gwaith pwysig o sicrhau pleidlais 'ie', rhywbeth y mae'r rhan fwyaf ohonom, os nad pawb, yma am ei gael. Dyna sy'n bwysig. Felly, mae angen i bawb gefnogi hynny, oherwydd dyna sy'n bwysig mewn gwirionedd o ran sicrhau'r bleidlais.

Dywedaf wrth y Dirprwy Brif Weinidog y bydd yn gwybod bod y Comisiwn Etholiadol wedi ysgrifennu at arweinwyr pob plaid, gan ei gynnwys ef a'r Prif Weinidog, i egluro'r amserlen y mae'n rhaid ei dilyn, ym marn y comisiwn. Y dyddiad ar y llythyr hwnnw oedd 10 Chwefror. Yr oedd y llythyr yn dweud bod angen 10 wythnos ar y comisiwn i ymgynghori ar gwestiwn; dyna'r cyfnod a nodwyd gan y comisiwn, sy'n gorff annibynnol a sefydlwyd gan eich Llywodraeth chi. Nid wyf yn cwyno ynghylch hynny, ond mae'n gorff annibynnol, hyd braich, ac ni allwn anghytuno'n ddifeddwl â'r hyn a ddywed heb fod perygl i bobl ar y naill ochr a'r llall i'r ddadl, neu bobl nad ydynt ar y naill ochr na'r llall, alw am adolygiad barnwrol. Mae'r comisiwn hefyd wedi dweud—ac mae hwn eto'n bwynt a wnaed gan Gonfensiwn Cymru Gyfan—fod angen cyfnod ymgyrchu o ddim llai na 10 wythnos a dim mwy na chwe mis. O gymryd y ddau gyfnod hynny o 10 wythnos gyda'i gilydd, mae gennych eisoes gyfnod o 20 wythnos. Yr wyf yn gresynu ei bod yn ymddangos na wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol diwethaf ddim gwaith. Bydd yn gwybod bod y BBC wedi cadarnhau iddo gyflwyno cais rhyddid gwybodaeth a fydd yn datgelu'r holl dystiolaeth am yr ohebiaeth berthnasol. Pe bai gwaith wedi dechrau ar y cwestiwn hwnnw, ac wedi'i atal wedyn ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyn ailddechrau, byddai modd cynnal refferendwm ym mis Hydref neu fis Tachwedd.

Yn gynharach cyfeiriodd Alun Davies at yr agenda ar barch, ond yr wyf yn siomedig â thôn yr hyn a ddywedodd. Cymeraf ei fod am

could only be delivered by a broad coalition of forces here. Many people on my benches, myself aside, have shown incredible courage in pinning their colours to the mast and working for a 'yes' vote in parts of Wales that have not previously delivered a 'yes' vote. Let us be clear about that. You will know that, in terms of delivering that 'yes' vote, it is important that we adhere to the periods stated in the principles set out by the Electoral Commission and by the convention. If we had had that early start, I think that we could have delivered that much more easily.

gael pleidlais 'ie', ond dim ond drwy gynghrair eang o rymoedd yn y fan hon y gellir cyflawni hynny. Mae llawer o bobl ar fy meinciau i, heblaw amdanaf fi, wedi bod yn rhyfeddol o ddewr yn mynegi eu barn yn glir ac yn gweithio dros bleidlais 'ie' mewn rhannau o Gymru lle na chafwyd pleidlais 'ie' o'r blaen. Gadewch inni fod yn glir ynghylch hynny. O ran sicrhau'r bleidlais 'ie' honno, gwyddoch ei bod yn bwysig inni gadw at y cyfnodau a bennir yn yr egwyddorion a gyflwynwyd gan y Comisiwn Etholiadol a chan y confensiwn. Pe baem wedi dechrau'n gynnar, credaf y byddai wedi bod yn llawer haws inni gyflawni hynny.

3.10 p.m.

There are technical issues that have to be dealt with. The Secretary of State and the Prime Minister have both been here and discussed these matters with party leaders. In the Assembly's 10 years, Gordon Brown, as Chancellor or Prime Minister, never came near this place. Within a week of becoming Prime Minister, David Cameron was here meeting all the party leaders and the Presiding Officer to discuss these things. He was told that it was unlikely, because of the Electoral Commission guidelines, that this could be delivered within the time frame set out for the autumn; it is not impossible, but very unlikely. That remains the position. I spoke to the Secretary of State last night and this morning. It is unlikely; it is not impossible, but it is unlikely. The Prime Minister did not make an announcement; he gave an answer to a question, which I have in front of me. It is not what the Member has just suggested. The Prime Minister said,

Mae yna faterion technegol y mae'n rhaid ymdrin â hwy. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidog y DU ill dau wedi bod yma ac wedi trafod y materion hyn gydag arweinwyr y pleidiau. Yn ystod y 10 mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad, ni fu Gordon Brown erioed ar gyfyl y lle hwn, fel Canghellor nac fel Prif Weinidog. Cyn pen wythnos ar ôl dod yn Brif Weinidog, yr oedd David Cameron yma'n cyfarfod ag arweinwyr pob plaid ac â'r Llywydd i drafod y pethau hyn. Dywedwyd wrtho ei bod yn annhebygol, oherwydd canllawiau'r Comisiwn Etholiadol, y gellid cyflawni hyn o fewn yr amserlen a bennwyd ar gyfer yr hydref; nid yw'n amhosibl, ond mae'n annhebygol iawn. Dyna'r sefyllfa o hyd. Bûm yn siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol neithiwr a'r bore yma. Mae'n annhebygol; nid yw'n amhosibl, ond mae'n annhebygol. Ni wnaeth y Prif Weinidog gyhoeddiad; ateb cwestiwn a wnaeth, ac mae'r ateb hwnnw gennyf o'm blaen. Ni ddywedodd yr hyn y mae'r Aelod newydd ei awgrymu. Dywedodd y Prif Weinidog,

'What we are going to do is allow the referendum to go ahead that was actually rather held up by the last Government'.

Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yw caniatáu i'r refferendwm, a gafodd ei arafu braidd gan y Llywodraeth ddiwethaf, fynd yn ei flaen.

The Member did not mention that. It was held up by the last Government.

Ni chrybwyllodd yr Aelod hynny. Cafodd y refferendwm ei arafu gan y Llywodraeth ddiwethaf.

'So yes, a date will be named for that referendum and I believe that it should be

Bydd, felly, fe fydd dyddiad yn cael ei bennu ar gyfer y refferendwm hwnnw, a chredaf y

held next year.’

If we can do it legally and constitutionally within the time frame for delivering it this autumn that can happen. However, that is something that must be demonstrated. Otherwise, we will end up in court, and that is in nobody’s interest. However, I come back to the basic point, which I put to the Deputy First Minister, who knows my good intentions and those of my group in the Assembly: what we need is a broad coalition of support from all parties. I wrote again to the First Minister and the Deputy First Minister—I can see him quite generously nodding—last week urging that we get the ‘yes’ campaign moving, with representatives from all sides. We will need the support of the previous First Minister, and I know from private conversations with him that he has not hung up his boots; he is very willing to help and campaign. We will need Rhodri Morgan, we will need Dafydd Wigley, we will need Mike German; we need a broad coalition of support, but let us not get hung up on the date. Let us do what we can to get an early date, yes, but only if it is legally deliverable, and then let us get on with a campaign and not be thrown by Alun Davies’s attempts to win Blaenau Gwent. Let us get on with the real job in hand, which is winning the ‘yes’ vote.

**The Deputy First Minister:** There are a number of points there that I will address immediately. The first is that, yes, it is true to say that you, Nick, have indicated your preference for an early vote on the referendum—in October. Yes, both the First Minister and I received a letter from you, and, yes, there will be a meeting arranged with you and Kirsty Williams fairly soon. You have put that information about the letter in the public domain, and my response to you is that, yes, there will be a meeting. I understand the point that you are making, but the difficulty, Nick—and it is a fair point for us to make—is that we had a meeting with the Secretary of State and the Prime Minister at which they agreed to reflect on some of the points that we put to them.

dylid ei gynnal y flwyddyn nesaf.

Os gallwn ei wneud yn gyfreithlon ac yn gyfansoddiadol o fewn yr amserlen ar gyfer ei gynnal yn yr hydref, gall hynny ddigwydd. Fodd bynnag, rhaid dangos bod modd gwneud hynny. Fel arall, byddwn yn y llys, ac ni fydd hynny o fudd i neb. Fodd bynnag, dof yn ôl at y pwynt sylfaenol a godais gyda’r Dirprwy Brif Weinidog, sy’n gwybod am fy mwriadau da i, a bwriadau da fy ngrŵp yn y Cynulliad: yr hyn y mae arnom ei angen yw cynghrair eang o gefnogaeth gan bob plaid. Ysgrifennais eto at Brif Weinidog Cymru a’r Dirprwy Brif Weinidog—fe’i gwelaf yn nodio’i ben yn haelfrydig—yr wythnos diwethaf yn pwyso am roi’r ymgyrch ‘ie’ ar waith, gyda chynrychiolwyr o bob ochr. Bydd arnom angen cefnogaeth cyn-Brif Weinidog Cymru, a gwn o sgysiau preifat nad yw wedi rhoi’r gorau iddi; mae’n barod iawn i helpu ac i ymgyrchu. Bydd arnom angen Rhodri Morgan, bydd arnom angen Dafydd Wigley, bydd arnom angen Mike German; mae arnom angen cynghrair eang o gefnogaeth, ond ni ddylem boeni’n ormodol am y dyddiad. Gadewch inni wneud yr hyn a allwn i gael dyddiad cynnar, ar bob cyfrif, ond dim ond os gellir gwneud hynny’n gyfreithlon. Yna gadewch inni fwrw ymlaen â’r ymgyrch a pheidio â chael ein taflu oddi ar ein hechel gan ymdrechion Alun Davies i ennill Blaenau Gwent. Gadewch inni fwrw ymlaen â’r gwaith go iawn sydd o’n blaen, sef ennill y bleidlais ‘ie’.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwnaed nifer o bwyntiau yr hoffwn ymdrin â hwy’n syth. Y cyntaf yw ei bod yn wir dweud i chi, Nick, ddangos y byddai’n well gennyh gael pleidlais gynnar ar y refferendwm—ym mis Hydref. Do, cafodd y Prif Weinidog a minnau lythyr gennyh, a bydd, bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda chi a Kirsty Williams yn weddol fuan. Yr ydych wedi gwneud y wybodaeth honno am y llythyr yn wybodaeth gyhoeddus, a’m hymateb ichi yw bydd, fe fydd cyfarfod. Deallaf y pwynt yr ydych yn ei wneud, ond yr anhawster, Nick—ac mae’n bwynt teg inni ei wneud—yw inni gael cyfarfod gyda’r Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidog y DU ac iddynt gytuno yn y cyfarfod hwnnw i feddwl am rai o’r pwyntiau y bu inni eu codi gyda hwy.

The Secretary of State has made it clear that she believes that there are difficulties in achieving the date in October, and it is true that that was said in the meeting. However, we were told that that information would come back to us, and that there would be a dialogue with us. What was disappointing—and I put it no stronger than that—was that, for some reason, the Prime Minister chose to make his views about that public in the House of Commons yesterday. Had he said in response to that question, ‘Yes, there will be a referendum, and the date of that we will discuss with the Welsh Assembly Government’, that would have been a better way for us to proceed. You have made it clear that neither the Prime Minister nor the Secretary of State has said that a referendum is now more likely next year because of the timescale—neither has actually ruled out an October date. Actually, Nick, the Prime Minister has almost done that; I think that we have to accept that. He said,

‘I believe that it should be held next year’.

That is almost saying that it will not be held in October. However, let us make it clear: we have expressed a preference for October; I think that you, Nick, have expressed a preference for October; the Leader of the Welsh Liberal Democrats has expressed a preference for October; the Government has made that preference clear. Why do we not all now cool down and have a meeting with the Secretary of State when we meet again after the recess to agree whether that date can now be achieved?

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch ichi, Ddirprwy Brif Weinidog, am y ffordd resymol yr ydych wedi ymateb i'r mater hwn. Mae'n fater a all godi'r emosiynau. Wrth reswm, mae tuedd mewn sefyllfa o'r fath i bleidiau gwleidyddol feio ei gilydd am unrhyw oedi neu rwystrau rhag cynnal y refferendwm hwn ym mis Hydref.

Fel y dywedasoch, ac fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid, mae unoliaeth barn yn y Cynulliad mai'r hydref yw'r amser

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud yn glir ei bod yn credu bod anawsterau o ran cael dyddiad ym mis Hydref, ac mae'n wir i hynny gael ei ddweud yn y cyfarfod. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai'r wybodaeth honno'n dod yn ôl atom, ac y byddent yn trafod gyda ni. Yr hyn a oedd yn siomedig—ac ni ddefnyddiaf eiriau cryfach na hynny—oedd bod y Prif Weinidog, am ryw reswm, wedi dewis datgan ei farn am hynny yn gyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ddoe. Pe bai wedi dweud, wrth ymateb i'r cwestiwn hwnnw, ‘Bydd, fe fydd refferendwm, a byddwn yn trafod y dyddiad gyda Llywodraeth y Cynulliad’, byddai wedi bod yn ffordd well inni symud ymlaen. Yr ydych wedi dweud yn glir nad yw'r Prif Weinidog na'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud ei bod yn awr yn fwy tebygol y bydd refferendwm y flwyddyn nesaf oherwydd yr amserlen—nid yw'r naill na'r llall wedi diystyru dyddiad ym mis Hydref. Mewn gwirionedd, Nick, mae'r Prif Weinidog wedi gwneud hynny bron iawn; credaf ei bod yn rhaid inni dderbyn hynny. Dywedodd,

Credaf y dylid ei gynnal y flwyddyn nesaf.

Mae hynny'n agos iawn at ddweud na fydd yn cael ei gynnal ym mis Hydref. Fodd bynnag, gadewch inni egluro: yr ydym wedi dweud ein bod o blaid mis Hydref; credaf eich bod chi, Nick, wedi dweud eich bod o blaid mis Hydref; mae Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi dweud ei bod o blaid mis Hydref; mae'r Llywodraeth wedi dweud yn glir mai dyna a gaiff ei ffafrio. Beth am i bob un ohonom bwylllo'n awr, a chael cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol pan fyddwn yn cwrdd eto ar ôl y toriad, i gytuno a yw'r dyddiad hwnnw'n bosibl yn awr?

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you, Deputy First Minister, for the reasonable way in which you have responded to this issue. It is an issue that can raise emotions. Of course, there is a tendency in such a situation for political parties to blame each other for any delay or obstacles to holding the referendum in October.

As you said, and as the leader of the opposition said, there is unanimity in the Assembly that the autumn is the best time to

gorau i gynnal y refferendwm. Ceir consensws hefyd i ymgyrchu o blaid sicrhau ein bod yn cael ymateb cadarnhaol i gwestiwn y refferendwm. Credaf fod yn rhaid inni gyd ddisgyblu ein hunain a pheidio â cheisio sgorio pwyntiau gwleidyddol yn y sefyllfa hon ond uno gyda'n gilydd i geisio sicrhau bod y refferendwm yn cael ei gynnal ym mis Hydref, ac, fel y dywedwch, ein bod yn trafod gyda Llywodraeth San Steffan i weld a ellir goresgyn unrhyw rwystrau sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'n rhaid inni ddweud yn gwbl glir mai llais unedig y sefydliad gwleidyddol hwn ym mae Caerdydd yw ein bod am weld y refferendwm yn cael ei gynnal yn yr hydref a'n bod i gyd yn dymuno gweld ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn a osodir yn y refferendwm hwnnw.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch yn fawr am y pwyntiau hynny, Rhodri. Mae'n glir y dylem atgoffa ein hunain, fel Cynulliad, mai'r hyn a ddywedasom yn y ddadl a oedd yn gweithredu'r glicied, os cofiwch, ar gyfer y refferendwm, oedd y byddem yn dymuno cadw'n opsiynau yn agored ynglŷn â'r dyddiad ar gyfer refferendwm. Yr oedd dwy o'r pleidiau, yn sicr yn y Cynulliad, wedi ei gwneud yn glir na fyddent yn dymuno cynnal y refferendwm ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad. Felly, bu'r Prif Weinidog a minnau yn eithaf clir yn y ddadl ein bod yn derbyn bod problemau ymarferol ynglŷn â chynnal y refferendwm ar yr un dyddiad. Felly, dyna lle'r oeddem wedi'i gyrraedd. Anfonwyd llythyr at y cyn Ysgrifennydd Gwladol ar y sail ein bod yn cadw ein hopsiynau yn agored, a oedd yn cynnwys refferendwm ym mis Hydref, ond nid oedd yn dweud bod rhaid iddo gael ei gynnal ym mis Hydref. Mae cytundeb 'Cymru'n Un' yn eithaf clir ynglŷn â'r ffenestr o ran pryd y gallwn gynnal y refferendwm.

Felly, awgrymaf ein bod yn cael y trafodaethau hyn yn awr gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yr wythnos ar ôl wythnos nesaf, ac unwaith y ceir eglurder ar y dyddiad y gallwn ni oll gytuno arno ar gyfer cynnal refferendwm, symudwn ymlaen â'r ymgyrch i sicrhau pleidleisiau.

hold the referendum. There is also a consensus to campaign in favour of ensuring that we get a positive response to the referendum question. I believe we must all discipline ourselves and not try to score political points in this situation, but come together to try to ensure that the referendum is held in October, and, as you say, that we discuss with the Westminster Government whether any obstacles that currently exist can be overcome. We must say clearly that the unified voice of this political institution in Cardiff bay is that we want the referendum to be held in the autumn and that we all wish to see a positive response to the question set out in that referendum.

**The Deputy First Minister:** Thank you for those points, Rhodri. It is clear that we should remind ourselves, as an Assembly, that what we said in the debate which implemented the trigger, if you remember, for the referendum was that we would want to keep our options open on the date for a referendum. Two parties, certainly in the Assembly, have made it clear that they would not want the referendum held on the same day as the Assembly election. Therefore, the First Minister and I are pretty clear that we accept the argument that there are practical problems involved in holding the referendum on the same date. So, that is where we had reached. A letter was sent to the former Secretary of State on the basis that we keep our options open, which included a referendum in October, but it did not say that it had to be held in October. The 'One Wales' agreement is quite clear about the window of opportunity for holding the referendum.

Therefore, I suggest that we have these discussions with the Secretary of State the week after next, and when there is clarity on a date that we can all agree on for holding a referendum, we will move forward with the campaign to secure votes.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.14 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.14 p.m.*

**Kirsty Williams:** Thank you for the statement, Deputy First Minister. What discussions have taken place in the Welsh Assembly Government to lead you to the conclusion now that the autumn is the preferred date of the Welsh Assembly Government for the referendum? You will be aware that, as you have just repeated now, prior to that meeting with the Secretary of State, the Welsh Assembly Government had not put forward a preferred date, despite much urging by myself that it should be the autumn. Therefore, I would be grateful to have an understanding as to why the Assembly Government, at this stage, having previously not wanted to commit itself to a preferred date, has now decided to do so, and that preferred date is the autumn.

I welcome your commitment to get back around the table for discussions with the Secretary of State to look—now that we are all agreed that it should be the autumn—at the practical steps that need to be taken to make that a reality. Do you agree that in order to have the referendum in the autumn, the Order in draft will have to be approved by the Assembly, the House of Commons, and the House of Lords, and be agreed by the Privy Council when it meets on 21 July? Do you agree that that is the timescale that we now have to work to in terms of the Order? Furthermore, the draft Order is required, by law, to be consulted upon—in particular, a general consultation on the principle of the referendum itself needs to be carried out, and a specific consultation on the wording of the referendum needs to be carried out by statute. There are eight weeks until the Privy Council will meet on July 21. If it is not agreed on July 21, I cannot see how it will be possible to have a referendum in the autumn. What consultations have you had with the Electoral Commission on whether the eight weeks between now and the end of the parliamentary term are sufficient for it to carry out the consultation that it says that it needs to do in order to test the wording?

3.20 p.m.

The Electoral Commission cannot undertake that consultation before a form of words for

**Kirsty Williams:** Diolch am eich datganiad, Ddirprwy Brif Weinidog. Pa drafodaethau sydd wedi bod yn Llywodraeth y Cynulliad i'ch arwain i'r casgliad yn awr mai'r hydref yw'r dyddiad y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ffafrio ar gyfer y refferendwm? Gwyddoch, gan eich bod newydd ailadrodd hynny'n awr, nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig dyddiad yr oedd yn ei ffafrio cyn y cyfarfod hwnnw gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, er imi bwysu llawer am gael dyddiad yn yr hydref. Felly, byddwn yn ddiolchgar o allu deall pam mae Llywodraeth y Cynulliad, ar hyn o bryd, ar ôl bod yn gyndyn o ymrwymo o'r blaen i ddyddiad yr oedd yn ei ffafrio, wedi penderfynu gwneud hynny'n awr, gan ddweud mai'r hydref yw'r dyddiad y mae'n ei ffafrio.

Croesawaf eich ymrwymiad i gael trafodaethau pellach gyda'r Ysgrifennydd Gwladol i edrych—gan ein bod i gyd yn awr yn gytûn y dylid ei gynnal yn yr hydref—am y camau ymarferol y mae angen eu cymryd i wireddu hynny. A ydych yn cytuno, er mwyn cael y refferendwm yn yr hydref, y bydd yn rhaid i ddrafft y Gorchymyn gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi a chael ei dderbyn gan y Cyfrin Gyngor pan fydd yn cyfarfod ar 21 Gorffennaf? A ydych yn cytuno mai dyna'r amserlen y mae'n rhaid inni weithio iddi o ran y Gorchymyn? At hynny, yn ôl y gyfraith rhaid ymgynghori ar y Gorchymyn drafft—yn benodol, mae angen cynnal ymgynghoriad cyffredinol ar egwyddor y refferendwm ei hun, ac mae angen ymgynghoriad penodol, yn ôl y statud, ar eiriad y refferendwm. Mae wyth wythnos cyn i'r Cyfrin Gyngor gyfarfod ar 21 Gorffennaf. Os na chaiff ei dderbyn ar 21 Gorffennaf, ni allaf weld sut y bydd yn bosibl cynnal refferendwm yn yr hydref. Pa ymgynghori a fu rhyngoch chi a'r Comisiwn Etholiadol ar y cwestiwn a fydd yr wyth wythnos rhwng yn awr a diwedd y tymor seneddol yn ddigon iddo gyflawni'r gwaith ymgynghori y mae'n dweud bod angen iddo'i gyflawni i brofi'r geiriad?

Ni all y Comisiwn Etholiadol ymgymryd â'r gwaith ymgynghori hwnnw cyn i eiriad y

the question is agreed, and I am aware that, last week, the Government sent its preferred wording to the Secretary of State for Wales. You will be aware that those who have already signalled their opposition to a referendum and a 'yes' vote have objected to the wording. Would you agree that it is crucial that we do everything possible to reach agreement on both sides of the argument on the wording of the referendum question? If we get bogged down in issues around the legitimacy of how the question is worded, the issue of whether people should be voting 'yes' or 'no' will be clouded by those questions about the legitimacy of the process. Could you outline what consultations you have had with the previous Secretary of State, prior to your written correspondence with the new Secretary of State—so, between the Assembly passing its resolution in February and the Secretary of State being replaced—with regard to the wording of the referendum question, and, indeed, the nature of the consultation that should be carried out, as required by the Government of Wales 2006? What discussions did you have with regard to the wording in those intervening months?

Finally, as has been stated previously, I am under no illusion as to how difficult it will be to secure a 'yes' vote whenever the referendum is held. I do not believe that a 'yes' vote will be easily won; it will need to be hard-fought campaign. I welcome your commitment to work across the aisle in establishing a politically driven 'yes' campaign. Would you agree that we also need to reach beyond the Chamber and beyond traditional party politics to engage with those people who wish to see a 'yes' vote achieved? What plans do you have to establish that widespread, broad-based campaign that will go out, sell and work hard for that 'yes' vote, whenever the referendum is eventually called?

**The Deputy First Minister:** You asked many detailed questions, which are difficult for me to answer in the Chamber. Those are precisely the kinds of questions that we will need to discuss with the Secretary of State when we meet her the week after next. I will make some general points before I deal with some of the points that you made. First, the

cwestiwn gael ei dderbyn, a gwn i'r Llywodraeth anfon y geiriad y mae'n ei ffafrio at Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr wythnos diwethaf. Gwyddoch fod y rheini sydd eisoes wedi mynegi eu gwrthwynebiad i gynnal refferendwm a chael pleidlais 'ie' wedi gwrthwynebu'r geiriad. A fydddech yn cytuno'i bod yn hollbwysig inni wneud popeth posibl i gael pobl ar y naill ochr a'r llall i'r ddadl i gytuno ar eiriad cwestiwn y refferendwm? Os cawn ein llesteirio gan faterion ynghylch cyfreithlondeb geiriad y cwestiwn, bydd y mater a ddylai pobl fod yn pleidleisio 'ie' neu 'na' yn cael ei gymylu gan y cwestiynau hynny am gyfreithlondeb y broses. A allech amlinellu'r ymgynghori a fu rhyngoch chi a'r Ysgrifennydd Gwladol blaenorol, cyn eich gohebiaeth ysgrifenedig â'r Ysgrifennydd Gwladol newydd—hynny yw, rhwng mis Chwefror, pan basiwyd penderfyniad y Cynulliad, a phan benodwyd yr Ysgrifennydd Gwladol newydd—ar geiriad cwestiwn y refferendwm, ac yn wir, natur yr ymgynghori y dylid ei wneud, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006? Pa drafodaethau a gawsoch am y geiriad yn ystod y misoedd hynny?

Yn olaf, fel y dywedwyd o'r blaen, yr wyf yn sylweddoli'n llawn mor anodd fydd sicrhau pleidlais 'ie' pryd bynnag y cynhelir y refferendwm. Ni chredaf y bydd yn hawdd ennill pleidlais 'ie'; bydd angen ymgyrch galed. Croesawaf eich ymrwymiad i weithio gyda phawb yn y Siambr i gael ymgyrch 'ie' a gaiff ei gyrru'n wleidyddol. A fydddech yn cytuno bod angen hefyd inni ymestyn y tu hwnt i'r Siambr a gwleidyddiaeth plaid draddodiadol i ymgysylltu â'r bobl hynny sy'n dymuno gweld pleidlais 'ie'? Pa gynlluniau sydd gennych i sefydlu'r ymgyrch helaeth ac eang honno a fydd yn mynd allan i werthu'r bleidlais 'ie', ac i weithio'n galed i'w sicrhau, pryd bynnag y caiff y refferendwm ei alw yn y pen draw?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydych wedi gofyn nifer o gwestiynau manwl y mae'n anodd imi eu hateb yn y Siambr. Dyna'r union fathau o gwestiynau y bydd angen inni eu trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol pan fyddwn yn cyfarfod â hi'r wythnos ar ôl y nesaf. Gwnaf rai pwyntiau cyffredinol cyn imi ymdrin â rhai o'r pwyntiau a godwyd

issue is not whether the question satisfies the 'yes' campaign or the 'no' campaign, but whether it is intelligible to the people. It is the people who are important in this referendum. The question needs to be intelligible to them, even if some people on both campaigns may not be entirely happy with every dot and comma.

My second point is that I am sure that you would want to reflect on the use of the words 'a politically driven' campaign, because I think that it would be fatal to have such a campaign. The campaign has to be based on persuading ordinary people to allow the Assembly to have those extra powers. I very much agree with the point that you made that it has to go beyond the Chamber and beyond the politicians here and everywhere. It has to include people who are not involved in party politics, and it has to be broadly based. I think that we are all agreed on that.

When we met the Prime Minister and the Secretary of State, we made it clear that we wanted to keep all options open for the date of the referendum, but we did make it clear that our preference was for it to be held in October. We made that clear to both Cheryl Gillan and David Cameron. We then followed that up with a letter that was sent, together with a question, which made that preference clear. We could be standing on a pinhead, as it were, interpreting what the precise form of words means—what we have said and what Cheryl Gillan and David Cameron have said—but, if you boil it down, we have expressed a preference for a referendum in October; they have made it clear that it will be difficult to achieve that date. We want a meeting with the Secretary of State so that we can bottom that out. I take it from everything that has been said in the Chamber that there is a unanimous view that we would like an October referendum. That seems to me to be the case. So, let us now take that view to the Secretary of State and have those discussions.

I can tell you that the work on the draft Order, in so far as the Assembly lawyers are

gennyach. Yn gyntaf, y broblem yw a yw'r cwestiwn yn ddealladwy i'r bobl, nid a yw'n bodloni'r ymgyrch 'ie' neu'r ymgyrch 'na'. Y bobl sy'n bwysig yn y refferendwm hwn. Mae angen i'r cwestiwn fod yn ddealladwy iddynt hwy, hyd yn oed os na fydd rhai pobl yn y naill ymgyrch a'r llall yn gwbl fodlon efallai â phob dot a choma.

Fy ail bwynt yw fy mod yn siŵr y byddech am ystyried y modd y defnyddir y geiriau ymgyrch 'a gaiff ei gyrru'n wleidyddol', oherwydd credaf mai camgymeriad dybryd fyddai cael ymgyrch o'r fath. Rhaid seilio'r ymgyrch ar ddarbwylllo pobl gyffredin i ganiatáu i'r Cynulliad gael y pwerau ychwanegol dan sylw. Cytunaf yn gryf â'r pwynt a wnaethoch ei bod yn rhaid i'r ymgyrch fynd y tu hwnt i'r Siambr a'r tu hwnt i'r gwleidyddion yma ac ym mhobman. Rhaid iddi gynnwys pobl nad ydynt yn ymwneud â gwleidyddiaeth plaid, a rhaid iddi fod yn ymgyrch eang. Credaf ein bod bob un yn cytuno â hynny.

Yn ein cyfarfod gyda'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol, gwnaethom yn glir ein bod am gadw'r holl opsiynau'n agored ar gyfer dyddiad y refferendwm, ond gwnaethom yn glir ein bod o blaid ei gynnal ym mis Hydref. Gwnaethom hynny'n glir wrth Cheryl Gillan a David Cameron. Yn dilyn hynny, anfonwyd llythyr, ynghyd â chwestiwn, a oedd yn egluro'r hyn yr ydym yn ei ffafrio. Gallem fod yn sefyll ar ben pin, fel petai, yn ceisio dehongli ystyr yr union eiriau a ddefnyddiwyd—yr hyn yr ydym ni wedi'i ddweud a'r hyn y mae Cheryl Gillan a David Cameron wedi'i ddweud—ond, yn y bôn, yr ydym wedi dweud ein bod o blaid refferendwm ym mis Hydref; maent hwy wedi dweud yn glir y bydd yn anodd sicrhau'r dyddiad hwnnw. Yr ydym am gael cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn trafod manylion hynny. Yr wyf yn cymryd, o'r cyfan a ddywedwyd yn y Siambr, mai'r farn unfrydol yw ein bod am weld refferendwm ym mis Hydref. Ymddengys i mi mai dyna'r gwir. Felly, gadewch inni fynd â'r farn honno at yr Ysgrifennydd Gwladol a chael y trafodaethau hynny.

O ran cyfreithwyr y Cynulliad, gallaf ddweud wrthyach fod y gwaith ar y Gorchymyn drafft



concerned, is substantially complete. A lot of work has gone into that; it is simply not true to say that no work has been done. We would now like to take that work and the points that you have raised this afternoon and others to the Secretary of State at that meeting and try to get an agreement on that date. Frankly, once we have a date, we should all unite behind the need for us to get together to put in place a 'yes' campaign.

**Helen Mary Jones:** I will not detain the Chamber for long, because some of my questions have already been addressed. I congratulate the Deputy First Minister on his measured responses to these questions, because, were I him or the First Minister, I would have been less than happy to have heard the response to my reasonable request about the referendum date on the floor of the House of the Commons. You are right to say that we now have to move beyond this. You have taken a positive line with the leaders of the two opposition parties here today. Not all of us would have been able to be quite so calm.

However, there is an important issue of process here. I fully agree that we need to move on, but, when you meet the Secretary of State, will you raise the issue of how the response was made? It may have been unintentional; no-one doubts the goodwill of the Conservative group here in this regard, but, frankly, it was not helpful and I would use the word 'disrespectful' to describe that response being made by the Prime Minister prior to you receiving a letter from the Secretary of State. For future working between the two levels of Government it is important that it is made clear that that type of approach, however inadvertent—to give the Prime Minister the benefit of the doubt—will not be helpful in driving forward a positive partnership, which is what all the communities that we represent expect between the two different coalitions at different levels.

On the meeting that you have committed to have with the leader of the Liberal Democrats and the leader of the Conservative Party, and

wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Mae llawer o waith wedi'i wneud arno; nid yw'n wir o gwbl dweud nad oes dim gwaith wedi'i wneud. Yn awr, hoffem fynd â'r gwaith hwnnw, y pwyntiau a godwyd gennych y prynhawn yma a phwyntiau eraill at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y cyfarfod dan sylw, a cheisio cael cytundeb ar y dyddiad hwnnw. A siarad yn blaen, pan fydd gennym ddyddiad, dylem i gyd ymuno i gefnogi'r angen inni ddod ynghyd i roi ymgyrch 'ie' ar waith.

**Helen Mary Jones:** Nid wyf am gadw'r Siambr yn hir, oherwydd mae rhai o'm cwestiynau eisoes wedi cael sylw. Yr wyf yn llongyfarch y Dirprwy Brif Weinidog ar ei ymatebion pwylllog i'r cwestiynau hyn oherwydd, pe bawn i yn ei le ef neu'r Prif Weinidog, ni fyddwn wedi bod yn hapus o gwbl clywed yr ymateb i'm cais rhesymol am ddyddiad y refferendwm yn cael ei roi ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Yr ydych yn iawn i ddweud ei bod yn rhaid inni symud y tu hwnt i hynny'n awr. Mae eich agwedd ar arweinwyr y ddwy wrthblaid yma heddiw wedi bod yn gadarnhaol. Nid pawb ohonom a fyddai wedi gallu bod mor bwylllog.

Fodd bynnag, mae yma fater pwysig o broses. Cytunaf yn llwyr fod angen inni symud ymlaen, ond pan fyddwch yn cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol a wnewch chi godi'r mater sut y rhoddwyd yr ymateb? Hwyrach ei fod yn anfwriadol; nid oes neb yn amau ewyllys da y grŵp Ceidwadol yma yn y cyswllt hwn, ond, a dweud y gwir, nid oedd o gymorth a byddwn yn defnyddio'r gair 'amharchus' i ddisgrifio'r ffaith fod y Prif Weinidog wedi rhoi'r ymateb hwnnw cyn i chi gael llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Er mwyn cydweithio rhwng y ddwy lefel o Lywodraeth yn y dyfodol, mae'n bwysig gwneud yn glir na fydd dull gweithredu o'r fath, waeth pa mor anfwriadol—i feddwl y gorau o'r Prif Weinidog—o gymorth wrth ddatblygu partneriaeth gadarnhaol, sef yr hyn y mae'r holl gymunedau yr ydym yn eu cynrychioli yn ei ddisgwyl rhwng y ddwy wahanol glymblaid ar wahanol lefelau.

O ran y cyfarfod yr ydych wedi ymrwymo i'w gael gydag arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ac arweinydd y Blaid

further to your responses to Kirsty Williams and to Nick Bourne, will you be in a position to discuss with them the preparatory work for a 'yes' campaign? I concur with the view that we do not want to start a campaign too soon and it is difficult to start it when we do not yet know the date of the referendum. However, it would be helpful for the Chamber to be reassured that the Government is giving consideration to how such a campaign could be put forward and I very much welcome, in asking you this question, your commitment to ensure that that is not only a cross-party campaign, but a cross-community one, because, as others have said, this fight will not happen in the Chamber, but in communities throughout Wales.

Finally, in your discussions with the leader of the opposition and the leader of the Welsh Liberal Democrats here, will you take the opportunity to clarify with the leader of the opposition his view about holding a referendum in March? I may have misunderstood what I heard him say just now, and my apologies, through the Deputy Presiding Officer, if I did, but I thought that I heard him say that he supported the view that a referendum should not be held within three months of an Assembly election. We are all of one view here that our preference would be for an autumn referendum, but should that not be successful, will you take the opportunity in that meeting to clarify with the leader of the opposition that, should we not be successful in persuading the Government at Westminster to give this sufficient urgency for us to get the October referendum that we all seek, he will not rule out a March referendum given the proximity to the Assembly election?

3.30 p.m.

**The Deputy First Minister:** You are right that we would have expected any response to the request that we had made to be conveyed to us first. I made that absolutely clear in response to Nick Bourne and to Alun Davies. In terms of Government responses, we would always expect to be afforded that courtesy, and I have made that point on three occasions and I hope that the message will be taken

Geidwadol, ac i ychwanegu at eich ymatebion i Kirsty Williams a Nick Bourne, a fyddwch mewn sefyllfa i drafod y gwaith paratoi ar gyfer ymgyrch 'ie' gyda hwy? Yr wyf yn cytuno â'r farn nad ydym am ddechrau ymgyrch yn rhy fuan, ac mae'n anodd dechrau ymgyrch heb wybod dyddiad y refferendwm eto. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i'r Siambr gael sicrwydd fod y Llywodraeth yn ystyried sut y gellid cyflwyno ymgyrch o'r fath. Wrth ofyn y cwestiwn hwn ichi, croesawaf yn fawr eich ymrwymiad i sicrhau nad ymgyrch drawsbleidiol yn unig mohoni, ond y bydd yn ymgyrch drawsgymunedol, oherwydd, fel y mae eraill wedi sôn, nid yn y Siambr y bydd y frwydr hon yn digwydd ond mewn cymunedau ledled Cymru.

Yn olaf, yn eich trafodaethau gydag arweinydd yr wrthblaid ac arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yma, a wnewch chi fanteisio ar y cyfle i ofyn i arweinydd yr wrthblaid egluro'i farn am gynnal refferendwm ym mis Mawrth? Efallai fy mod wedi camdeall yr hyn a ddywedodd eiliad yn ôl, a hoffwn ymddiheuro, drwy'r Dirprwy Lywydd, os wyf wedi camdeall. Ond credais iddo ddweud ei fod yn cefnogi'r farn na ddylid cynnal refferendwm o fewn tri mis i etholiad y Cynulliad. Yr ydym i gyd yma o'r un farn, sef y byddem o blaid cynnal refferendwm yn yr hydref, ond os na fydd hynny'n llwyddiannus, ac os na lwyddwn i ddarbwylo'r Llywodraeth yn San Steffan i roi digon o bwys ar y mater inni gael refferendwm ym mis Hydref, fel yr ydym i gyd yn ei ddymuno, a wnewch chi fanteisio ar y cyfle yn y cyfarfod hwnnw i ofyn i arweinydd yr wrthblaid gadarnhau na fydd yn diystyru cynnal refferendwm ym mis Mawrth, o gofio mor agos fydd hynny i etholiad y Cynulliad?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydych yn iawn wrth ddweud y byddem wedi disgwyl i unrhyw ymateb i'r cais a wnaed gennym gael ei gyfleu i ni yn y lle cyntaf. Dywedais hynny'n gwbl glir wrth ymateb i Nick Bourne ac Alun Davies. O ran ymatebion y Llywodraeth, byddem bob amser yn disgwyl iddi ddangos y cwrteisi hwnnw. Yr wyf wedi gwneud y pwynt hwnnw deirgwaith, a

back.

In terms of meeting the Secretary of State for Wales, we will be discussing the timetable with her. What is quite interesting here, as Nick alluded, is that although they have made it clear that it is difficult, they have not said that it is impossible, and therefore we need to explore exactly what that means for an October referendum. We must make the point—and everyone will understand this—that the Government here cannot get involved in a ‘yes for Wales’ campaign. Therefore, when we meet, it will be as party leaders. The four of us will meet, and it is for the political parties then to decide on the issue of a ‘yes for Wales’ campaign, not the Government itself. We need to make that distinction clear. As you say, it has to be a cross-party campaign and a cross-community campaign. You put it very well, Helen, if I may so; that is the nature of this campaign—it has to be a broadly based community campaign.

In relation to whether or not a referendum can be held next year, if it is not possible in October, the ‘One Wales’ agreement specifies the latest date on which an election could be held, and we have made it clear that we wanted to keep all those options open. The Assembly will then need an opportunity to consider all those dates.

**The Deputy Presiding Officer:** All the party spokesmen have now spoken, so I ask the remaining speakers to be concise and raise new issues.

**David Lloyd:** Diolch am eich amynedd yn fy ngalw i siarad. Croesawaf ddatganiad y Dirprwy Brif Weinidog y prynhawn yma a'r modd pwrpasol y mae wedi ymateb i'r cwestiwn gerbron. Mae'n bwysig nodi pa mor bwysig yw codi proffil materion Cymreig gyda'r glymblaid newydd mewn dinas arall. Mae'r mater hwn yn allweddol i ni, ac mae'n werth pwysleisio wrth y glymblaid yn Llundain ei fod yn allweddol i bobl Cymru hefyd. Af ar ôl un manylyn sydd

gobeithio y caiff y neges honno ei throsglwyddo.

O ran cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, byddwn yn trafod yr amserlen gyda hi. Yr hyn sy'n eithaf diddorol, fel y crybwyllodd Nick, yw, er iddynt egluro y bydd yn anodd, nid ydynt wedi dweud y bydd yn amhosibl, ac felly mae angen inni archwilio beth yn union y mae hynny'n ei olygu o safbwynt cael refferendwm ym mis Hydref. Rhaid inni wneud y pwynt—a bydd pawb yn deall hyn—na all y Llywodraeth yn y fan hon fod yn rhan o ymgyrch ‘ie dros Gymru’. Felly, pan fyddwn yn cyfarfod, byddwn yn gwneud hynny fel arweinwyr pleidiau. Bydd y pedwar ohonom yn cyfarfod, a'r pleidiau gwleidyddol ac nid y Llywodraeth ei hun fydd yn gorfod penderfynu ynghylch ymgyrchu dros bleidlais ‘ie dros Gymru’. Mae angen gwneud y gwahaniaeth hwnnw'n glir. Fel y dywedwch, rhaid iddi fod yn ymgyrch drawsbleidiol ac yn ymgyrch draws gymunedol. Mynegwyd hynny'n dda gennych iawn, Helen, os caf ddweud; dyna yw natur yr ymgyrch hon—rhaid iddi fod yn ymgyrch gymunedol eang.

O ran a oes modd cynnal refferendwm y flwyddyn nesaf ai peidio, os na fydd yn bosibl ym mis Hydref, mae cytundeb ‘Cymru'n Un’ yn pennu'r dyddiad olaf y gellid cynnal etholiad, ac yr ydym wedi dweud yn glir ein bod am gadw pob un o'r dewisiadau hynny'n agored. Bydd angen cyfle ar y Cynulliad wedyn i ystyried yr holl ddyddiadau hynny.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae llefarwyr pob plaid wedi siarad erbyn hyn, felly, gofynnaf i'r siaradwyr sy'n weddill fod yn gryno a chodi pwyntiau newydd.

**David Lloyd:** Thank you for your patience in calling me to speak. I welcome the Deputy First Minister's statement this afternoon and the purposeful way in which he has responded to the question before us. It is important to note how important it is to raise the profile of Welsh affairs with the new coalition in another city. This is a key issue for us, and it is worth emphasising to the coalition in London that it is also vital to the people of Wales. I will raise one detail which

wedi'i grybwyll, a gofynnaf am eich sylwadau chi, Ddirprwy Brif Weinidog. O'm darlleniad i o rai o'r manylion, gallai'r broses o hyrwyddo'r refferendwm yn yr hydref gael ei hwyluso petai modd symud dyddiad cyfarfod y Cyfrin Gyngor o ddiwedd Gorffennaf i rywbryd ym mis Awst.

Clywsom sôn gan y glymblaid newydd yn Llundain am y posibilrwydd o newidiadau mawr cyfansoddiadol. Yn y cyd-destun hwnnw, beth bynnag fo'r newidiadau mawr hynny yn y pen draw, gobeithiwn y byddai'r mater o symud un cyfarfod o'r Cyfrin Gyngor yn un bach o gymharu. Pa obaith sydd i ni gael symud ar y mater o newid y dyddiad gogyfer cyfarfod y Cyfrin Gyngor?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Os oes un peth nad wyf yn gyfrifol amdano, dyddiadau'r Cyfrin Gyngor yw hwnnw. Ond yn sicr, dyna un o'r materion posibl y bydd angen inni eu trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yr wythnos ar ôl nesaf.

**Bethan Jenkins:** Many of today's questions, especially those from the media, have suggested that this debate has been politicised. Unfortunately, David Cameron himself has politicised it by acting inappropriately and responding at a Westminster level, as opposed to going directly to the First Minister and you as Deputy First Minister, with regard to the date of the referendum. There are reasons why we are calling for an October referendum, and much of that is to do with the fact that when political parties are campaigning against each other, it is very difficult to win a referendum on a single issue. My confusion lies with the Conservatives, in that they are ruling out, or hope to rule out, a referendum on the day of the next Assembly elections, whereas, in 2015, there is now a potential clash between the Assembly elections and the general election. Why can they not be consistent? If they are supporting this agenda in Wales for this election, why are they not supportive when it comes to 2015?

I note that it is not your responsibility to set up the 'yes' campaign, but could we establish some sort of public awareness campaign?

been mentioned, and I ask for your comments, Deputy First Minister. From my reading of some of the details, the process of facilitating the referendum in the autumn could be assisted if the date of the Privy Council meeting was moved from the end of July to sometime in August.

We heard talk by the new coalition in London of the possibility of major constitutional changes. In that context, whatever those great changes ultimately turn out to be, we hope that the issue of moving one meeting of the Privy Council would be minor in comparison. What hope have we of seeing movement on the issue of changing the date for the meeting of the Privy Council?

**The Deputy First Minister:** If there is one thing for which I am not responsible, that is Privy Council dates. However, that is certainly one potential issue that we need to discuss with the Secretary of State the week after next.

**Bethan Jenkins:** Mae llawer o'r cwestiynau heddiw, yn enwedig y rheini gan y cyfryngau, wedi awgrymu bod y ddadl hon wedi mynd yn un wleidyddol. Yn anffodus, mae David Cameron ei hun wedi'i gwneud yn ddadl wleidyddol drwy ymddwyn yn amhriodol ac ymateb i'r cwestiwn ar ddyddiad y refferendwm ar lefel San Steffan, yn hytrach na mynd yn syth at Brif Weinidog Cymru a chithau fel Dirprwy Brif Weinidog. Mae yna resymau pam yr ydym yn galw am refferendwm ym mis Hydref, ac mae a wnelo llawer o hynny â'r ffaith ei bod yn anodd iawn ennill refferendwm ar fater unigol pan fydd pleidiau gwleidyddol yn ymgyrchu yn erbyn ei gilydd. Yr wyf wedi drysu gyda'r Ceidwadwyr, oherwydd maent yn diystyru, neu'n gobeithio diystyru, refferendwm ar ddiwrnod etholiadau nesaf y Cynulliad, ond ei bod yn bosibl, yn 2015, y bydd etholiadau'r Cynulliad a'r etholiad cyffredinol yn digwydd ar yr un diwrnod. Pam na allant fod yn gyson? Os ydynt yn cefnogi'r agenda hon yng Nghymru ar gyfer yr etholiad hwn, pam nad ydynt yn ei chefnogi yn achos 2015?

Sylwaf nad eich cyfrifoldeb chi yw sefydlu'r ymgyrch 'ie', ond a fyddai modd inni sefydlu rhyw fath o ymgyrch i godi ymwybyddiaeth

That would allow people to understand that, while the Electoral Commission is consulting on the 10 weeks for that question, a 'yes' campaign can be set up and start to manoeuvre and mobilise locally. The Secretary of State for Wales is rather confused about the timeline. With the Good Friday agreement in Northern Ireland, for example, there was a pre-legislation referendum, which allowed for the debate to take place after it had gone through Parliament. Therefore, the timelines are something of a red herring in all this.

I seek assurances that we are still calling for an October referendum, as that would be the most realistic time for us to be able to win the debate in Wales.

**The Deputy First Minister:** I should clarify one point. Although the Government cannot set up a Yes for Wales campaign, the political parties that are represented in the Assembly can. We need to distinguish between the various roles. I believe that that will happen when the date has been fixed. I am not in a position to answer on behalf of the Conservatives or explain the fact that they seem to be relaxed that the next but one Assembly election, in 2015, will be held on the same day as the Westminster election. However, the Governments in the three devolved administrations will be making representations to the Government about not holding them on the same day.

y cyhoedd? Byddai hynny'n caniatáu i bobl ddeall bod modd sefydlu ymgyrch 'ie' a bod modd dechrau symud a pharatoi'n lleol, tra bydd y Comisiwn Etholiadol yn ymgynghori ynghylch y cwestiwn am 10 wythnos. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi drysu braidd ynghylch yr amserlen. Yn achos cytundeb Gwener y Groglith yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, cafwyd refferendwm cyn deddfu, a oedd yn golygu bod modd cynnal y ddadl ar ôl i'r cytundeb fynd drwy'r Senedd. Felly, mae yna rywffaint o godi sgwarnogod yn achos yr amserlenni yn y cyswllt hwn.

Gofynnaf am sicrwydd ein bod yn dal i alw am refferendwm ym mis Hydref, gan mai dyna fyddai'r adeg fwyaf realistig inni allu ennill y ddadl yng Nghymru.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Dylwn egluro un pwynt. Er na all y Llywodraeth sefydlu ymgyrch Ie dros Gymru, gall y pleidiau gwleidyddol a gaiff eu cynrychioli yn y Cynulliad wneud hynny. Mae angen inni wahaniaethu rhwng y gwahanol rolau. Credaf y bydd hynny'n digwydd pan fydd y dyddiad wedi'i bennu. Nid wyf mewn sefyllfa i ateb ar ran y Ceidwadwyr nac i egluro'r ffaith eu bod fel pe baent yn gyfforddus â'r ffaith y bydd etholiad nesaf ond un y Cynulliad, yn 2015, yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiad San Steffan. Fodd bynnag, bydd y Llywodraethau yn y tair gweinyddiaeth ddatganoledig yn cyflwyno achos i'r Llywodraeth dros beidio â'u cynnal ar yr un diwrnod.

**Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.57 ar Fesur Arfaethedig Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Taliadau)  
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed National Assembly for  
Wales (Remuneration) Measure**

**The Deputy Presiding Officer:** Before we begin this debate, I remind Members that we will debate the amendments in accordance with the groupings list, but we will vote on the amendments in accordance with the marshalled list.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cyn inni ddechrau'r ddadl hon, hoffwn atgoffa Aelodau y byddwn yn trafod y gwelliannau yn unol â'r rhestr grwpio gwelliannau, ond y byddwn yn pleidleisio arnynt yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

**Annibyniaeth, Bod yn Agored ac yn Gynhwysol (Gwelliant 17)  
Independence, Openness and Inclusiveness (Amendment 17)**

**The Deputy Presiding Officer:** The first **Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r grŵp cyntaf o

group of amendments relates to independence, openness and inclusiveness. The only amendment in this group is amendment 17. I call on Bethan Jenkins to move and speak to that amendment.

**Bethan Jenkins:** I move amendment 17 in my name and with the name of Val Lloyd in support.

It is important to recognise at this initial stage that we have cross-party support for this amendment. It concerns the consultation to be undertaken by this new board and the people who are likely to be affected by its conclusions. Section 2 of the proposed Measure confers on the board those functions that would allow it to determine all aspects of financial support for Assembly Members, including the setting and reviewing of AMs' salaries, allowances and pensions. As it is, the proposed Measure would require the board to consult before it exercises any of the functions that are to be conferred on it. That means that it must consult anyone who is likely to be affected by decisions relating to financial support for AMs before it can make those determinations.

I have asked that, in section 1A, page 2, line 1, the following be taken out:

'such persons likely to be affected by the exercise of that function as it considers appropriate, having regard to subsection (1)'.

In its place, I would like the following:

'those of the following who are likely to be affected, unless the Board considers that there are circumstances that make it inappropriate to do so—

- (a) Assembly members,
- (b) staff employed by Assembly members (or by groups of Assembly members),
- (c) relevant trade unions, and
- (d) such other persons as it considers

welliannau'n ymwneud ag annibyniaeth, bod yn agored ac yn gynhwysol. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 17. Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y gwelliant hwnnw ac i siarad arno.

**Bethan Jenkins:** Cynigaf welliant 17 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Val Lloyd.

Mae'n bwysig cydnabod yn ystod y cam dechreuol hwn fod gennym gefnogaeth drawsbleidiol i'r gwelliant hwn. Mae'n ymwneud â'r ymgynghori sydd i'w wneud gan y bwrdd newydd hwn a'r bobl y mae ei gasgliadau'n debygol o effeithio arnynt. Mae adran 2 yn y Mesur arfaethedig yn rhoi i'r bwrdd y swyddogaethau hynny a fyddai'n caniatáu iddo benderfynu pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau Cynulliad, gan gynnwys pennu ac adolygu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau Cynulliad. Fel y mae, byddai'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd ymgynghori cyn iddo arfer unrhyw un o'r swyddogaethau a roddir iddo. Mae hynny'n golygu ei bod yn rhaid iddo ymgynghori ag unrhyw rai y mae penderfyniadau'n ymwneud â rhoi cymorth ariannol i Aelodau Cynulliad yn debygol o effeithio arnynt, cyn iddo wneud y penderfyniadau hynny.

Yr wyf wedi gofyn am i'r canlynol gael ei ddileu yn adran 1A, tudalen 2, llinell 1:

'ag unrhyw bersonau y mae'n debyg yr effeithir arnynt wrth i'r swyddogaeth honno gael ei harfer ac y mae'r Bwrdd yn credu eu bod yn briodol, o roi sylw i is-adran (1)'.

Yn lle hynny, hoffwn ychwanegu'r canlynol:

'â'r personau a ganlyn y mae'n debyg yr effeithir arnynt, oni bai bod y Bwrdd yn credu bod amgylchiadau sy'n golygu ei bod amhriodol gwneud hynny—

- (a) Aelodau Cynulliad
- (b) staff a gyflogir gan Aelodau Cynulliad (neu gan grwpiau o Aelodau Cynulliad),
- (c) undebau llafur perthnasol, a
- (d) unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu

appropriate.’

This amendment seeks to strengthen and add clarity to the existing requirement to consult. It is important for these groupings to be specifically named in the proposed Measure. It will ensure that the board consults AMs, their support staff, relevant trade unions, and any other appropriate individuals or bodies that would be affected by the board’s decisions. I also believe that this amendment will further support the openness that this proposed Measure aspires to, and reinforce the independence that we seek for the board. That is an important point. In March, during his statement to the Assembly on this Measure, the Presiding Officer spoke of the need to give a clear statement of this board’s independence. Therefore, I hope that you can all support this amendment.

I have some broader observations to make on the other aspects of independence and openness in the proposed Measure. As I have made clear in supporting this proposed Measure, I hope that the board will act openly and transparently. I also hope that its decisions remain proportionate to what is happening in the Assembly and will in no way be influenced by events elsewhere, particularly at the other end of the M4. I also think that all the board’s work should be accessible under the Freedom of Information Act 2000. I do not think that we can allow it to become exempt in any way, as other public bodies are not exempt.

3.40 p.m.

While accepting the independence of the board, I hope that the board’s annual report will give us an opportunity to scrutinise its work effectively and check that it is operating properly. The website will also include information about its openness and independence.

I am aware that the Commission believes that the cost of this board can be met out of its existing budget, but I am conscious that, once

bod yn briodol.’

Mae’r gwelliant hwn yn ceisio cryfhau’r gofyniad presennol i ymgynghori, a’i wneud yn fwy clir. Mae’n bwysig i’r grwpiau hyn gael eu henwi’n benodol yn y Mesur arfaethedig. Bydd yn sicrhau bod y bwrdd yn ymgynghori ag Aelodau Cynulliad, eu staff cymorth, yr undebau llafur perthnasol ac unrhyw unigolion neu gyrff priodol eraill y byddai penderfyniadau’r bwrdd yn effeithio arnynt. Credaf hefyd y bydd y gwelliant hwn yn cefnogi’r arfer o fod yn agored fel y mae’r Mesur hwn yn ceisio’i sicrhau, ac yn atgyfnerthu’r annibyniaeth yr ydym yn ceisio’i chael ar gyfer y bwrdd. Mae hwnnw’n bwynt pwysig. Ym mis Mawrth, yn ystod ei ddatganiad i’r Cynulliad ar y Mesur hwn, bu’r Llywydd yn sôn bod angen cyhoeddi datganiad clir o annibyniaeth y bwrdd hwn. Felly, gobeithio y gall pob un ohonoch gefnogi’r gwelliant hwn.

Mae gennyf rai sylwadau ehangach i’w gwneud am agweddau eraill ar annibyniaeth a bod yn agored yn y Mesur arfaethedig. Fel yr wyf wedi egluro wrth gefnogi’r Mesur arfaethedig hwn, gobeithio y bydd y bwrdd yn gweithredu’n agored ac yn dryloyw. Gobeithio hefyd y bydd penderfyniadau’r bwrdd yn parhau’n gymesur â’r hyn sy’n digwydd yn y Cynulliad, ac na ddylanwadir arnynt mewn unrhyw fodd gan ddigwyddiadau mewn man arall, yn enwedig ym mhen draw’r M4. Credaf hefyd y dylai fod modd gweld yr holl waith y mae’r bwrdd yn ei wneud, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni chredaf y gallwn ganiatáu iddo gael ei eithrio mewn unrhyw fodd, gan nad yw cyrff cyhoeddus eraill wedi’u heithrio.

Er fy mod yn derbyn bod y bwrdd yn annibynnol, gobeithio y bydd adroddiad blynyddol y bwrdd yn rhoi cyfle inni graffu ar ei waith yn effeithiol ac i gadarnhau ei fod yn gweithredu’n iawn. Bydd y wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am natur agored ac annibynnol y bwrdd.

Yr wyf yn ymwybodol fod y Comisiwn yn credu y gellir talu cost y bwrdd hwn allan o’i gyllideb bresennol, ond yr wyf yn

it begins, the board might find that the job is greater than expected and it may cost more in the end. I hope that provision has been made and that the Commission has looked into this properly.

**Nick Ramsay:** I welcome Bethan Jenkins's comments and am pleased to contribute to the discussion on this amendment. Although it is tabled in Bethan's name, I am totally in support of the amendment. I sat on Legislation Committee No.1, which considered Dafydd Elis-Thomas's proposal to set up the remuneration board. I add my total support to this.

The amendment makes an important distinction—and I will not go into the details, because I think that Bethan Jenkins has put the case clearly. Setting out all those who will be affected, such as Assembly Members, their staff, and the trade unions, in the proposed Measure would make the importance of consultation far clearer than it was before.

We believe that there is a need for this board. This came through clearly in the committee's deliberations and in the evidence that we received. In relation to the new board, it is important that the word 'independent' is qualified, in that it should be as independent as it possibly can be. There will be a certain amount of involvement, particularly at the start, when the board is set up. However, it is necessary for the board to have arm's-length independence in light of events in recent years and the way in which the electorate expects politicians to deal with their own remuneration, and the composition of the board will assist that aim. As I said, I completely support the establishment of this board and am happy to support this amendment.

**William Graham:** I would like to speak about amendment 17, particularly its proposed section 1A(d), which relates to

'such other persons as it considers appropriate.'

I speak as the chairman of the National Assembly for Wales Members' pension

ymwybodol y gallai'r bwrdd weld bod y gwaith yn fwy na'r disgwyl, pan fydd wedi dechrau, ac efallai y bydd yn costio mwy yn y diwedd. Gobeithio bod darpariaeth wedi'i gwneud, a bod y Comisiwn wedi edrych ar hyn yn fanwl.

**Nick Ramsay:** Croesawaf sylwadau Bethan Jenkins, ac yr wyf yn falch cael cyfrannu at y drafodaeth ar y gwelliant hwn. Er bod y gwelliant wedi'i gyflwyno yn enw Bethan, yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr. Yr oeddwn yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, a fu'n ystyried cynnig Dafydd Elis-Thomas i sefydlu'r bwrdd taliadau. Yr wyf yn cefnogi hyn yn llawn.

Mae'r gwelliant yn tynnu sylw at wahaniaeth pwysig—ac ni wnaif ymhelaethu, oherwydd credaf fod Bethan Jenkins wedi cyflwyno'r achos yn glir. Bydd enwi'r sawl yr effeithir arnynt, megis Aelodau Cynulliad, eu staff a'r undebau llafur, yn y Mesur arfaethedig yn dangos lawer yn gliriach nag o'r blaen mor bwysig yw ymgynghori.

redwn fod angen cael y bwrdd hwn. Mynegwyd hynny'n glir yn ystyriaethau'r pwyllgor ac yn y dystiolaeth a gawsom. O ran y bwrdd newydd, mae'n bwysig i'r term 'annibynnol' gael ei oleddfu, yn gymaint ag y dylai fod mor annibynnol ag sy'n bosibl. Bydd rhywfaint o ymwneud, yn enwedig ar y dechrau pan fydd y bwrdd yn cael ei sefydlu. Fodd bynnag, mae angen i'r bwrdd gael annibyniaeth hyd braich yng ngoleuni'r hyn sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf a'r modd y mae etholwyr yn disgwyl i wleidyddion ymdrin â'u taliadau eu hunain, a bydd cyfansoddiad y bwrdd yn gymorth i gyrraedd y nod hwnnw. Fel y dywedais, yr wyf yn cefnogi sefydlu'r bwrdd hwn yn gyfan gwbl, ac yr wyf yn falch cefnogi'r gwelliant hwn.

**William Graham:** Hoffwn siarad am welliant 17, yn enwedig yr adran arfaethedig 1A(d), sy'n ymwneud ag:

'unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn briodol.'

Siaradaf fel cadeirydd cynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a



scheme and ask that these persons referred to in point (d) should be the trustees of the National Assembly for Wales Members' pension scheme.

**The Deputy Presiding Officer:** I invite the Deputy Presiding Officer to speak. I am sorry, I meant the Presiding Officer. [*Laughter.*]

**The Presiding Officer:** It is all right; I can take it.

Diolch yn fawr, anrhydeddus Ddirprwy Lywydd. Mae'r gwelliant hwn yn un yr wyf yn ei groesawu, oherwydd ei fod yn cryfhau'r dyletswyddau sydd wedi cael eu gosod yn barod ar y bwrdd ac yn eu hegluro'n bellach, fel y dywedodd Bethan Jenkins. Mae'n nodi'n glir nifer y grwpiau y bydd angen i'r bwrdd ymgynghori â hwy, a bod hynny wedi'i osod yn y Mesur arfaethedig.

Yr wyf yn siŵr y bydd y gwelliant yn rhoi sicrwydd i'r grwpiau hynny sydd wedi cael eu henwi, gan gynnwys Aelodau Cynulliad, y bydd eu barn yn cael ystyriaeth briodol. Fodd bynnag, fel y cofiwch o'r trafodaethau o'r blaen ac fel y cyfeiriwyd ato yn barod, mae'n bwysig diogelu annibyniaeth y bwrdd. Yn wir, fel y dywedodd Nick Ramsay, mae'r gwelliant yn gwneud hynny drwy sicrhau bod y bwrdd yn cofio, wrth ymgynghori, fod yn rhaid iddo barhau i weithredu'n annibynnol. Credaf fod hynny'n ffordd glir o osod y peth.

Mae William Graham hefyd wedi gofyn am sicrwydd fel ymddiriedolwr. Yn fy marn i, fel y sawl sydd yn gyfrifol am y Mesur arfaethedig, mae adran 1A(4) yn sicrhau y bydd yn rhaid i'r bwrdd, cyn iddo ddod i unrhyw benderfyniad yn ymwneud â'r cynllun pensiwn, ymgynghori â'r ymddiriedolwyr. Yr wyf yn credu y bydd y datganiad hwnnw yn ateb yr hyn ofynnodd William. Fodd bynnag, gan ein bod yn cyfeirio at y cynllun pensiwn, mae'n bwysig i atgoffa ein hunain fod ein cynllun pensiwn fel Aelodau Cynulliad yn hael dros ben, lle mae cyfraniad oddi wrth y pwrs cyhoeddus, y cyflogwr, yn 23.8 y cant, sef £974,342 yn 2009-10. Felly, credaf fod yr argymhelliad sy'n cael ei weithredu yn y Mesur arfaethedig yn gwbl briodol, sef bod modd i'r bwrdd, os oes angen yn ei farn ef, i gael rheolaeth dros

gofynnaf mai ymddiriedolwyr cynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r personau hyn y cyfeirir atynt ym mhwynt (d).

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf y Dirprwy Lywydd i siarad. Mae'n flin gennyf, y Llywydd yr oeddwn yn ei olygu. [*Chwerthin.*]

**Y Llywydd:** Popeth yn iawn; mae fy ysgwyddau'n ddigon llydan.

Thank you, honourable Deputy Presiding Officer. This amendment is one which I welcome, because it strengthens the duties that have already been placed on the board and explains them further, as Bethan Jenkins said. It clearly states the number of groups which the board will be required to consult, and that that has been included in the proposed Measure.

I am sure the amendment will give assurance to those groups which have been identified, including Assembly Members, that their views will be given due consideration. However, as you will recall from previous discussions and as mentioned already, it is important to safeguard the independence of the board. Indeed, as Nick Ramsay said, the amendment does so by ensuring that the board remembers, in its consultations, that it must continue to operate independently. I believe that is a clear way of putting it.

William Graham also asked for assurance as a trustee. In my opinion, as the one responsible for the proposed Measure, section 1A(4) will ensure that the board will consult with the trustees before making any decision in relation to the pension scheme. I think that statement will answer William's question. However, since we are referring to the pension scheme, it is important to remind ourselves that our pension scheme as Assembly Members is extremely generous, with a contribution of 23.8 per cent from the public purse, the employer, of £974,342 in 2009-10. Therefore, I believe the recommendation in the proposed Measure that the board, if it feels it is necessary, may gain control over the amount of public money which is paid into the pension scheme is totally appropriate. How could we, especially

y swm o wariant cyhoeddus a delir i mewn i'r cynllun pensiwn. Ym mha ffordd y gallwn ni, yn enwedig yn y dyddiau hyn, geisio sicrwydd am gynllun pensiwn sydd yn llawer mwy hael nag yr ydym yn ei weld yn y sector preifat neu yng ngweddill y sector cyhoeddus?

**The Deputy Presiding Officer:** Bethan Jenkins, do you wish to move to a vote on amendment 17 or to withdraw it?

**Bethan Jenkins:** I wish to move to a vote.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 17 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 17 is therefore agreed in accordance with Standing Order 7.35.

*Derbyniwyd gwelliant 17.  
Amendment 17 agreed.*

#### **Anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Bwrdd (Gwelliannau 10, 1 a 2) Disqualification from Membership of the Board (Amendments 10, 1 and 12)**

**The Deputy Presiding Officer:** The second group of amendments relates to disqualification from membership of the board. The lead amendment in this group is amendment 10. I call on the Presiding Officer to move and speak to amendment 10, and all other amendments in the group.

**Y Llywydd:** Cynigiau welliant 10 yn fy enw i.

Mae'r grŵp hwn o welliannau yn gwneud mân newidiadau i'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig sy'n ymdrin ag anghymhwysu deiliaid swyddi penodol rhag bod yn aelod o'r bwrdd taliadau. Nid ydynt yn newid effaith y darpariaethau hynny mewn unrhyw fodd.

Mae gwelliant 10 yn symleiddio'r ffordd y mae fy nghyfaill ar y chwith, y Cwnsler Cyffredinol, sydd wedi'i anghymhwysu yn barod o dan Atodlen 1, yn cael ei ddisgrifio. Felly, symleiddiad yw hwnnw.

Mae adran 3A, a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod 2 mewn ymateb i farn y pwyllgor Cyfnod 1 a gadeiriwyd gennych chi,

in such times, seek assurances on a pension scheme that is much more generous than those that we see in the private sector or in the rest of the public sector?

**Y Dirprwy Lywydd:** Bethan Jenkins, a ydych yn dymuno mynd â gwelliant 17 i bleidlais, neu ei dynnu'n ôl?

**Bethan Jenkins:** Dymunaf fynd ag ef i bleidlais.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 17. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 17 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r ail grŵp o welliannau'n ymwneud ag anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r bwrdd. Y gwelliant arweiniol yn y grŵp hwn yw gwelliant 10. Galwaf ar y Llywydd i gynnig gwelliant 10, a'r holl welliannau eraill sydd yn y grŵp, ac i siarad amdanynt.

**The Presiding Officer:** I move amendment 10 in my name.

This group of amendments makes some minor amendments to those provisions of the proposed Measure which deal with the disqualification from membership of the remuneration board of the holders of certain offices. They do not change the effect of those provisions in any way.

Amendment 10 simplifies the way in which my colleague, the Counsel General, who is sitting to my left, and who is already disqualified under Schedule 1, is described. Therefore, this is a simplification.

Section 3A, which was introduced at Stage 2 in response to the views of the Stage 1 Committee, which you chaired, Deputy

Ddirprwy Lywydd, fel un o gadeiryddion y pwyllgorau deddfwriaeth, yn cynnig dull i ddiweddarau'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymwysio heb greu'r angen am Fesur diwygio. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy benderfyniad gan y Cynulliad a bydd yn cael ei roi ar waith drwy offeryn statudol, i'w wneud gan y Cwnsler Cyffredinol. Mae dull tebyg ar gael eisoes yn Neddf Anghymhwysio Tŷ'r Cyffredin 1975.

Nid yw gwelliannau 1 a 2 yn newid y dull yn adran 3A, ond maent yn sicrhau bod y disgrifiad o'r dull yn haws ei ddeall. Yr wyf yn sicr y bydd cytundeb ei bod yn bwysig ar bob achlysur i wneud deddfwriaeth yn haws i'w ddeall. Felly, yr wyf gofyn am eich cefnogaeth i'r gwelliannau hyn.

**Ann Jones:** I support these amendments as they are in clearer English for people to understand. I am pleased to see that Schedule 1 has not been altered. We received evidence in committee from some who felt that their exclusion was churlish, and I am pleased to see that those people are no longer there. I am pleased that the resolution has been included, but with regard to the resolution to amend Schedule 1, I would urge Members to remember where we started from, namely to be open, clear and concise.

3.50 p.m.

**Eleanor Burnham:** The committee undertook a careful and thorough investigation into the proposed Measure, which is extremely important and timely. It is important to maintain the independence of this board, so I commend the amendments to you.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i Ann Jones am ei sylwadau ac yn sicr, bydd y ffaith bod y sylwadau hynny wedi cael eu gwneud yn y Siambr yn ystod y drafodaeth hon yn cryfhau sefyllfa'r bwrdd ac yn cryfhau unrhyw drafodaeth yn y dyfodol am ddiwygio yn y cyfeiriad hwn o ran eithrio o aelodaeth.

Hoffwn hefyd ddiolch i Eleanor Burnham am ei chefnogaeth ac am y modd y bu'r ddwy ohonynt yn delio â'r mater hwn pan oedd y

Presiding Officer, as one of the chairs of the legislation committees, provides a mechanism for updating the list of disqualified persons without the need for an amending Measure. This will be by resolution of the Assembly to which effect will be given by a statutory instrument to be made by the Counsel General. A similar mechanism exists in the House of Commons Disqualification Act 1975.

Amendments 1 and 2 make no change to the mechanism of section 3A, but ensure that the way in which that mechanism is described is easier to understand. I am sure that you will all agree that it is important that legislation is made easier to understand on all occasions. I therefore ask you to support these amendments.

**Ann Jones:** Cefnogaf y gwelliannau hyn gan fod yr iaith yn gliriach i bobl ei deall. Yr wyf yn falch gweld nad yw Atodlen 1 wedi'i newid. Cawsom dystiolaeth yn y pwyllgor gan rai a oedd yn teimlo mai cam anfoesgar oedd eu hepgor, ac yr wyf yn falch gweld nad yw'r bobl hynny yno mwyach. Yr wyf yn falch fod y penderfyniad wedi'i gynnwys, ond o ran y penderfyniad i newid Atodlen 1, byddwn yn annog Aelodau i gofio ein man dechrau, sef bod yn agored, yn glir ac yn gryno.

**Eleanor Burnham:** Cynhaliodd y pwyllgor ymchwiliad gofalus a thrylwyr i'r Mesur arfaethedig, sy'n bwysig ac yn amserol tu hwnt. Mae'n bwysig cynnal annibyniaeth y bwrdd hwn, felly, cymeradwyaf y gwelliannau ichi.

**The Presiding Officer:** I am grateful to Ann Jones for her remarks, and certainly the fact that those comments were made in the Chamber during this debate will strengthen the position of the board and strengthen any future debate on any amendments with regard to disqualification of membership.

I should also like to thank Eleanor Burnham for her support and for the way in which both Members dealt with this issue as the

Mesur arfaethedig yn mynd drwy'r pwyllgor. Felly, yr wyf yn falch o gael eu cefnogaeth i'r gwelliannau hyn.

proposed Measure went through the committee stage. Therefore, I am pleased to have their support for these amendments.

**The Deputy Presiding Officer:** Presiding Officer, do you wish to move to a vote on amendment 10?

**Y Dirprwy Lywydd:** Lywydd, a ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 10?

**The Presiding Officer:** Yes, please.

**Y Llywydd:** Ydwyf, os gwelwch yn dda.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 10 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 10 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 10. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 10 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 10.  
Amendment 10 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** In line with the marshalled list, we now come to dispose of amendments 1 and 2. I invite the Presiding Officer to move amendment 1.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr i waredu gwelliannau 1 a 2. Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 1.

**The Presiding Officer:** I move amendment 1 in my name.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1.  
Amendment 1 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite the Presiding Officer to move amendment 2.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 2.

**The Presiding Officer:** I move amendment 2 in my name.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 2 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2.  
Amendment 2 agreed.*

**Penodi Aelodau'r Bwrdd (Gwelliannau 11, 12, 13, 14, 15 a 16)  
Appointment of the Members of the Board (Amendments 11, 12, 13, 14, 15 and 16)**

**The Deputy Presiding Officer:** The third

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r trydydd grŵp o

group of amendments relates to appointment of the members of the board. The lead amendment in this group is amendment 11. I call on the Presiding Officer to move and speak to amendment 11, and all other amendments in the group.

**Y Llywydd:** Cynigiau welliant 11 yn fy enw i.

Mae Atodlen 2 yn ymdrin â'r trefniadau manwl ynglŷn â dethol ymgeiswyr i'w penodi'n gadeirydd ac yn aelodau eraill o'r bwrdd. Mae'n ofynnol i Glerc y Cynulliad wneud y trefniadau hyn, yn unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi ym mharagraff 2, a'u cyhoeddi. Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn cryfhau'r darpariaethau hyn mewn nifer o ffyrdd.

Er enghraifft, mae gwelliant 11 yn cyflwyno paragraff newydd i'w gwneud yn glir nad oes rhaid i'r trefniadau fod yr un fath yn union, ond y gallant gael eu teilwra at amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, efallai y bydd trefniadau gwahanol yn briodol wrth benodi'r cadeirydd i'r trefniadau a ddefnyddir ar gyfer aelodau eraill y bwrdd. Hefyd, gallai trefniadau gwahanol fod yn gymwys wrth ailbenodi un o aelodau presennol y bwrdd i'r trefniadau sy'n gymwys wrth recriwtio aelodau newydd.

Paragraff 2A, sydd unwaith eto wedi'i gyflwyno i ymateb yn gadarnhaol i farn pwyllgor Cyfnod 1, yw'r ddarpariaeth sy'n gosod dyletswydd ar y Clerc i gyhoeddi'r trefniadau dethol ar wefan y Cynulliad cyn bod modd eu rhoi ar waith. Mae gwelliannau 12, 13 a 14 yn cryfhau'r rhwymedigaeth hon drwy sicrhau bod y ddyletswydd yn parhau. O'u cymeradwyo, bydd y rhain yn golygu na chaniateir dethol neb, ar unrhyw adeg, oni bai bod y trefniadau perthnasol ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt, a hynny drwy eu cyhoeddi ar y wefan. Y pwynt pwysig yw eu bod ar gael drwy'r amser yn ystod y cyfnod penodi ac felly bod y cyhoedd, gobeithio, yn cael eu llygad-dynnu gan hynny, os oes ganddynt ddiddordeb yn y mater a'u bod yn gallu dilyn y broses.

Mae paragraff 3 yn gosod rhwymedigaeth ar y Comisiwn i benodi'r ymgeiswyr hynny i fod yn aelodau o'r bwrdd sydd wedi'u nodi

welliannau'n ymwneud â phenodi aelodau'r bwrdd. Y gwelliant arweiniol yn y grŵp hwn yw gwelliant 11. Galwaf ar y Llywydd i gynnig gwelliant 11, a'r holl welliannau eraill sydd yn y grŵp, ac i siarad amdano.

**The Presiding Officer:** I move amendment 11 in my name.

Schedule 2 deals with the detailed arrangements for selecting candidates for appointment as chair and other members of the board. The Clerk to the Assembly is required to make these arrangements, in accordance with the principles set out in paragraph 2, and to publish them. The amendments in this group strengthen these provisions in a number of ways.

For example, amendment 11 introduces a new paragraph to make it clear that the arrangements do not have to be uniform, but may be tailored for different circumstances. For example, different arrangements may be appropriate for appointing the chair from those that apply to other members of the board. Also, different arrangements might apply to the re-appointment of an existing member of the board from those that apply to the appointment of new members.

Paragraph 2A, which was again introduced as a positive response to the views of the Stage 1 committee, is the provision which places a duty on the Clerk to publish the selection arrangements on the Assembly's website before they can be implemented. Amendments 12, 13 and 14 strengthen this obligation by ensuring that it is a continuing duty. If approved, they will mean that no selection can be made, at any stage, unless the relevant arrangements are currently available for public scrutiny through publication on the website. The important point is that they are always available during the appointing period and, therefore, that the public's attention will hopefully be drawn to this if they have an interest in the issue and can follow the process.

Paragraph 3 obliges the Commission to appoint those candidates for membership of the board who have been identified by the

drwy'r trefniadau dethol, oni bai bod y personau hynny wedi'u hanghymhwyso gan Atodlen 1. Nid yw gwelliannau 15 ac 16 yn gwneud newid o sylwedd i baragraff 3, dim ond symleiddio'r gwaith drafftio unwaith eto, i ddilyn yr egwyddor yr wyf i, Ann Jones a phob un ohonom yn gytun arni, sef gwneud y cyfan yn haws ei ddeall.

Felly, gofynnaf am gefnogaeth y Cynulliad i'r gwelliannau hyn.

**Kirsty Williams:** I would like to begin by thanking the Presiding Officer for the way in which the proposed Measure has been taken forward. As a group, we have always supported the review that was set up, and the subsequent documentation and the legislative movement that has arisen from it.

In addressing this group of amendments regarding the appointment of members to the board, I am particularly pleased to see the flexibility that has been incorporated in the proposed Measure and also, with regard to amendment 14, the commitment to maintaining data on the website while the process is ongoing. That demonstrates wholeheartedly our commitment in the National Assembly to transparent government, and I commend the amendments.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i Kirsty Williams am ei chefnogaeth a chefnogaeth ei grŵp ar hyd yr amser i'r Mesur arfaethedig. Yr wyf yn falch ei bod wedi tynnu sylw at y pwynt fod hwn yn enghraifft arall o'n hymrwymiad i fod yn dryloyw, oherwydd nid oes unrhyw lwyddiant i'w gael mewn ymwneud â'r cyhoedd a cheisio hyrwyddo cyfranogaeth os nad yw'r cyfranogi'n digwydd ar y pryd, pan fod pobl yn cymryd diddordeb mewn materion fel hyn. Efallai eu bod yn gweld rhywbeth yn y wasg am benodiadau ac yna gallant fynd yn syth at safle we'r corff newydd, y bwrdd neu, yn yr achos hwn, y safle lle bydd Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad wedi gosod y manylion ynglŷn â recriwtio. Byddant i'w gweld a bydd modd deall yn union beth sy'n digwydd wrth weld y data hynny yn eu lle. Felly, yr wyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth i'r gwelliannau hynny.

selection arrangements, unless those persons are disqualified by Schedule 1. Amendments 15 and 16 make no substantive change to paragraph 3, but simplify the drafting in keeping with the principle which Ann Jones and I, and all of us, agrees upon, that is, to make it easier to understand.

I therefore ask the Assembly to support these amendments.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Llywydd am y modd y cafodd y Mesur arfaethedig ei symud ymlaen. Fel grŵp, yr ydym bob amser wedi cefnogi'r adolygiad a sefydlwyd, a'r dogfennau dilynol a'r datblygiad deddfwriaethol sydd wedi deillio ohono.

Wrth roi sylw i'r grŵp hwn o welliannau ynghylch penodi aelodau i'r bwrdd, yr wyf yn arbennig o falch gweld yr hyblygrwydd sydd wedi'i ymgorffori yn y Mesur arfaethedig, a hefyd, o ran gwelliant 14, yr ymrwymiad i gynnal a chadw data ar y wefan wrth i'r broses fynd rhagddi. Mae hynny'n dangos o ddifrif ein hymrwymiad yn y Cynulliad Cenedlaethol i gael llywodraeth dryloyw, a chymeradwyaf y gwelliannau.

**The Presiding Officer:** I am grateful to Kirsty Williams for her support and for the support of her group for the proposed Measure throughout this process. I am pleased that she has highlighted the point that this is another example of our commitment to transparency, because one cannot succeed in public engagement and the promotion of participation unless that participation happens at the time, when people are taking an interest in issues such as this. They might see something in the press about appointments and then they can go immediately to the website of the new body or board or, in this case, to the website where the Chief Executive and Clerk to the Assembly will have laid out the details on the recruitment. They will be available and it will be possible to understand what is happening from seeing that data. Therefore, I am grateful for the support for those amendments.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to move to a vote on amendment 11?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 11?

**The Presiding Officer:** Yes, please.

**Y Llywydd:** Ydwyf, os gwelwch yn dda.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 11 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 11 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 11. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 11 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 11.  
Amendment 11 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** In line with the marshalled list, we will now dispose of amendments 12, 13, 14, 15 and 16. I invite the Presiding Officer to move amendment 12.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr i waredu gwelliannau 12, 13, 14, 15 ac 16. Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 12.

**The Presiding Officer:** I move amendment 12 in my name.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 12 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 12 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 12. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 12 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 12.  
Amendment 12 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite the Presiding Officer to move amendment 13.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 13.

**The Presiding Officer:** I move amendment 13 in my name.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 13 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 13 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 13 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 13. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 13 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 13.  
Amendment 13 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite the Presiding Officer to move amendment 14.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 14.

**The Presiding Officer:** I move amendment 14 in my name.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 14 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 14 be agreed to. Are there any objections? I see that there are

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 14. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35,

none. Amendment 14 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd gwelliant 14.  
Amendment 14 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite the Presiding Officer to move amendment 15.

**The Presiding Officer:** I move amendment 15 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 15 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 15 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd gwelliant 15.  
Amendment 15 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite the Presiding Officer to move amendment 16.

**The Presiding Officer:** I move amendment 16 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 16 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 16 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd gwelliant 16.  
Amendment 16 agreed.*

#### **Arfer Swyddogaethau mewn perthynas â Chyflogau (Gwelliannau 3, 4 a 5) Exercise of Functions in relation to Salaries (Amendments 3, 4 and 5)**

**The Deputy Presiding Officer:** The fourth group of amendments relates to the exercise of functions in relation to salaries. The lead amendment in this group is amendment 3. I call on the Presiding Officer to move and speak to amendment 3, and all other amendments in the group.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 3 yn fy enw i.

Mae'r grŵp hwn o welliannau'n rhoi eglurder ynghylch amseru'r penderfyniadau ynglŷn â chyflogau'r Aelodau. Yn fras, mae adran 10 o'r Mesur arfaethedig yn darparu nad yw'r bwrdd yn cael gwneud mwy nag un

felly, caiff gwelliant 14 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 15.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 15 yn fy enw i.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 15. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 15 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 16.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 16 yn fy enw i.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 16. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 16 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r pedwerydd grŵp o welliannau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau. Y gwelliant arweiniol yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Galwaf ar y Llywydd i gynnig gwelliant 3, a'r holl welliannau eraill sydd yn y grŵp, ac i siarad amdano.

**The Presiding Officer:** I move amendment 3 in my name.

This group of amendments provides additional clarity regarding the timing of determinations dealing with Members' salaries. In broad terms, section 10 of the proposed Measure provides that the board



penderfyniad ynghylch cyflogau Aelodau'r Cynulliad, ac un ynghylch cyflogau'r Gweinidogion, ar gyfer pob tymor Cynulliad o bedair blynedd.

Mae adran 10 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd, pan fo'n rhesymol ymarferol, wneud y penderfyniadau angenrheidiol cyn dechrau'r tymor Cynulliad o dan sylw. Mae gwelliannau 3 a 4 yn rhoi mwy o eglurder ynghylch beth sydd i ddigwydd os na all y bwrdd gyrraedd y targed hwn. Drwy gynnwys y geiriau 'pryd bynnag y'i gwnaed' yn isadrannau (7) ac (8), gwneir yn glir fod penderfyniad ynghylch tymor Cynulliad yn dal i fod yn effeithiol o ddechrau'r tymor hwnnw, hyd yn oed os na fydd yn cael ei wneud mewn gwirionedd tan ar ôl i'r tymor hwnnw ddechrau.

Mae gwelliant 5 yn cyd-fynd â'r newidiadau hyn. Mae'n egluro y byddai Aelodau'r Cynulliad a'r Gweinidogion, pe bai yna benderfyniad hwyr, yn parhau yn y cyfamser i gael eu talu yn unol â'r lefelau a fyddai wedi'u gosod yn y penderfyniadau blaenorol. Ar ôl i'r penderfyniad angenrheidiol gael ei wneud, byddai unrhyw danddaliad neu ordaliad yn cael ei gywiro drwy addasu'r taliadau dilynol. Synnwyr cyffredin yw hyn i gyd, fel yr wyf yn siŵr y deallwch, ond mae'n ddymunol i'w nodi ar wyneb y Mesur arfaethedig er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd. Gan hynny, gofynnaf am gefnogaeth y Cynulliad i'r gwelliannau hyn yng ngrŵp 4.

4.00 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** Presiding Officer, do you wish to move to a vote on amendment 3?

**The Presiding Officer:** Yes.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 3 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, therefore, amendment 3 is agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 3.  
Amendment 3 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** In

may not make more than one determination relating to the salaries of Assembly Members, and one relating to the salaries of Ministers, for each four-year Assembly term.

Section 10 also requires the board, where it is reasonably practicable, to make the necessary determinations in advance of the beginning of the Assembly term in question. Amendments 3 and 4 provide greater clarity as to what is to happen if the board is unable to do meet that target. By inserting the words 'whenever made' into subsections (7) and (8), it will be made clear that a determination relating to an Assembly term is still to have effect from the beginning of that term even if it is not actually made until after that term has begun.

Amendment 5 is in keeping with these changes. It makes it clear that, in the event of a late determination, Assembly Members and Ministers would continue, in the meantime, to be paid at the level fixed by the previous determinations. Once the necessary determination is made, any underpayment or overpayment would then be made good by adjusting subsequent payments. These are commonsense rules, as I am sure you understand, but it is desirable that they be spelled out on the face of the proposed Measure to avoid any uncertainty. With that, I ask for the Assembly's support for these amendments in group 4.

**Y Dirprwy Lywydd:** Lywydd, a ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 3?

**Y Llywydd:** Ydwyf.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â'r rhestr o

accordance with the marshalled list, we now come to dispose of amendments 4 and 5. I invite the Presiding Officer to move amendment 4.

**The Presiding Officer:** I move amendment 4 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 4 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 4 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 4.  
Amendment 4 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** Presiding Officer, I now invite you to move amendment 5.

**The Presiding Officer:** I move amendment 5 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 5 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 5 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 5.  
Amendment 5 agreed.*

**Arfer Swyddogaethau mewn Perthynas ag Ad-dalu Costau a Ysgwyddwyd wrth Gyflogi Staff (Gwelliannau 6 a 7)  
Exercise of Functions in Relation to Reimbursement of Costs Incurred in Employing Staff (Amendments 6 and 7)**

**The Deputy Presiding Officer:** The fifth group of amendments relates to the exercise of functions in relation to the reimbursement of costs incurred in employing staff. The lead amendment in this group is amendment 6, and I call on the Presiding Officer to move and speak to amendment 6 and the other amendment in the group.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 6 yn fy enw.

Cyfeirio at adran 11 y mae gwelliannau 6 a 7. Mae'r adran honno yn ymdrin ag arfer swyddogaethau'r bwrdd mewn perthynas â'r lwfans costau staff. Mae adran 11(2) yn darparu, yn unol ag argymhellion y panel

welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr i waredu gwelliannau 4 a 5. Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 4.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Lywydd, fe'ch gwahoddaf yn awr i gynnig gwelliant 5.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 5 yn fy enw i.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 5. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r pumed grŵp o welliannau'n ymwneud ag arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ad-dalu costau a ysgwyddwyd wrth gyflogi staff. Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 6, a galwaf ar y Llywydd i gynnig ac i siarad am welliant 6 ynghyd â'r gwelliant arall yn y grŵp hwn.

**The Presiding Officer:** I move amendment 6 in my name.

Amendments 6 and 7 relate to section 11. This section deals with the exercise of the board's functions in relation to the staff costs allowance. Section 11(2) provides, in accordance with the recommendations of the

annibynnol, mai un penderfyniad yn unig a ganiateir ar gyfer cyflogau staff ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae gwelliant 6 yn gwneud newid bach i gysoni iaith y Mesur arfaethedig i fod yn agosach at iaith Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ail, mae'n sicrhau bod y cyfyngiad ar newid penderfyniadau sydd wedi'u gwneud yn barod yn ystod yr un flwyddyn yn gymwys i bob newid ac nid dim ond i 'welliannau' yn yr ystyr gul.

Mae gwelliant 7 yn darparu dull yn debyg i'r un sy'n gymwys yn barod o dan adran 10, yn achos penderfyniadau ynghylch cyflogau'r Aelodau, i ganiatáu i ailbenderfyniad ynghylch costau staff gael ei wneud yn yr un flwyddyn ariannol o dan amgylchiadau eithriadol. Pwysleisiaf mai i ymateb i amgylchiadau eithriadol ydyw ac mai'r un math o drefniant sydd ar gael ar gyfer staff ac Aelodau. Byddai hynny'n caniatáu i'r lwfans gael ei addasu, er enghraifft pe bai newid amgylchiadau arwyddocaol na fyddai wedi'i ragweld ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Felly, gofynnaf eto am gefnogaeth i'r gwelliannau hyn.

**The Deputy Presiding Officer:** I have no speakers for this group, Presiding Officer. Therefore, do you wish to move to a vote on amendment 6?

**The Presiding Officer:** Yes.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 6 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 6 is therefore agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 6.  
Amendment 6 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** In line with the marshalled list, we now come to dispose of amendment 7. I invite the Presiding Officer to move amendment 7.

**The Presiding Officer:** I move amendment 7 in my name.

independent panel, that only one determination relating to staff salaries is permitted in relation to each financial year.

Amendment 6 makes a minor linguistic change to bring the language of the proposed Measure more closely into line with that of the Government of Wales Act 2006. Secondly, it ensures that the restriction on making changes to existing determinations within the same financial year applies to all changes and not only to 'amendments' in the narrow sense.

Amendment 7 provides a mechanism similar to that which already applies under section 10, in the case of determinations relating to Members' salaries, to enable a second determination in relation to staff costs to be made within the same financial year in exceptional circumstances. I emphasise that it is in response to exceptional circumstances and that the arrangement is the same for staff and Members. That would enable the allowance to be modified if there were, for example, a significant change of circumstances that had not been foreseen at the beginning of the financial year. Therefore, I ask again for support for these amendments.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes neb yn dymuno siarad am y grŵp hwn, Lywydd. Felly, a ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 6?

**Y Llywydd:** Ydwyf.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 6. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 6 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr i waredu gwelliant 7. Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 7.

**Y Llywydd:** Cynigiaf welliant 7 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 7 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, amendment 7 is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 7. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 7 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 7.  
Amendment 7 agreed.*

### **Enw Byr a Chychwyn (Gwelliannau 8 a 9) Short Title and Commencement (Amendments 8 and 9)**

**The Deputy Presiding Officer:** The final group of amendments relates to the short title and commencement. The lead amendment in this group is amendment 8, and I call on the Presiding Officer to move and speak to amendment 8 and the other amendment in the group.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r grŵp olaf o welliannau'n ymwneud ag enw byr a chychwyn. Y gwelliant arweiniol yn y grŵp hwn yw gwelliant 8. Galwaf ar y Llywydd i gynnig gwelliant 8, a'r gwelliant arall sydd yn y grŵp, ac i siarad amdano.

**Y Llywydd:** Cynigiau welliant 8 yn fy enw.

**The Presiding Officer:** I move amendment 8 in my name.

Mae'r grŵp hwn o welliannau yn ymdrin â dod â dwy adran newydd o'r Mesur arfaethedig a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 i rym, sef adrannau 3A ac 13A.

This group of amendments deals with the coming into force of two new sections of the proposed Measure introduced at Stage 2, namely sections 3A and 13A.

Mae adran 16(2) yn darparu i amrywiol adrannau'r Mesur arfaethedig ddod i rym mewn dwy gyfres ar wahân. Bydd y rhai sy'n ymwneud â chreu'r bwrdd ac aelodaeth y bwrdd yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Mesur arfaethedig gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Cyngor. Dim ond ar ôl i'r bwrdd gael ei benodi y daw gweddill yr adrannau i rym, sef adrannau sy'n rhoi pwerau i'r bwrdd.

Section 16(2) provides for the various sections of the proposed Measure to come into force in two separate tranches. Those which relate to the creation and membership of the board will come into force on the day after the proposed Measure is approved by Her Majesty in Council. The remaining sections, which confer powers on the board, will come into force only after the board has been appointed.

Mae adran 3A yn ymdrin â'r pŵer i ddiwygio'r rhestr o aelodau sydd wedi'u anghymwyso rhag bod yn aelodau o'r bwrdd gan Atodlen 1. Mae adran 13A yn dod â'r bwrdd yn dod â'r bwrdd o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n briodol bod y darpariaethau hyn yn dod i rym cyn gynted ag y daw'r Mesur arfaethedig yn ddeddf, ac mae gwelliannau 8 a 9 yn cyflawni hynny. Felly, gofynnaf i'r Cynulliad gefnogi'r grŵp hwn.

Section 3A deals with the power to amend the list of those disqualified from membership of the board by Schedule 1. Section 13A brings the board within the provisions of the Freedom of Information Act 2000. It is appropriate that these provisions take effect as soon as the proposed Measure becomes law. Amendments 8 and 9 achieve that. Therefore, I ask the Assembly to support this group.

**The Deputy Presiding Officer:** I have no speakers on this group of amendments. Presiding Officer. Do you wish to move to a vote on amendment 8?

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes siaradwyr ar gyfer y grŵp hwn, Lywydd. Felly, a ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 8?

**The Presiding Officer:** Yes.

**Y Llywydd:** Ydwyf.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 8 be agreed to. Are there any objections? I see there are none. Amendment 8 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 8. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 8 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 8.  
Amendment 8 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** In line with the marshalled list, we now come to dispose of amendment 9. I invite the Presiding Officer to move amendment 9.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr i waredu gwelliant 9. Gwahoddaf y Llywydd i gynnig gwelliant 9.

**Y Llywydd:** Cynigiau welliant 9 yn fy enw i.

**The Presiding Officer:** I move amendment 9 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 9 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. Amendment 9 is therefore agreed, in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw derbyn gwelliant 9. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 9 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 9.  
Amendment 9 agreed.*

We have now reached the end of Stage 3 consideration of the Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure, and I declare that all sections of and Schedules to the proposed Measure are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Yr ydym bellach wedi dod i ddiwedd Cyfnod 3 Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), ac yr wyf yn datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen yn y Mesur arfaethedig wedi'u derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

**Cynnig yng Nghyfnod 4 o dan Reol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)  
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure**

**Y Llywydd:** Cynigiau fod

**The Presiding Officer:** I move that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo y Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau).*

*the National Assembly for Wales approves the Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure.*

**The Deputy Presiding Officer:** I have no speakers on this item. The question is that the Proposed National Assembly for Wales (Remuneration) Measure be agreed to. Are there any objections? I see there are none. The proposed Measure is therefore agreed in

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes neb yn dymuno siarad ar yr eitem hon. Y cwestiwn yw a ddylid cymeradwyo Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau). A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff

accordance with Standing Order No. 7.35.

y Mesur arfaethedig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf The Public Accounts Committee's Report on Communities First**

**Jonathan Morgan:** I move that

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf fod

*the National Assembly for Wales*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*notes the Public Accounts Committee's report on Communities First, which was laid in the Table Office on 22 February 2010. (NDM4483)*

*yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2010. (NDM4483)*

The Public Accounts Committee, by convention, does not ordinarily request a Plenary debate on its reports. However, on occasion, issues of such concern are brought to our attention that they warrant debate on the floor of the Chamber. Our follow-up to the work of the Auditor General for Wales in relation to the Communities First programme, published in July of last year, is of such importance that the Public Accounts Committee has agreed to take the rare step of requesting this debate today.

Yn ôl yr arfer, nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gofyn am ddadl ar ei adroddiadau mewn Cyfarfodydd Llawn. Weithiau, fodd bynnag, tynnir ein sylw at faterion sy'n peri cymaint o bryder nes eu bod yn haeddu cael dadl ar lawr y Siambr. Mae'r gwaith a wnaethom yn dilyn gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yng nghyswllt y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y llynedd, mor bwysig nes i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gytuno i gymryd y cam anghyffredin o ofyn am y ddadl hon heddiw.

Communities First is the Welsh Government's flagship programme to tackle deprivation and improve the living conditions and prospects of people in the most disadvantaged communities across Wales. It was launched in 2001, and at the time the auditor general published the report, the Welsh Government had spent £214 million on the programme, which was originally designed to last 10 years. In the report, the auditor general found that, although partnerships had been set up and the Assembly Government had improved some processes, some problems remained. For example, there were problems in making progress towards meeting the ambitions of the scheme, those ambitions remained unclear, fundamental risks and challenges to the programme remained unclear, and the programme was likely to struggle to meet its objectives unless the Welsh Government took a more robust approach to programme bending.

Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen fwyaf blaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd a gwella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Cafodd ei lansio yn 2001, a phan gyhoeddodd yr archwilydd cyffredinol yr adroddiad yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £214 miliwn ar y rhaglen, y bwriedid yn wreiddiol iddi bara 10 mlynedd. Yn yr adroddiad, gwelodd yr archwilydd cyffredinol fod rhai problemau o hyd, er bod partneriaethau wedi'u sefydlu ac er bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gwella rhai prosesau. Er enghraifft, yr oedd problemau wrth wneud cynnydd tuag at wireddu uchelgeisiau'r cynllun, yr oedd yr uchelgeisiau hynny'n parhau yn aneglur, yr oedd y risgiau a'r heriau sylfaenol i'r rhaglen yn parhau'n aneglur, ac yr oedd y rhaglen yn debygol o'i chael yn anodd cyflawni ei hamcanion oni bai bod Llywodraeth Cymru'n mabwysiadu dull mwy cadarn o blygu rhaglenni.

We decided to follow up the auditor general's work by launching an inquiry of our own into how the Assembly Government managed the programme. We took evidence from a range of Communities First partnerships, the Welsh Local Government Association and the Wales Council for Voluntary Action, before calling the Permanent Secretary and the Director General for Public Services and Local Government Delivery to appear before us as accounting officers for the Assembly Government. The findings from our inquiry serve to reinforce the auditor general's conclusions. We found that the Communities First programme had achieved little by way of programme bending, and that clearer guidance and stronger direction from the Welsh Assembly Government would be required if more programme bending was to be achieved. More top-down direction is needed to facilitate the regeneration that the programme envisages. By that, we mean more direction and guidance to local authorities and other providers of public services. We also believe that local service boards have the potential to assist greatly in strengthening the programme itself.

Among the most concerning aspects of the auditor general's report is the conclusion that, although it is improving its ability to monitor partnership progress, the Welsh Government cannot demonstrate the overall impact of the programme in meeting the underlying objectives. As a consequence, even though some local benefits have been identified, the extent to which the Communities First programme has delivered improvements above and beyond what would have been delivered in the absence of the programme is unclear. This raises serious doubts over the efficiency and effectiveness of the Communities First programme itself, leaving us with little evidence about the extent to which the £214 million spent on the programme has, in and of itself, delivered improvements to the livelihood and wellbeing of people in those Communities First areas.

4.10 p.m.

Bu inni benderfynu dilyn gwaith yr archwilydd cyffredinol drwy lansio'n hymchwiliad ein hunain i'r modd yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn rheoli'r rhaglen. Cawsom dystiolaeth gan ystod o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cyn galw ar yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol i ymddangos ger ein bron fel swyddogion cyfrifyddu ar ran Llywodraeth y Cynulliad. Mae darganfyddiadau ein hymchwiliad yn atgyfnerthu casgliadau'r archwilydd cyffredinol. Gwelsom nad oedd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cyflawni fawr ddim o ran plygu rhaglenni, ac y byddai angen arweiniad cliriach a chyfeiriad cryfach gan Lywodraeth y Cynulliad os bwriedid sicrhau bod mwy o blygu rhaglenni'n digwydd. Mae angen mwy o gyfeiriad o'r brig i lawr i hwyluso'r adfywio a ragwelir gan y rhaglen. Yr hyn a olygwn wrth hynny yw mwy o gyfeiriad ac arweiniad i awdurdodau lleol ac eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Credwn hefyd fod gan fyrdau gwasanaethau lleol y potensial i gynnig llawer iawn o gymorth i gryfhau'r rhaglen ei hun.

Ymhlith yr agweddau hynny ar adroddiad yr archwilydd cyffredinol sy'n peri'r pryder mwyaf y mae'r casgliad na all Llywodraeth Cymru, er ei bod yn gwella'i gallu i fonitro cynnydd partneriaethau, ddangos effaith gyffredinol y rhaglen o ran cyflawni'r amcanion sylfaenol. O ganlyniad, er bod rhai manteision lleol wedi'u nodi, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau gwelliannau y tu hwnt i'r hyn a fyddai wedi'i gyflawni pe na bai'r rhaglen yn bodoli. Mae hynny'n codi amheuon difrifol ynghylch effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei hun, ac yn ein gadael gydag ychydig iawn o dystiolaeth am y graddau y mae'r £214 miliwn a wariwyd ar y rhaglen wedi gwella, ynddo'i hun, fywoliaeth a lles pobl yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf hynny.

We received evidence from Communities First partnerships indicating that partnerships monitored themselves, and that, in the case of one partnership, it was difficult to pinpoint exactly what it did. Since 2007, six years into the 10-year programme, the Assembly Government has sought to improve the monitoring of performance by agreeing outcomes with Communities First partnerships, and then assessing partnerships' progress towards delivering those outcomes. Partnerships are required to report annually against these outcomes, rather than against targets. The auditor general found that that approach was inappropriate. Furthermore, the auditor general found that many of the agreed outcomes were not, in fact, outcomes at all; some were nothing more than the processes of administering the Communities First programme locally. It is of concern to us that that has occurred with the Assembly Government's oversight. It agrees each partnership's outcomes.

Our primary role as a Public Accounts Committee is to act as a safeguard for the public purse, to ensure that, when the Welsh Government commits itself to a policy, it delivers it in the most effective and efficient way. It was with regret that, in our report on Communities First, we were forced to conclude that the Welsh Government will have failed to demonstrate the value for money of this programme unless it takes swift and decisive action to address the weaknesses that we and the auditor general identified. The programme will remain insufficiently robust to deliver its ambitious objectives in future. For the Communities First programme to be successful, the Welsh Government needs to employ a combination of top-down and bottom-up strategies. However, there is an inherent tension in that approach, and that needs to be managed carefully. The Welsh Government needs to provide more top-down direction and guidance to its own departments, local authorities and the wider public sector in Wales to prioritise Communities First. It also needs to build capacity within partnerships so that their bottom-up objectives are clearly

Cawsom dystiolaeth gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a ddangosai fod partneriaethau yn eu monitro'u hunain, a'i bod yn anodd nodi, yn achos un bartneriaeth, beth yn union yr oedd yn ei wneud. Er 2007, chwe blynedd ers sefydlu'r rhaglen 10 mlynedd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio gwella gwaith monitro perfformiad, drwy gytuno ar ganlyniadau gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, ac yna asesu cynnydd partneriaethau tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae'n ofynnol i bartneriaethau gyflwyno adroddiad bob blwyddyn, ar sail y canlyniadau hynny yn hytrach nag ar sail targedau. Darganfu'r archwilydd cyffredinol nad oedd y dull gweithredu hwnnw'n briodol. At hynny, darganfu'r archwilydd cyffredinol nad oedd llawer o'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn ganlyniadau o gwbl, mewn gwirionedd; yr oedd rhai ohonynt yn ddim mwy na phrosesau gweinyddu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn lleol. Yr ydym yn pryderu fod hynny wedi digwydd dan oruchwyliaeth Llywodraeth y Cynulliad. Mae'n cytuno canlyniadau pob partneriaeth.

Ein prif rôl fel Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw gweithredu fel system ddiogelu ar gyfer pwrs y wlad, er mwyn sicrhau, pan fydd Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i bolisi, ei bod yn cyflawni'r polisi hwnnw yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posibl. Yn ein hadroddiad ar Cymunedau yn Gyntaf, yr oeddem yn gresynu inni orfod dod i'r casgliad y bydd Llywodraeth Cymru wedi methu â dangos gwerth am yr arian yn y rhaglen hon, oni fydd yn cymryd camau gweithredu buan a phendant i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd gennym ni a'r archwilydd cyffredinol. Ni fydd y rhaglen yn ddigon cadarn o hyd i gyflawni ei hamcanion uchelgeisiol yn y dyfodol. Er mwyn i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf fod yn llwyddiannus, mae angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio cyfuniad o strategaethau o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny. Fodd bynnag, mae tyndra anochel yn y dull gweithredu hwnnw, ac mae angen ei reoli'n ofalus. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyfeiriad ac arweiniad o'r brig i lawr i'w hadrannau ei hun, i awdurdodau lleol ac i'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru i roi blaenoriaeth i'r



defined, realistic and measurable, to the extent that the additional contribution that partnerships are making to their communities is clearly understood and demonstrated.

We believe that the auditor general's report, alongside our report, provides the Welsh Government with an opportunity to address the fundamental risks that exist to delivering the objectives of the Communities First programme before the end of its 10 years. It is concerning that, despite previous warnings in 2003 and 2006, the Welsh Government has failed to demonstrate the impact of this programme. We expect the Welsh Government to address the weaknesses of its approach to delivering this programme as a priority. When we return to Communities First in the future, as we will, we believe that it is reasonable to expect the problems raised in 2003, 2006, 2009 and 2010 to be resolved. Anything less will be unacceptable to us, and we believe that the communities themselves will find that unacceptable as well.

Before we open this debate to Assembly Members, who, I am sure, have a keen interest in this issue, whether from the perspective of representing constituencies that have Communities First wards, or from their concerns about the management of the programme, I want to address the written response that we have received from the Welsh Assembly Government. In responding to our report, the Welsh Government appears to have been somewhat confused about the remit of the inquiry that we undertook and the role of the Public Accounts Committee itself. While I thank the Welsh Government and welcome its commitment to meet all our recommendations, I am concerned that it both thanked the committee for its considered work and also criticised it for not giving sufficient credit to the work of Communities First partnerships. It is almost as though the person who wrote the letter to me, as the committee Chair, did not write the report.

For the record, we were absolutely crystal clear in our report that the focus of our

rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae angen hefyd iddi feithrin gallu mewn partneriaethau er mwyn i'w hamcanion o'r gwaelod i fyny fod yn glir, yn realistig ac yn fesuradwy, fel ei bod yn hawdd deall a gweld y cyfraniad ychwanegol a wnaiff partneriaethau i'w cymunedau.

Credwn fod adroddiad yr archwilydd cyffredinol, ar y cyd â'n hadroddiad ni, yn gyfle i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r risgiau sylfaenol sy'n peryglu cyflawni amcanion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf cyn diwedd ei 10 mlynedd. Mae'n destun pryder fod Llywodraeth Cymru, er y rhybuddion blaenorol yn 2003 a 2006, wedi methu â dangos effaith y rhaglen hon. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r gwendidau yn ei dull o weithredu'r rhaglen hon, fel mater o flaenoriaeth. Pan fyddwn yn dychwelyd at y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol, fel y byddwn, credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i'r problemau a nodwyd yn 2003, 2006, 2009 a 2010 fod wedi'u datrys. Bydd unrhyw beth llai na hynny'n annerbyniol i ni, a chredwn y bydd y cymunedau eu hunain hefyd yn meddwl bod hynny'n annerbyniol.

Cyn inni agor y ddadl hon i Aelodau Cynulliad sydd, yr wyf yn siŵr, â diddordeb mawr yn y mater, boed oherwydd eu bod yn cynrychioli etholaethau sydd â wardiau Cymunedau yn Gyntaf, ynteu oherwydd eu bod yn pryderu am y modd y caiff y rhaglen ei rheoli, hoffwn roi sylw i'r ymateb ysgrifenedig a gawsom gan Lywodraeth y Cynulliad. Wrth ymateb i'n hadroddiad, ymddengys fod Llywodraeth Cymru wedi drysu ychydig ynghylch cylch gwaith yr ymchwiliad a gynhaliwyd gennym, a rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei hun. Er fy mod yn diolch i Lywodraeth Cymru ac yn croesawu ei hymrwymiad i fodloni pob un o'n hargymhellion, yr wyf yn poeni ei bod wedi diolch i'r pwyllgor am ei waith ystyriol ond wedi ei feirniadu hefyd am beidio â rhoi digon o gydnabyddiaeth i waith partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Ymddengys bron nad y sawl a ysgrifennodd lythyr ataf fi, fel Cadeirydd y pwyllgor, a ysgrifennodd yr adroddiad.

Hoffwn gofnodi inni egluro'n bendant iawn yn ein hadroddiad mai ffocws ein

inquiry was on the Welsh Government, and not on the dedicated people striving to deliver outcomes for the Communities First programme and the communities on the ground. Indeed, we went further and stated the importance of recognising the good work being done locally by individual partnerships, and we received anecdotal evidence of that. The criticisms that we made in our report were of the Welsh Assembly Government and of the officials charged with designing, delivering and managing the programme. Unfortunately, as a consequence of failings at this level, we have found that the Welsh Government is unable to demonstrate the value it has achieved for close to £0.25 billion of public money that has been spent on the programme to date. Deputy Presiding Officer, you will be aware that the Public Accounts Committee is charged with ensuring that the Welsh public pound is spent in the most economic, efficient and effective way, and that value for money is being achieved. As a committee, we are greatly supported in this work by the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office.

It is clear that this duty is paramount as we move forward into an era that will see public services in Wales facing some of the most challenging economic circumstances since their inception. As a committee charged with this duty under statute and by the Assembly, we will discharge this role robustly and fairly, identifying where improvements can be made wherever possible. It is right that we, as a committee, ensure that we highlight performance and where it falls short of what we, as Members, and the Welsh public would expect.

We do not consider the merits of policy, and we do not make political judgments. It is the principles of economy, efficiency and effectiveness that guide us in our work. Although it is a requirement that my role as Chair be discharged by an opposition Member, the committee as a whole reflects the party balance of this Chamber, with seven of its 10 members belonging to the parties currently in the Government coalition. I hope that this helps to clarify our role and the fact that the Welsh Government is aware that the

hymchwiliad oedd Llywodraeth Cymru, nid y bobl ymroddedig sy'n ymdrechu'n galed i sicrhau canlyniadau i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r cymunedau ar lawr gwlad. Yn wir, aethom ymhellach a datgan pwysigrwydd cydnabod y gwaith da a wneir yn lleol gan bartneriaethau unigol, a chawsom dystiolaeth anecdotaidd o hynny. Y sawl a feirniadwyd gennym yn ein hadroddiad oedd Llywodraeth y Cynulliad a'r swyddogion a oedd yn gyfrifol am gynllunio, gweithredu a rheoli'r rhaglen. Yn anffodus, o ganlyniad i fethiannau ar y lefel honno, yr ydym wedi gweld bod Llywodraeth Cymru yn analluog i ddangos y gwerth y mae wedi'i sicrhau am yn agos i £0.25 biliwn o arian cyhoeddus, sydd wedi'i wario ar y rhaglen hyd yma. Ddirprwy Lywydd, gwyddoch fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau bod y bunt gyhoeddus Gymreig yn cael ei gwario yn y modd mwyaf darbodus, effeithlon ac effeithiol posibl, ac y bydd gwerth am yr arian. Fel pwyllgor, cawn ein cynorthwyo i raddau helaeth iawn yn y gwaith hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'n amlwg fod y ddyletswydd hon o'r pwys mwyaf wrth inni symud ymlaen i gyfnod lle bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu rhai o'r amgylchiadau economaidd mwyaf heriol ers eu sefydlu. Fel pwyllgor gyda'r ddyletswydd hon, dan statud a chan y Cynulliad, byddwn yn cyflawni'r rôl hon yn gadarn ac yn deg gan nodi manau lle gellir gwella, pryd bynnag y bydd yn bosibl. Mae'n iawn i ni, fel pwyllgor, sicrhau ein bod yn tynnu sylw at berfformiad, ac at sefyllfaoedd lle nad yw'n cyrraedd y safon y byddem ni, fel Aelodau, a'r cyhoedd yng Nghymru yn ei disgwyl.

Nid ydym yn ystyried rhinweddau polisi, ac nid ydym yn llunio barn wleidyddol. Darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yw'r egwyddorion sy'n ein llywio yn ein gwaith. Er ei bod yn ofynnol i'm rôl i, fel Cadeirydd, gael ei chyflawni gan Aelod o wrthblaid, mae'r pwyllgor yn ei gyfanrwydd yn adlewyrchu cydbwysedd pleidiol y Siambr hon, gyda saith o'i 10 aelod yn perthyn i'r pleidiau sydd yng nghlymblaid y Llywodraeth ar hyn o bryd. Gobeithio y bydd hynny'n helpu egluro ein rôl, ac yn

report that we laid before the Assembly was agreed unanimously.

Moving back to the Government's response, although the recommendations that we and the auditor general made have been accepted, the Welsh Government has not provided us with the timescales that we requested, and, in places, we felt that the response lacked detail. Given the clear conclusions and recommendations that we and the auditor general made, we believe that the response could have been clearer in setting out how the Welsh Government intends to move the programme forward, with associated timescales.

The Welsh Government also makes numerous references to the external evaluation of the Communities First programme. Although we do not object to this in principle, it is important that this does not delay action to address the now well-rehearsed weaknesses in the Communities First programme. As I mentioned earlier, there have been a number of reviews of this programme over the past seven years and what is needed now is action if the programme's ambitious objectives are to be met. I believe that this new Minister has an ideal and golden opportunity to right the wrongs of the past and ensure that Communities First delivers for the future for those people who are ambitious for their communities—those people who would like to make a real difference on the ground. The Minister here today has that opportunity.

I place on record my thanks to the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office and all the witnesses who appeared before the committee. I also thank the committee clerks and all those Members who have given this inquiry a great deal of thought.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** First, I very much welcome this debate on the Public Accounts Committee's Communities First report. The Welsh Assembly Government's response to the report was issued on 15 April, and I am aware that this was laid for

egluro'r ffaith fod Llywodraeth Cymru'n gwybod bod pawb wedi cytuno'n unfrydol ar yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cynulliad.

I ddychwelyd at ymateb y Llywodraeth, er i'r argymhellion a wnaed gennym ni a'r archwilydd cyffredinol gael eu derbyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi inni'r amserlenni yr oeddem wedi gofyn amdanynt, ac mewn manau teimlem nad oedd digon o fanylion yn yr ymateb. O gofio'r casgliadau a'r argymhellion clir a wnaethom ni a'r archwilydd cyffredinol, credwn y gallai'r ymateb fod wedi nodi'n gliriach sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu symud y rhaglen yn ei blaen, gydag amserlenni perthnasol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n cyfeirio'n fynych iawn at werthusiad allanol o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Er nad ydym yn gwrthwynebu egwyddor hynny, mae'n bwysig na fydd hyn yn arwain at oedi wrth weithredu i fynd i'r afael â gwendidau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n hysbys iawn erbyn hyn. Fel y soniais yn gynharach, adolygwyd y rhaglen hon droeon dros y saith mlynedd diwethaf, a'r hyn y mae arnom ei angen yn awr yw camau gweithredu os yw amcanion uchelgeisiol y rhaglen i gael eu gwireddu. Credaf fod gan y Gweinidog newydd hwn gyfle euraid a delfrydol i gywiro camgymeriadau'r gorffennol ac i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni ar gyfer y dyfodol i'r bobl hynny sy'n uchelgeisiol dros eu cymunedau—y bobl hynny a fyddai'n hoffi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ar lawr gwlad. Mae'r cyfle hwnnw gan y Gweinidog yma heddiw.

Hoffwn gofnodi fy niolch i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a'r holl dystion a ymddangosodd gerbron y pwyllgor. Diolch hefyd i glercod y pwyllgor a'r holl Aelodau sydd wedi meddwl o ddifrif am yr ymchwiliad hwn.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Yn gyntaf, croesawaf yn fawr iawn y ddadl hon ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cymunedau yn Gyntaf. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad ar 15 Ebrill, a gwn

Members last week, prior to this debate. Members will see that the Welsh Assembly Government has accepted all the report's recommendations, and work has already started on taking those forward. I will provide the Public Accounts Committee with an update on the implementation of the recommendations by April 2011. I look forward to the rest of the debate this afternoon. Should I be called later, I will respond in more detail.

**Christine Chapman:** Without doubt, the committee's report is critical of Communities First. At such difficult times, value for money must be a big consideration. I note in particular the Wales Council for Voluntary Action's comment about the improvements needed in training, particularly for Welsh Assembly Government and local authority staff. However, I echo Jonathan Morgan's comments about achieving a necessary balance between strategic leadership and encouraging and inspiring the community to come forward with local bottom-up solutions. It is difficult. In itself, there will always be an element of risk, but unless members of the community are allowed to take on responsibility success will be jeopardised. It is a very difficult balance, sometimes.

4.20 p.m.

I also note and endorse the point made about programme bending, particularly in present circumstances. There needs to be greater priority for this if we are to continue to tackle poverty in our communities. However, that said, rather than being all negative, I think that we need to ensure that the message that goes out from the Assembly is that we do want to encourage Communities First groups. We need to build on the successes. In my community, I am very proud that we are seeing results and some positive outcomes.

I will just illustrate some of the positive things in my community. There are partnerships like the one in Glyncoch, for example, which has transformed the area into a learning community. That partnership has been working with the people and work unit,

iddo gael ei gyflwyno i Aelodau yr wythnos diwethaf, cyn y ddadl hon. Bydd Aelodau'n gweld bod Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn holl argymhellion yr adroddiad, ac mae gwaith wedi dechrau eisoes ar symud yr argymhellion hynny yn eu blaen. Byddaf yn rhoi'r manylion diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch gweithredu'r argymhellion erbyn mis Ebrill 2011. Edrychaf ymlaen at weddill y ddadl y prynhawn yma. Ymatebaf yn fanylach os gelwir arnaf yn nes ymlaen.

**Christine Chapman:** Heb os, mae adroddiad y pwyllgor yn feirniadol o Cymunedau yn Gyntaf. Mewn cyfnod mor anodd, mae'n rhaid i werth am arian fod yn ystyriaeth bwysig. Yn anad dim, nodaf sylw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am y gwelliannau y mae eu hangen mewn hyfforddiant, yn enwedig i staff Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, hoffwn adleisio sylwadau Jonathan Morgan ynghylch sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng arweinyddiaeth strategol a'r broses o annog ac ysbrydoli'r gymuned i gynnig atebion lleol o'r gwaelod i fyny. Mae'n anodd. Bydd elfen o risg yn hynny bob amser, ond oni fydd aelodau'r gymuned yn cael cymryd cyfrifoldeb, bydd perygl i'r rhaglen fethu. Mae'n anodd iawn sicrhau'r cydbwysedd cywir weithiau.

Yn ogystal, nodaf ac ategaf y pwynt a wnaed am blygu rhaglenni, yn enwedig yn yr amgylchiadau sydd ohoni. Mae angen rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn os ydym i barhau i fynd i'r afael â thlodi yn ein cymunedau. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, yn hytrach na bod yn hollol negyddol, credaf fod angen inni sicrhau mai'r neges o'r Cynulliad yw ein bod yn awyddus i hybu grwpiau Cymunedau yn Gyntaf. Mae angen inni adeiladu ar y llwyddiannau. Yn fy nghymuned i, yr wyf yn falch iawn ein bod yn gweld canlyniadau, a rhai deilliannau cadarnhaol.

Hoffwn ddisgrifio rhai o'r pethau cadarnhaol yn fy nghymuned i. Ceir partneriaethau megis yr un yng Nglyn-coch, er enghraifft, sydd wedi trawsnewid yr ardal yn gymuned sy'n dysgu. Mae'r bartneriaeth honno wedi bod yn gweithio gyda'r uned pobl a gwaith,

local schools, the Workers' Educational Association, the council, Coleg Morgannwg and the University of Glamorgan, and a great deal has been achieved. For instance, attendance among year 7 pupils has improved dramatically, and, for the first time, young people and families are accessing homework support. Young people who have had a reputation for challenging behaviour have developed personal goals and are making significant progress, possibly for the first time. Again, it is about schools working with the Communities First partnership. We know that adult learning has doubled within one year, and more young people from Glyncoch are now going on to higher education. In Fernhill—another community in my constituency—a food initiative is helping to promote healthy living. In Perthcelyn, there is a walking club for all ages to improve the health and wellbeing of local residents.

I know that many of you here will also have some good examples. We must not lose sight of these good examples, but they are just a snapshot of the good work that is being done by Communities First.

As I said, although we need to be honest about what improvements need to be made, we need to remember—

**Janet Ryder:** All the projects that you have outlined are really good, but can you tell me how the sustainable long-term impact on those communities is being measured? That is what our report was about, not the projects themselves. It was about how the long-term sustainable impact will be measured. Have each of those projects set the criteria by which they want to be measured? How is it happening?

**Christine Chapman:** Obviously, you would have to discuss this individually with the projects, but I would say that some of these are very much long-term issues. I do not think that you will get results immediately. The Communities First programme was set up to address deep-seated inequalities, and, as such, we need to appreciate that the indicators are not always as clear cut as it

ysgolion lleol, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, y cyngor, Coleg Morgannwg a Phrifysgol Morgannwg, ac mae llawer iawn wedi'i gyflawni. Er enghraifft, mae presenoldeb ymysg disgyblion blwyddyn 7 wedi gwella'n ddramatig, ac am y tro cyntaf mae pobl ifanc a theuluoedd yn cael cymorth gyda gwaith cartref. Mae pobl ifanc, a oedd ag enw gwael am ymddwyn yn heriol, wedi datblygu nodau personol ac yn gwneud cynnydd sylweddol, am y tro cyntaf efallai. Unwaith eto, mae'n golygu bod ysgolion yn gweithio gyda'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf. Gwyddom fod dysgu ymhlith oedolion wedi dyblu mewn blwyddyn, ac mae mwy o bobl ifanc o Lyn-coch erbyn hyn yn mynd ymlaen i addysg uwch. Yn Fernhill—cymuned arall yn fy etholaeth—mae menter fwyd yn helpu hyrwyddo byw'n iach. Ym Mherthcelyn, mae yna glwb cerdded ar gyfer pobl o bob oed i wella iechyd a lles y trigolion lleol.

Gwn y bydd gan lawer ohonoch sydd yma hefyd rai enghreifftiau da. Rhaid inni beidio â cholli golwg ar yr enghreifftiau da hyn, ond cipolwg sydyn yn unig ydynt ar y gwaith da a wneir gan Cymunedau yn Gyntaf.

Fel y dywedais, er bod angen inni fod yn onest ynghylch y gwelliannau y mae angen eu gwneud, mae angen inni gofio—

**Janet Ryder:** Mae'r holl brosiectau a amlinellwyd gennych yn wirioneddol dda, ond a allwch ddweud wrthyf sut mae eu heffaith hirdymor a chynaliadwy ar y cymunedau hynny'n cael ei mesur? Dyna oedd byrdwn ein hadroddiad, nid y prosiectau eu hunain. Yr oedd a wnelo â'r ffordd y bydd yr effaith gynaliadwy a hirdymor yn cael ei mesur. A yw pob un o'r prosiectau hynny wedi pennu'r meini prawf yr hoffent gael eu mesur yn eu herbyn? Sut mae hynny'n digwydd?

**Christine Chapman:** Wrth gwrs, byddai'n rhaid ichi drafod hynny'n unigol gyda'r prosiectau, ond byddwn yn dweud bod rhai o'r rhain yn faterion hirdymor iawn. Ni chredaf y gwelwch ganlyniadau'n syth. Cafodd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei sefydlu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau dwfn, ac o ran hynny mae angen inni werthfawrogi nad yw'r dangosyddion bob

seems. As I said, we need to be robust about making sure that the outcomes are there, which is the responsibility of the Welsh Assembly Government, but I think that it is rather more complex than that. My concern today is that, while we are being robust about this report, we must not give out negative messages to our communities and discourage them; if we are to succeed, we need to build on the success of those projects in those communities.

**Mark Isherwood:** The Welsh Government announced the Communities First programme in April 2001 as its flagship programme to tackle deprivation in the most disadvantaged communities in Wales. However, nine years and almost £0.25 billion later, the inconvenient truth for the Government is that the poverty gap has widened, social mobility has stalled, Wales has the highest levels of unemployment and child poverty in the United Kingdom, one in three working-aged people are not in work and youth unemployment is at its highest levels since records began.

As a member of the Audit Committee in the last Assembly, I successfully called for an inquiry into Communities First to be included in the Wales Audit Office forward work programme. I did so for two reasons. First, I had asked the Wales Audit Office to investigate serious allegations relating to submissions by Flintshire County Council at the outset of the Communities First programme. Its resulting report found that there were a number of errors in the council's submission, but there was a wider issue regarding the potential impact of the errors, which has not been addressed. It said that the most appropriate organisation to address this was the Welsh Government, which assessed and approved the original submission, which included data that, in the words of the auditor, were flawed and inappropriate. The auditors also found that the guidance provided by the Welsh Government on how areas should be selected left considerable scope for interpretation

amser mor glir ag yr ymddengys. Fel y dywedais, mae angen inni fod yn gadarn ynghylch sicrhau bod y canlyniadau i'w gweld, sef cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad, ond credaf fod y mater ychydig yn fwy cymhleth na hynny. Yr hyn yr wyf yn pryderu yn ei gylch heddiw yw ei bod yn rhaid inni beidio â chyfleu negeseuon negyddol i'n cymunedau a'u gwangalonni, wrth ymdrin yn gadarn â'r adroddiad hwn; os ydym i lwyddo, mae angen inni adeiladu ar lwyddiant y prosiectau hynny yn y cymunedau hynny.

**Mark Isherwood:** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ym mis Ebrill 2001, fel ei rhaglen fwyaf blaenllaw ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Fodd bynnag, naw mlynedd a bron i £0.25 biliwn yn ddiweddarach, y gwir anghyfleus i'r Llywodraeth yw bod y bwlch o ran tlodi wedi ehangu, bod symudoledd cymdeithasol wedi dod i ben, mai yng Nghymru y mae'r lefelau uchaf o ddiweithdra a thlodi plant yn y Deyrnas Unedig, nad yw un o bob tri oedolyn o oed gweithio mewn gwaith, a bod diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ei lefel uchaf ers inni ddechrau cadw cofnodion.

Fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio yn y Cynulliad diwethaf, gelwais yn llwyddiannus am ymchwiliad i bosibilrwydd cynnwys Cymunedau yn Gyntaf ym mlaenraglen waith Swyddfa Archwilio Cymru. Gwneuthum hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, yr oeddwn wedi gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru ymchwilio i honiadau difrifol yn ymwneud â cheisiadau gan Gyngor Sir y Fflint ar ddechrau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Darganfu'r adroddiad a ddeilliodd o'r ymchwiliad hwnnw fod llawer o wallau yng nghais y cyngor, ond yr oedd yna broblem fwy ynghylch effaith bosibl y gwallau nad yw wedi cael sylw. Dywedodd yr adroddiad mai'r sefydliad mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r broblem oedd Llywodraeth Cymru, a oedd wedi asesu'r cais a'i gymeradwyo'n wreiddiol. Yr oedd hwnnw'n cynnwys data a oedd, yng ngeiriau'r archwilydd, yn ddiffygiol ac yn amhriodol. Yn ogystal, darganfu'r archwilydd fod sawl ffordd i ddehongli'r arweiniad a ddarparwyd gan Llywodraeth Cymru am y modd y dylid dewis

ardaloedd.

My second reason was the fact that the 2006 interim evaluation of Communities First found little evidence of rigorous monitoring and evaluation, and said that Communities First is still a long way away from producing the regeneration outcomes that are its main aims. The Minister responsible at the time, Edwina Hart, told the former Social Justice and Regeneration Committee that the evaluation highlighted the need to focus on embedded evaluation and continuous local monitoring. So, why did this not happen?

Fy ail reswm oedd y ffaith fod gwerthusiad interim 2006 Cymunedau yn Gyntaf wedi darganfod fawr ddim tystiolaeth o waith monitro a gwerthuso trylwyr, ac wedi dweud bod gan Cymunedau yn Gyntaf ffordd bell i fynd o hyd i sicrhau'r canlyniadau adfywio sy'n brif nodau i'r rhaglen. Dywedodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol ar y pryd, sef Edwina Hart, wrth yr hen Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fod y gwerthusiad yn tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio ar waith gwerthuso integredig a gwaith monitro lleol parhaus. Pam na ddigwyddodd hynny, felly?

Last July, the Wales Audit Office's report into Communities First stated that

Fis Gorffennaf diwethaf, dywedodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Cymunedau yn Gyntaf:

'serious weaknesses in financial planning and processes for funding the programme led to widespread variation in funding, with no clear rationale for funding decisions'.

'arweiniodd gwendidau difrifol yn y gwaith cynllunio ariannol a'r prosesau ar gyfer ariannu'r rhaglen at amrywiad eang yn yr arian a roddwyd heb unrhyw sail resymegol glir dros benderfyniadau'n ymwneud ag ariannu'.

It said that there was an absence of basic human resource and financial planning, that monitoring was weak and that there was no evidence that anything was done with the feedback. It is more than coincidental that the Minister chose to make a statement on Communities First yesterday, the day before today's critical debate on the Public Accounts Committee's report, just as he made a statement on the Plas Madoc Communities First programme in March the day before the publication of the damning Wales Audit Office report on it.

Dywedodd fod diffyg gwaith cynllunio sylfaenol yng nghyswllt arian ac adnoddau dynol, bod gwaith monitro'n wan, ac nad oedd tystiolaeth bod dim yn cael ei wneud â'r adborth. Mae'n fwy na chyd-ddigwyddiad fod y Gweinidog wedi dewis gwneud datganiad ar Cymunedau yn Gyntaf ddoe, ddiwrnod cyn y ddadl hollbwysig heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn union fel y gwnaeth ddatganiad ar raglen Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog ym mis Mawrth, ddiwrnod cyn cyhoeddi adroddiad damniol Swyddfa Archwilio Cymru ar y rhaglen honno.

The Public Accounts Committee concluded that

Daeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r casgliad

'overall, the Communities First programme has not delivered good value for the significant amount of public money spent on it, and...this is largely because of weaknesses in the Welsh Government's construction and management of the programme'.

'nad yw rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn gyffredinol, wedi rhoi gwerth da am y swm sylweddol o arian cyhoeddus a wariwyd arni, a bod hyn i'w briodoli'n bennaf i wendidau yn y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio a rheoli'r rhaglen'.

For the Welsh Government to respond by

Mae Llywodraeth Cymru yn dangos amarch

describing the report as ‘unbalanced and partial’ is disrespectful, treating the public’s democratic right to transparency and accountability with contempt. In reality, successive Welsh Ministers have serious questions to answer about their custodianship of public funds.

I also played a part in securing the Wales Audit Office report on Plas Madoc Communities First, after the Welsh Government had failed to act on the concerns highlighted. That report found that, over a six-year period, the Welsh Government’s monitoring arrangements failed to address serious shortcomings, and that the Welsh Government should have responded more effectively to concerns brought to its attention by third parties as long ago as 2003.

**Alun Davies:** Having listened to you now for over four minutes, I have yet to hear you say anything positive at all. It sounds to me as if the Conservative Party will be going into the next election with a promise to shut down the Communities First programme.

**Mark Isherwood:** I am quoting from official reports, and perhaps it is about time that you paid attention to them. This is serious.

The report said that, as recently as 2009, concerns reported to the Welsh Government by the Association of Voluntary Organisations in Wrexham were ignored and not acted upon. Yesterday, the Minister claimed that I had long been opposed to Communities First. In reality, I have been a long-term supporter of sustainable community regeneration programmes that are built on local empowerment, and I even had some experience of this before coming to the Assembly. I measure success by what works, recognising that the best results are delivered by delegation of responsibility and letting go. However, this presupposes a bedrock of good corporate governance, audit trails and embedded financial and human resource systems. The Welsh Government, since its inception, has ignored warnings and has failed to do this, targeting, instead, campaigners for the truth. This must end; we

yn ei hymateb wrth ddisgrifio’r adroddiad fel un ‘anghytbwys a phleidiol’, gan sarhau hawl ddemocrataidd y cyhoedd i dryloywder ac atebolrwydd. Mewn gwirionedd, mae gan y naill ar ôl y llall o Weinidogion Cymru gwestiynau difrifol i’w hateb am y modd y maent wedi diogelu arian cyhoeddus.

Yr oedd gennyf fi hefyd ran yn y broses o sicrhau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar raglen Cymunedau yn Gyntaf Plas Madog, ar ôl i Lywodraeth Cymru fethu â gweithredu ar sail y pryderon a amlygwyd. Darganfu’r adroddiad hwnnw fod trefniadau monitro Llywodraeth Cymru, dros gyfnod o chwe blynedd, wedi methu â mynd i’r afael â gwendidau difrifol, ac y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi ymateb yn fwy effeithiol i bryderon y tynnwyd ei sylw atynt gan drydydd partïon mor bell yn ôl â 2003.

**Alun Davies:** Ar ôl gwrandao arnoch am dros bedair munud erbyn hyn, nid wyf wedi’ch clywed yn dweud dim byd cadarnhaol eto. Mae’n ymddangos i mi y bydd y Blaid Geidwadol yn mynd i mewn i’r etholiad nesaf gydag addewid i ddod â’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben.

**Mark Isherwood:** Yr wyf yn dyfynnu o adroddiadau swyddogol, ac efallai ei bod yn bryd ichi roi ychydig sylw iddynt. Mae hwn yn fater difrifol.

Yr oedd yr adroddiad yn dweud bod pryderon a fynegwyd wrth Lywodraeth Cymru gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, mor ddiweddar â 2009, wedi eu hanwybyddu, ac na weithredwyd arnynt. Ddoe, honnodd y Gweinidog fy mod wedi gwrthwynebu Cymunedau yn Gyntaf ers amser maith. Mewn gwirionedd, yr wyf ers amser wedi cefnogi rhaglenni cynaliadwy ym maes adfywio cymunedol sy’n seiliedig ar rymuso pobl yn lleol, a chefais ychydig brofiad o hynny hyd yn oed cyn dod i’r Cynulliad. Yr wyf yn mesur llwyddiant yn ôl yr hyn sy’n gweithio, gan gydnabod y caiff y canlyniadau gorau eu cyflawni drwy ddirprwyo cyfrifoldeb a gollwng gafael. Fodd bynnag, mae hynny’n rhagdybio sylfaen gadarn o lywodraethu corfforaethol da, llwybrau archwilio a systemau integredig ar gyfer rheoli arian ac adnoddau dynol. Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi



need an independent inquiry that puts the conduct of Welsh Ministers under the microscope.

4.30 p.m.

**Janet Ryder:** I support everything that the Chair of the committee has said in the report. The debate is about the Government's response to Communities First. It is not about the project, as Alun Davies has just mentioned; it is about the Government's response and how it will assess the impact of a major Government programme. It is hard to differentiate between today's debate and yesterday's statement, therefore, I will start by referring to some of the Minister's responses yesterday.

Three points were raised by you in response to questions yesterday, Minister. You said that we must remember that these partnerships are based on 'trust and personal assurances', but you now realise that you need 'structures in place' to prevent what happened in the Plas Madoc partnership from happening again. However, you failed to outline what those structures would be, apart from differentiating between the partnership and the board.

You said that it was your intention to put procedures in place to prevent it from happening again, but, again, you failed to outline what those procedures would be and you said that you were assured by the governance review, but that the governance review was continuing.

You also said that the immediate steps that you took

'to strengthen the governance of Communities First, included a programme of detailed audit inspections of those partnerships assessed as posing the greatest financial or governance risk, and the introduction of specific management assurance checks.'

I will reiterate what I said yesterday: I do not

anwybyddu rhybuddion ac wedi methu â gwneud hyn, gan dargedu ymgyrchwyr dros y gwirionedd yn lle hynny. Rhaid i hynny ddod i ben; mae arnom angen ymchwiliad annibynnol sy'n archwilio ymddygiad Gweinidogion Cymru.

**Janet Ryder:** Yr wyf yn ategu popeth y mae Cadeirydd y pwyllgor wedi'i ddweud yn yr adroddiad. Mae a wnelo'r ddadl ag ymateb y Llywodraeth i Cymunedau yn Gyntaf. Nid oes a wnelo â'r prosiect, fel y mae Alun Davies newydd ei ddweud; mae a wnelo ag ymateb y Llywodraeth, a'r modd y bydd yn asesu'r effaith a gaiff rhaglen bwysig gan Lywodraeth. Mae'n anodd gwahaniaethu rhwng y ddadl heddiw a'r datganiad ddoe, felly, hoffwn ddechrau drwy gyfeirio at rai o ymatebion y Gweinidog ddoe.

Codwyd tri phwynt gennych wrth ymateb i gwestiynau ddoe, Weinidog. Dywedasoeh ei bod yn rhaid inni gofio bod y partneriaethau hyn wedi eu seilio ar ymddiriedaeth ac addewidion personol, ond yr ydych yn sylweddoli'n awr bod arnoch angen strwythurau ar waith i atal yr hyn a ddigwyddodd ym Mhlas Madog rhag digwydd eto. Fodd bynnag, bu ichi fethu ag amlinellu beth fyddai'r strwythurau hynny, ar wahân i wahaniaethu rhwng y bartneriaeth a'r bwrdd.

Dywedasoeh mai eich bwriad oedd rhoi gweithdrefnau ar waith i atal hynny rhag digwydd eto, ond unwaith yn rhagor, bu ichi fethu ag amlinellu beth fyddai'r gweithdrefnau hynny, a dywedasoeh fod yr adolygiad llywodraethu yn rhoi sicrwydd ichi, ond bod yr adolygiad hwnnw'n parhau.

Dywedasoeh hefyd fod y camau a gymerwyd gennych yn syth

i gryfhau'r llywodraethu ar Cymunedau yn Gyntaf, yn cynnwys rhaglen o arolygiadau archwilio manwl o'r partneriaethau hynny yr aseswyd eu bod yn peri'r risg mwyaf yn ariannol neu o ran llywodraethu, ac yn cynnwys cyflwyno gwiriadau penodol i sicrhau ansawdd prosesau rheoli.

Hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedais ddoe:

believe that a detailed audit inspection can in itself lead to better governance. It can point to what needs to change to lead to that better governance, but we need to know what actions you are taking. Surely, we now need to know what the detailed outcome of that audit was, what new steps you are taking regarding the Communities First project, in what way did the audit go beyond an accounting exercise, how you intend to measure value for money from Communities First and how you will measure the added value that Communities First has made to communities.

All those points were raised in the committee report and they have all been accepted positively by you, Minister. The initial report from the auditor general on Communities First highlighted the lack of any means by which value for money or added value can be judged. Many times, we have heard of the many valuable projects—we have heard about that again today—that have resulted from this programme, and there are many good projects, but how will we judge the benefits of those projects to communities and who will make that judgment? How will an assessment be made of whether what has happened since Communities First was established was not already happening and was totally new and will have a sustainable, long-term impact on those communities? Where are the tools to measure this? The auditor general made recommendations on what he wanted to see in place in this regard and the Government accepted those recommendations.

However, apart from being told that a further review will take place in 2010-11, we do not know any more detail. The auditor general says in her response to your response, Minister, that in many places it is vague about how the recommendations will be implemented. She goes on to say that there are few clear timescales for action despite the committee explicitly asking for timescales. All of that is despite your response in welcoming the recommendations and accepting them all.

ni chredaf y gall arolwg archwilio manwl ynddo'i hun arwain at lywodraethu gwell. Gall ddangos yr hyn y mae angen iddo newid er mwyn arwain at y llywodraethu gwell hwnnw, ond mae angen inni wybod pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd. Siawns nad oes angen inni wybod erbyn hyn beth oedd canlyniad manwl yr archwiliad hwnnw, pa gamau newydd yr ydych yn eu cymryd ynghylch y prosiect Cymunedau yn Gyntaf, ym mha ffordd yr oedd yr archwiliad yn fwy nag ymarfer cyfrifyddu, sut yr ydych yn bwriadu mesur gwerth yr arian gan Cymunedau yn Gyntaf, a sut y byddwch yn mesur y gwerth ychwanegol y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi'i sicrhau i gymunedau.

Cafodd pob un o'r pwyntiau hynny eu codi yn adroddiad y pwyllgor, ac y maent i gyd wedi eu derbyn yn gadarnhaol gennyh, Weinidog. Yr oedd adroddiad cyntaf yr archwilydd cyffredinol ar Cymunedau yn Gyntaf yn tynnu sylw at ddiffyg unrhyw fodd i allu barnu gwerth yr arian neu werth ychwanegol. Yr ydym wedi clywed droeon am y prosiectau gwerthfawr niferus—yr ydym wedi clywed am hynny eto heddiw—sydd wedi deillio o'r rhaglen hon, ac mae yna nifer o brosiectau da, ond sut y byddwn yn barnu manteision y prosiectau hynny i gymunedau, a phwy fydd yn llunio'r farn honno? Sut y bwriedir asesu a oedd yr hyn sydd wedi digwydd ers sefydlu Cymunedau yn Gyntaf yn digwydd eisoes, a oedd yn hollol newydd ac a fydd yn cael effaith hirdymor a chynaliadwy ar y cymunedau dan sylw? Ble mae'r adnoddau i fesur hynny? Gwnaeth yr archwilydd cyffredinol argymhellion ynghylch yr hyn yr oedd am ei weld o ran hynny, a derbyniodd y Llywodraeth yr argymhellion hynny.

Fodd bynnag, ar wahân i gael gwybod y bydd adolygiad arall yn digwydd yn 2010-11, nid oes gennym ragor o fanylion. Wrth ymateb i'ch ymateb chi, Weinidog, dywed yr archwilydd cyffredinol fod eich ymateb yn aneglur mewn llawer man am y modd y caiff yr argymhellion eu gweithredu. Aiff yn ei blaen i ddweud mai ychydig amserlenni clir sydd ar gyfer gweithredu, er i'r pwyllgor ofyn yn benodol am amserlenni. Mae hynny i gyd er gwaethaf eich ymateb, pan oeddech yn croesawu'r argymhellion ac yn eu derbyn i

gyd.

Again, returning to yesterday's statement, you said:

'I am pleased that, where the work has been completed, no serious concerns or significant failings have been identified.'

That assertion—some might call it complacent—seems at odds with the auditor general's recent concerns. You know that she has criticised your response to the Public Accounts Committee review and has said that the weaknesses in the programme are now well known and that the Assembly Government needs to act to get to grips with tackling those weaknesses as a matter of urgency. You made it clear yesterday that you disagreed with the auditor general. Why then, Minister, did you accept fully the recommendations of the committee?

I will return again to your statement. You said:

'I am pleased that, where the work has been completed, no serious concerns or significant failings have been identified.'

That is a vague and woolly statement when what we need is an honest and precise appraisal of the situation.

**Carl Sargeant:** For clarity, Janet, I did not say yesterday that I disagreed with the auditor general. I do not know where you got that from. Could you clarify why you said that, please?

**Janet Ryder:** You may not have said that on the record, but your shaking of your head and saying 'no' when Mark Isherwood was talking, and when I specifically asked you about the response, indicated that you disagreed. If you do not disagree with the auditor general, I am pleased because I think that it would be rather unwise to disagree with her.

**The Deputy Presiding Officer:** That will be in the Record tomorrow. Have you finished, Janet Ryder?

Unwaith eto, i ddychwelyd at y datganiad ddoe, dywedasoch:

'Yr wyf yn falch o weld, lle y mae'r gwaith wedi'i gwblhau, na nodwyd unrhyw bryderon difrifol neu ddiffygion sylweddol.'

Mae'r honiad hwnnw—y byddai rhai efallai'n ei alw'n hunanfodlon—fel pe bai'n mynd yn groes i bryderon diweddar yr archwilydd cyffredinol. Gwyddoch iddi feirniadu eich ymateb i adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a dweud bod gwendidau'r rhaglen yn hysbys i bawb erbyn hyn, a bod angen i Lywodraeth y Cynulliad weithredu ar frys i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny. Yr oeddech yn egluro ddoe eich bod yn anghytuno â'r archwilydd cyffredinol. Pam, felly, Weinidog, y bu ichi dderbyn argymhellion y pwyllgor yn llawn?

Hoffwn fynd yn ôl unwaith eto at eich datganiad. Dywedasoch:

'Yr wyf yn falch o weld, lle y mae'r gwaith wedi'i gwblhau, na nodwyd unrhyw bryderon difrifol neu ddiffygion sylweddol.'

Mae'n ddatganiad aneglur a niwlog, pan fo arnom angen arfarniad gonest a manwl o'r sefyllfa.

**Carl Sargeant:** I egluro, Janet, ni ddywedais ddoe fy mod yn anghytuno â'r archwilydd cyffredinol. Ni wn o ble y cawsoch y wybodaeth honno. A allech egluro pam yr oeddech yn dweud hynny, os gwelwch yn dda?

**Janet Ryder:** Hwyrach nad oedd yn amlwg ichi ddweud hynny yn y cofnod, ond yr oedd y ffaith ichi ysgwyd eich pen a dweud 'na' pan oedd Mark Isherwood yn siarad, a phan ofynnais yn benodol ichi am yr ymateb, yn dangos eich bod yn anghytuno. Os nad ydych yn anghytuno â'r archwilydd cyffredinol, yr wyf yn falch o hynny, oherwydd credaf y byddai braidd yn annoeth ichi anghytuno â hi.

**Y Dirprwy Lywydd:** Bydd hynny yn y cofnod yfory. A ydych wedi gorffen, Janet Ryder?

**Janet Ryder:** No. This goes back to how the Government has responded to the committee's recommendations, all of which have been accepted, but none of which have been addressed fully. We do not have any timescales or precise details and we still do not know how you will re-evaluate this programme. It has been said before that this was a wide-ranging programme when it was established. It was established without clear guidelines and without, it would seem, a clear indication to community groups as to how they should be handling the money. Since then, Minister, it appears that no further clear guidance has been given. It is, therefore, surprising that there has been only one Plas Madoc.

**Jenny Randerson:** Janet's final comment sums up exactly the approach that I was going to take in my speech this afternoon. This report is about a great deal more than Plas Madoc, but that case sums up the weaknesses of the system. In all the years that I have been in politics, I have never read a report like the one on Plas Madoc, which showed such shocking weaknesses in governance systems and such a serious lack of control. The really worrying things are, for example, the lack of response by the Communities First unit in the Welsh Assembly Government when concerns were raised by the public. There was a failure to respond to early concerns raised on several occasions by Wrexham County Borough Council. Indeed, rather than responding to Wrexham's concern, Plas Madoc was taken out of Wrexham's reach. Previously, the money had gone via Wrexham council and was audited by Wrexham, but it was taken away from Wrexham and put in an independent position. That is no way to run a multi-million-pound programme.

I want to draw everyone's attention to other issues in this report. There has been a great deal of concern about the lack of programme bending, that is, the idea that the financially well-supported Communities First scheme has to fit in with other agencies of Government and has to fit in in policy terms in order to ensure a co-ordinated approach. It

**Janet Ryder:** Nac ydwyf. Mae a wnelo hyn â'r ffordd y mae'r Llywodraeth wedi ymateb i argymhellion y pwyllgor, bob un ohonynt wedi'u derbyn, ond nad oes yr un ohonynt wedi cael sylw'n llawn. Nid oes gennym ddim amserlenni na manylion penodol, ac ni wyddom o hyd sut y byddwch yn ailwerthuso'r rhaglen hon. Dywedwyd o'r blaen fod y rhaglen hon yn un eang pan gafodd ei sefydlu. Cafodd ei sefydlu heb ganllawiau clir, a heb arwydd clir i grwpiau cymunedol, yn ôl pob golwg, sut y dylent fod yn ymdrin â'r arian. Ers hynny, Weinidog, ymddengys nad oes dim arweiniad clir pellach wedi'i roi. Mae'n syndod, felly, na chafwyd mwy nag un achos tebyg i Blas Madog.

**Jenny Randerson:** Mae sylw olaf Janet yn crynhoi'n union yr agwedd yr oeddwn yn bwriadu ei mabwysiadu yn fy araith y prynhawn yma. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â llawer mwy na Phlas Madog yn unig, ond mae'r achos hwnnw'n crynhoi gwendidau'r system. Yn ystod yr holl flynyddoedd y bûm yn ymwneud â gwleidyddiaeth, nid wyf erioed wedi darllen adroddiad tebyg i'r un ar Blas Madog, a oedd yn dangos gwendidau mor ddychrynlyd mewn systemau llywodraethu, a diffyg rheolaeth mor ddiffrifol. Y pethau sy'n peri pryder gwirioneddol yw'r diffyg ymateb, er enghraifft, gan uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad pan gafodd pryderon eu mynegi gan y cyhoedd. Methwyd ag ymateb i bryderon cynnar a fynegwyd droeon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn wir, yn hytrach nag ymateb i bryder Wrecsam, cafodd rhaglen Plas Madog ei thynnu o faes cyfrifoldeb Wrecsam. Gynt byddai'r arian yn mynd drwy gyngor Wrecsam ac yn cael ei archwilio gan Wrecsam, ond cafodd y rhaglen ei chymryd oddi ar Wrecsam a'i rhoi mewn sefyllfa annibynnol. Nid dyna'r ffordd i redeg rhaglen gwerth miliynau lawer o bunnoedd.

Hoffwn dynnu sylw pawb at broblemau eraill yn yr adroddiad hwn. Bu cryn bryder am y diffyg plygu rhaglenni, hynny yw, y syniad ei bod yn rhaid i gynllun Cymunedau yn Gyntaf, sy'n cael cefnogaeth ariannol dda, gydymffurfio ag asiantaethau eraill Llywodraeth a chydymffurfio o ran polisi er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o

is essential that the Government ensures that it is part of a co-ordinated whole.

Concerns also need to be raised about the day-to-day governance of Communities First projects. In the Public Accounts Committee, we have seen a couple of cases recently—not both in Communities First, by the way—where privately appointed auditors have failed to come up to scratch. The Government needs to look at the independent auditing system. If auditing is done via local authorities, then there is a belt and braces approach. However, if a project is audited by independent auditors, then it needs to be looked at much more thoroughly to ensure that those auditors report to the whole board and not just to a finance officer, which is what happened in the case of Plas Madoc.

The greatest weakness that this report has highlighted is the Government's failure to evaluate Communities First. It is a failure to ensure that the Government has value for money. Therefore, it is failure on the part of the Welsh Assembly Government in meeting its responsibility to the poorest communities in Wales. Contrary to what the Minister has implied at some points, there is no opposition to the concept of Communities First. There has been cross-party consensus that it is a scheme that has great potential to be successful and effective. Philosophically, I think that it is an extremely good idea to put power, money and control, and the answers and solutions to problems, in the hands of communities. However, the way in which it has been run by the Government has been woeful on occasion. The Minister's response states that

'the Welsh Assembly Government believes that the body of the report is unbalanced and partial'.

It also states that:

'The report does not give sufficient credit to the good work being undertaken by Communities First'.

That suggests either that the report has not

weithredu. Mae'n hanfodol i'r Llywodraeth sicrhau bod y cynllun yn rhan o gyfanwaith cydgyssylltiedig.

Yn ogystal, mae angen mynegi pryderon am y modd y caiff prosiectau Cymunedau yn Gyntaf eu llywodraethu o ddydd i ddydd. Yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr ydym wedi gweld dau achos yn ddiweddar—nid yw'r ddau'n perthyn i Cymunedau yn Gyntaf, gyda llaw—lle mae archwilwyr a benodwyd yn breifat wedi methu gwneud eu gwaith yn iawn. Mae angen i'r Llywodraeth edrych ar y system archwilio annibynnol. Os caiff gwaith archwilio ei wneud drwy awdurdodau lleol, mae yna agwedd ofalus iawn. Fodd bynnag, os caiff prosiect ei archwilio gan archwilwyr annibynnol, mae angen edrych arno'n fwy trwyadl o lawer i sicrhau bod yr archwilwyr hynny'n adrodd i'r bwrdd cyfan, nid i swyddog cyllid yn unig, sef yr hyn a ddigwyddodd yn achos Plas Madog.

Y gwendid mwyaf y mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw ato yw methiant y Llywodraeth i werthuso Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n fethiant i sicrhau bod y Llywodraeth yn cael gwerth yr arian. Mae'n fethiant ar ran Llywodraeth y Cynulliad, felly, i gyflawni ei chyfrifoldeb tuag at gymunedau tlotaf Cymru. Yn groes i'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i awgrymu weithiau, nid oes neb yn gwrthwynebu cysyniad Cymunedau yn Gyntaf. Cafwyd consensws ar draws y pleidiau fod y cynllun yn un sydd â llawer iawn o botensial i fod yn llwyddiannus ac yn effeithiol. O safbwynt athronyddol, credaf fod rhoi grym, arian a rheolaeth, a'r atebion i broblemau, yn nwylo cymunedau yn syniad gwych. Fodd bynnag, mae'r modd y mae'r cynllun wedi'i redeg gan y Llywodraeth wedi bod yn resynus ar brydiau. Dywed ymateb y Gweinidog fod

'Llywodraeth Cynulliad Cymru'n tybio bod corff yr adroddiad yn anghytbwys a phleidiol'.

Dywed hefyd nad yw'r

'adroddiad yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i'r gwaith da a wneir gan bartneriaethau a chydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf'.

Awgryma hynny naill ai nad yw'r adroddiad

been read properly or that the Government is not, itself, taking a balanced and impartial view. The Government's response has been aggressively defensive; it is discourteous to the committee, it is unparliamentary, and, most important of all, it illustrates copiously how the Welsh Assembly Government has let down our poorest communities, because it has poured money into this scheme but has failed to ensure that it delivers for the poorest communities in Wales.

4.40 p.m.

**Alun Davies:** Jenny, I am not sure that a Government that prioritises expenditure in the most vulnerable and fragile communities with the most vulnerable people lets down the poorest people in this country. Rather, a party that stands for election saying one thing that then does another as soon as the ballot box is closed lets down the people in this country.

I recognise the context in which this debate is taking place, but I do not want to be imprisoned by it. I was disappointed by the tone and nature of some elements of this debate and of the debate that we had in the last committee meeting and have had on other occasions.

As the Minister is with us, I will say that a timeline published alongside the Government's response would have been useful and would have reassured many people on all sides of the Chamber. In responding to the debate, I hope that the Minister will be able to assure us that there will be a timeline alongside the Government response. That would enable all committee members to feel comfortable that the Government will be able to implement the recommendations that it has accepted.

However, I disagree with the final paragraph in the report summary, which states that the Communities First programme has not delivered value for money. I recognise that the criticism is qualified later in the same paragraph by describing this as a failure of Government rather than a failure of individual projects and partnerships. I

wedi'i ddarllen yn iawn ynteu bod y Llywodraeth ei hun heb fabwysiadu safbwynt cytbwys ac amhleidiol. Mae ymateb y Llywodraeth wedi bod yn ymosodol o amddiffynnol; mae'n anghwrtais i'r pwyllgor, mae'n sarhaus, ac yn bwysicach na dim, mae'n dangos yn helaeth sut mae Llywodraeth y Cynulliad wedi siomi ein cymunedau tlotaf, oherwydd mae wedi arllwys arian i mewn i'r cynllun hwn ond wedi methu â sicrhau ei fod yn cyflawni ar gyfer cymunedau tlotaf Cymru.

**Alun Davies:** Jenny, ni chredaf fod Llywodraeth sy'n rhoi blaenoriaeth i wario arian yn y cymunedau mwyaf bregus, sy'n agored i niwed ac sydd â'r bobl fwyaf agored i niwed yn siomi pobl dlotaf y wlad hon. Yn hytrach, plaid sy'n sefyll mewn etholiad gan ddweud un peth ond sy'n gwneud fel arall cyn gynted ag y bydd y blychau pleidleisio wedi cau sy'n siomi pobl y wlad hon.

Yr wyf yn cydnabod cyd-destun y ddadl hon, ond nid wyf am gael fy rhwystro ganddo. Cefais fy siomi gan dôn a natur rhai elfennau yn y ddadl hon, a'r ddadl a gawsom yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor ac ar adegau eraill.

Gan fod y Gweinidog gyda ni, hoffwn ddweud y byddai cyhoeddi llinell amser ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth wedi bod yn ddefnyddiol, ac y byddai wedi rhoi sicrwydd i lawer ar bob ochr i'r Siambr. Wrth ymateb i'r ddadl, gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi sicrwydd inni y bydd llinell amser yn ymddangos ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth. Byddai hynny'n galluogi holl aelodau'r pwyllgor i deimlo'n gysurus y bydd y Llywodraeth yn gallu gweithredu'r argymhellion y mae wedi'u derbyn.

Fodd bynnag, anghytunaf â'r paragraff olaf yng nghrynodeb yr adroddiad, sy'n dweud nad yw'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau gwerth yr arian. Yr wyf yn cydnabod y caiff y feirniadaeth ei lliniaru'n ddiweddarach yn yr un paragraff pan ddisgrifir y methiant hwn fel methiant Llywodraeth yn hytrach na methiant

recognise that it is the role of the Welsh Assembly Government to create a framework and not simply a philosophical context for this work. However, the work that I have seen across Wales tells me that Communities First is a making a real difference to many people's lives, with work ranging from projects that enrich people's lives to projects that strengthen their self-confidence and create opportunities that would not otherwise have been available to them. Communities First makes a real difference in addressing issues created by poverty in communities throughout Wales. I have witnessed projects that range from encouraging and creating opportunities for women in construction through to breathing life into established buildings and into new places and, sometimes, old places in our communities, and from creating opportunities for people to creating different activities in the community. We are having an impact through Communities First in communities throughout Wales.

That has to be stated and repeated, because this debate has disappointed me. People have talked about Plas Madoc time and again, and we must recognise the failures in that particular partnership, but let us not believe for a moment that Plas Madoc represents the reality of Communities First for thousands of people throughout Wales. It does not. It represents a failure that the Government has recognised and addressed—and, let us face it, the police have recognised and are addressing this—but it does not represent the reality of the Communities First programme. We all know that, and the reports that have been published also say that.

Mark Isherwood referred to the Cambridge Consultants report, which made some excellent points in terms of capacity building and other issues—points that no-one in the Chamber made before the report was published. However, do not use that as a stick with which to attack this project. By doing so, you are misusing that report and you are also misunderstanding the issues that it addresses.

prosiectau a phartneriaethau unigol. Yr wyf yn cydnabod mai rôl Llywodraeth y Cynulliad yw creu fframwaith, yn hytrach na chyd-destun athronyddol yn unig, ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, dengys y gwaith yr wyf wedi'i weld ledled Cymru fod Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau llawer o bobl, a'r gwaith yn amrywio o brosiectau sy'n cyfoethogi bywydau pobl i brosiectau sy'n hybu eu hunanhyder ac yn creu cyfleoedd na fuasent ar gael iddynt fel arall. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth fynd i'r afael â phroblemau a grëwyd gan dlodi mewn cymunedau ledled Cymru. Yr wyf wedi gweld prosiectau amrywiol, o rai sy'n annog ac yn creu cyfleoedd i fenywod yn y sector adeiladu i rai sy'n adfywio adeiladau parod a lleoedd newydd, a hen leoedd yn ein cymunedau, weithiau, ac o rai sy'n creu cyfleoedd i bobl i rai sy'n creu gwahanol weithgareddau yn y gymuned. Drwy Cymunedau yn Gyntaf, yr ydym yn cael effaith mewn cymunedau ledled Cymru.

Rhaid dweud hynny a'i ailadrodd, oherwydd yr wyf wedi fy siomi gan y ddadl hon. Mae pobl wedi bod yn sôn dro ar ôl tro am Blas Madog, a rhaid inni gydnabod y methiannau yn y bartneriaeth benodol honno. Fodd bynnag, ni ddylem gredu am eiliad fod Plas Madog yn adlewyrchu realiti Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer miloedd o bobl ledled Cymru. Nid ydyw. Mae'n adlewyrchu methiant y mae'r Llywodraeth wedi'i gydnabod ac wedi mynd i'r afael ag ef—a chystal inni gyfaddef, mae'r heddlu wedi'i gydnabod ac yn mynd i'r afael â hyn—ond nid yw'n adlewyrchu realiti'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Gwyddom hynny bob un, ac mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd hefyd yn dweud hynny.

Cyfeiriodd Mark Isherwood at adroddiad Cambridge Consultants, a wnaeth rai pwyntiau ardderchog ynghylch meithrin gallu a materion eraill—pwyntiau nad oedd neb yn y Siambr wedi'u gwneud cyn cyhoeddi'r adroddiad. Fodd bynnag, peidiwch â defnyddio'r adroddiad hwnnw fel arf i ymosod ar y prosiect hwn. Drwy wneud hynny, yr ydych yn camddefnyddio'r adroddiad, ac yr ydych hefyd yn camddeall y problemau y mae'n mynd i'r afael â hwy.

To conclude, we should be celebrating the achievements of the Communities First partnerships in different parts of Wales. In my time as a Member of this place, I have seen some inspiring examples of the difference that Communities First partnerships can make to communities and individuals. This is a role that Government can play in society, and we will have this debate over the coming years about the place of Government and the role of the state in society. I believe that we should have an activist Government that plays a role in attacking poverty, and not only the symptoms of poverty, but its root causes. Communities First does that, and it does it day in, day out. The role of Government is to fund that work to create opportunities for people who otherwise would not have them. It is to create new opportunities for individuals and for whole communities. Communities First does that day in, day out in communities up and down the country. We should celebrate that role, recognising the place of Government in managing it, but celebrate it nevertheless.

**Angela Burns:** I am grateful to be able to take part in this important debate on Communities First and I thank the cross-party committee for the rigour with which it pursued this inquiry and for the clarity of its conclusions. The objectives of Communities First, as the mechanism by which the Government can tackle deprivation and improve the living conditions and prospects of people living in the most disadvantaged Welsh communities are laudable. However, like the Public Accounts Committee, the auditor general and others, I am deeply concerned about the direction of the programme, the identification of its objectives and the monitoring of its spending and expressed outcomes.

I am also concerned about the reluctance of the Government to step up to the mark and review the issues until, hopefully, this moment. These issues have been raised many times before to those in various iterations of your role, Minister. For example, I had a meeting with Leighton Andrews, the then

I gloi, dylem fod yn dathlu cyflawniadau partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn ystod fy nghyfnod fel Aelod o'r lle hwn, yr wyf wedi gweld rhai enghreifftiau ysbrydoledig o'r gwahaniaeth y gall partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ei wneud i gymunedau ac unigolion. Mae hon yn rôl y gall Llywodraeth ei chwarae mewn cymdeithas, a byddwn yn cael y ddadl hon dros y blynyddoedd nesaf am le Llywodraeth a rôl y wladwriaeth mewn cymdeithas. Credaf y dylem gael Llywodraeth weithredol sydd â rôl wrth fynd i'r afael â thlodi, ac nid mynd i'r afael â symptomau tlodi yn unig, ond yr hyn sy'n ei achosi hefyd. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud hynny, ac mae'n ei wneud ddydd ar ôl dydd. Rôl Llywodraeth yw cyllido'r gwaith hwnnw i greu cyfleoedd i bobl na fyddent yn cael y cyfleoedd hynny fel arall. Dylai greu cyfleoedd newydd i unigolion a chymunedau cyfan. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud hynny ddydd ar ôl dydd mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad. Dylem ddathlu'r rôl honno, gan gydnabod lle Llywodraeth wrth ei rheoli, ond dylem ei dathlu er hynny.

**Angela Burns:** Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon ar Cymunedau yn Gyntaf, a diolchaf i'r pwyllgor trawsbleidiol am ei drylwyrdd wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, ac am eglurder ei gasgliadau. Rhaid canmol amcanion Cymunedau yn Gyntaf fel y system y gall y Llywodraeth ei defnyddio i fynd i'r afael ag amddifadedd a gwella amodau byw a rhagolygon pobl sy'n byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Fodd bynnag, fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yr archwilydd cyffredinol ac eraill, yr wyf yn pryderu'n ddifrifol am gyfeiriad y rhaglen, y modd y caiff ei hamcanion eu nodi, a'r modd y caiff ei gwariant a'i chanlyniadau arfaethedig eu monitro.

Yr wyf hefyd yn pryderu am amharodrwydd y Llywodraeth i wynebu'r her ac i adolygu'r problemau, tan yn awr, gobeithio. Mae'r problemau hyn wedi'u mynegi droeon o'r blaen wrth y rheini mewn gwahanol amrywiadau ar eich rôl chi, Weinidog. Er enghraifft, cefais gyfarfod â Leighton



Deputy Minister, on 29 January 2008, at which I raised a vast array of concerns that had been brought to me by many of my constituents in one particular Communities First area. The reception that those concerns received was fairly cool and the examination of the complaints was fairly cursory. I was not at all surprised to read the recommendations made by the Public Accounts Committee, especially recommendation 3 that there should be better engagement of local authorities and other service providers.

I am genuinely shocked that the Government has spent some £214 million of public funds—Government money—with so little guidance as to what the outcomes of that enormous spend should be, and that is a point that was raised in recommendation 4. The success of this programme will also depend to a greater or lesser degree on the calibre of the people involved. In my area, I have one very successful Communities First programme, and another, about which I receive complaints on a monthly, if not a weekly, basis. I note with interest the difference between those two Communities First programmes, in their transparency and their preparedness to engage with others, especially their local communities, in order to achieve their aims.

Was uniform training offered to the people who run these programmes throughout Wales? In other words, where did they come from? Were their skills appropriate to the roles that they were recruited to undertake and what mechanisms were in place to monitor their effectiveness? Were they given the opportunity and the ability to improve, and were mechanisms in place to terminate their employment if they did not deliver, despite being offered support and training? I am also concerned about the programme's inability to demonstrate value for money. I read with regret the accounting officer's comments and view that it was necessary to spend so much of this valuable money on staff—65 per cent, which is some £140 million, leaving just £74 million for the actual projects. I understand that you need the money to pump prime and to set things up, but that proportion seems way out of kilter. I know of a Communities First partnership that

Andrews, y Dirprwy Weinidog ar y pryd, ar 29 Ionawr 2008, lle tynnais sylw at ystod eang o bryderon yr oedd nifer o'm hetholwyr wedi'u mynegi wrthyf mewn un ardal Cymunedau yn Gyntaf yn benodol. Croeso braidd yn oeraidd a gafodd y pryderon hynny, a chafodd y cwynion eu harchwilio'n eithaf brysiog. Nid oeddwn yn synnu o gwbl o ddarllen yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn enwedig argymhelliad 3, sef y dylid ymgysylltu'n well ag awdurdodau lleol ac eraill sy'n darparu gwasanaethau.

Yr oeddwn yn synnu'n wirioneddol fod y Llywodraeth wedi gwario tua £214 miliwn o arian cyhoeddus—arian y Llywodraeth—gyda chyn lleied o arweiniad ynghylch beth ddylai canlyniadau'r gwariant enfawr hwnnw fod, ac mae hwnnw'n bwynt a godwyd yn argymhelliad 4. Bydd llwyddiant y rhaglen hon hefyd yn dibynnu i raddau mwy neu lai ar galibr y bobl sy'n ymwneud â hi. Yn fy ardal i, mae gennyf un rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sy'n llwyddiannus iawn, ac un arall y caf gwynion amdani bob mis, neu bob wythnos hyd yn oed. Sylwaf gyda diddordeb ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy raglen Cymunedau yn Gyntaf dan sylw, o ran eu tryloywder a'u parodrwydd i ymgysylltu ag eraill, yn enwedig eu cymunedau lleol, er mwyn cyflawni eu nodau.

A gynigiwyd yr un hyfforddiant i'r bobl sy'n rhedeg y rhaglenni hyn ledled Cymru? Mewn geiriau eraill, o ble y daethant? A oedd eu sgiliau'n briodol i'r rolau y cawsant eu recriwtio i ymgymryd â hwy, a pha systemau oedd ar waith i fonitro'u heffeithiolrwydd? A gawsant y cyfle a'r gallu i wella, ac a oedd systemau ar waith i derfynu eu cyflogaeth os nad oeddent yn gwneud eu gwaith yn iawn, er iddynt gael cynnig cymorth a hyfforddiant? Yr wyf hefyd yn pryderu am anallu'r rhaglen i ddangos gwerth yr arian. Yr oeddwn yn gresynu o ddarllen sylwadau a barn y swyddog cyfrifyddu, sef ei bod yn angenrheidiol gwario cymaint o'r arian gwerthfawr hwn ar staff—65 y cant, sef oddeutu £140 miliwn, gan adael £74 miliwn yn unig ar gyfer y prosiectau eu hunain. Deallaf fod arnoch angen yr arian i wneud gwaith ysgogi a sefydlu, ond ymddengys fod y gyfran dan sylw'n afresymol tu hwnt. Gwn am bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf a

spent some of that valuable money buying a house to work from rather than using or even doing up some derelict commercial property, which would have helped to lift the community's centre. It had no guidance; it thought that that was the best thing to do. If it had received guidance and understood what it could and could not do, that money could have been better employed in that area.

My real concern, having watched both my Communities First areas, is the variability in the engagement with the people this programme is supposed to be empowering. I would have thought that this report brought forward enough concerns for you to accept that this is an area that needs to be improved. I read your statement yesterday with interest, and I particularly picked up on the comment that many Communities First partnerships have assured you that their work is well managed and governed, but is that not at the heart of the issue, Minister? Was it not self-governance and lack of control from the Welsh Assembly Government that got the programme into this trouble?

I am concerned about the lack of transparency with regard to the 12 Communities First programmes that you had a look at. We need to know what issues were identified that gave cause for concern, what led you to believe that those concerns were not justified, and how your department evaluated those outcomes. Like you, I want to see the poorest in Wales being supported and empowered, but I also believe that we have a duty to ensure that money is not wasted and that the desired outcomes are truly being achieved. I echo the Chair's comments that this is your golden opportunity, Minister. It has not been handled well in the past, and I am looking to you to pick up this programme by the scruff of its neck and ensure that it delivers best value for the people who need it so desperately.

4.50 p.m.

**Brian Gibbons:** I will preface my remarks by saying that I did not intend to contribute to

wariodd rywfaint o'r arian gwerthfawr hwnnw ar brynu tŷ i weithio ynddo, yn hytrach na defnyddio eiddo masnachol, neu hyd yn oed adnewyddu eiddo masnachol a oedd wedi mynd â'i ben iddo. Byddai hynny wedi helpu gweddnewid canol y gymuned. Ni chafodd y bartneriaeth arweiniad; credai mai dyna oedd y peth gorau i'w wneud. Pe bai wedi cael arweiniad a phe bai'n deall beth y gallai a beth na allai ei wneud, gellid bod wedi defnyddio'r arian hwnnw'n well yn yr ardal dan sylw.

Fy mhryder gwirioneddol, ar ôl gwyllo'r ddwy ardal Cymunedau yn Gyntaf sydd gennyf, yw'r amrywioldeb yn y modd yr ymgysylltir â'r bobl y mae'r rhaglen hon i fod i'w grymuso. Byddwn wedi meddwl bod yr adroddiad hwn yn codi digon o bryderon ichi dderbyn bod hwn yn faes y mae angen ei wella. Darllenis gyda diddordeb eich datganiad ddoe, a sylwais yn benodol ar y sylw fod nifer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi rhoi sicrwydd ichi fod eu gwaith yn cael ei reoli a'i lywodraethu'n dda, ond onid hynny yw gwraidd y broblem, Weinidog? Onid hunanlywodraethu a diffyg rheolaeth gan Lywodraeth y Cynulliad a barodd i'r rhaglen fynd i'r drafferth y mae ynddi?

Yr wyf yn pryderu am y diffyg tryloywder yng nghyswllt y 12 rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y bu ichi eu hystyried. Mae angen inni wybod pa broblemau a nodwyd a oedd yn peri pryder, beth a'ch arweiodd i gredu na ellid cyfiawnhau'r pryderon hynny, a sut y gwerthusodd eich adran y canlyniadau hynny. Fel chithau, hoffwn weld y bobl dlotaf yng Nghymru yn cael eu cefnogi a'u grymuso, ond credaf hefyd fod arnom ddyletswydd i sicrhau na chaiff arian ei wastraffu ac y caiff y canlyniadau a ddymunir eu cyflawni'n wirioneddol. Hoffwn adleisio sylwadau'r Cadeirydd, sef mai hwn yw eich cyfle euraid, Weinidog. Nid ymdriniwyd â'r mater yn dda yn y gorffennol, ac yr wyf yn disgwyl ichi afael yn dynn yn y rhaglen a sicrhau ei bod yn rhoi'r gwerth gorau i'r bobl y mae taer angen y rhaglen arnynt.

**Brian Gibbons:** Cyn cyflwyno fy sylwadau, hoffwn ddweud nad oeddwn yn bwriadu

this debate, and it is only in response to comments that have been made that I feel I need to say a few words. I declare an interest; working with my colleague Leighton Andrews, I previously had ministerial responsibility for this, and I am sure that my friend Carl Sargeant will pick up the ball and deal with that. I do not want to get involved in trying to do Carl Sargeant's job for him. I will leave that to the Minister, and I will certainly not try to justify ministerial decisions and so on.

I also have to declare an interest as someone who has lived in a Communities First area, who works in a Communities First area, who socialises in a Communities First area, and whose family lives in a Communities First area. Believe me, there is no-one as impatient as I am for that scheme to work. I have said previously, in a question to the Minister, that Communities First delivery is uneven across Wales, and that although money has been spent, it is difficult to measure what we have had in return. As far as the committee's report has highlighted those issues, I think that it is an important and valuable contribution. However, I have the feeling, not just about the committee's report, but also about the Wales Audit Office report, that this is like a dinner party discussion in a posh part of town about the problems of the needy poor. There is not sufficient recognition in either of the reports of the scale of the challenges that are being addressed. Asking for tangible, measurable ways by which progress can be reported, as though a Minister here in Cardiff can pull a lever and expect to see a dramatic change on the ground—that is not the reality of how policy works, and certainly not the reality of how we can intervene to address the problems of our most disadvantaged communities, with their generations of disadvantage and neglect.

Sadly, I have been interested in this long enough to remember the Valleys initiative programme, and in fairness to Peter Walker, on the back of the miners' strike and its consequences, there was great hope for that

cyfrannu i'r ddadl hon, a theimlaf mai er mwyn ymateb i sylwadau gan eraill yn unig y mae angen imi ddweud ychydig eiriau. Yr wyf yn datgan budd; gan weithio gyda fy nghydweithiwr, Leighton Andrews, yr oedd gennyf gyfrifoldeb gweinidogol am y mater, ac yr wyf yn siŵr y bydd fy nghyfaill, Carl Sargeant, yn cymryd yr awenau ac yn ymdrin ag ef. Nid wyf am ddechrau ceisio gwneud gwaith Carl Sargeant ar ei ran. Gadawaf hynny i'r Gweinidog, ac yn bendant ni fyddaf yn ceisio cyfiawnhau penderfyniadau gweinidogol, ac yn y blaen.

Rhaid hefyd imi ddatgan budd fel rhywun sydd wedi byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, sy'n gweithio mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, sy'n cymdeithasu mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, a'm teulu'n byw mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. Credwch fi, nid oes neb yn fwy diamynedd na fi yn fy awydd i weld y cynllun yn gweithio. Yr wyf wedi dweud o'r blaen, mewn cwestiwn i'r Gweinidog, fod y gwaith o gyflawni Cymunedau yn Gyntaf yn anghyson ar draws Cymru, a'i bod, er i arian gael ei wario, yn anodd mesur beth yr ydym wedi'i gael amdano. I'r graddau y mae adroddiad y pwyllgor wedi tynnu sylw at y materion hynny, credaf ei fod yn gyfraniad pwysig a gwerthfawr. Fodd bynnag, yr wyf yn teimlo, nid yn unig ynghylch adroddiad y pwyllgor, ond ynghylch adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hefyd, ei fod yn debyg i drafodaeth cinio gwadd mewn rhan gyfoethog o'r dref am broblemau pobl dlawd anghenus. Nid yw'r naill adroddiad na'r llall yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i faint yr heriau yr eir i'r afael â hwy. Ni ellir gofyn am ddulliau pendant, mesuradwy o adrodd ynghylch cynnydd, fel pe bai Gweinidog yma yng Nghaerdydd yn gallu tynnu lifer gan ddisgwyl gweld newid dramatig yn syth ar lawr gwlad—nid dyna'r modd y mae polisi'n gweithio mewn gwirionedd, ac yn sicr nid fel hynny y gallwn ymyrryd i fynd i'r afael â phroblemau ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ar ôl bod dan anfantais a chael eu hesgeuluso ers cenedlaethau.

Yn anffodus, mae gennyf ddiddordeb yn y mater hwn am gyfnod digon hir i allu cofio rhaglen menter y Cymoedd, ac er tegwch i Peter Walker, ar ôl streic y glowyr a'i chanlyniadau, yr oedd pawb yn obeithiol

scheme. However, it shot across the horizon like a meteorite—two or three years, maximum, and that was it. When Communities First came along in the First Assembly, I campaigned actively for it. I pay tribute to the Ministers at the time for responding to that campaign from a number of us on the backbenches. Along with issues such as poverty, socio-economic regeneration was not on the agenda for discussion when the Assembly was established. Members, particularly those on the Labour backbenches, had to campaign to get the Communities First programme up and running, and it was only Labour Ministers on the front bench who responded. However, this was not an easy process; there was no blueprint, nor any manual to take off the shelf on how to drive forward a Communities First regeneration programme. Even if the manual had been there, the previous 18 years had seen community capacity completely stripped out. It just did not exist. There were no community workers, and people were not trained. Just as the bankers on Wall Street and so forth managed to pull the wool over people's eyes in managing many millions of pounds, we are talking about people in our most disadvantaged communities and people's expectations from those communities are totally unrealistic. To measure progress in the way that some of these reports measure it is not doing a service to the points that they are trying to make, simply because that touch of reality is not there.

**Eleanor Burnham** *rose*—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You cannot take an intervention because you have exceeded your five minutes.

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** I welcome Members' contributions to this debate today. Before responding to the issues raised, I would like to reinforce my commitment to ensuring that the needs of our most deprived communities are met by this programme. Members will have heard my oral statement yesterday, and the funding to support front-line delivery services is being released. I will continue to release money to areas, once I am

iawn am y cynllun hwnnw. Fodd bynnag, digwyddodd a darfu megis seren wib—parodd ddwy neu dair blynedd ar y mwyaf. Pan ymddangosodd Cymunedau yn Gyntaf yn y Cynulliad Cyntaf, ymgyrchais yn frwd dros y cynllun. Rhoddaf deyrnged i'r Gweinidogion ar y pryd am ymateb i'r ymgyrch honno gan nifer ohonom ar y meinciau cefn. Ynghyd â phroblemau megis tloedi, nid oedd adfywio economaidd gymdeithasol ar yr agenda a oedd i'w thrafod pan sefydlwyd y Cynulliad. Bu'n rhaid i Aelodau, yn enwedig y rheini ar feinciau cefn y Blaid Lafur, ymgyrchu i sefydlu'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a dim ond Gweinidogion Llafur ar y fainc flaen a ymatebodd. Fodd bynnag, nid oedd yn broses hawdd; nid oedd gennym ganllaw, na llawlyfr y gellid ei gymryd oddi ar silff, ynghylch hybu rhaglen adfywio dan Cymunedau yn Gyntaf. Hyd yn oed pe buasai llawlyfr ar gael, yr oedd y 18 mlynedd blaenorol wedi gweld gallu cymunedol yn cael ei ddileu'n llwyr. Yn syml iawn, nid oedd yn bodoli. Nid oedd gennym weithwyr cymunedol, ac nid oedd pobl wedi'u hyfforddi. Fel y llwyddodd y bancwyr ar Wall Street ac yn y blaen i dwyllo pobl wrth reoli miliynau lawer o bunnoedd, yr ydym yn sôn am bobl yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae disgwyliadau pobl o'r cymunedau hynny'n hollol afrealistig. Nid yw mesur cynnydd fel y mae rhai o'r adroddiadau hyn yn ei fesur yn gwneud cymwynas â'r pwyntiau y maent yn ceisio'u gwneud, a hynny'n syml iawn am nad oes yno ddim realiti.

**Eleanor Burnham** *a gododd*—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni allwch dderbyn ymyriad oherwydd yr ydych wedi cymryd mwy na'ch pum munud.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Croesawaf gyfraniadau Aelodau i'r ddadl hon heddiw. Cyn ymateb i'r materion a godwyd, hoffwn atgyfnerthu fy ymrwymiad i sicrhau bod anghenion ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn cael eu diwallu gan y rhaglen hon. Bydd Aelodau wedi clywed fy natganiad llafar ddoe, ac mae'r cyllid i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael ei ryddhau. Byddaf yn parhau i

assured that the appropriate governance arrangements are in place.

Many Communities First partnerships combine governance with effective delivery, and where both of these crucial elements are in place, we will be looking forward to press ahead with continued emphasis on outcomes that deliver real benefits for local people. It was pleasing to see areas such as Sandfields, Plas Cybi and Caia park, which I highlighted yesterday, as having particularly good standards of governance and effective delivery.

As Brian and Alun said, this is a complex programme for dealing with our most deprived communities and people. As Brian said, the capacity in these communities some years back was just not there. This programme has brought people along with it. It was not a case of taking a programme off the shelf and plonking it in a community and hoping that everything was going to be fine, because they are all very different communities, with different issues and problems. We must take people along with us.

I have listened wholeheartedly to the comments made here this afternoon about how to measure the outcomes of these issues. Janet, I could take you to someone who lives in my community who came to me two years ago and said that she would like me to pass on her thanks to the Minister. I said that I would gladly do that. When I asked her why, she said, 'Communities First saved my life'. I do not say that lightly, because this lady was on the edge of committing suicide, and the Communities First partnership picked her up and took her on a journey that changed her and her family's life around. How do you measure that, because I do not believe that there is any measuring scale that can do that? How can you measure money versus life? There are many such examples in partnerships across Wales that challenge us with regard to the effective measurement of outcomes, as the audit report suggests.

I now turn to some of the more detailed

ryddhau arian i ardaloedd, pan gaf sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu priodol ar waith.

Mae nifer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cyfuno gwaith llywodraethu â gwaith cyflawni effeithiol, a lle mae'r ddwy elfen hollbwysig hyn yn bodoli edrychwn ymlaen at ddal ati i roi pwyslais parhaus ar ganlyniadau sy'n sicrhau manteision go iawn i bobl leol. Yr oedd yn bleser gweld bod gan ardaloedd megis Sandfields, Plas Cybi a Pharc Caia, y tynnais sylw atynt ddoe, safonau arbennig o dda o ran llywodraethu a chyflawni'n effeithiol.

Fel y dywedodd Brian ac Alun, mae hon yn rhaglen gymhleth ar gyfer ymdrin â'n pobl a'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Fel y dywedodd Brian, nid oedd y gallu, yn syml iawn, ar gael yn y cymunedau dan sylw rai blynyddoedd yn ôl. Mae'r rhaglen hon wedi tynnu pobl gyda hi. Nid mater ydoedd o gymryd rhaglen oddi ar y silff a'i gosod yn ddiseremoni mewn cymuned gan obeithio y byddai popeth yn iawn, oherwydd mae'r cymunedau i gyd yn wahanol iawn i'w gilydd, ac mae ganddynt faterion a phroblemau gwahanol. Rhaid inni dynnu pobl gyda ni.

Yr wyf wedi gwranddo'n astud ar y sylwadau a wnaed yma y prynhawn yma am y ffordd i fesur canlyniadau'r materion hyn. Janet, gallwn fynd â chi at rywun sy'n byw yn fy nghymuned a ddaeth ataf ddwy flynedd yn ôl a dweud y byddai'n falch pe gallwn ddiolch i'r Gweinidog ar ei rhan. Dywedais y byddwn yn barod iawn i wneud hynny. Pan ofynnais iddi pam, atebodd, 'Achubodd Cymunedau yn Gyntaf fy mywyd'. Nid wyf yn dweud hynny'n ddifeddwl, oherwydd yr oedd y ddynes ar fin cyflawni hunanladdiad, a chafodd gymorth gan y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, a aeth â hi ar siwrnai a newidiodd gwrs ei bywyd hi a'i theulu. Sut mae mesur hynny, oherwydd ni chredaf y gall yr un raddfa fesur wneud hynny? Sut mae mesur arian yn erbyn bywyd? Mae yna lawer o enghreifftiau o'r fath mewn partneriaethau ar draws Cymru, sy'n ein herio o safbwynt mesur canlyniadau'n effeithiol, fel yr awgryma'r adroddiad archwilio.

Trof yn awr at rai o'r materion manylach yr

matters that you asked me to respond to. As I said in my opening address, work is already underway on taking forward the recommendations of the Public Accounts Committee's report. This work will help to develop the commitment from all Assembly Government departments and external organisations that support Communities First partnerships. We will also develop stronger monitoring and evaluation of the programme. Work is also being taken forward in response to the report recommendation and we have now changed the Assembly Government's policy gateway process so that it now incorporates explicit consideration of Communities First. Therefore, any new policies across the Assembly Government will have to demonstrate that they are targeting Communities First areas and linking it in with Communities First partnerships.

Alun mentioned a timeline. I will consider that, to try to give a broad-brush approach to the committee's recommendation on timescales. There is a commitment to reporting on the implementation of the recommendations within a year, which I intend to do, and considering some of the criticisms here today, it may be helpful for us to look at producing a timeline. I will review that principle.

5.00 p.m.

**Angela Burns:** I agree that you cannot measure absolutely everything. There are some instances where you have to rely on empirical evidence that builds up over time. While you are looking at items such as timelines, might I also suggest that you consider scooping up your best-performing Communities First partnerships and put together a best practice group that can go back out to some of the other partnerships? If I look at the ones in my own constituency, I see an excellent one and one that is really failing.

**Carl Sargeant:** We already do that, Angela. On the issue of sharing best practice, there is a training programme in place, and there are opportunities for partnerships to go through the WCVA in terms of staff training and so

oeddech yn gofyn imi ymateb iddynt. Fel y dywedais yn fy araith agoriadol, mae gwaith eisoes ar y gweill i symud argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn eu blaen. Bydd y gwaith hwn o gymorth i ddatblygu ymrwymiad holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad, a'r sefydliadau allanol sy'n cefnogi partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Byddwn hefyd yn datblygu prosesau cryfach ar gyfer monitro a gwerthuso'r rhaglen. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ymateb i argymhelliad yr adroddiad, ac erbyn hyn yr ydym wedi newid y broses porth i bolisiau gan Lywodraeth y Cynulliad, sydd erbyn hyn cynnwys ystyriaeth benodol o Cymunedau yn Gyntaf. Felly, bydd yn rhaid i unrhyw bolisiau newydd ar draws Llywodraeth y Cynulliad ddangos eu bod yn targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn cysylltu'r Llywodraeth â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Soniodd Alun am linell amser. Byddaf yn ystyried hynny, i geisio ymdrin yn gyffredinol ag argymhelliad y pwyllgor ar amserlenni. Mae yna ymrwymiad i adrodd cyn pen blwyddyn ynghylch gweithredu'r argymhellion, a bwriadaf wneud hynny, ac i ystyried rhai o'r beirniadaethau yma heddiw, hwyrach y byddai'n ddefnyddiol inni ystyried llunio llinell amser. Byddaf yn adolygu'r egwyddor honno.

**Angela Burns:** Cytunaf na allwch fesur popeth. Mae yna rai achosion lle mae'n rhaid ichi ddibynnu ar dystiolaeth empirig sy'n crynhoi gydag amser. Wrth ichi ystyried eitemau megis llinellau amser, hoffwn awgrymu hefyd ichi ystyried crynhoi eich partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf gorau a llunio grŵp arfer gorau a all fynd yn ôl at rai o'r partneriaethau eraill? O edrych ar y rhai sydd yn fy etholaeth i, gallaf weld un sy'n ardderchog ac un sy'n methu'n ofnadwy.

**Carl Sargeant:** Yr ydym eisoes yn gwneud hynny, Angela. O ran rhannu arfer gorau, mae rhaglen hyfforddiant ar waith, a cheir cyfleoedd i bartneriaethau fynd drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gael

on. The reality is that the transfer of one project into another area can happen in some instances, but it is not going to happen in general. You just cannot do it. These communities are so diverse, and the needs of the communities are very different. Regarding a question that you posed earlier, on who makes the decisions on training and so on, the grant recipient body and the partnership board have a responsibility for making sure that there are good governance arrangements in place. That is what we have done through the recent audit report; we have underpinned new audit trail procedures. We are asking the Communities First partnerships, in cases where there was an audit certification, as there was in Plas Madoc—its audit reports came back clean, although there was obviously a loophole in the process that meant that people were not looking in the right places—to now explore a much broader audit trail when they are audited. That report will have to go to the partnership board. We have issued an instruction for that to happen. We have also issued an instruction that we must also have a copy. I have instructed my officials to make sure that this report does not just go in the drawer. We must make sure that we fully understand the implications of the audit trail. I give way to Nick Ramsay.

**Nick Ramsay:** I am grateful to the Minister for giving way. I want to address the point that he made about outcomes in response to an earlier question posed by my colleague, Angela Burns. Apart from the problems that we have discussed, I appreciate that there is good practice going on in some of the Communities First areas. However, a common theme across all partnerships is that 65 per cent of the programme costs are spent on administration. Do you believe that that is an appropriate proportion of costs to be spent on administration, or do you think that this scheme, or any future scheme that replaces it, could get away with spending a lower proportion on administration?

**Carl Sargeant:** I believe that the scheme and its delivery are labour intensive. The people

hyfforddiant i staff, ac yn y blaen. Y realiti yw y gall prosiect drosglwyddo i ardal arall weithiau, ond na fydd hynny'n digwydd yn gyffredinol. Yn syml iawn, ni allwch wneud hynny. Mae'r cymunedau hyn mor amrywiol, ac mae anghenion y cymunedau'n wahanol iawn. Ar eich cwestiwn yn gynharach pwy sy'n gwneud y penderfyniadau am hyfforddiant, ac yn y blaen, mae gan y corff sy'n cael grant, a bwrdd y bartneriaeth, gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod trefniadau llywodraethu da ar waith. Dyna a wnaethom drwy'r adroddiad archwilio'n ddiweddar; yr ydym wedi atgyfnerthu gweithdrefnau newydd ar gyfer llwybrau archwilio. Yr ydym yn gofyn i'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, mewn achosion lle'r oedd ardstiad o archwiliad, fel ym Mhlas Madog—yr oedd adroddiadau archwilio'r rhaglen honno'n ddilychwin, er ei bod yn amlwg bod man gwan yn y broses, a olygodd nad oedd pobl yn chwilio yn y manau cywir—i ystyried llwybr archwilio tipyn ehangach yn awr, pan gânt eu harchwilio. Bydd yn rhaid i'r adroddiad hwnnw fynd gerbron bwrdd y bartneriaeth. Yr ydym wedi rhoi cyfarwyddyd i hynny ddiwydd. Yr ydym hefyd wedi rhoi cyfarwyddyd ei bod yn rhaid i ni gael copi. Yr wyf wedi rhoi cyfarwyddyd i'm swyddogion sicrhau na chaiff yr adroddiad hwn ei roi mewn drôr heb i neb edrych arno. Rhaid inni sicrhau ein bod yn deall goblygiadau'r llwybr archwilio'n llawn. Ildiaf i Nick Ramsay.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Hoffwn roi sylw i'r pwynt a wnaeth am ganlyniadau wrth ymateb i gwestiwn cynharach a ofynnwyd gan fy nghydweithiwr, Angela Burns. Ar wahân i'r problemau yr ydym wedi'u trafod, sylweddolaf fod yna arfer da mewn rhai ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, thema gyffredin ar draws pob partneriaeth yw bod 65 y cant o gyllid y rhaglen yn cael ei wario ar weinyddu. A ydych yn credu bod hynny'n gyfran briodol o'r cyllid i'w gwario ar weinyddu, neu a ydych yn credu y gallai'r cynllun hwn, neu unrhyw gynllun a fydd yn ei ddisodli yn y dyfodol, ymdopi â gwario cyfran lai ar weinyddu?

**Carl Sargeant:** Credaf fod y cynllun a'r broses o'i gyflawni yn waith dwys o ran

who work in the programme are asked to enable communities to effect transformation and change. Let us not forget that the reason that we have Communities First is the very bleak time that we had in the 1980s. I am not trying to be political, but the reality of life is that we are in this position now, of transferring communities back to normal living circumstances, because we went through some terrible times when the mines and the steelworks were closed. The process that we have now is like turning around a super-tanker: it is not going to change overnight. That is why we brought in a 10-year programme, Communities First. My commitment is to look further along to the future.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Could you wind up, please?

**Carl Sargeant:** I wish to repeat one quote from Professor Dave Adamson regarding the PAC report. I share his view inasmuch as I would also have liked to see a broader review from the committee. He says that,

‘An understanding of the impact of Communities First is more complex than recognised by the Public Accounts Committee.’

Professor Adamson adds that,

‘Such reviews inevitably take evidence from a limited number of witnesses, and only five of the nearly 180 Communities First partnerships presented views. The arrival of such a damning verdict with such little evidence does an injustice to the many members of the community and frontline workers who have dedicated nearly 10 years to the programme.’

As a Government, we have accepted all the recommendations. I will come back with proposals for a timeline for the committee; accordingly, I will write to the committee on that.

**Jonathan Morgan:** I thank all Members for the contributions that they have made this afternoon, and I particularly thank the

llafur. Gofynnir i'r bobl sy'n gweithio yn y rhaglen alluogi cymunedau i newid a thrawsnewid. Ni ddylem anghofio mai'r rheswm dros gael Cymunedau yn Gyntaf yw'r cyfnod llwm iawn a gawsom yn yr 1980au. Nid wyf yn ceisio bod yn wleidyddol, ond realiti bywyd yw ein bod yn y sefyllfa hon yn awr, lle'r ydym yn trosglwyddo cymunedau'n ôl i amgylchiadau byw normal, oherwydd buom drwy rai cyfnodau dychrynlyd pan gafodd y pyllau glo a'r gweithfeydd dur eu cau. Mae'r broses sydd gennym yn awr yn debyg i droi tancer anferth i wynebu'r ffordd arall: nid yw'r sefyllfa'n mynd i newid dros nos. Dyna pam y cyflwynwyd rhaglen 10 mlynedd, sef Cymunedau yn Gyntaf. Fy ymrwymiad i yw edrych ymhellach i'r dyfodol.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnewch chi dynnu at y terfyn, os gwelwch yn dda?

**Carl Sargeant:** Hoffwn ailadrodd un dyfyniad gan yr Athro Dave Adamson ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yr wyf o'r un farn ag ef y byddwn i hefyd wedi hoffi gweld y pwyllgor yn cynnal adolygiad ehangach. Dywed fod,

deall effaith Cymunedau yn Gyntaf yn fwy cymhleth nag a gydnabyddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Ychwanega'r Athro Adamson ei bod,

yn anochel fod adolygiadau o'r fath yn cael tystiolaeth gan nifer cyfyngedig o dystion, ac mai pum partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn unig o blith bron i 180 a gyflwynodd safbwyntiau. Mae ymddangosiad barn mor ddamniol gyda chyn lleied o dystiolaeth yn annheg â'r aelodau niferus o'r gymuned a'r gweithwyr rheng flaen sydd wedi ymroi i'r rhaglen ers bron i 10 mlynedd.

Fel Llywodraeth, yr ydym wedi derbyn pob un o'r argymhellion. Dof yn ôl gyda chynigion ynghylch llinell amser i'r pwyllgor; felly, ysgrifennaf at y pwyllgor ynghylch hynny.

**Jonathan Morgan:** Diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma, a diolch yn arbennig i'r Gweinidog a phawb nad



Minister and all those who do not sit on the Public Accounts Committee. We took evidence from witnesses from the WCVA, the WLGA, Cardiff Communities First, the 3Gs Development Trust, the Communities First partnership in Penparcau and Aberystwyth, the St Illtyd's Communities First partnership, Blaenau Gwent, the Permanent Secretary and the Assembly Government's officials. We took a significant amount of evidence, but, sadly, we found that it was very difficult for those giving evidence to demonstrate where the strategic direction of Communities First had realised the benefits that the Government had anticipated. We did dig for the evidence, and we did not come to these conclusions lightly. Regardless of what this professor has told the Minister, the Minister said in his letter to me,

'On behalf of the Cabinet, I would like to thank you and the committee for the careful and considered way in which you undertook the investigation and produced the report.'

You cannot have it both ways. Either we were careful and considered in the way that we produced the report or we were partial and we lacked balance. It must be one way or the other, Minister. The Government ought to be careful in the way that it responds to reports of the committees of the Assembly.

I am grateful to those Members who touched on the difficulty that we face in trying to achieve strategic direction on one hand and the involvement of people in bottom-up solutions on the other. How to achieve both at the same time is a conundrum. We accept that challenge. Christine Chapman talked about value for money, and we are absolutely right to focus on that, because although there are certain benefits that people believe they have seen as a result of Communities First—we do not dispute that at all—it is important that we can demonstrate how this money is realising benefits over the long term and how we are achieving those benefits in the short term. The short-term benefits may simply be increasing the capacity of those communities to help realise the objectives of those

dynt yn aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Cawsom dystiolaeth gan dystion o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymunedau yn Gyntaf Caerdydd, Ymddiriedolaeth Ddatblygu 3G, y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf ym Mhenparcau ac Aberystwyth, partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Sant Illtud, Blaenau Gwent, yr Ysgrifennydd Parhaol a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Cawsom lawer iawn o dystiolaeth, ond yn anffodus gwelsom ei bod yn anodd iawn i'r sawl a roddai dystiolaeth ddangos ymhle'r oedd cyfeiriad strategol Cymunedau yn Gyntaf wedi gwireddu'r manteision yr oedd y Llywodraeth wedi'u rhagweld. Buom yn twrio am y dystiolaeth, ac ni ddaethom i'r casgliadau hyn yn ddifeddwl. Waeth beth y mae'r athro hwn wedi'i ddweud wrth y Gweinidog, dywedodd y Gweinidog yn ei lythyr ataf fi,

Ar ran y Cabinet, hoffwn ddiolch i chi a'ch pwyllgor am y modd gofalus ac ystyriol y bu ichi gynnal yr ymchwiliad a llunio'r adroddiad.

Ni allwch ei chael hi bob ffordd. Naill ai yr oeddem yn ofalus ac yn ystyriol yn y modd y bu inni lunio'r adroddiad, ynteu yr oeddem yn bleidiol ac yn anghytwys. Rhaid dewis y naill safbwynt neu'r llall, Weinidog. Dylai'r Llywodraeth fod yn ofalus yn y modd y mae'n ymateb i adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelodau hynny a gyfeiriodd at yr anhawster sy'n ein hwynebu wrth geisio sicrhau cyfeiriad strategol ar y naill law a chynnwys pobl mewn atebion o'r gwaelod i fyny ar y llaw arall. Mae cyflawni'r ddau beth ar yr un pryd yn anodd. Derbyniwn yr her honno. Soniodd Christine Chapman am werth yr arian, ac yr ydym yn hollol gywir i ganolbwyntio ar hynny, oherwydd er bod rhai manteision y cred pobl iddynt eu gweld o ganlyniad i Cymunedau yn Gyntaf—nid ydym yn amau hynny o gwbl—mae'n bwysig inni allu dangos sut mae'r arian hwn yn esgor ar fanteision hirdymor, a sut yr ydym yn sicrhau'r manteision hynny yn y tymor byr. Hwyrach mai'r manteision tymor byr, yn syml iawn, yw cynyddu gallu'r cymunedau hynny i helpu cyrraedd amcanion

communities, but it is very difficult to pinpoint exactly where those objectives have been met and where value for money can be demonstrated.

Having listened to the accusation by the Member for Aberavon that I chair some sort of posh dinner party, I now regret the fact that Standing Orders prevent former Ministers from sitting on the Public Accounts Committee, because I think that he would make a very valuable contribution to our proceedings. However, do not worry, Brian, because Alun Davies more than makes up for your absence. Mark Isherwood seems to suggest a conspiracy theory that, every time we have a debate or a statement on Communities First, the Minister makes a statement the day before. There is a trend now developing, Minister. However, I would not advise doing that because due to the rate at which we produce reports and at which the auditor general produces reports, you would end up being exceptionally busy if you were to follow Mark Isherwood's conspiracy theory.

The Minister said in his response that once he is assured that there are appropriate governance arrangements in place, he will be willing to provide money and support to Communities First. That is what we are looking for: assurances on governance; assurances on monitoring; assurances that, over time, Communities First partnerships will be able to realise their objectives and produce the benefits that the Government wanted from this policy.

Our job was not to judge whether Communities First was the right scheme. Our job is not political in that sense and I think that it is important that we have a Public Accounts Committee that follows that very strict line. However, that being the case, Minister, if you make the sort of changes that you are talking about, and heed the advice of all these reports and look at this in a robust fashion, as I think that you are probably willing to do, we may well see Communities First realising that grand ambition of improving the lot of those people who live in our poorest communities. That is something that I know that every Assembly Member in

y cymunedau dan sylw, ond mae'n anodd iawn nodi'n union ymhle mae'r amcanion hynny wedi'u cyflawni ac ymhle y gellir dangos gwerth yr arian.

Ar ôl gwranddo ar y cyhuddiad gan yr Aelod dros Aberafan, sef fy mod yn cadeirio rhyw fath o ginio gwadd i bobl gyfoethog, gresynaf yn awr fod Rheolau Sefydlog yn atal cyn-Weinidogion rhag bod ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, oherwydd credaf y byddai'n gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i'n trafodaethau. Fodd bynnag, peidiwch â phoeni, Brian, oherwydd mae Alun Davies yn gwneud iawn a mwy am eich absenoldeb. Mae Mark Isherwood fel pe bai'n awgrymu bod cynllwyn ar waith, sef, bob tro pan gawn ddadl neu ddatganiad ar Cymunedau yn Gyntaf, fod y Gweinidog yn gwneud datganiad y diwrnod cynt. Mae patrwm yn dod i'r amlwg yn awr, Weinidog. Fodd bynnag, ni fyddwn yn eich cyngori i wneud hynny, oherwydd o gofio mor aml yr ydym ni'n llunio adroddiadau a'r archwilydd cyffredinol yn llunio adroddiadau, byddech yn brysur tu hwnt pe baech yn dilyn damcaniaeth Mark Isherwood o gynllwyn.

Dywedodd y Gweinidog, yn ei ymateb, y bydd yn fodlon rhoi arian a chymorth i Cymunedau yn Gyntaf, pan gaiff sicrwydd fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith. Dyna'r ydym yn chwilio amdano: sicrwydd ynghylch llywodraethu; sicrwydd ynghylch monitro; sicrwydd y bydd partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, gydag amser, yn gallu gwireddu eu hamcanion ac esgor ar y manteision yr oedd y Llywodraeth am eu cael o'r polisi hwn.

Nid barnu ai Cymunedau yn Gyntaf oedd y cynllun cywir oedd ein gwaith. Nid yw ein gwaith yn wleidyddol yn yr ystyr hwnnw, a chredaf ei bod yn bwysig fod gennym Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sy'n cadw at y safbwynt llym iawn hwnnw. Fodd bynnag, o gofio hynny, Weinidog, os gwnewch y math o newidiadau yr ydych yn sôn amdanynt, ac os dilynwch gyngor yr holl adroddiadau hyn ac ymdrin yn gadarn â'r mater, a chredaf eich bod, fwy na thebyg, yn barod i wneud hynny, mae'n bosibl iawn y gwelwn Cymunedau yn Gyntaf yn gwireddu'r uchelgais mawr hwnnw, sef gwella bywyd y bobl hynny sy'n byw yn ein cymunedau tlotaf. Mae hynny'n

the Chamber would want to sign up to. I thank Members for their contributions this afternoon.

rhywbeth y gwn y byddai pob Aelod Cynulliad yn y Siambr am ymrwymo iddo. Diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau y prynhawn yma.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate**

#### **Cyswllt Awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn The Cardiff-Anglesey Air Link**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of Nick Ramsay.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Nick Ramsay.

**Jenny Randerson:** I move that

**Jenny Randerson:** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales calls on the Welsh Assembly Government to scrap the subsidy for the Cardiff-Anglesey air link. (NDM4484)*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddiddymu'r cymhorthdal ar gyfer y cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.*

We are now in a situation where every penny spent by the Government must be carefully justified. As Andrew Davies said last year, when he was Finance Minister, 'the years of plenty are over'. We look back on the years of Labour spending now with some concern.

Yr ydym mewn sefyllfa erbyn hyn lle mae'n rhaid cyfiawnhau'n ofalus bob ceiniog a gaiff ei gwario gan y Llywodraeth. Fel y dywedodd Andrew Davies y llynedd, pan oedd yn Weinidog dros Gyllid, mae'r blynyddoedd o ddigonedd wedi dod i ben. Yr ydym bellach yn edrych yn ôl gyda chryn bryder ar flynyddoedd o wariant gan y Blaid Lafur.

On almost every count, the Government subsidy for the Cardiff to Anglesey air link fails to meet the tough standards that we now have to apply to Government spending. The link has been in place for around three years, and it has been subject to a number of set backs and controversies during that time.

Ar bob cyfrif bron, mae cymhorthdal y Llywodraeth ar gyfer y cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn yn methu â bodloni'r safonau llym y mae'n rhaid inni eu gweithredu erbyn hyn wrth ymdrin â gwariant y Llywodraeth. Bu'r cyswllt yn gweithredu ers rhyw dair blynedd, ac mae wedi cael nifer o rwystrau a dadleuon yn ystod y cyfnod hwnnw.

5.10 p.m.

From the outset, the Liberal Democrats have criticised the subsidy for the air link because

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi beirniadu'r cymhorthdal ar gyfer y cyswllt

we believed that there was only limited demand for the service and that the subsidy would have been better spent on supporting more sustainable transport links with north Wales. The emphasis in our transport policy is on sustainability as a priority, as well as on value for money.

As time went on, it became clear that even with a generous public subsidy, the service was not an attractive option for airline companies. The lack of bids for the second tender suggested that the service was unviable in business terms. I will point out to you some basic facts in relation to this case. The service has been used by 37,000 passengers since it started. It costs the taxpayer around £84 per passenger journey, according to the figures released to me by the Assembly Government. Compare that £84 with the £6.30 subsidy for the equivalent rail journey. The fares range between £20 and £50 for each hour-long one-way flight; therefore, the £84 subsidy is roughly twice the amount for the average fare. It is therefore extremely worrying that this considerable subsidy that is on offer has still failed to attract a good range of bids for the service when the first operator failed.

Despite the problems that have been faced by the service, the Deputy First Minister is unwavering in his support for the air link. Our motion today calls on the Government to stop its subsidy for the air link. We believe that this motion is very well-timed because the Government is currently negotiating a new four-year contract to replace the current temporary contract. Therefore, we believe that the opportunity to cease the subsidy is now, or it cannot be revisited for another four years.

The Conservatives' amendment 1 is about transparency in the way that the contracts for the air link have been handled, and nowhere is this more needed than with regard to the level of subsidy received by the current service. The subsidy for the first contract was £1.2 million per year for the airport and the carrier, but I suspect that it is now probably

awyr o'r cychwyn cyntaf, oherwydd yr oeddem o'r farn mai galw prin yn unig oedd am y gwasanaeth, ac y byddai wedi bod yn well gwario'r cymhorthdal ar gefnogi cysylltiadau trafniadaeth mwy cynaliadwy â'r gogledd. Yn ein polisi trafniadaeth mae'r pwyslais ar gynaliadwyedd fel blaenoriaeth, yn ogystal â gwerth am arian.

Wrth i amser fynd rhagddo, daeth yn glir nad oedd y gwasanaeth yn ddewis deniadol i gwmnïau hedfan, hyd yn oed gyda chymhorthdal cyhoeddus hael. Yr oedd y diffyg cynigion ar gyfer yr ail dendr yn awgrymu nad oedd y gwasanaeth yn ddichonol o ran busnes. Hoffwn dynnu eich sylw at rai ffeithiau sylfaenol yn gysylltiedig â'r achos hwn. Defnyddiwyd y gwasanaeth gan 37,000 o deithwyr ers iddo ddechrau. Mae pob taith gan deithiwr yn costio oddeutu £84 i'r trethdalwr, yn ôl y ffigurau a ryddhawyd imi gan Lywodraeth y Cynulliad. Cymharwch yr £84 hwnnw â'r cymhorthdal o £6.30 ar gyfer y daith gyfatebol ar y rheilffordd. Mae prisiau'r tocynnau yn amrywio rhwng £20 a £50 am bob taith awyr unffordd awr o hyd; felly, mae'r cymhorthdal o £84 ddwywaith cymaint â phris tocyn cyffredin, yn fras. Felly, mae'n destun pryder mawr fod y cymhorthdal sylweddol hwn a gynigir yn dal wedi methu denu ystod dda o gynigion am y gwasanaeth pan fethodd y gweithredwr cyntaf.

Er y problemau sydd wedi wynebu'r gwasanaeth, mae cefnogaeth y Dirprwy Brif Weinidog i'r cyswllt awyr yn ddiysgog. Mae ein cynnig heddiw'n galw ar y Llywodraeth i orffen rhoi cymhorthdal i'r cyswllt awyr. Credwn fod y cynnig hwn wedi'i amseru'n dda iawn, oherwydd ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth wrthi'n trafod contract pedair blynedd newydd yn lle'r contract dros dro cyffredol. Felly, credwn fod cyfle'n awr i atal y cymhorthdal, neu ni fydd modd ei ailystyried am bedair blynedd arall.

Mae a wnelo gwelliant 1 y Ceidwadwyr ag eglurder y ffordd yr ymdriniwyd â chontractau'r cyswllt awyr, ac mae angen hynny yn anad dim wrth ymdrin â lefel y cymhorthdal a gaiff y gwasanaeth presennol. Yr oedd y cymhorthdal ar gyfer y contract cyntaf yn £1.2 filiwn y flwyddyn am y maes awyr a'r cludydd, ond yr wyf yn amau

more. However, the Minister has so far refused to make the information public on the grounds of commercial confidentiality. We believe that it is essential for the public to know where its money is being spent and how much is being spent, particularly on a controversial scheme.

If you think about this logically, you will find that the fact that the previous level of subsidy was known at the time that the current temporary contract was let did not seem to cause a problem. We are now in a situation where the current carrier, Manx2, knows how much it is being paid for the service that it provides, and I assume that it will be free to bid for the succeeding four-year contract, and therefore it knows how much it is being paid and is at a commercial advantage in that respect as compared with any other bidders. In terms of fairness, this information should be made available to all bidders.

We believe that the Government will have to make some very difficult decisions about spending priorities. As a country, Wales has one of the most underdeveloped rail networks in Europe, and our priority has always been to rectify this situation. The Government's spending record shows that public transport is seen as a second priority, after roads. However, I fully accept that, this year, the Minister has taken some very useful steps in reversing that trend. It was a case of one important step being taken when I would have liked to see several being taken. I accept that the Government has begun to change the balance, but there is a great deal more to be done.

Our rail routes are seriously lacking in their ability to cope with the demands of our geographically challenging nation, as well as the demands of commuter travel in south Wales and along the north Wales coast. In addition to that, it has to deal with the challenges of rurality. Those are massive problems, and yet money is put into this air link when it could have been put into improving the north-south rail link—beyond the very modest improvement that the Deputy First Minister announced earlier this year, which pleased some people in north Wales, but failed to please people in Wrexham for

hwyrach fod y ffigur yn uwch bellach. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi gwrthod cyhoeddi'r wybodaeth hyd yma am resymau cyfrinachedd masnachol. Credwn ei bod yn hanfodol i'r cyhoeddwybod ble mae ei arian yn cael ei wario a faint sy'n cael ei wario, yn enwedig ar gynllun dadleuol.

Os meddylwch yn rhesymegol am y mater, gwelwch nad oedd y ffaith fod y lefel flaenorol o gymhorthdal yn hysbys pan roddwyd y contract presennol yn broblem yn ôl pob golwg. Bellach yr ydym mewn sefyllfa lle mae'r cludydd presennol, Manx2, yn gwybod faint mae'n cael ei dalu am y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu, a chymeraf y bydd yn rhydd i gynnig am y contract pedair blynedd a fydd yn dilyn. Mae'n gwybod faint mae'n cael ei dalu, ac mae ganddo fantais fasnachol yn hynny o beth, o'i gymharu â chynigwyr eraill. O ran tegwch, dylid sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i bob cynigiwr.

Credwn y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth wneud rhai penderfyniadau anodd iawn am flaenoriaethau gwario. Fel gwlad, mae gan Gymru un o'r rhwydweithiau rheilffyrdd lleiaf datblygedig yn Ewrop, a'n blaenoriaeth erioed yw unioni'r sefyllfa. Mae hanes gwariant y Llywodraeth yn dangos mai ail flaenoriaeth yw cludiant cyhoeddus, yn dilyn y ffyrdd. Fodd bynnag, derbynïaf yn llawn fod y Gweinidog wedi cymryd rhai camau defnyddiol iawn eleni i newid y duedd honno. Mater ydoedd o gymryd un cam pwysig pan fyddwn wedi hoffi gweld cymryd nifer. Derbynïaf fod y Llywodraeth wedi dechrau newid y cydbwysedd, ond mae llawer iawn o waith i'w wneud eto.

Mae ein rheilffyrdd yn ddifrifol o ddiffygiol o ran eu gallu i ymdopi â gofynion ein gwlad, sy'n ddaeryddol heriol, ynghyd â gofynion cymudwyr sy'n teithio yn y de ac ar hyd arfordir y gogledd. Yn ogystal, rhaid iddynt ymdopi â heriau natur wledig ardaloedd. Mae'r problemau hynny'n anferthol, ond eto mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y cyswllt awyr hwn pan ellid bod wedi'i fuddsoddi i wella'r cyswllt rheilffordd rhwng y gogledd a'r de—y tu hwnt i'r gwelliant bach iawn a gyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog yn gynharach eleni, a oedd yn bodloni rhai pobl yn y gogledd ond yn methu bodloni pobl yn

reasons that I will not rehearse.

The air link is not part of a truly co-ordinated or sustainable transport system. The number of people who benefit from the service is just 37,000 and, together with the frequency of planes and the emissions released, we see that the service is not a viable long-term solution to the problem of improving north-south links.

Today, I noticed an article in the *Western Mail* that asks whether we can still afford free bus passes. It suggests that, in these difficult times, we can do without them. I know that there is four-party agreement that that would be an entirely retrograde step, and I believe that there is total support in the Chamber for free bus passes because of their importance and effectiveness. The very fact that such an immensely popular policy is being seriously questioned—and it was also questioned last week in a debate at Cardiff county hall, Deputy First Minister, at which you and I were present—suggests to me that the Government should be looking at every possible option to secure value for money.

The fact that the air link also has a close connection with the Deputy First Minister's constituency adds to the controversy of the situation. I realise that he is within his rights to deal with this, but I have drawn attention before to the fact that Rhodri Glyn Thomas, when he was a Minister, did not make decisions about the botanic garden because of his close association with it, as it is in his constituency. I have noted recently that the Minister for Children, Education and Lifelong Learning does not make decisions about school reorganisation proposals in his constituency, because of the closeness of that association. I believe that it would be better, for the Deputy First Minister's own benefit, if these decisions were put at arm's length from him. We need to have complete confidence in the processes of government, and it would be far better for the Government to double that confidence by not having the problems and complications caused by the Deputy First Minister's close link with Anglesey.

Wreccsam am resymau nad wyf am eu hailadrodd.

Nid yw'r cyswllt awyr yn rhan o system drafnidiaeth sy'n wirioneddol gydgyssylltiedig neu gynaliadwy. Dim ond 37,000 o bobl sy'n elwa o'r gwasanaeth, ac o gofio amllder yr awyrennau a'r allyriadau a ryddheir hefyd, gwelwn nad yw'r gwasanaeth yn ateb hirdymor dichonol i'r broblem o wella cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de.

Heddiw, sylwais ar erthygl yn y *Western Mail*, sy'n gofyn a allwn barhau i fforddio tocynnau bws am ddim. Mae'n awgrymu y gallem ymdopi hebddynt yn y cyfnod anodd hwn. Gwn fod y pedair plaid yn cytuno y byddai hynny'n gam yn ôl yn llwyr, a chredaf fod y Siambr gyfan yn cefnogi cael tocynnau bws am ddim oherwydd eu pwysigrwydd a'u heffeithiolrwydd. Mae'r union ffaith fod polisi mor eithriadol o boblogaidd yn cael ei amau o ddifrif—a châi ei amau yr wythnos diwethaf hefyd mewn dadl yn neuadd y sir, Caerdydd, Ddirprwy Brif Weinidog, lle'r oeddech chi a minnau'n bresennol—yn awgrymu i mi y dylai'r Llywodraeth fod yn edrych ar bob dewis posibl i sicrhau gwerth yr arian.

Mae'r ffaith fod gan y cyswllt awyr gysylltiad agos hefyd ag etholaeth y Dirprwy Brif Weinidog yn ychwanegu at natur ddadleuol y sefyllfa. Sylweddolaf fod ganddo hawl i ymdrin â'r mater, ond yr wyf wedi tynnu sylw yn y gorffennol at y ffaith na wnaeth Rhodri Glyn Thomas, pan oedd yn Weinidog, benderfyniadau am yr ardd fotaneg oherwydd ei gysylltiad agos â hi, am fod yr ardd yn ei etholaeth. Yr wyf wedi sylwi'n ddiweddar nad yw'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gwneud penderfyniadau ar gynigion i ad-drefnu ysgolion yn ei etholaeth oherwydd agosrwydd y cysylltiad hwnnw. Credaf y byddai'n well, er lles y Dirprwy Brif Weinidog, pe bai'r penderfyniadau hyn yn cael eu cadw hyd braich oddi wrtho. Mae angen inni deimlo'n gwbl hyderus mewn prosesau llywodraethu, a byddai'n well o lawer i'r Llywodraeth ddyblu'r hyder hwnnw drwy beidio â chael y problemau a'r cymhlethdodau a achosir gan gyswllt agos y Dirprwy Brif Weinidog ag Ynys Môn.

Deputy First Minister and members of the Government, it is time to stop worrying about the fact that you have a prized policy that you do not want to let go of. It is time you looked at whether this link represents true value for money, applied the principles of sustainability to your transport policy, and abandoned the attempt to re-tender for the north-south air link.

5.20 p.m.

**David Melding:** I move the following amendments in the name of Nick Ramsay. Amendment 1: add as a new point at the end of the motion:

*regrets the lack of transparency the Welsh Assembly Government has shown in relation to the use of taxpayers' money for the subsidy.*

Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

*calls on the Welsh Assembly Government to immediately disclose the amount of public funding spent on subsidising the north-south link.*

First, I wish to set out the position of the Welsh Conservatives. We believe that subsidies are sometimes justified. We are not shy about interfering in the free market to that extent, if I may put it in that way. However, we feel that any intervention has to be strategic because to make these decisions and to invest public money requires that justification.

There is some justification to improving north-south links, but the Government has to make the case more fully than it has done to date. We are particularly concerned about any lack of transparency in the arrangements relating to subsidies, because how do we check that we will get best value? There is a way of constructing these arrangements so that they can be scrutinised effectively. We have to do it in many walks of life, and hiding behind a veil of secrecy will just invite people to conclude that you have had to pay quite a bit more than was desired to get someone to run this service or, indeed, quite a

Ddirprwy Brif Weinidog ac aelodau'r Llywodraeth, mae'n bryd rhoi'r gorau i boeni bod gennych bolisi gwerthfawr nad ydych am ei ollwng. Mae'n bryd ichi ystyried a yw'r cyswllt hwn yn golygu gwerth gwirioneddol am arian, rhoi egwyddorion cynaliadwyedd ar waith yn eich polisi ar drafndiaeth, a rhoi'r gorau i'r ymgais i aildendro am y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de.

**David Melding:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Nick Ramsay. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at y diffyg tryloywder y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddangos yng nghyswllt defnyddio arian trethdalwyr ar gyfer y cymhorthdal.*

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatgelu ar unwaith faint o arian cyhoeddus sydd wedi cael ei wario ar y cymhorthdal ar gyfer y cyswllt rhwng y gogledd a'r de.*

Yn gyntaf, hoffwn egluro safbwynt Ceidwadwyr Cymru. Credwn fod modd cyfiawnhau cymorthdaliadau weithiau. Nid ydym yn betrus o ymyrryd yn y farchnad rydd i'r graddau hynny, os caf ei fynegi felly. Fodd bynnag, credwn ei bod yn rhaid i bob ymyriad fod yn strategol, oherwydd mae'r cyfiawnhad hwnnw'n ofynnol wrth wneud y penderfyniadau hyn a buddsoddi arian cyhoeddus.

Mae rhywfaint o gyfiawnhad dros wella'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de, ond rhaid i'r Llywodraeth bledio'r achos yn llawnach nag wnaeth hyd yn hyn. Yr ydym yn pryderu'n arbennig am unrhyw ddiffyg tryloywder yn y trefniadau'n ymwneud â chymorthdaliadau, oherwydd sut y gallwn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau? Mae modd llunio'r trefniadau hyn fel y gellir craffu arnynt yn effeithiol. Rhaid inni wneud hynny mewn llawer agwedd ar fywyd, ac ni fydd cuddio y tu ôl i len o gyfrinachedd ond yn gwahodd pobl i ddod i'r casgliad eich bod wedi gorfod talu cryn dipyn yn fwy na'r swm

bit more than could be easily justified in full public debate. Therefore, that is the challenge that you have this afternoon, Deputy First Minister, namely to assure us that we are not paying above the odds for this and that it is, in a strategic sense, good value for money. If you do that and we can then evaluate and monitor the goals that are being met, we are quite prepared to look at any innovation in service where, for whatever reason, the market fails to deliver one.

As we are talking about air travel, I will take this opportunity to state that there have been many cases over the years in which public money has been invested in airports and in various routes, and attracting business by that particular method has been one justification. On Cardiff international airport, we would value scheduled flights from there to some of the emerging markets. How feasible that is at any one time has to be scrutinised carefully. However, I know that the airport is keen to get a service to North America and I know that some key American cities, which are trying to improve their air links and connections to international businesses, go after a key scheduled service. That is usually into Heathrow airport, but perhaps we need to follow that example and see whether there are key ways of improving the connectivity of Wales—and, sometimes, the connectivity within Wales can then be reasonably considered.

We have tabled these amendments in a constructive spirit because they will go a long way towards addressing our concerns. I am charitable enough to assume that this is just a matter of our not having the information at this stage and that the Deputy First Minister may be prepared to give it to us. Therefore, we will abstain from the vote on the substantive motion because we acknowledge that there could be a justification for such a north-south link, although whether we can support it in the future will depend on the detail.

**Eleanor Burnham:** We know that the One

a ddymunwyd i gael rhywun i redeg y gwasanaeth hwn, neu'n wir, eich bod wedi gorfod talu llawer iawn yn fwy nag y gellid ei gyfiawnhau'n hawdd mewn dadl gyhoeddus lawn. Felly, dyna'r her sy'n eich wynebu y prynhawn yma, Ddirprwy Brif Weinidog, sef yr angen i roi sicrwydd inni nad ydym yn talu mwy na'r disgwyl am y gwasanaeth, a'i fod, o safbwynt strategol, yn werth da am yr arian. Os gwnewch hynny ac os gallwn werthuso a monitro'r nodau a gyflawnir, byddwn yn eithaf bodlon edrych ar unrhyw arloesedd mewn gwasanaeth lle nad yw'r farchnad yn llwyddo i'w ddarparu, am ba reswm bynnag.

Gan ein bod yn siarad am deithiau awyr, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud inni weld nifer o achosion dros y blynyddoedd lle buddsoddwyd arian cyhoeddus mewn meysydd awyr a llwybrau amrywiol, ac yr oedd denu busnes drwy'r dull penodol hwnnw'n un cyfiawnhad. O ran maes awyr rhyngwladol Caerdydd, byddem yn gwerthfawrogi teithiau awyr rheolaidd oddi yno i rai o'r marchnadoedd sy'n datblygu. Rhaid craffu'n ofalus ar ddichonoldeb hynny ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, gwn fod y maes awyr yn awyddus i gael gwasanaeth i Ogledd America, a gwn fod rhai dinasoedd allweddol yn America, sy'n ceisio gwella'u cysylltiadau awyr a'u cysylltiadau â busnesau rhyngwladol, yn mynd ar drywydd gwasanaeth rheolaidd allweddol. I faes awyr Heathrow fyddai hynny fel rheol, ond efallai fod angen inni ddilyn yr esiampl honno a gweld a oes ffyrdd allweddol i wella cysylltedd Cymru—ac yna weithiau gellir ystyried yn rhesymol y cysylltedd o fewn Cymru.

Yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn mewn ysbryd adeiladol, oherwydd byddant yn cyfrannu llawer at fynd i'r afael â'n pryderon. Yr wyf yn ddigon hael i dybio mai'r unig beth sydd o'i le yw nad yw'r wybodaeth gennym ar hyn o bryd, ac y bydd y Dirprwy Brif Weinidog efallai'n barod i'w rhoi inni. Felly, byddwn yn ymatal rhag pleidleisio ar y cynnig gwreiddiol, oherwydd yr ydym yn cydnabod y gellid cyfiawnhau cyswllt o'r fath rhwng y gogledd a'r de, er mai'r manylion a fydd yn penderfynu a allwn ei gefnogi yn y dyfodol.

**Eleanor Burnham:** Gwyddom fod



Wales Government claims to put sustainability at the heart of its programmes, and sustainability features in all aspects of its work. In every Government strategy, sustainability features highly.

We are 10 years into the Welsh situation and the devolved situation, and yet, psychologically, we have not connected north and south Wales in any manner or means satisfactory to the whole of north Wales. We know that it is satisfactory for people in Anglesey—[*Interruption.*] Fine. Mock me, but it is true. It is all very well to allow some people the benefits of travelling from north to south in a nice, sedate manner on an aeroplane, but, for the rest of us, it is not much fun.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Eleanor Burnham, you do not have to respond to any comments made when Members are sitting down. If Members wish to make a comment, please can they ask to intervene? Carry on, Eleanor Burnham.

**Eleanor Burnham:** This is serious. Ten years on, psychologically, some people in north Wales could not care a jot about what goes on down here because it is such a pain in the neck to get here. To be frank, you have wasted a lot of money on this stupid system of flying just to Anglesey and maybe north Gwynedd. It is satisfactory for the people there. I feel sorry for people living in Anglesey that it is such a pain to get down here, but I feel sorry for the rest of my constituents across north Wales. It is a very big region, and there are roughly 240 miles from one end of Wales to the other, which makes things difficult for regional Members. If you cannot get your act together and make improvements to the railways—and I know that I have had some private conversations with the Deputy First Minister—

**Gareth Jones** *rose*—

**Eleanor Burnham:** No, I have the bit between my teeth, so I want to get on now, please.

**Gareth Jones:** Will you take an

Llywodraeth Cymru'n Un yn honni ei bod yn rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd ei rhaglenni, ac mae cynaliadwyedd yn amlwg ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae cynaliadwyedd yn cael lle blaenllaw ym mhob un o strategaethau'r Llywodraeth.

Mae 10 mlynedd ers inni gael y sefyllfa Gymreig a'r sefyllfa ddatganoledig hon, ond eto i gyd, yn seicolegol, nid ydym wedi cysylltu'r gogledd a'r de â'i gilydd mewn unrhyw ffordd sy'n foddhaol i'r gogledd yn gyfan. Gwyddom ei bod yn foddhaol i bobl yn Ynys Môn—[*Torri ar draws.*] Iawn. Gallwch fy ngwatwar, ond mae'n wir. Mae'n ddigon hawdd caniatáu i rai pobl elwa o deithio o'r gogledd i'r de mewn ffordd neis, hwylus ar awyren, ond nid yw'n llawer o hwyl i'r gweddill ohonom.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Eleanor Burnham, nid oes raid ichi ymateb i unrhyw sylwadau a wneir pan fydd Aelodau ar eu heistedd. Os yw Aelodau am wneud sylw, a wnewch chi ofyn am gael ymyrryd? Ewch yn eich blaen, Eleanor Burnham.

**Eleanor Burnham:** Mae hyn yn ddifrifol. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yn seicolegol, nid yw rhai pobl yn y gogledd yn malio dim am yr hyn sy'n digwydd i lawr yma, am fod cyrraedd yma'n gymaint o drafferth. A bod yn onest, yr ydych wedi gwastraffu llawer o arian ar y system wirion hon o hedfan i Ynys Môn yn unig, a gogledd Gwynedd o bosibl. Mae'n foddhaol i'r bobl yno. Yr wyf yn teimlo'n flin dros bobl Ynys Môn fod cyrraedd yma'n gymaint o drafferth, ond yr wyf yn teimlo'n flin dros weddill fy etholwyr ledled y gogledd. Mae'n rhanbarth mawr, ac mae tua 240 o filltiroedd rhwng y naill ben i Gymru a'r llall, sy'n gwneud pethau'n anodd i Aelodau rhanbarthol. Os na allwch roi trefn ar bethau a gwella'r rheilffyrdd—a gwn fy mod wedi cael rhai sgyrsiau preifat gyda'r Dirprwy Brif Weinidog—

**Gareth Jones** *a gododd*—

**Eleanor Burnham:** Na, yr wyf wedi codi stêm eto, felly yr wyf am barhau'n awr, os gwelwch yn dda.

**Gareth Jones:** A wnewch chi ildio?

intervention?

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I do not think that she is taking an intervention, Gareth Jones.

**Eleanor Burnham:** It is really important. I know that the Deputy First Minister is genuine and sincere, but we have waited for too long. We have had many discussions and reviews and yet we are still waiting for improvements. The Saltney points need to be improved and we need the line between Chester and Wrexham to be dualled. I know that it was not on the Deputy First Minister's watch, but that line was made single many years ago by the Welsh Office in undue haste, which I think everyone has regretted ever since.

It is imperative to have the best value for money, and I do not think that we achieve that by having this connection to only one part of a region that is far away in psychological terms and in distance. Areas such as New Zealand have air links, and there is nothing wrong with that, but we do not have the money to do this. [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order.

**Eleanor Burnham:** Can we please try to get our act together and ensure that people living throughout north Wales, including in Wrexham, can get here? Surely, instead of the air link, which is wonderful for Anglesey, we need faster inter-city trains with limited stops. Then, as regional Members could all get down here for 9 a.m. when our committee meetings begin. That does not take too much thought, and I understand that the Deputy First Minister is making an effort as it is now on his watch. However, progress has been far too slow. I can only hope that, within the next five years, cuts or no cuts, we can make proper improvements. The shoddiness of some of the rolling stock is embarrassing, particularly when people from other countries are travelling with you. You feel that you want to hide and pretend that you do not belong to the Assembly, because it is so embarrassing.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni chredaf ei bod am ildio, Gareth Jones.

**Eleanor Burnham:** Mae'n wirioneddol bwysig. Gwn fod y Dirprwy Brif Weinidog yn ddidwyll ac yn ddiffuant, ond yr ydym wedi aros yn rhy hir. Yr ydym wedi cael nifer o drafodaethau ac adolygiadau, ond eto yr ydym yn dal i aros am welliannau. Mae angen gwella'r pwyntiau yn Saltney, ac mae arnom angen i'r rheilffordd rhwng Caer a Wrecsam gael ei deuoli. Gwn nad dan oruchwyliaeth y Dirprwy Brif Weinidog y digwyddodd hynny, ond gwnaed y rheilffordd honno'n rheilffordd sengl flynyddoedd lawer yn ôl gan y Swyddfa Gymreig ar frys diangen, a chredaf fod pawb wedi edifarhau byth ers hynny.

Mae'n hanfodol sicrhau'r gwerth gorau am yr arian, ac ni chredaf ein bod yn cyflawni hynny drwy gael y cyswllt hwn i un rhan yn unig o ranbarth, sydd ymhell i ffwrdd yn seicolegol ac yn ddaearyddol. Mae gan ardaloedd megis Seland Newydd gysylltiadau awyr, ac nid oes dim o'i le ar hynny, ond nid oes gennym ni arian i wneud hyn. [*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn.

**Eleanor Burnham:** A allwn geisio rhoi trefn ar bethau a sicrhau y gall pobl sy'n byw ledled y gogledd, gan gynnwys Wrecsam, gyrraedd yma? Yn hytrach na'r cyswllt awyr, sy'n wych i Ynys Môn, siawns nad oes arnom angen trenau cyflymach rhwng dinasoedd, sy'n aros mewn nifer cyfyngedig o orsafoedd. Yna, gallai pob un ohonom ni, Aelodau rhanbarthol, gyrraedd i lawr yma erbyn 9 a.m. pan fydd cyfarfodydd ein pwyllgorau'n dechrau. Nid yw hynny'n gofyn am ormod o waith meddwl, a deallaf fod y Dirprwy Brif Weinidog yn ymdrechu, gan fod y mater dan ei oruchwyliaeth ef bellach. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod lawer yn rhy araf. Ni allaf ond gobeithio y gallwn wneud gwelliannau go iawn yn ystod y pum mlynedd nesaf, toriadau neu beidio. Mae cyflwr gwael rhai o'r cerbydau'n embaras, yn enwedig pan fydd pobl o wledydd eraill yn teithio gyda chi. Yr ydych

yn teimlo fel cuddio a smalio nad ydych yn perthyn i'r Cynulliad, am fod eu cyflwr yn destun cymaint o embaras.

The Government will claim that the number of people using the air service has been higher than expected. That is fine and shows that it has been a great success. However, the simple fact remains that we cannot transport enough people from across the whole of north Wales by any means other than rail. Therefore, I urge the Deputy First Minister to do his very best to secure these significant improvements. As others have said, there are questions about the criteria for bidding for the contract and there is a lack of transparency. I urge the Deputy First Minister to do his very best—for the sanity of some of us in north Wales.

**Gareth Jones:** Byddai'n well o lawer pe bai cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn galw ar y Llywodraeth i ystyried doethineb buddsoddi mewn menter fel hon ar adeg o doriadau llym—toriadau y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain yn rhannol gyfrifol amdanynt, wrth gwrs—yn hytrach na galw arni i ddiddymu'r holl beth yn ddisymwth. Mae'n bosibl bod datganiadau afresymol fel hyn yn arwydd o bethau i ddod gan ein cyfeillion acw gan eu bod yn blasu grym llywodraethol, ac y gwelwn ragor o alwadau ganddynt i ddiddymu gwasanaethau eraill gan danseilio twf yr economi Gymreig.

Heblaw am yr ensyniad annifyr maleisus bod budd personol i Ieuan Wyn Jones yn y gwasanaeth hwn, mae dau beth yn lladd dadl y Democratiaid Rhyddfrydol, sef llwyddiant y gwasanaeth a sylwadau gwrthgyferbyniol eu Haelodau.

O ran llwyddiant y gwasanaeth hwn, ers ei gychwyn, mae 40,000 o deithwyr wedi ei ddefnyddio. Un gŵyn yr wyf wedi ei chlywed yw nad oes gwasanaeth llawnach ar gael ar benwythnosau. Gwerthfawrogir y gwasanaeth gan unigolion, bobl fusnes yn ogystal â swyddogion y sector cyhoeddus sy'n cael eu gorfodi, Eleanor—ac nid ydynt yn gwirfoddoli—oherwydd natur eu swydd, i ddod i lawr i Gaerdydd i weithio ac i ymweld â'r brifddinas. Maent yn dod yma i'n

Bydd y Llywodraeth yn honni i nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth awyr fod yn uwch na'r disgwyl. Mae hynny'n iawn, ac mae'n dangos iddo fod yn llwyddiant ysgubol. Fodd bynnag, erys y ffaith syml na allwn gludo digon o bobl o bob cwr o'r gogledd gan ddefnyddio'r un dull arall o deithio ar wahân i'r reilffordd. Felly, anogaf y Dirprwy Brif Weinidog i wneud ei orau glas i sicrhau'r gwelliannau sylweddol hyn. Fel y dywedodd eraill, mae yna amheuaeth am y meini prawf ar gyfer cynnig am y contract, ac mae diffyg tryloywder. Anogaf y Dirprwy Brif Weinidog i wneud ei orau glas—er mewn tawelwch meddwl rhai ohonom yn y gogledd.

**Gareth Jones:** It would have been far better if the motion by the Liberal Democrats had called on the Government to consider the wisdom of investing in a venture such as this at a time of severe cuts—cuts for which the Liberal Democrats in London are partly responsible, of course—rather than call on it to abolish the whole thing immediately. It is possible that irrational statements such as these are a sign of things to come from our friends over there as they get a taste of governmental power, and that we will see more calls by them to abolish other services, undermining the growth of the Welsh economy.

Apart from the malicious and unpleasant insinuation of personal benefit for Ieuan Wyn Jones from this service, two things fatally undermine the Liberal Democrat argument, namely the success of the service and contradictory comments by their Members.

As for the success of the service, since its inception 40,000 passengers have used the service. One complaint which I have heard is that there is not a fuller service available at weekends. The service is appreciated by individuals, business people as well as officials from the public sector, who are required, Eleanor—and they are not volunteering—given the nature of their jobs, to come to Cardiff to work and to visit the capital city. They come here to serve us in

gwasanaethu ni yn y lle hwn, nid o'u gwirfodd, ond oherwydd fod yn rhaid iddynt. Mae hwn yn wasanaeth pwysig iddynt o ran hynny.

5.30 p.m.

Cyn galw am ei ddiddymu, a yw'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi asesu sut mae'r gwasanaeth hwn yn hybu'r economi leol yn y gogledd-orllewin drwy hwylustod, arbed amser, torri costau, creu swyddi ac yn y blaen? A yw'r pethau hyn o bwys i'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghaerdydd? Maent o bwys i'w haelodau yn y gogledd a rhannau eraill o Gymru.

**Jenny Randerson:** Will you take an intervention?

**Gareth Jones:** No, I have listened to Eleanor and I need to move on. We all know that the Lib Dems are prone to say one thing at one time and the complete opposite at another, according to how it suits them politically. We are well aware of that. [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. He is not taking any interventions.

**Gareth Jones:** They are also inclined to tell voters one thing and then do the complete opposite, as we have just seen with the formation of the Con-Dem coalition—sorry not the Con-Dem coalition, but the coalition; it is blatant hypocrisy on their part.

**Darren Millar** *rose*—

**Gareth Jones:** You may as well sit down, Darren. [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Can we just calm down a little, because I would like to hear what Gareth Jones is saying without straining my ears? There is no need to shout.

**Gareth Jones:** I would like to be heard as well. On the issue of the north-west to south-east air service, the Liberal Democrats are all at sea. [*Laughter.*]

this place, not willingly, but because they must. This is an important service for them in that regard.

Before calling for its abolition, have the Liberal Democrats assessed how this service is boosting the local economy in north-west Wales by way of convenience, time saving, cost cutting, job creation, and so on? Are these things important to the Lib Dems in Cardiff? They are important to their members in the north and in other parts of Wales.

**Jenny Randerson:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Gareth Jones:** Na wnaif, yr wyf wedi gwrandao ar Eleanor ac mae angen imi symud ymlaen. Gwyddom i gyd fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn tueddu i ddweud un peth un eiliad, a'r gwrthwyneb yn llwyr yr eiliad nesaf, yn ôl yr hyn sy'n addas iddynt yn wleidyddol. Yr ydym yn ymwybodol iawn o hynny. [*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Nid yw'n derbyn ymyriadau.

**Gareth Jones:** Maent hefyd yn tueddu i ddweud un peth wrth bleidleiswyr a gwneud i'r gwrthwyneb yn llwyr wedyn, fel yr ydym newydd weld wrth iddynt ffurfio'r glymblaid Ryddfrydol-Geidwadol—mae'n flin gennyf, nid y glymblaid Ryddfrydol-Geidwadol, ond y glymblaid; rhagrith llwyr ydyw ar eu rhan.

**Darren Millar** *a gododd*—

**Gareth Jones:** Cystal ichi eistedd, Darren. [*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A allwn ymdawelu ychydig, oherwydd hoffwn glywed yr hyn y mae Gareth Jones yn ei ddweud heb orfod clustfeinio? Nid oes angen gweiddi.

**Gareth Jones:** Hoffwn i hefyd gael fy nghlywed. O ran y gwasanaeth awyr rhwng y gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain, nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn hedfan i'r un

cyfeiriad. [*Chwerthin.*]

The Lib Dem MP, Roger Williams, was a member of the Welsh Affairs Committee when it said in January 2003 that the establishment of a fast and reliable air link between north and south Wales should be a priority objective. The Lib Dems were also in coalition Government in Wales when, in March 2003, Sue Essex declared that the Assembly Government would pursue a number of initiatives, including north-south air links, as supported by the select committee. The Lib Dems in the Assembly are now calling for the subsidy to be scrapped while one of their most senior councillors, who is also a businessman, acknowledges its vital contribution to regenerating the local economy. The Federation of Small Business chairman and Lib Dem county councillor Selwyn Williams has publicly congratulated Ieuan Wyn Jones for his hard work and sterling support for what he calls the fragile economy of Ynys Môn. Ynys Môn is the poorest part of the UK and the furthest part of Wales from Cardiff and I am delighted that Plaid in Government has managed to continue to provide this air link, because, unlike the Lib Dems, we are serious about regenerating the economy of north-west Wales.

To conclude, I can only share Councillor Williams's view of his Lib Dem colleagues in Cardiff by saying that I, too, am appalled at their attitude towards the poorest part of the UK.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to speak in the debate as a Member for a region that plays host to one of the sites that services the north-south air link, namely Cardiff Airport. I have raised various issues regarding the airport, and I also support the amendments proposed by my colleague Nick Ramsay. It is critically important that we have transparency and sight of where this support money is going, because it is critical that the airport has confidence that the Welsh Assembly Government is able to facilitate route

Yr oedd Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol, Roger Williams, yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cymreig pan ddywedodd y pwyllgor ym mis Ionawr 2003 y dylai gwaith sefydlu cyswllt awyr cyflym a dibynadwy rhwng y gogledd a'r de fod yn amcan a gâi flaenoriaeth. Yr oedd y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd mewn Llywodraeth glymbleidiol yng Nghymru pan gyhoeddodd Sue Essex, ym mis Mawrth 2003, y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ar drywydd nifer o fentrau, gan gynnwys cysylltiadau awyr rhwng y gogledd a'r de, a gefnogid gan y pwyllgor dethol. Bellach mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad yn galw am i'r cymhorthdal gael ei ddiddymu, tra mae un o'u cynghorwyr uchaf eu statws, sydd hefyd yn ddyn busnes, yn cydnabod cyfraniad hanfodol y cyswllt o ran adfywio'r economi leol. Mae cadeirydd y Ffederasiwn Busnesau Bach, ac un o gynghorwyr sir y Democratiaid Rhyddfrydol, Selwyn Williams, wedi llongyfarch Ieuan Wyn Jones yn gyhoeddus ar ei waith caled, a'i gefnogaeth wych i economi fregus Ynys Môn, chwedl yntau. Ynys Môn yw rhan dlotaf y DU a'r rhan o Gymru sydd bellaf o Gaerdydd, ac yr wyf yn falch fod Plaid Cymru, mewn Llywodraeth, wedi llwyddo i barhau i ddarparu'r cyswllt awyr hwn, oherwydd, yn wahanol i'r Democratiaid Rhyddfrydol, yr ydym o ddifrif ynghylch adfywio economi'r gogledd-orllewin.

I gloi, ni allaf ond cytuno â barn y Cynghorydd Williams am ei gyd-Aelodau o'r Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghaerdydd, drwy ddweud fy mod i hefyd yn gresynu at eu hagwedd at ran dlotaf y DU.

**Andrew R.T. Davies:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl, fel Aelod dros ranbarth sy'n gartref i un o'r safleoedd sy'n gwasanaethu'r cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de, sef Maes Awyr Caerdydd. Yr wyf wedi codi amrywiol faterion am y maes awyr, ac yr wyf hefyd yn cefnogi'r gwelliannau a gynigiwyd gan fy nghyd-Aelod, Nick Ramsay. Mae'n hollbwysig inni gael tryloywder a gwybodaeth am y manau lle caiff yr arian cefnogi hwn ei wario, oherwydd mae'n hollbwysig i'r maes awyr fod yn hyderus y gall Llywodraeth y Cynulliad

establishment grants, which are common if you want to bring serious carriers to a regional market. It has been raised with me that that money is regrettably not forthcoming, because, understandably, there is a limited pot, and the Welsh Assembly Government chooses to put that money into the north-south air link. That is a strategic decision that the Government has taken, but when you look at the economic impact of the money that could be spent by the Welsh Assembly Government, we have to look at where we get a bang for our buck. I am led to believe that a serious carrier has booked the flight codes for a direct link from Cardiff to north America, and all that is required is the financial support that such a carrier could obtain from another airport for a two-year period of promotional work, crew training and crew stationing.

For me, the crux of this debate is where the Government spends its money for aviation support. I have travelled on the north-south air link, and I fully understand the convenience of the hour or three-quarters of an hour that it sometimes takes to travel north to south. For someone like me, who lives six miles away from the airport, it is an understandable convenience, but from the figures that I can see, it looks like an expensive convenience. I suggest that that money could be spent more wisely by attracting a serious world brand to the Welsh market that could bring high-value tourists into that market. If the Deputy First Minister has a funding stream that could support both those projects, that would be welcome, but in these difficult financial times, it may only be possible to service one or the other. Do we support route prioritisation for major world carriers or do we support a north-south air link? Having experienced the north-south air link, I believe that serious work needs to be undertaken to sell that package. Whether Anglesey is the right host or whether it should be located more towards the north-east is also a moot point, because the best location to service the north Wales market in its entirety has also been debated. However, the Government must face up to where it will put its aviation support going forward.

hwyluso grantiau sefydlu llwybrau, sy'n gyffredin os ydych am ddod â chcludwyr pwysig i farchnad ranbarthol. Tynnwyd fy sylw at y ffaith nad yw'r arian ar gael, yn anffodus, oherwydd swm cyfyngedig sydd ar gael, sy'n hollol ddealladwy, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn dewis gwario'r arian hwnnw ar y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de. Mae hwnnw'n benderfyniad strategol a wnaed gan y Llywodraeth, ond wrth edrych ar effaith economaidd yr arian y gellid ei wario gan Lywodraeth y Cynulliad, rhaid inni edrych ar ble i sicrhau'r gwerth gorau am ein harian. Caf ar ddeall fod cludydd pwysig wedi archebu codau'r teithiau awyr ar gyfer cyswllt uniongyrchol o Gaerdydd i ogledd America, ac mai'r cyfan sy'n ofynnol yw'r cymorth ariannol y gallai cludydd o'r fath ei gael gan faes awyr arall am waith hyrwyddo, hyfforddi criw a lleoli criw am gyfnod o ddwy flynedd.

I mi, craidd y ddadl hon yw ble mae'r Llywodraeth yn gwario'i harian ar gymorth hedfan. Yr wyf wedi defnyddio'r cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de, a deallaf yn iawn mor gyfleus yw'r ffaith mai awr neu dri chwarter awr a gymer weithiau i deithio rhwng y gogledd a'r de. I rywun fel fi, sy'n byw chwe milltir o'r maes awyr, mae'n gyfleustra dealladwy, ond o'r ffigurau a welaf, mae'n ymddangos yn gyfleustra drud. Awgrymaf y gellid gwario'r arian hwnnw'n ddoethach drwy ddenu brand sy'n adnabyddus ledled y byd i'r farchnad yng Nghymru ac a allai ddenu twristiaid uchel eu gwerth i'r farchnad honno. Os oes gan y Dirprwy Brif Weinidog ffrwd ariannu a allai gefnogi'r ddau brosiect dan sylw, byddai hynny i'w groesawu, ond yn y cyfnod ariannol anodd hwn, hwyrach y gellir cefnogi'r naill neu'r llall. A ydym am gefnogi gwaith blaenoriaethu llwybrau i gludwyr byd-eang mawr, ynteu a ydym am gefnogi cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de? O fod wedi cael profiad o'r cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de, credaf fod angen gwneud gwaith sylweddol i werthu'r pecyn hwnnw. Pwynt dadleuol arall yw ai Ynys Môn yw'r cartref cywir ar ei gyfer, ynteu a ddylai fod ymhellach tua'r gogledd-ddwyrain, oherwydd bu'r lleoliad gorau i wasanaethu marchnad y gogledd yn gyfan yn destun trafod hefyd. Fodd bynnag, rhaid i'r Llywodraeth benderfynu ble y bydd yn gwario'i chymorth

hedfan wrth symud ymlaen.

I am sure that the Deputy First Minister would not have chosen to have been put into the situation of Highland Airways going into administration. Given the difficulties of finding a viable carrier, I hope that the Deputy First Minister will give us a feel for what type of market is out there for the Welsh Assembly Government, if it were to continue with the north-south air link, to be able to find a viable carrier that delivers value for money. I am led to believe that the ability of the Welsh Assembly Government to attract carriers to service that link is limited. Therefore, you have to question whether the Welsh Assembly Government is getting the best value for the money that it is putting into that link through the tendering process.

We all subscribe to a better north-south link. If we are serious about creating a joined-up community and a joined-up sense of being Welsh, it is critical that people have viable transport links. One of the most disheartening things that I have found—coming from the agricultural community, I attend many summer shows—when I have talked to friends and colleagues from north Wales, and even some parts of mid Wales, is that what puts them off travelling to the south is the inordinate amount of time that it takes to travel down and to travel back. It is far easier for them to go east than to come south. As someone who comes from south Wales, I find that disheartening. As a representative for the city of Cardiff, which is such a marvellous city—I always use the expression that it is big enough to cope, but small enough to care—I want as many people as possible to experience it.

I hope that, in responding to today's debate, the Deputy First Minister will indicate what the aviation policy of the Welsh Assembly Government is, given that we know that there are alternatives for where this money could be spent in the field of aviation. It is of critical importance to the future of Cardiff Airport that it understands the Welsh Assembly Government's position on the limited grant money that it has available. I urge the Deputy First Minister to respond to those serious questions that I have put to him, and I look forward to listening to his

Yr wyf yn siŵr na fyddai'r Dirprwy Brif Weinidog wedi dewis cael sefyllfa lle rhoddwyd Highland Airways yn nwylo'r gweinyddwyr. O gofio'n anawsterau wrth ddod o hyd i gludydd dichonol, gobeithio y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn rhoi syniad inni o'r math o farchnad sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad, pe bai'n parhau'r cyswllt rhwng y gogledd a'r de, er mwyn gallu dod o hyd i gludydd dichonol sy'n sicrhau gwerth yr arian. Caf ar ddeall fod gallu Llywodraeth y Cynulliad i ddenu cludwyr i wasanaethu'r cyswllt yn gyfyngedig. Felly, rhaid ichi ofyn a yw Llywodraeth y Cynulliad yn cael y gwerth gorau am yr arian y mae'n ei fuddsoddi yn y cyswllt drwy'r broses dendro.

Yr ydym i gyd yn cefnogi'r angen am gyswllt gwell rhwng y gogledd a'r de. Os ydym o ddifrif am greu cymuned gydgysylltiedig ac ymdeimlad cydgysylltiedig o fod yn Gymry, mae'n hollbwysig fod gan bobl gysylltiadau trafniadaeth. Un o'r pethau mwyaf torcalonnus i mi—byddaf yn mynd i nifer o sioeau haf gan fy mod yn dod o gymuned amaethyddol—wrth siarad â chyfeillion a chyd-Aelodau o'r gogledd, a rhai rhannau o'r canolbarth hyd yn oed, yw clywed mai'r hyn sy'n eu hatal rhag teithio i'r de yw'r amser gormodol a gymer i deithio i lawr ac yn ôl. Mae'n haws o lawer iddynt deithio i'r dwyrain na dod i'r de. Fel un sy'n dod o'r de, credaf fod hynny'n dorcalonnus. Fel un sy'n cynrychioli dinas Caerdydd, sy'n ddinas mor fendigedig—byddaf bob amser yn dweud ei bod yn ddigon mawr i ymdopi, ond yn ddigon bach i boeni—yr wyf am i gynifer o bobl ag sy'n bosibl ddod i gael profiad ohoni.

Wrth ymateb i'r ddadl heddiw, gobeithio y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn nodi beth yw polisi hedfan Llywodraeth y Cynulliad, o ystyried ein bod yn gwybod bod ffyrdd amgen o wario'r arian hwn yn y byd hedfan. Mae'n hollbwysig er mwyn dyfodol maes awyr Caerdydd ei fod yn deall safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ar yr arian grant cyfyngedig sydd ar gael ganddo. Anogaf y Dirprwy Brif Weinidog i ymateb i'r cwestiynau difrifol yr wyf wedi'u gofyn iddo, ac edrychaf ymlaen at wrando ar ei ymateb.

response.

**Michael German:** I want to examine the level of public subsidy and the way that it is being applied, because the crucial question is where public money is going, whether that public money is being used in the best way possible and whether it is distorting the transport market between north and south Wales. It is sometimes difficult to find all the figures, but it is now four years since the first tender was put out, so these are no longer start-up grants. Whatever anyone says, this grant or subsidy of public money is no longer being used to promote a service, but to support it.

Let us first of all look at the quantum. Gareth has just said that there have been 40,000 journeys—we should remember that those are one-way journeys going to one place, with the journey back counting as another journey. However, there have been 40,000 journeys. From the information that we can glean by taking the subsidy that was provided at the beginning, the increasing subsidy that we suspect is required, and inflation over time, we can estimate that the subsidy is approximately £84 per journey. It does not take a genius to multiply 40,000 by £84 and get £3.5 million. That is what has been spent on this process.

5.40 p.m.

The second point is to compare that with rail journeys. Holyhead to Cardiff rail journeys are being subsidised by the Welsh Assembly Government to the tune of £6.30 per traveller. In other words, there is a choice between spending £84 or £6.30 of public money per traveller to support journeys from north to south Wales. Is it good use of public money to choose to spend £84 per traveller? That is a question that people should perhaps ask for themselves.

The other point about the tender is that the contractor cannot charge more than £50 per passenger for a one-way flight, whereas the train fare from Holyhead to Cardiff can cost as much as £70 for a single fare. There is an imbalance in those costs, but even so, what does £84 per person per single journey mean

**Michael German:** Yr wyf am archwilio lefel y cymhorthdal cyhoeddus, a'r ffordd y mae'n cael ei ddefnyddio, oherwydd y cwestiwn hollbwysig yw i ble mae arian cyhoeddus yn mynd, a yw'r arian cyhoeddus hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl, ac a yw'n camlunio'r farchnad drafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de. Weithiau mae'n anodd dod o hyd i'r ffigurau i gyd, ond mae pedair blynedd erbyn hyn ers rhoi'r tendr cyntaf, felly, nid grantiau sefydlu mo'r rhain mwyach. Beth bynnag a ddywed neb, cynnal gwasanaeth yw diben y grant neu'r cymhorthdal arian cyhoeddus bellach, nid hyrwyddo gwasanaeth.

Yn gyntaf, gadewch inni edrych ar y niferoedd. Mae Gareth newydd ddweud bod 40,000 o siwrneiau wedi digwydd—dylem gofio mai siwrneiau unffordd yw'r rheini, sy'n mynd i un lleoliad, a'r siwrnai'n ôl yn cyfrif fel siwrnai arall. Fodd bynnag, cafwyd 40,000 o siwrneiau. O'r wybodaeth y gallwn ei chasglu drwy gymryd y cymhorthdal a ddarparwyd ar y dechrau, y cymhorthdal cynyddol yr amheuern fod ei angen a chwyddiant dros amser, gallwn amcangyfrif bod y cymhorthdal fesul taith tuag £84. Nid oes angen athrylith i luosi 40,000 â £84 a chael £3.5 miliwn. Dyna'r swm a wariwyd ar y broses hon.

Yr ail bwynt yw cymharu hynny â theithiau rheilffordd. Mae teithiau rheilffordd o Gaerdybi i Gaerdydd yn cael cymhorthdal o £6.30 am bob teithiwr gan Lywodraeth y Cynulliad. Mewn geiriau eraill, mae yna ddewis rhwng gwario £84 neu £6.30 o arian cyhoeddus am bob teithiwr i gefnogi teithiau o'r gogledd i'r de. A yw dewis gwario £84 am bob teithiwr yn ffordd dda o ddefnyddio arian cyhoeddus? Dyna gwestiwn y dylai pobl fod yn ei ofyn efallai.

Y pwynt arall ynghylch y tendr yw na all y contractwr godi mwy na £50 am bob teithiwr am daith awyr unffordd, tra gall tocyn trên o Gaerdybi i Gaerdydd gostio cymaint â £70 am daith unffordd. Mae yna ddiffyg cydbwysedd yn y costau dan sylw, ond er hynny, beth y mae £84 am bob teithiwr am



in terms of subsidy? To be honest, we could afford to put the passengers up in one of the best hotels in Cardiff, give them a bed and breakfast and evening meal, and still have some change in our pockets so that they could have a nice time while they are here—or the other way round, with those who have travelled from Cardiff enjoying north Wales.

The problem is that the subsidy no longer exists to assist travel. It exists to retain a service at a level far in excess of any other supported travel per passenger in Wales. I challenge the Deputy First Minister to tell us what other services within Wales are being subsidised per seat, per journey, to that extent. I suspect that there are none; I certainly cannot think of any.

The approach is quite simple. There is no reason why you cannot support an air service to get it going. You could even match the subsidy given for alternative forms of transport. However, if you asked the people of Ynys Môn whether they would rather spend that £3.5 million on infrastructure for Anglesey or on this air link, I wonder how they would answer. Would they regard this as a successful venture? Of course there will be people who need to travel on these journeys, but we are where we are with the geography of our country, and the same applies to our country's finances. What we are doing is not helping the majority of people who have to travel, who will use rail or road. We are not supporting them to same degree that we are supporting the minority that uses the air link.

The question is one of public service obligation. The subsidy skews the relative cost of rail and air transport. The Government has it wrong, and is using public money in a way that it should not be used, and which is inefficient, and no help to the travelling public. We have regularly challenged the Government's position on this matter.

daith unffordd yn ei olygu o ran cymhorthdal? A bod yn onest, gallem fforddio talu am ystafell i'r teithwyr yn un o westai gorau Caerdydd, rhoi gwely a brecwast a phryd o fwyd gyda'r nos iddynt a chael rhywfaint o newid yn ein poced er mwyn iddynt gael amser da tra byddent yma—neu gallem wneud fel arall hefyd, a'r rheini sydd wedi teithio o Gaerdydd yn mwynhau yn y gogledd.

Y broblem yw nad yw'r cymhorthdal yn bodoli mwyach i gynorthwyo teithio. Mae'n bodoli i gadw gwasanaeth, ar lefel sydd ymhell uwchlaw lefel unrhyw ddull arall o deithio a gefnogir am bob teithiwr yng Nghymru. Heriaf y Dirprwy Brif Weinidog i ddweud wrthym pa wasanaethau eraill yng Nghymru sy'n cael cymhorthdal am bob sedd, am bob taith, i'r graddau hynny. Tybiaf nad oes yr un; yn sicr ni allaf fi feddwl am un.

Mae'r dull gweithredu'n ddigon syml. Nid oes rheswm pam na allwch gefnogi gwasanaeth awyr er mwyn ei sefydlu. Gallech hyd yn oed sicrhau cymhorthdal sy'n cyfateb i'r hyn a roddir i fathau eraill o drafnidiaeth. Fodd bynnag, pe baech yn gofyn i bobl Ynys Môn a fyddai'n well ganddynt wario'r £3.5 miliwn hwnnw ar seilwaith i Ynys Môn ynteu ar y cyswllt awyr hwn, tybed beth fyddai eu hateb. A fyddent yn credu bod y fenter hon yn llwyddiannus? Wrth gwrs, bydd angen i rai pobl fynd ar y teithiau hyn, ond dyna'r sefyllfa o ran daearyddiaeth ein gwlad, ac mae'r un peth yn wir am sefyllfa ariannol ein gwlad. Nid yw'r hyn yr ydym yn ei wneud yn helpu mwyafrif y bobl sy'n gorfod teithio ac a fydd yn defnyddio'r rheilffyrdd neu'r ffyrdd. Nid ydym yn eu cynorthwyo hwy i'r un graddau â'r lleiafrif sy'n defnyddio'r cyswllt awyr.

Mae a wnelo'r cwestiwn â rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r cymhorthdal yn camystumio cost gymharol trafndiaeth rheilffyrdd a thrafnidiaeth awyr. Mae'r Llywodraeth yn anghywir, ac mae'n defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd na ddylid ei ddefnyddio, sy'n aneffeithlon, ac nad yw o gymorth i'r cyhoedd sy'n teithio. Yr ydym wedi herio safbwynt y Llywodraeth ar y mater hwn yn rheolaidd.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Could you wind up, please?

**Michael German:** The money should instead be spent on north-south rail links.

**Mohammad Asghar:** I welcome this debate, particularly as the north-south air link has received notable press attention recently. As many in the Chamber will know, I am an aviation enthusiast, and very passionate about air travel and the aerospace industry. With that in mind, I approach this debate in a conciliatory manner.

However, the key issue here is whether this subsidy—these public funds—should be used to prop up this air link and help, if you will excuse the pun, to get it off the ground. A few weeks ago, the Liberal Democrats brought forward a debate on making the most effective use of public money. That is essential. We must ask whether a north-south air service from Cardiff to Anglesey is the most viable option for improving transport links between north and south Wales. In this time of austerity, is this subsidy a truly effective use of public funds? To answer that question, it is essential that the public is fully informed of the levels of public money that are spent on this service. I therefore consider it troubling that this figure has so far not been made public, unlike the subsidy to the previous carrier, which was common knowledge, as are other transport subsidies in Wales.

I join my colleagues in calling upon officials to disclose immediately the amount of public funding that is being spent on the subsidised link. Only then, I feel, can we have a proper discussion on the worth of this subsidy and of the air link in general, and only then can we have a proper discussion about whether an air link between Cardiff and Anglesey is the most effective way of improving north-south transport links in Wales.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

**Michael German:** Yn hytrach, dylid gwario'r arian ar gysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de.

**Mohammad Asghar:** Croesawaf y ddadl hon, yn enwedig gan fod y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de wedi cael cryn sylw yn y wasg yn ddiweddar. Fel y gŵyr nifer yn y Siambr, mae gennyf ddiddordeb mawr mewn awyrennau, ac yr wyf yn frwd iawn ynghylch teithio mewn awyrennau a'r diwydiant awyrofod. Gyda hynny mewn cof, dof at y ddadl hon gydag agwedd gymodlon.

Fodd bynnag, y mater allweddol yma yw a ddylid defnyddio'r cymhorthdal hwn—yr arian cyhoeddus hwn—i gynnal y cyswllt awyr hwn a'i helpu, os maddeuwch y chwarae ar eiriau, i gael gwynt dan ei adain. Rai wythnosau'n ôl cyflwynodd y Democratiaid Rhyddfrydol ddadl ar ddefnyddio arian cyhoeddus yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Mae hynny'n hanfodol. Rhaid inni ofyn ai gwasanaeth awyr rhwng y gogledd a'r de o Gaerdydd i Ynys Môn yw'r dewis mwyaf dichonol i wella cysylltiadau trafniadaeth rhwng y gogledd a'r de. Yn ystod y cyfnod hwn o lymder, a yw'r cymhorthdal hwn yn ffordd wirioneddol effeithiol i ddefnyddio arian cyhoeddus? I ateb y cwestiwn hwnnw, mae'n hanfodol i'r cyhoedd gael gwybodaeth lawn am lefel yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar y gwasanaeth hwn. Felly, credaf ei bod yn destun gofid nad yw'r ffigur wedi ei gyhoeddi eto, yn wahanol i swm y cymhorthdal i'r cludydd blaenorol, a oedd yn wybodaeth gyhoeddus, fel y mae cymorthdaliadau eraill ym maes trafniadaeth yng Nghymru.

Ymunaf â'm cyd-Aelodau i alw ar swyddogion i ddatgelu ar unwaith faint o arian cyhoeddus a gaiff ei wario ar y cyswllt hwn sy'n cael cymhorthdal. Credaf mai'r pryd hynny'n unig y gallwn gael trafodaeth go iawn ar werth y cymhorthdal a'r cyswllt awyr yn gyffredinol, a'r pryd hynny'n unig y gallwn gael trafodaeth go iawn ynghylch ai cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn yw'r ffordd fwyaf effeithiol i wella cysylltiadau trafniadaeth rhwng y de a'r

gogledd yng Nghymru.

The media attention that the north-south link has received is certainly not all positive. I fear that not publishing the level of subsidy for much longer will not help the air link's reputation. On this occasion, the Welsh Assembly Government is showing a worrying lack of transparency in the use of taxpayers' money. An Assembly Government spokesman has said that subsidy payments will depend on revenue from ticket sales. While that raises issues for discussion in itself, the spokesman also said that a maximum had been set. Why can that maximum not be revealed to taxpayers?

Yn sicr, nid yw'r sylw y mae'r cyswllt rhwng y gogledd a'r de wedi'i gael yn y wasg yn gadarnhaol i gyd. Mae arnaf ofn na fydd peidio â chyhoeddi lefel y cymhorthdal am dipyn eto yn helpu enw da'r cyswllt awyr. Y tro hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dangos diffyg tryloywder yn y modd y mae'n defnyddio arian trethdalwyr, sy'n peri pryder. Mae llefarydd ar ran Llywodraeth y Cynulliad wedi dweud y bydd taliadau cymhorthdal yn dibynnu ar refeniw o werthiant tocynnau. Er bod hynny ynddo'i hun yn codi materion i'w trafod, dywedodd y llefarydd hefyd fod uchafswm wedi ei bennu. Pam na ellir datgelu'r uchafswm hwnnw i drethdalwyr?

I also want to raise a quick point regarding the promotion of this service. In my own region, South Wales East, I do not come across considerable knowledge of this service, despite the fact that many people travel to north Wales for business and pleasure. A discussion could certainly be held on how to address that. Also, the majority of people in north Wales live in north-east Wales, in the busy town of Wrexham, for instance. Many of our beautiful tourist attractions are in north-east Wales, and big English cities, such as Liverpool and Manchester, are only a short journey from north-east Wales. Do people in north-east Wales see the air link as a realistic form of travel? However, these are perhaps issues for another day. At this time, I feel that the key point is the subsidy and I hope that there will be no further delay in disclosing this information to the public in Wales.

Hoffwn hefyd godi pwynt cyflym yn ymwneud â hyrwyddo'r gwasanaeth hwn. Yn fy rhanbarth i, Dwyrain De Cymru, nid wyf yn dod ar draws gwybodaeth helaeth am y gwasanaeth hwn, er bod nifer o bobl yn teithio i'r gogledd at ddibenion busnes a phleser. Yn sicr, gellid cael trafodaeth ynghylch sut i fynd i'r afael â hynny. Yn ogystal, mae mwyafrif y bobl yn y gogledd yn byw yn y gogledd-ddwyrain, yn nhref brysur Wrecsam, er enghraifft. Mae llawer o'n hatyniadau prydferth i dwristiaid yn y gogledd-ddwyrain, ac nid oes rhaid teithio ymhell i fynd oddi yno i ddinasoedd mawr Lloegr, megis Lerpwl a Manceinion. A yw pobl yn y gogledd-ddwyrain yn ystyried y cyswllt awyr yn ffordd realistig o deithio? Fodd bynnag, mae'n bosibl mai materion i'w trafod rywbryd eto yw'r rhain. Ar hyn o bryd, credaf mai'r pwynt allweddol yw'r cymhorthdal, a gobeithio na fydd oedi pellach cyn datgelu'r wybodaeth hon i'r cyhoedd yng Nghymru.

A few weeks ago I travelled to the Isle of Man, but we all had to travel Gloucester, from Cardiff and other areas in Wales, to go there. There should be some other financially viable route that we can bring into Wales, as my colleague Andrew R.T. Davies just mentioned. We should have connections around the United Kingdom and globally to improve our air links and our economy, which I mention because you are also Minister for the economy. I am sure that you will consider my request to disclose the facts,

Rai wythnosau'n ôl, teithiais i Ynys Manaw, ond yr oedd yn rhaid i bawb ohonon deithio i Gaerloyw, o Gaerdydd ac ardaloedd eraill yng Nghymru, er mwyn mynd yno. Dylid cael rhyw lwybr arall sy'n ddichonol yn ariannol ac y gallwn ddod ag ef i Gymru, fel y soniodd fy nghyd-Aelod, Andrew R.T. Davies, gynnau. Dylem gael cysylltiadau â lleoedd o amgylch y Deyrnas Unedig a'r byd i wella ein cysylltiadau awyr a'n heconomi. Yr wyf yn sôn am hyn am eich bod hefyd yn Weinidog dros yr economi. Yr wyf yn siŵr y

because we know that 35,000 passengers and £84 per person means over £3 million in subsidy already.

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Diolchaf i bawb sydd wedi cyfrannu i'r drafodaeth hon.

It is customary to welcome opposition debates, and I am totally delighted today that the Liberal Democrats have told us exactly where they think that the axe should fall on spending in Wales. They now want to chop the most swift, effective and popular service between north and south Wales. It now looks as though they are isolated not only in Anglesey, where their two Liberal Democrat councillors support the service, but here in the Assembly. I am pleased that David Melding said that the Conservatives are going to abstain in the vote on motion itself, which means that it is only the Liberal Democrats who now oppose this service.

5.50 p.m.

They are entirely alone, it seems, in the United Kingdom. Let me tell you what Alan Reid, the Liberal Democrat MP for Argyll and Bute, said when Highland Airways failed. There is a similar service in Scotland that was funded through public service obligation, and this is what Alan Reid said when Highland Airways failed:

'The Scottish Government must step in urgently and maintain the airlink to Tiree, Coll and Colonsay.'

What do the Welsh Liberal Democrats say about that? They are arguing that the only service that we have in Wales should be cut, yet their colleagues in Scotland were calling for the Highland Airways service to be restored, through the use of public money. I believe that Gareth Jones told us what Roger Williams said, and the defeated former MP Lembit Öpik said that the only sensible way

byddwch yn ystyried fy nghais i ddatgelu'r ffeithiau, oherwydd gwyddom fod 35,000 o deithwyr ac £84 y pen yn golygu dros £3 miliwn eisoes mewn cymhorthdal.

**The Deputy First Minister and the Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** I thank everyone who has contributed to this debate.

Mae'n arferol croesawu dadleuon y gwrthbleidiau, ac yr wyf yn falch iawn heddiw fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi dweud wrthym yn union ble y dylai'r fwyell ddisgyn ar wariant yng Nghymru, yn eu barn hwy. Yn awr maent am ddiddymu'r gwasanaeth mwyaf cyflym, effeithiol a phoblogaidd sydd rhwng y gogledd a'r de. Ymddengys yn awr eu bod ar eu pen eu hunain nid yn unig yn Ynys Môn, lle mae dau o'u cynghorwyr yn cefnogi'r gwasanaeth, ond yma yn y Cynulliad hefyd. Yr wyf yn falch fod David Melding wedi dweud bod y Ceidwadwyr am ymatal yn y bleidlais ar y cynnig ei hun, sy'n golygu mai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn unig sy'n gwrthwynebu'r gwasanaeth hwn bellach.

Ymddengys eu bod ar eu pen eu hunain yn llwyr yn y Deyrnas Unedig. Gadewch imi ddweud wrthy ch yr hyn a ddywedodd Alan Reid, Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Argyll a Bute, pan fethodd Highland Airways. Mae yna wasanaeth tebyg yn yr Alban a oedd yn cael ei ariannu drwy rwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus, a dyma a ddywedodd Alan Reid pan fethodd Highland Airways:

Rhaid i Lywodraeth yr Alban gamu i'r adwy ar unwaith a chynnal y cyswllt awyr i Tiree, Coll a Colonsay.

Beth yw barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am hynny? Maent yn dadlau y dylid diddymu'r unig wasanaeth sydd gennym yng Nghymru, ond eto yr oedd eu cydweithwyr yn yr Alban yn galw am adfer gwasanaeth Highland Airways, drwy ddefnyddio arian cyhoeddus. Credaf fod Gareth Jones wedi sôn wrthym am yr hyn a ddywedodd Roger Williams, a dywedodd y cyn-Aelod

to provide—I stress that he said that it was the only sensible way; I will repeat it as many times as is necessary—a fast connection between north and south Wales is by air. We are looking at a small number of passengers in some cases.

**Jenny Randerson:** Will you give way?

**The Deputy First Minister:** No, Jenny, you are going to have to listen to this.

We are looking at a small number of passengers in some cases, and it is small aircraft that could provide us with the backbone of an effective, quick means of getting from A to B. The Liberal Democrat councillors in Anglesey, a Liberal Democrat MP in Scotland, the Liberal Democrat MP for Brecon and Radnor, and the former Liberal Democrat MP for Montgomery all say that we should have these air services, and that they should be subsidised. Therefore, the only people—

**Jenny Randerson:** Will you take an intervention?

**The Deputy First Minister:** No, I am not taking any interventions. No. Let me also say, Jenny, that you have made a serious accusation against me today. Let me tell you this—

**Jenny Randerson:** No, I have not.

**The Deputy First Minister:** Yes, you have. You have made a serious allegation against me: that I, as a Minister, made a decision on this service. Let me tell you: I have not. The decision was made by the First Minister. Will you withdraw that allegation?

**Jenny Randerson:** Will you let me talk now, Deputy First Minister?

**The Deputy First Minister:** I am asking you to withdraw the allegation.

**Jenny Randerson:** Will you allow me to talk

Seneddol, Lembit Öpik, a gollodd ei sedd yn yr etholiad, mai'r unig ffordd synhwyrol—a phwysleisiaf iddo ddweud mai dyna'r unig ffordd synhwyrol; ailadroddaf hynny mor aml ag y bydd angen—i ddarparu cysylltiad cyflym rhwng y gogledd a'r de yw drwy gyswllt awyr. Yr ydym yn edrych ar nifer bach o deithwyr mewn rhai achosion.

**Jenny Randerson:** A wnewch chi ildio?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Na wnaaf, Jenny, bydd yn rhaid ichi wrando ar hyn.

Yr ydym yn edrych ar nifer bach o deithwyr mewn rhai achosion, ac awyrennau bach a allai fod yn asgwrn cefn ffordd effeithiol a chyflym inni fynd o A i B. Mae cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol yn Ynys Môn, un o Aelodau Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol yn yr Alban, Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, a chyn-Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Faldwyn i gyd yn dweud y dylem gael y gwasanaethau awyr hyn, ac y dylid rhoi cymhorthdal iddynt. Felly, yr unig bobl—

**Jenny Randerson:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Na wnaaf, nid wyf am dderbyn ymyriadau. Na. Gadewch imi ddweud hefyd, Jenny, ichi wneud honiad difrifol yn fy erbyn heddiw. Gadewch imi ddweud hyn wrthyf—

**Jenny Randerson:** Na, ni wneuthum hynny.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gwnaethoch, fe wnaethoch hynny. Gwnaethoch honiad difrifol yn fy erbyn: sef i mi, fel Gweinidog, wneud penderfyniad am y gwasanaeth hwn. Gadewch imi ddweud wrthyf: ni wneuthum hynny. Y Prif Weinidog a wnaeth y penderfyniad. A wnewch chi dynnu'r honiad hwnnw'n ôl?

**Jenny Randerson:** A wnewch chi ganiatáu imi siarad yn awr, Ddirprwy Brif Weinidog?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf yn gofyn ichi dynnu'r honiad yn ôl.

**Jenny Randerson:** A wnewch chi ganiatáu

now, Deputy First Minister?

**The Deputy First Minister:** Will you withdraw the allegation?

**Jenny Randerson:** I have not made the allegation.

**The Deputy First Minister:** Yes, you have. You have.

**Jenny Randerson:** Will you allow me to make an intervention? I invite you to look very carefully at the Record. I chose my words very carefully indeed, and I invite you to look at the Record. I made it abundantly clear that I was not making an allegation against you. I was making the point that I felt that you should not participate—and you are, indeed, participating here this afternoon—because of the links with your constituency, in order to protect yourself.

**The Deputy First Minister:** Let me tell you this, Jenny: I have just re-read the report of the auditor general on the funding of the Wales Millennium Centre when you were a Minister.

I will move on now to the next part of the debate—*[Interruption.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. I am sorry but—

**The Deputy First Minister:** I am carrying on.

**Jenny Randerson:** Could I make—

**The Deputy Presiding Officer:** No. Sorry, I am speaking now. Deputy First Minister and Jenny Randerson, if you wish to continue this, you must do so elsewhere. We cannot have these accusations going back and forth across the Assembly.

**Jenny Randerson:** Could I make something clear, Deputy Presiding Officer? The Wales Millennium Centre is not in my constituency.

**The Deputy Presiding Officer:** Let us continue this debate now, without any more

imi siarad yn awr, Ddirprwy Brif Weinidog?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** A wnewch chi dynnu'r honiad yn ôl?

**Jenny Randerson:** Ni wneuthum yr honiad hwnnw.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Do, fe'i gwnaethoch. Fe'i gwnaethoch.

**Jenny Randerson:** A wnewch chi ganiatáu imi ymyrryd? Fe'ch gwahoddaf i edrych yn ofalus iawn ar y Cofnod. Dewisais fy ngeiriau'n ofalus iawn yn wir, ac fe'ch gwahoddaf i edrych ar y Cofnod. Nodais yn ddigon clir nad oeddwn yn gwneud honiad yn eich erbyn. Yr oeddwn yn gwneud y pwynt fy mod o'r farn na ddylech gymryd rhan—ac yr ydych, yn wir, yn cymryd rhan yma y prynhawn yma—oherwydd y cysylltiadau â'ch etholaeth, er mwyn eich amddiffyn eich hun.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gadewch imi ddweud hyn wrthy, Jenny: yr wyf newydd ailddarllen adroddiad yr archwilydd cyffredinol ar ariannu Canolfan Mileniwm Cymru pan oeddech chi'n Weinidog.

Symudaf ymlaen yn awr at ran nesaf y ddadl—*[Torri ar draws.]*

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'n flin gennyf ond—

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr wyf am barhau.

**Jenny Randerson:** A gaf fi wneud—

**Y Dirprwy Lywydd:** Na chewch. Mae'n flin gennyf, fi sy'n siarad yn awr. Ddirprwy Brif Weinidog a Jenny Randerson, os hoffech barhau â hyn, bydd yn rhaid ichi wneud hynny rywle arall. Ni allwn ganiatáu i'r cyhuddiadau hyn gael eu lluchio'n ôl ac ymlaen ar draws y Cynulliad.

**Jenny Randerson:** A gaf fi egluro rhywbeth, Ddirprwy Lywydd? Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru yn fy etholaeth i.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gadewch inni barhau â'r ddadl hon yn awr, heb luchio rhagor o

accusations going across the Chamber. It is on the Record.

**The Deputy First Minister:** Let me just make this point: the Welsh Assembly Government is working to deliver the 'One Wales' vision of a modern and sustainable transport system for Wales. We have to ensure that our transport network can support and sustain our recovery from the economic downturn, as well as enhancing social cohesion. [*Interruption.*]

**The Deputy Presiding Officer:** Could we listen to the debate, please?

**The Deputy First Minister:** We have set out how we are going to achieve this in the first ever national transport plan, which we debated here only last month.

The national transport plan sets out how we intend to deliver the 'One Wales' commitment to improve north-south links. We are taking forward a range of road and rail enhancements that will facilitate north-south journeys. These include a number of road schemes, which we have started. Contrary to Eleanor Burnham's comments, we have also introduced a new express rail service between Holyhead and Cardiff, and we are exploring the options for a second return service. Some of the comments that you made about the service to north Wales, Eleanor, were utterly disgraceful. This service is now being substantially improved. We have made substantial investment to secure that, and you could have at least given us credit for ensuring that that has happened.

In 2004, the Assembly Government recognised that air services had the potential to improve transport links within Wales, particularly in terms of journey-time reductions between north-west Wales and south Wales. Following a major consultation that considered a wide range of network options, it was decided that the Cardiff to Anglesey service should be established in 2007. The service cuts the journey time by

gyhuddiadau ar draws y Siambr. Mae'r cyfan yn y Cofnod.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Gadewch imi wneud y pwynt hwn: mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio i wireddu gweledigaeth 'Cymru'n Un', sef darparu system drafnidiaeth fodern a chynaliadwy i Gymru. Rhaid inni sicrhau y gall ein rhwydwaith trafndiaeth gefnogi a chynnal ein hadferiad wedi'r dirwasgiad economaidd, yn ogystal â gwella cydlyniant cymdeithasol. [*Torri ar draws.*]

**Y Dirprwy Lywydd:** A allwn wrando ar y ddadl, os gwelwch yn dda?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydym wedi gosod allan sut y byddwn yn gwneud hyn, yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol cyntaf erioed a drafodwyd gennym yma fis yn unig yn ôl.

Mae'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol yn gosod allan sut y bwriadwn gyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un' i wella cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Yr ydym yn hybu ystod o welliannau ar ffyrdd a rheilffyrdd, a fydd yn hwyluso teithiau rhwng y gogledd a'r de. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o gynlluniau ffyrdd yr ydym eisoes wedi dechrau arnynt. Yn groes i sylwadau Eleanor Burnham, yr ydym hefyd wedi cyflwyno gwasanaeth rheilffordd cyflym newydd rhwng Caerdydd a Chaerdydd, ac yr ydym yn archwilio'r dewisiadau ar gyfer ail wasanaeth dwyffordd. Yr oedd rhai o'r sylwadau a wnaethoch am y gwasanaeth i'r gogledd, Eleanor, yn gwbl warthus. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei wella'n sylweddol ar hyn o bryd. Yr ydym wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau hynny, a gallech o leiaf fod wedi rhoi clod inni am sicrhau bod hynny wedi digwydd.

Yn 2004, cydnabu Llywodraeth y Cynulliad fod gan wasanaethau awyr y potensial i wella cysylltiadau trafndiaeth o fewn Cymru, yn enwedig drwy leihau hyd teithiau rhwng y gogledd-orllewin a'r de. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth lle ystyriwyd ystod eang o ddewisiadau rhwydwaith, penderfynwyd y dylid sefydlu'r gwasanaeth rhwng Caerdydd ac Ynys Môn yn 2007. Mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau'r amser

more than half, even after allowing for travel to the airports. Critically, because the service operates twice daily, it makes a day return journey a practical proposition for business travellers.

It has been a considerable success. In the three years of its operation, it has carried some 40,000 passengers, which exceeded original expectations. Contrary to Jenny Randerson's comments today, we now have a short-term contract with Manx2, jointly with FLM Aviation, to operate the service under a seven-month interim contract. I have made it clear that I intend to publish the full subsidy paid once the new contract is in place. I think that that is perfectly proper. Commercially confidential information should not be made public during a procurement process for a four-year contract. It is not the case that I am not prepared to publish the figure; I think that it should be published at the right time.

I realise that time has run out, but, finally, I just want to say to Andrew that I fully recognise the importance of investing in those services at Cardiff Airport. I value those services. We have worked very hard indeed with the airport's current owners to try to deliver some extra services. I am prepared to work with them to ensure that we can have better services from the airport. However, it is not an either/or case. I am fully committed to working with them. I have met the owners on several occasions, and I will continue to work with them to ensure that Cardiff Airport attracts more services and that the airport's facilities are appropriate for the twenty-first century.

**Kirsty Williams:** In the short time that I have left, I will begin by thanking everyone for their contributions. Nobody could doubt the convenience afforded to those people who use the air link to travel back and forth between north Wales and Cardiff. That is a no-brainer. Of course it cuts journey times; of course it is more convenient. However, the question that we have to ask ourselves is

teithio dros 50 y cant, hyd yn oed ar ôl cyfrif amser teithio i'r meysydd awyr. Yr hyn sy'n hollbwysig, oherwydd bod y gwasanaeth yn rhedeg ddwywaith y dydd, yw fod taith ddwyffordd mewn diwrnod yn ddewis ymarferol i deithwyr busnes.

Bu'n llwyddiant mawr. Yn ystod y tair blynedd y mae wedi bod yn gweithredu, mae wedi cludo tua 40,000 o deithwyr, sy'n uwch na'r disgwyliadau gwreiddiol. Yn groes i sylwadau Jenny Randerson heddiw, mae gennym gontract tymor byr gyda Manx2 yn awr, ar y cyd ag FLM Aviation, i weithredu'r gwasanaeth dan gontract interim am saith mis. Yr wyf wedi gwneud yn glir fy mod yn bwriadu cyhoeddi'r cymhorthdal llawn a delir, cyn gynted ag y bydd y contract newydd ar waith. Credaf fod hynny'n gwbl briodol. Ni ddylid cyhoeddi gwybodaeth sy'n gyfrinachol am resymau masnachol yn ystod proses gaffael ar gyfer contract pedair blynedd. Nid yw'n wir nad wyf yn fodlon cyhoeddi'r ffigur; credaf y dylid ei gyhoeddi ar yr adeg gywir.

Yr wyf yn sylweddoli bod fy amser wedi dod i ben, ond i gloi hoffwn ddweud wrth Andrew fy mod yn sylweddoli'n llawn mor bwysig yw buddsoddi yn y gwasanaethau hynny ym Maes Awyr Caerdydd. Yr wyf yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau hynny. Yr ydym wedi gweithio'n galed iawn yn wir gyda pherchnogion presennol y maes awyr i geisio darparu rhai gwasanaethau ychwanegol. Yr wyf yn fodlon gweithio gyda hwy i sicrhau y gallwn gael gwasanaethau gwell o'r maes awyr. Fodd bynnag, nid mater o naill ai/neu yw hyn. Yr wyf wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda hwy. Yr wyf wedi cyfarfod â'r perchnogion droeon, a byddaf yn dal i weithio gyda hwy i sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn denu mwy o wasanaethau a bod cyfleusterau'r maes awyr yn briodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

**Kirsty Williams:** Yn yr amser byr sydd gennyf ar ôl, hoffwn ddechrau drwy ddiolch i bawb am eu cyfraniadau. Ni all neb amau cyfleustra'r gwasanaeth i'r bobl hynny sy'n defnyddio'r cyswllt awyr i deithio'n ôl ac ymlaen rhwng y gogledd a Chaerdydd. Mae'n hollol amlwg. Wrth gwrs y mae'n lleihau'r amser teithio; wrth gwrs y mae'n fwy cyfleus. Fodd bynnag, y cwestiwn y



whether what we pay for that convenience is a price worth paying in terms of the taxpayers' money that subsidises the service and the environmental damage that we know that short-haul flights cause. That is the question, and those are the tests that need to be used to judge the efficacy of this service. No-one could deny the advantage to the travelling public who are able to access this service in terms of reduced journey times.

6.00 p.m.

First, let us look at whether the service provides good value for taxpayers' money. This issue was addressed by Jenny Randerson, David Melding and Andrew R.T. Davies in their contributions. I welcome the commitment by the Deputy First Minister to publishing in full the subsidies involved in the latest letting of this particular contract so that we can have some transparency and begin to judge whether this use of public money is the right use of public money. We know from the figures that are available to us that, at present, the subsidies that go to these flights are considerably more than the subsidy given to a similar journey made by train. That might be a price that this Government is willing to pay, but I noted that despite the fact that Gareth Jones made great play in his contribution of the huge economic benefits that this would bring to Wales and to north Wales and that this investment would therefore bring a worthwhile return, we did not hear anything substantial from the Deputy First Minister to bolster that claim. Let us see those figures; let us have an evaluation of the economic—

**Gareth Jones** *rose*—

**Kirsty Williams:** I have four minutes, Gareth. With due respect, you would not give way to anyone from this side of the Chamber in your contribution.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. There will be no intervention.

**Kirsty Williams:** Let us see an evaluation of whether this spend does indeed bring the

mae'n rhaid inni ei ofyn i ni ein hunain yw a yw'r pris a dalwn am y cyfleustra hwnnw'n bris gwerth ei dalu o ran arian y trethdalwyr sy'n rhoi cymhorthdal i'r gwasanaeth, a'r niwed amgylcheddol y gwyddom y mae teithiau awyr yn ei achosi. Dyna'r cwestiwn, a dyna'r profion y mae'n rhaid eu defnyddio i farnu effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn. Ni all neb wadu'r fantais i'r cyhoedd sy'n teithio ac sy'n gallu defnyddio'r gwasanaeth hwn, o ran lleihau'r amser teithio.

Yn gyntaf, gadewch inni ystyried a yw'r gwasanaeth yn werth da am arian trethdalwyr. Aeth Jenny Randerson, David Melding ac Andrew R.T. Davies i'r afael â'r mater hwn yn eu cyfraniadau hwy. Croesawaf ymrwymiad y Dirprwy Brif Weinidog i gyhoeddi'n llawn y cymorthdaliadau sy'n gysylltiedig â'r achos diweddaraf o bennu'r contract penodol hwn, fel y gallwn gael rhywfaint o dryloywder a dechrau barnu ai dyma'r ffordd gywir i ddefnyddio arian cyhoeddus. Gwyddom o'r ffigurau sydd ar gael inni fod y cymorthdaliadau ar gyfer y teithiau awyr dan sylw, ar hyn o bryd, yn uwch o lawer na'r cymhorthdal a roddir ar gyfer taith debyg ar y trêrn. Efallai fod hwnnw'n bris y mae'r Llywodraeth hon yn fodlon ei dalu, ond er bod Gareth Jones wedi rhoi cryn sylw yn ei gyfraniad i'r manteision economaidd sylweddol y byddai'r cyswllt awyr yn eu sicrhau i Gymru a'r gogledd, ac y byddai'r buddsoddiad hwn, felly, yn sicrhau elw gwerth chweil, sylwais na chlywsom ddim byd sylweddol gan y Dirprwy Brif Weinidog i gefnogi'r honiad hwnnw. Gadewch inni weld y ffigurau hynny; gadewch inni gael gwerthusiad o fanteision economaidd—

**Gareth Jones** *a gododd*—

**Kirsty Williams:** Mae gennyf bedair munud, Gareth. Gyda phob parch, nid oeddech yn fodlon ildio i neb ar yr ochr hon i'r Siambr yn ystod eich cyfraniad chi.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Ni fydd ymyriad.

**Kirsty Williams:** Gadewch inni gael gwerthusiad i weld a yw'r gwariant hwn yn

benefits that Gareth claims it does and whether, in these constrained times of public spending, the opportunity lost to train services or other forms public transport to and from north Wales is worth paying. I did not hear the Deputy First Minister justify any of that this afternoon in responding to the debate.

The other issue that we must address is that of flying, and short-haul flights in particular. It is amusing that Plaid has made great play this afternoon of the fact that Liberal Democrat councillors on Anglesey have a different view to me with regard to this service, as if it has never been known in Anglesey for a political party locally to have a different view to the national party on a particular policy. It is no wonder that they recognise that, as they are well used to dealing with the situation in Anglesey.

However, the issue is that we all know that we have to do something about sustainability in transport services. We know that short-haul flights can be an area where we can look to change behaviour, because there are alternatives. To make the comparison between the highland services in Scotland and the highland services in Wales is tenuous. We are talking about an area whose geography is even more remote and difficult, and whereas there is a lack of alternatives to some of the routes that are flown from the highlands and islands of Scotland, in Wales, there is a train route for people to make the equivalent journey.

I particularly welcome the changes that the new Government in Westminster is making with regards to flying. I am very happy about the decision to cancel the third runway at Heathrow airport, and to change the taxation regime for flying from per passenger to per plane. That is a very progressive step. However, we have to judge whether we are happy to continue to condone short-haul flights when an alternative is available, and given what it is costing us at a time when money is in short supply.

I am sorry that the exchange has been so bad

sicrhau mewn gwirionedd y manteision y mae Gareth yn honni eu sicrhau, a gweld a yw'r cyfle a gollir i wasanaethau trên, neu fathau eraill o gludiant cyhoeddus yn ôl ac ymlaen i'r gogledd, yn bris gwerth ei dalu yn yr amseroedd hyn o gyfyngu ar wariant cyhoeddus. Ni chlywais y Dirprwy Brif Weinidog yn cyfiawnhau dim o hynny y prynhawn yma wrth ymateb i'r ddadl.

Y mater arall y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef yw hedfan, a theithiau awyr byr yn benodol. Mae'n ddifyr fod Plaid Cymru wedi rhoi cryn sylw y prynhawn yma i'r ffaith fod gan gynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol yn Ynys Môn farn wahanol i mi am y gwasanaeth hwn, fel pe na bai Ynys Môn yn gyfarwydd â gweld plaid wleidyddol yn lleol yn arddel barn wahanol i'r blaid genedlaethol ar bolisi penodol. Nid oes ryfedd bod y Blaid yn cydnabod hynny, oherwydd mae'n hen gyfarwydd ag ymdrin â'r sefyllfa yn Ynys Môn.

Fodd bynnag, y mater dan sylw yw ein bod i gyd yn gwybod ei bod yn rhaid inni wneud rhywbeth ynghylch cynaliadwyedd ym maes gwasanaethau trafniadaeth. Gwyddom y gall teithiau awyr byr fod yn faes lle gallwn geisio newid ymddygiad, oherwydd mae dewisiadau amgen ar gael. Mae'r gymhariaeth rhwng gwasanaethau ucheldiroedd yr Alban a gwasanaethau ucheldiroedd Cymru yn denau. Yr ydym yn sôn am ardal sydd â'i daearyddiaeth hyd yn oed yn fwy pellennig ac anodd. Mae yna ddiffyg dewisiadau amgen i rai o'r llwybrau ar gyfer hedfan o ucheldiroedd ac ynysoedd yr Alban, ond yng Nghymru mae yna lwybr trên y gall pobl ei ddefnyddio i deithio i'r un man.

Yr wyf yn croesawu'n benodol y newidiadau y mae'r Llywodraeth newydd yn San Steffan yn eu gwneud o ran hedfan. Yr wyf yn fodlon iawn â'r penderfyniad i ddiddymu'r drydedd lain lanio ym maes awyr Heathrow, a newid y drefn drethu ar gyfer hedfan, o drethu fesul teithiwr i drethu fesul awyren. Mae hwnnw'n gam mawr ymlaen. Fodd bynnag, rhaid inni farnu a ydym yn fodlon parhau i gymeradwyo teithiau awyr byr pan fydd dewis amgen ar gael, o gofio faint y mae'n ei gostio inni ar adeg pan yw arian yn brin.

Mae'n ddrwg gennyf i'r drafodaeth fod mor

tempered at times. I take that as a sign of the passion that people have in this particular issue, but if the Government is to make these claims and continue the service, it needs to bring back a complete evaluation of the economical benefit that it claims the service brings and an environmental impact assessment of whether we can afford environmentally to continue to support it.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time. It is now past 5 p.m., which was the time agreed by the Business Committee for voting, so we shall move straight to the vote. Does anyone wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.  
Votes deferred until voting time.*

### **Cyfnod Pleidleisio Voting Time**

*Cynnig NDM4484: O blaid 5, Ymatal 9, Yn erbyn 28.  
Motion NDM4484: For 5, Abstain 9, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
German, Michael  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn

Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Bourne, Nick  
Burns, Angela  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Ramsay, Nick

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4484: O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 28.  
Amendment 1 to NDM4484: For 15, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Burns, Angela  
Cairns, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
German, Michael  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Melding, David  
Ramsay, Nick  
Randerson, Jenny  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Davidson, Jane  
Davies, Alun  
Davies, Andrew  
Davies, Jocelyn  
Evans, Nerys  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Elin  
Jones, Gareth  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Mewies, Sandy  
Morgan, Rhodri  
Ryder, Janet  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM4484: O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 28.  
Amendment 2 to NDM4484: For 15, Abstain 0, Against 28.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine

Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Burns, Angela  
 Cairns, Alun  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Paul  
 German, Michael  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Melding, David  
 Ramsay, Nick  
 Randerson, Jenny  
 Williams, Kirsty

Davidson, Jane  
 Davies, Alun  
 Davies, Andrew  
 Davies, Jocelyn  
 Evans, Nerys  
 Gibbons, Brian  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, Lesley  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 James, Irene  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Elin  
 Jones, Gareth  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Rhodri  
 Ryder, Janet  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment not agreed.*

### **Dadl Fer Short Debate**

#### **Gwella Cyrhaeddiad Addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rheini sy'n Gadael Gofal Raising the Educational Attainment of Looked-after Children and Care Leavers**

**David Melding:** It is a great honour to bring this subject before the Assembly, albeit by chance, having won the ballot for the short debate. I want to focus on the educational attainment of looked-after children. I wish to say at the outset that I would be delighted if Helen Mary could contribute and use some of my time after I have sat down.

I want to start in a rather unexpected way, perhaps, by talking about what has improved. In this area, the indicators are so depressing, and they remain formidably bad. We should recall that they have improved somewhat over the years, which shows you the scale of this challenge, as the issue has become more pressing in the public imagination. Ninety-two per cent of care leavers in Wales are still in touch with local authorities after their nineteenth birthday. The figure in 2002 was just 66 per cent, so there has been a considerable improvement in this area. Local

**David Melding:** Mae'n anrhydedd mawr cael dod â'r pwnc hwn gerbron y Cynulliad, er mai drwy hap a damwain yr wyf yn gwneud hynny, ar ôl ennill y balot ar gyfer y ddadl fer. Yr wyf am ganolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol plant sy'n cael gofal. Hoffwn ddweud ar y cychwyn y byddwn yn falch iawn pe gallai Helen Mary gyfrannu a defnyddio rhywfaint o'm hamser ar ôl imi eistedd.

Hoffwn ddechrau mewn ffordd braidd yn annisgwyl, efallai, drwy siarad am yr hyn sydd wedi gwella. Mae'r dangosyddion mor dorcalonnus yn y maes hwn, ac maent yn dal yn arswydus o wael. Dylem gofio'u bod wedi gwella rywfaint dros y blynyddoedd, sy'n dangos maint yr her hon, wrth i'r mater ddod yn fwy amlwg yn nychymyg y cyhoedd. Mae 92 y cant o bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru yn dal mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol ar ôl eu pen-blwydd yn bedair ar bymtheg oed. Yn 2002, 66 y cant yn unig oedd y ffigur hwn, felly, bu gwelliant

authority performance frameworks include measures on changes of school and the educational attainment of looked-after children, which is a very welcome development indeed. The Children Act 2004 established a duty on local authorities to promote educational attainment, and the Assembly has acquired further powers in this area as a result of the LCO on vulnerable children. Again, there have been very positive advances on the legislative side.

In 2009, 45 per cent of looked-after children had no qualifications, which is a high figure, but that had come down from 64 per cent in 2002. That indicates that we can improve these figures, although there is a very long way to go. The Frank Buttle Trust quality mark for care leavers in higher education was launched in Wales in 2006 as a specifically Welsh initiative, and it is now emulated across the UK. In Wales, all Welsh higher education institutions now comply, which is much better than the situation in the UK as a whole.

The Best Chance programme, which is a joint initiative between the Welsh Assembly Government, BT and Business in the Community, has done much to provide good quality work placements for looked-after children. I know that this scheme is now being reviewed, as it was a pilot scheme, but I am sure that the Welsh Assembly Government will identify its worth and will continue this valuable work. I commend companies such as BT that have participated in this programme; it has been highly successful.

I now want to look at the nature of the challenge when it comes to educational attainment. I want to start by quoting from the Wales NGO report to the United Nations Committee on the Rights of the Child, which was produced in 2007. It noted that the number of looked-after children 'continues to increase', and it is proper that we put this whole issue into this context. In fact, the number of looked-after children has

sylweddol yn y maes hwn. Mae fframweithiau perfformiad awdurdodau lleol yn cynnwys mesurau ar achosion o newid ysgol a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n cael gofal, ac mae hwnnw'n ddatblygiad sydd i'w groesawu'n fawr iawn. Yr oedd Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu cyrhaeddiad addysgol, ac mae'r Cynulliad wedi cael pwerau pellach yn y maes hwn o ganlyniad i'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch plant sy'n agored i niwed. Unwaith eto, gwelwyd datblygiadau cadarnhaol iawn ar yr ochr ddeddfwriaethol.

Yn 2009, nid oedd gan 45 y cant o blant a oedd yn cael yn gofal ddim cymwysterau, sy'n ffigur uchel. Ond yr oedd y ffigur hwnnw wedi gostwng o 64 y cant yn 2002. Mae hyn yn dangos y gallwn wella'r ffigurau hyn, er bod llawer iawn o waith i'w wneud. Yn 2006 cafodd marc ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer pobl sy'n gadael gofal mewn addysg uwch ei lansio yng Nghymru fel menter benodol i Gymru, ac mae bellach yn cael ei efelychu ledled y DU. Mae pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru'n cydymffurfio â'r marc ansawdd erbyn hyn, sy'n llawer gwell na'r sefyllfa yn y DU yn gyffredinol.

Mae'r rhaglen Cyfle Gorau, sef menter ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad, BT a Busnes yn y Gymuned, wedi gwneud llawer i ddarparu lleoliadau gwaith o safon i blant sy'n cael gofal. Gwn fod y cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, gan mai cynllun peilot ydoedd, ond yr wyf yn siŵr y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweld ei werth ac y bydd yn parhau'r gwaith pwysig hwn. Yr wyf yn cymeradwyo cwmnïau megis BT sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen hon; mae wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Yn awr yr wyf am edrych ar natur yr her sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad addysgol. Hoffwn ddechrau drwy ddyfynnu o'r adroddiad gan gyrff anllywodraethol Cymru i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gynhyrchwyd yn 2007. Yr oedd yn nodi bod nifer y plant sy'n cael gofal 'yn dal i gynyddu', ac mae'n briodol inni roi'r cyfan yn ei gyd-destun. Mewn gwirionedd, mae nifer y plant sy'n cael gofal

increased by 50 per cent since 1997. This follows experience in other industrialised countries, and indeed in other parts of the UK, but it is a reminder of the growing challenge that we face. The report noted that educational attainment is low and that it varies between local authorities. The fact that it is variable needs to be noted carefully, because some local authorities do better than others consistently when it comes to educational attainment. The report noted that, in general, outcomes for looked-after children and care leavers were very poor. Again, this is a common experience throughout the UK and in many other countries, but it needs to be challenged.

Let us look at the latest figures for educational attainment. I am sorry that some of this will get technical, but it is very important that we put it on record. The average external exam score for looked-after children aged 16 now stands at 146, which compares with 356 for all pupils. It is an incredible difference. At key stage 2, 40 per cent of looked-after children meet the required indicator, compared with 75 per cent of all pupils. At key stage 3, 21 per cent of looked-after children compared with 60 per cent for all pupils. We do not collect higher education data on looked after children at the moment, unlike in England, so I urge the Welsh Assembly Government to rectify this deficiency. However, I suspect that our performance is probably not as good as is England's, where it is pretty dire. The number of looked after children entering higher education in 2003 stood at just 6 per cent. In 2009, that figure had barely improved at 7 per cent. When you think that the figure for the population as a whole is around 40 per cent, it just shows you how deficient the figures are.

6.10 p.m.

It is time that the Welsh Assembly Government set a target for five good GCSEs for looked after children. I know that the figures are daunting, but that is the target that we set for the population as a whole and we should not have this secondary target of three GCSEs at A to G; we should set our target for

wedi cynyddu 50 y cant er 1997. Mae hyn yn dilyn y patrwm mewn gwledydd diwydiannol eraill, ac yn wir mewn rhannau eraill o'r DU, ond mae'n ein hatgoffa o'r her gynyddol sy'n ein hwynebu. Dywedodd yr adroddiad fod cyrhaeddiad addysgol yn isel ac yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Mae angen sylwi'n ofalus ei fod yn amrywio, oherwydd mae rhai awdurdodau lleol yn gwneud yn well nag eraill yn gyson o safbwynt cyrhaeddiad addysgol. Dywedai'r adroddiad fod y canlyniadau i blant sy'n cael gofal a'r rheini sy'n gadael gofal yn wael iawn. Unwaith eto, mae hyn yn brofiad cyffredin ledled y DU ac mewn nifer o wledydd eraill, ond mae angen ei herio.

Gadewch inni edrych ar y ffigurau diweddaraf am gyrhaeddiad addysgol. Ymddiheuraf y bydd rhywfaint o hyn yn dechnegol, ond mae'n bwysig iawn inni ei gofnodi. Y sgôr mewn arholiadau allanol, ar gyfartaledd, ar gyfer plant 16 oed sy'n cael gofal erbyn hyn yw 146, o'i chymharu â sgôr o 356 ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'n wahaniaeth anhygoel. Yng nghyfnod allweddol 2, mae 40 y cant o blant sy'n cael gofal yn llwyddo i gyrraedd y dangosydd gofynnol, o'i gymharu â ffigur o 75 y cant o'r holl ddisgyblion. Yng nghyfnod allweddol 3, mae 21 y cant o blant sy'n cael gofal yn gwneud hynny o'i gymharu â ffigur o 60 y cant o'r holl ddisgyblion. Ar hyn o bryd, nid ydym yn casglu data addysg uwch am blant sy'n cael gofal, yn wahanol i Loegr. Felly, anogaf Lywodraeth y Cynulliad i unioni'r diffyg hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn amau nad yw ein perfformiad cystal â pherfformiad Lloegr, lle mae'n ddigon gwael. Yn 2003 6 y cant yn unig o blant a oedd yn cael gofal a aeth ymlaen i addysg uwch. Yn 2009 nid oedd y ffigur hwnnw wedi gwella fawr ddim ar 7 y cant. O ystyried bod y ffigur ar gyfer y boblogaeth gyfan tua 40 y cant, mae'n dangos mor ddiffygiol yw'r ffigurau.

Mae'n bryd i Lywodraeth y Cynulliad bennu targed o bum gradd TGAU dda ar gyfer plant sy'n cael gofal. Gwn fod y ffigurau'n ymddangos yn frawychus, ond dyna'r targed yr ydym yn ei osod ar gyfer y boblogaeth gyfan, ac ni ddylem gael y targed eilradd hwn o dair TGAU gradd A i G; dylem osod pum

proper performance, like the rest of the population, at five good GCSEs. Let me just take you through the figures: in 2002, just 5 per cent of looked after children achieved the five good GCSEs target. That increased to 9 per cent, which is a relatively good increase, but it is still only 9 per cent. That compares to 60 per cent of the population on GCSE performance.

Unsurprisingly, a large number of looked after children, when they leave care, end up not in employment, education or training. In Wales, the figure is 51 per cent; they do a bit better in England, but it is still way above the average for the population, as 33 per cent of care leavers are NEETs. At the moment, the figures stand at 12 per cent in Wales and 10 per cent in England for the population as a whole.

So, what can we do? It is important now to face the challenge of coming up with some concrete suggestions. First, the Welsh Assembly Government needs to adopt a target of five good GCSEs. That would be ambitious and a mark of good practice. The Welsh Assembly Government would not be, in any way, reduced in the Chamber if it set a realistic target and then tried to improve on that in three or four years' time, with a more distant target in five to 10 years' time as we approach the level of attainment for the rest of the population, because that is what we should aim for. People would understand that we have to do it gradually, and it would be an important sign to the public at large and to local authorities that we take this issue seriously.

Strategies in employment, education and training should contain looked-after children compliance requirement. All Welsh Assembly Government strategies in this area should contain, as they do for equal opportunities, a note on their compliance with the considerations for looked-after children. That, too, would send a firm signal to all relevant agencies.

gradd TGAU dda fel ein targed ar gyfer perfformiad priodol, fel ag ar gyfer gweddill y boblogaeth. Gadewch imi roi'r ffigurau ichi: yn 2002, 5 y cant yn unig o blant a oedd yn cael gofal a gyrhaeddodd y targed o bum gradd TGAU dda. Cynyddodd hynny i 9 y cant, sy'n gynnydd cymharol dda, ond 9 y cant yn unig ydyw o hyd. Mae hynny'n cymharu â 60 y cant o'r boblogaeth o ran perfformiad mewn arholiadau TGAU.

Nid yw'n syndod bod nifer mawr o blant sy'n cael gofal yn dod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi iddynt adael gofal. Yng Nghymru, y ffigur yw 51 y cant; maent yn gwneud ychydig yn well yn Lloegr, ond mae'n dal lawer yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth, gan fod 33 y cant o bobl ifanc sy'n gadael gofal heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ar hyn o bryd, mae'r ffigur ar gyfer y boblogaeth gyfan yn 12 y cant yng Nghymru ac yn 10 y cant yn Lloegr.

Felly, beth allwn ni ei wneud? Mae'n bwysig yn awr inni wynebu'r her o gynnig rhai awgrymiadau cadarn. Yn gyntaf, mae angen i Lywodraeth y Cynulliad fabwysiadu targed o bum gradd TGAU dda. Byddai hynny'n uchelgeisiol ac yn arwydd o arfer da. Ni fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei gwanhau mewn unrhyw fodd yn y Siambr pe bai'n gosod targed realistig ac yna'n ceisio gwella ar hynny ymhen tair neu bedair blynedd, gyda tharged uwch ymhen pump i ddeng mlynedd wrth inni gyrraedd yr un lefel cyrhaeddiad ag ar gyfer gweddill y boblogaeth, oherwydd dyna y dylem fod yn anelu ato. Byddai pobl yn deall ei bod yn rhaid inni wneud hynny'n raddol, a byddai'n arwydd pwysig i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i awdurdodau lleol ein bod yn cymryd y mater hwn o ddifrif.

Dylai strategaethau ym meysydd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant gynnwys gofynion cydymffurfio ar gyfer plant sy'n cael gofal. Dylai holl strategaethau Llywodraeth y Cynulliad yn y maes hwn gynnwys nodyn ar gydymffurfio ag ystyriaethau ar gyfer plant sy'n cael gofal, fel sy'n digwydd yn achos cyfle cyfartal. Byddai hynny hefyd yn rhoi arwydd pendant i'r holl asiantaethau perthnasol.



We should have a higher education target and an action plan. I hope that that is taken up soon. It is disappointing to note that none of the targeted Welsh Assembly Government vocational and education training strategies have actions relating to looked-after children. For example, the Welsh Assembly Government's 'Reaching Higher' strategy for HE fails to address care leavers specifically. It does have widening access target groups, but looked after-children are not among them. I agree that all these groups should be targeted. The current ones listed are Communities First areas, black and ethnic minority communities, Welsh-medium provision, and disabled people. All of those are unquestionably necessary, but why are looked-after children not there, too?

Another suggestion is that we should provide all looked-after children over the age of 10 with a laptop. That is already best practice. A couple of local authorities already do it, and I commend them. There are companies out there, such as BT, that have already gone part of the way in this provision. I believe that the Welsh Assembly Government would probably find many companies that would want to participate in such a programme to provide either hardware or match funding.

My final suggestion is to look at the issue of work placements and ensure that looked-after children, after the age of 14, get access to some high-quality work placement experience. You are developing this practice in the Best Chance initiative, and that needs to be accelerated. I have heard excellent comments about that programme, but there were issues about some looked-after children dropping out or not having the qualifications to take full advantage of it. We need to ensure that children who are having difficulty in maintaining these work placements are given that extra support, because we have heard stories about those who stick it applying for modern apprenticeships and getting them. We need to raise the level of their ambitions so that they will enter further education.

Dylai fod gennym darged a chynllun gweithredu ar gyfer addysg uwch. Gobeithio y caiff hyn ei gyflawni cyn hir. Mae'n siomedig sylwi nad oes gan yr un o strategaethau Llywodraeth y Cynulliad sydd wedi'u targedu ym maes hyfforddiant galwedigaethol ac addysg gamau gweithredu'n gysylltiedig â phlant sy'n cael gofal. Er enghraifft, nid yw strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch 'Ymgeisio yn Uwch' yn ymdrin yn benodol â phlant sy'n gadael gofal. Mae'r strategaeth yn cynnwys grwpiau targed i ehangu mynediad, ond nid yw plant sy'n cael gofal ymhlith y grwpiau hynny. Cytunaf y dylid targedu'r holl grwpiau hyn. Mae'r rhai sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd yn cynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phobl anabl. Nid oes amheuaeth nad yw'r rhain yn angenrheidiol, ond pam nad yw plant sy'n cael gofal hefyd wedi'u cynnwys?

Awgrym arall yw y dylem roi gliniadur i bob plentyn dros 10 oed sy'n cael gofal. Mae hyn eisoes yn arfer gorau. Mae un neu ddau awdurdod lleol eisoes yn gwneud hyn, ac yr wyf yn eu cymeradwyo. Mae yna gwmnïau, megis BT, sydd eisoes wedi cyflawni rhywfaint yng nghyswllt y ddarpariaeth hon. Credaf y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gallu dod o hyd i nifer o gwmnïau a fyddai'n dymuno cymryd rhan mewn rhaglen o'r fath i ddarparu caledwedd neu arian cyfatebol.

Fy awgrym olaf yw edrych ar leoliadau gwaith a sicrhau bod plant sy'n cael gofal, ar ôl eu pen-blwydd yn 14 oed, yn gallu cael lleoliadau profiad gwaith o safon. Yr ydych yn datblygu'r arfer hwn yn y fenter Cyfle Gorau, ac mae angen ei ddatblygu'n gyflymach. Yr wyf wedi clywed sylwadau gwych am y rhaglen honno, ond cafwyd problemau fod rhai plant sy'n cael gofal yn gadael yn gynnar neu fod rhai heb y cymwysterau i fanteisio'n llawn ar y rhaglen. Mae angen inni sicrhau bod plant sy'n cael anhawster i gadw'r lleoliadau gwaith hyn yn cael y cymorth ychwanegol hwnnw, oherwydd yr ydym wedi clywed hanesion am y rhai sy'n dal ati ac yn gwneud ceisiadau am brentisiaethau modern ac yn llwyddo i'w cael. Mae angen inni godi lefel eu huchelgais er mwyn iddynt fynd ymlaen i addysg

bellach.

Our corporate parenting role should focus on the transfer to work. Many of us have taken on young people for a work experience placement. We usually know their parents, or they may be someone from our constituency; they are situations where a contact has been used and we are happy to provide the placement. We need a role that allows the Welsh Assembly Government to intervene specifically for this group of very vulnerable people.

Dylai ein rôl rhianta corfforaethol ganolbwyntio ar drosglwyddo i waith. Mae nifer ohonom wedi cymryd pobl ifanc ar leoliad profiad gwaith. Fel rheol byddwn yn adnabod eu rhieni, neu efallai eu bod yn byw yn ein hetholaeth; mae yna sefyllfaoedd pan fydd cyswllt wedi'i ddefnyddio a ninnau'n fwy na pharod i ddarparu'r lleoliad. Mae angen swyddogaeth sy'n caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad ymyrryd yn benodol ar gyfer y grŵp hwn o bobl sy'n agored iawn i niwed.

When it comes to what we can do for looked-after children and care leavers, the most vital thing is to provide a secure and safe placement while they are in care—a placement that does not change frequently, or at all, if that is possible. The second most important thing we can do for them is to ensure that they have good educational attainment that matches, or at least comes close to, that for the general population. That is the gateway to a happy and productive life. This might also improve the services of the various agencies that help looked-after children. If we can get it right for educational attainment, all the other support services are likely to be in place.

Wrth ystyried yr hyn y gallwn ei wneud ar gyfer plant sy'n cael gofal a'r rheini sy'n gadael gofal, y peth pwysicaf yw darparu lleoliad diogel a sicr tra byddant mewn gofal—lleoliad nad yw'n newid yn aml, neu o gwbl, os yw hynny'n bosibl. Y peth pwysicaf ond un y gallwn ei wneud iddynt yw sicrhau bod ganddynt gyrraethiad addysgol da sy'n cyfateb i gyrraethiad addysgol y boblogaeth yn gyffredinol, neu'n agos ato o leiaf. Dyna sy'n agor y drws ar fywyd hapus a chynhyrchiol. Gallai hyn hefyd wella gwasanaethau'r asiantaethau amrywiol sy'n helpu plant sy'n cael gofal. Os gallwn lwyddo gyda chyrhaethiad addysgol, mae'r holl wasanaethau cymorth eraill yn debygol o fod ar waith.

I would like to conclude by quoting a friend of us all, Karen Sinclair, who wrote in a recent article on WalesHome.org:

Hoffwn gloi drwy ddyfynnu cyfaill inni i gyd, sef Karen Sinclair, a ddywedodd mewn erthygl yn ddiweddar ar WalesHome.org:

'It's time to put a more rigorous definition on our role as corporate parents and turn the national debate about the well-being, prosperity, attainment and life-quality of our looked after children in Wales into positive and comprehensive action that goes beyond simply issuing yet more guidance. We have to ensure that the approach and obligation to young care leavers is consistent across Wales. It is time to be bold and to insist on what we want to achieve for our young people.'

Mae'n bryd inni ddiffinio ein rôl fel rhieni corfforaethol yn fanylach a throi'r ddadl genedlaethol am les, ffyniant, cyrraethiad a safon bywyd ein plant sy'n cael gofal yng Nghymru yn gamau gweithredu cadarnhaol a chynhwysfawr, sy'n gwneud mwy na dim ond cyflwyno mwy fyth o ganllawiau. Rhaid inni sicrhau bod gennym ddull gweithredu a rhwymedigaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n gyson ar draws Cymru gyfan. Mae'n bryd inni fod yn feiddgar a mynnu cyflawni'r hyn yr ydym am ei gyflawni ar gyfer ein pobl ifanc.

Well said, Karen, and amen to that.

Clywch, clywch, Karen, ac amen i hynny.

**Helen Mary Jones:** I would like to thank David very much for the opportunity to speak

**Helen Mary Jones:** Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i David am y cyfle i siarad am ychydig

for a few moments in his debate and for raising this important issue in the Chamber today. I would also like to take this opportunity to pay tribute to David Melding for his tireless work as the chair of the cross-party group on looked-after children. It is an exceedingly effective group that Ministers respond to positively. We all owe David a debt of gratitude for that.

I need to add very little to what David has said. I commend all the suggestions that he has made to Assembly Government Ministers. However, on a personal note, I know from my experience as a special needs teacher and from working with looked-after children in the social work field, that children will very often achieve what we expect of them. If we think about it, we will realise that we know that from looking at our own families.

If a child goes into a class and the teacher has been told that he or she is a disruptive child who comes from a difficult family, that child goes in with a huge burden around his or her neck. I am sure that all teachers, educators and foster carers who are working with and supporting our looked-after children want the best for them, but they may not expect enough and we may not expect enough. If I could commend just one of David's many positive recommendations to the Government, it would be to raise that target. We need to say, as a national community, that we expect as much from and of looked-after children as we wish to support them. It is only if we make that message clear at a national level can we expect local providers to understand that it is no longer good enough for those children who have had a difficult start in life to go on to a difficult future.

In my professional work, I have seen a combination of the right foster placement and the right support in education transform young people's lives. I can think of one young woman who came into my special needs class barely literate who went on to get a degree, because she had the right support at the right time and, crucially, foster carers

funudau yn y ddadl hon ac am godi'r mater pwysig hwn yn y Siambr heddiw. Hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn hefyd i roi teyrnged i David Melding am ei waith diflino fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar blant sy'n cael gofal. Mae'n grŵp effeithiol tu hwnt y bydd Gweinidogion yn ymateb yn gadarnhaol iddo. Mae ein dyled yn fawr i David am hynny.

Nid oes angen imi ychwanegu llawer at yr hyn y mae David wedi'i ddweud. Yr wyf yn cymeradwyo'r holl awgrymiadau a wnaeth i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, ar nodyn personol, gwn o'm profiad fel athrawes anghenion arbennig ac o weithio gyda phlant sy'n cael gofal ym maes gwaith cymdeithasol, y bydd plant yn aml yn cyflawni'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt. O feddwl am y peth, byddwn yn sylweddoli ein bod yn gwybod hynny o edrych ar ein teuluoedd ein hunain.

Os bydd plentyn yn mynd i ddosbarth a'r athro neu'r athrawes wedi cael gwybod ei fod yn blentyn trafferthus sy'n dod o deulu anodd, bydd y plentyn hwnnw'n mynd i mewn i'r dosbarth gyda baich enfawr am ei wddf. Yr wyf yn siŵr fod yr holl athrawon, addysgwyr a gofalwyr maeth sy'n gweithio gyda'n plant sy'n cael gofal ac yn rhoi cefnogaeth iddynt am sicrhau'r gorau iddynt, ond efallai nad ydynt yn disgwyl digon ac efallai nad ydym ni'n disgwyl digon. Pe bai'n rhaid imi gymeradwyo un yn unig o'r argymhellion cadarnhaol niferus a wnaeth David i'r Llywodraeth, fy newis fyddai codi'r targed hwnnw. Mae angen inni ddweud, fel cymuned genedlaethol, fod ein disgwyliadau o blant sy'n cael gofal yn gymesur â'n hawydd i'w cynorthwyo. Dim ond drwy roi neges glir ar lefel genedlaethol y gallwn ddisgwyl i ddarparwyr lleol ddeall nad yw'n dderbyniol bellach i'r plant hynny sydd wedi cael dechrau anodd mewn bywyd fynd ymlaen i gael dyfodol anodd.

Yn fy ngwaith proffesiynol, yr wyf wedi gweld cyfuniad o'r lleoliad maeth cywir a'r cymorth cywir ym maes addysg yn trawsnewid bywydau pobl ifanc. Gallaf feddwl am un ferch ifanc nad oedd yn gallu darllen nac ysgrifennu fawr ddim pan ddaeth i'm dosbarth anghenion arbennig ac aeth yn ei blaen i ennill gradd, am iddi gael y math

who expected her to do as well as their own children.

iawn o gefnogaeth ar yr adeg iawn ac, yn hollbwysig, am iddi gael gofalwyr maeth a oedd yn disgwyl iddi wneud cystal â'u plant eu hunain.

6.20 p.m.

As a nation, we need to place that level of expectation on looked-after children. If that is what we want for our own children in our own families, for our own relatives, for the children who share classes with our own children, we should expect that from the children who are the responsibility of us all, namely looked-after children.

Fel gwlad, mae angen inni osod y lefel honno o ddisgwyliad ar blant sy'n cael gofal. Os dyna'r ydym yn ei ddymuno i'n plant ein hunain yn ein teuluoedd ein hunain, i'n perthnasau ein hunain, i'r plant sydd yn yr un dosbarthiadau â'n plant ein hunain, dylem ddisgwyl hynny gan y plant sy'n gyfrifoldeb i bob un ohonom, sef plant sy'n cael gofal.

**The Deputy Minister for Children (Huw Lewis):** I thank David for raising this pressing and worrying issue twice in one day. If it were to be raised every day, it would not be too often.

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Hoffwn ddiolch i David am godi'r mater pwysig hwn sy'n peri pryder, ddwywaith mewn un diwrnod. Pe bai'r mater yn cael ei godi bob dydd, ni fyddai hynny'n rhy aml.

The Welsh Assembly Government is aware that the educational achievement of looked-after children is much lower than that of their peers. We know that this is a major challenge as these children and young people represent some of the most vulnerable people in society. The Wales Audit Office has also recognised this, as it recently undertook an inquiry into the education of looked-after children and I look forward to seeing the report.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol bod cyflawniad addysgol plant sy'n cael gofal lawer yn is na chyflawniad addysgol eu cyfoedion. Gwyddom fod hyn yn her fawr, oherwydd y plant a'r bobl ifanc hyn yw rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi cydnabod hyn, ac yn ddiweddar cynhaliodd ymchwiliad i addysg plant sy'n cael gofal, ac yr wyf yn edrych ymlaen at weld yr adroddiad.

We have implemented a number of specific policy initiatives that aim to support looked-after children, but many of our broader policies, which aim to improve the life chances of the most vulnerable in society, will also impact on those looked-after children. The reasons for the comparatively low level of educational achievement of looked-after children are well documented. We know that many of them have significant disruption in their lives, which has a subsequent effect on emotional stability and security, schooling and receptivity to learning. Many of them will also have additional learning needs, such as a learning difficulty or disability.

Yr ydym wedi gweithredu nifer o fentrau polisi penodol sy'n ceisio cefnogi plant sy'n cael gofal, ond bydd nifer o'n polisiâu mwy cyffredinol, sy'n ceisio gwella rhagolygon y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, hefyd yn cael effaith ar blant sy'n cael gofal. Mae'r rhesymau sy'n egluro pam mae cyflawniad addysgol plant sy'n cael gofal yn gymharol isel yn hysbys. Gwyddom fod nifer ohonynt yn cael trafferthion sy'n amharu'n sylweddol ar eu bywyd ac yn cael effaith ddilynol ar sefydlogrwydd a sicrwydd emosiynol, addysg a pharodrwydd i ddysgu. Bydd gan nifer ohonynt anghenion dysgu ychwanegol hefyd, megis anhawster neu anabledd dysgu.

In order to address this underachievement, we have put in place specific approaches and David has mentioned one or two of them.

Er mwyn mynd i'r afael â'r tangyflawni hwn, yr ydym wedi cyflwyno dulliau gweithredu penodol ac mae David wedi crybwyll un neu

They include the RAISE grant for looked-after children of £1 million a year, which has been in place since 2006-07. It also includes funding for local authorities to provide direct support to individual learners who are approaching external exams at age 16, such as GCSEs and so on. Funding has been used for co-ordinators in local authorities to focus on the needs of individual learners and to make sure that the support that they need is appropriate and made available quickly. There is provision to support the emotional and mental health needs of looked-after children, such as anger management courses. Resources such as PCs, laptops, resource rooms and course books have also been part of that provision, but I take on board David's recommendation to look at the laptop issue for all looked-after children. I will ask officials to look at the gap between what is provided and what you mentioned.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to the Deputy Minister for giving way. That is an extremely valuable response to what David mentioned. I understand that Cardiff Council has been seeking to provide laptops on an ad hoc basis to looked-after children, but they have only been available to looked-after children in the council's care; the laptops have not been available to children who have been fostered through an independent organisation. In seeking to achieve this, I hope that you will look at the whole range of provision to ensure that all looked-after children will be covered.

**Huw Lewis:** I will, and I shall write to David to clarify the picture and then we can perhaps explore where things might move from there.

This direct funding appears to be making a real difference in educational attainment, and David was gracious enough to accept that. During 2008-09, 49 per cent of looked-after children left care at 16 years of age or over with at least one GCSE at grade A to G, which represents a rise of 6 percentage points since 2006-07. That is quite a rapid improvement—a rise of almost 20 per cent over the last year in the average points score

ddau ohonynt. Maent yn cynnwys y grant Rhagori i blant sy'n cael gofal. Mae'n werth £1 filiwn y flwyddyn ac mae mewn grym er 2006-07. Mae hefyd yn cynnwys arian ar gyfer awdurdodau lleol i ddarparu cymorth uniongyrchol i ddysgwyr unigol sy'n wynebu eu harholiadau allanol yn 16 oed, megis arholiadau TGAU, ac yn y blaen. Defnyddiwyd arian er mwyn i gydgyssylltwyr mewn awdurdodau lleol ganolbwyntio ar anghenion dysgwyr unigol a sicrhau bod y cymorth y mae arnynt ei angen yn briodol ac ar gael yn gyflym. Mae darpariaeth ar gael i gefnogi anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl plant sy'n cael gofal, megis cyrsiau rheoli tymer. Mae adnoddau megis cyfrifiaduron personol, gliniaduron, ystafelloedd adnoddau a gwerslyfrau hefyd wedi bod yn rhan o'r ddarpariaeth honno, ond derbyniaf argymhelliad David i ystyried rhoi gliniadur i bob plentyn sy'n cael gofal. Byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar y bwch rhwng yr hyn sy'n cael ei ddarparu a'r hyn a grybwyllwyd gennych.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ildio. Yr oedd hwnnw'n ymateb gwerthfawr iawn i'r hyn y soniodd David amdano. Deallaf fod Cyngor Caerdydd wedi bod yn ceisio darparu gliniaduron ar sail ad hoc i blant sy'n cael gofal, ond eu bod ar gael yn unig i blant sy'n cael gofal gan y cyngor; nid yw'r gliniaduron wedi bod ar gael i blant sydd wedi'u maethu drwy sefydliad annibynnol. Wrth geisio cyflawni hyn, gobeithio y byddwch yn edrych ar y ddarpariaeth gyfan er mwyn sicrhau y bydd pob plentyn sy'n cael gofal yn cael ei gynnwys.

**Huw Lewis:** Byddaf yn gwneud hynny, a byddaf yn ysgrifennu at David i gadarnhau'r sefyllfa, ac yna efallai y gallwn archwilio i ba gyfeiriad i fynd wedyn.

Ymddengys fod yr arian uniongyrchol hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyrhaeddiad addysgol, ac yr oedd David yn ddigon graslon i dderbyn hynny. Yn ystod 2008-09, o'r plant a oedd yn gadael gofal yn 16 oed neu'n hŷn, yr oedd gan 49 y cant ohonynt o leiaf un TGAU gradd A i G, sy'n gynydd o 6 phwynt canran er 2006-07. Mae hyn yn welliant cymharol gyflym—cynydd o bron i 20 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf

of all qualifications attained by care leavers. I recognise David's point that this is not analogous to the figure used for the general population of A to C grades; however, starting from a low base, it represents solid statistical evidence that there has been quite a rapid and substantial improvement. We recognise that we need to continue to build on that kind of progress. That is why we are currently evaluating what the effect of the grant have been, and what have proved to be the most effective approaches within it, in raising looked-after children's educational attainment.

Given their complex and varied needs, it is important that local authorities consider individual looked-after children. That is why an approach of assessing the educational potential of each child and their achievement has been developed as part of the RAISE grant that I mentioned. This is far more meaningful than a performance measure that is based on the percentage of attainment, as the numbers of looked-after children in local authorities can often be very low. As a result, statistical measures can be quite misleading.

It is essential that local authorities are fully aware of the performance of these kids in relation to their education. That is why the Minister for Children, Education and Lifelong Learning asked all local authorities to nominate senior staff to meet officials in his department to discuss their progress and to explore how they may continue to improve their approaches.

WAG will shortly be issuing new guidance to schools, local authorities and other key stakeholders to further embed good practice and to provide guidance on new legislation. The guidance will build on the new requirements that were set out in 'Towards a Stable Life and a Brighter Future' in 2007. These will ensure that educational needs are fully considered as part of placement decisions, that there is an effective and timely transfer of educational records, that every child's home has a link worker responsible for promoting the education of looked-after children, that each local authority has a co-ordinator responsible for addressing the

yn y sgôr bwyntiau gyfartalog ar gyfer yr holl gymwysterau a enillwyd gan blant sy'n gadael gofal. Yr wyf yn cydnabod pwynt David nad yw hyn yn cyfateb i'r ffigur ar gyfer y graddau A i C a ddefnyddir ar gyfer y boblogaeth gyffredinol; fodd bynnag, gan ddechrau o fan isel, mae'n cynnig tystiolaeth ystadegol gadarn fod gwelliant cymharol gyflym a sylweddol wedi digwydd. Yr ydym yn cydnabod bod angen inni barhau i adeiladu ar y math hwn o gynnydd. Dyna pam yr ydym yn gwerthuso effaith y grant ar hyn o bryd, ac yn ystyried pa ddulliau gweithredu sydd wedi bod fwyaf effeithiol wrth godi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n cael gofal.

O gofio'u hanghenion cymhleth ac amrywiol, mae'n bwysig i awdurdodau lleol ystyried plant unigol sy'n cael gofal. Dyna pam mae dull o asesu potensial addysgol pob plentyn a'i gyflawniad wedi'i ddatblygu fel rhan o'r grant Rhagori y soniais amdano. Mae hyn lawer yn fwy ystyrion na mesur perfformiad yn seiliedig ar ganran cyrhaeddiad, oherwydd gall nifer y plant sy'n cael gofal mewn awdurdodau lleol fod yn isel iawn yn aml. O ganlyniad, gall mesurau ystadegol fod yn ddigon camarweiniol.

Mae'n hollbwysig i awdurdodau lleol fod yn gwbl ymwybodol o berfformiad y plant hyn mewn cysylltiad â'u haddysg. Dyna pam mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi gofyn i bob awdurdod lleol enwebu uwch-aelodau staff i gwrdd â swyddogion yn ei adran i drafod eu cynnydd ac i weld sut y gallant barhau i wella'u dulliau gweithredu.

Cyn hir bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau newydd i ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sefydlu arfer da ymhellach ac i ddarparu arweiniad ar ddeddfwriaeth newydd. Bydd y canllawiau'n adeiladu ar y gofynion newydd a gyflwynwyd yn 'Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell' yn 2007. Bydd y rhain yn sicrhau ystyried anghenion addysgol yn llawn fel rhan o benderfyniadau a wneir am leoliadau, bod proses effeithiol ac amserol ar waith ar gyfer trosglwyddo cofnodion addysgol, bod gan gartref pob plentyn weithiwr cyswllt sy'n gyfrifol am hybu addysg plant sy'n cael gofal, bod gan

educational needs of looked-after children, and that all looked-after children have a high-quality personal education plan within 20 days of entering care or moving to a new school.

The new document will contain guidance on three new duties on educational aspects in the Children and Young Persons Act 2008 that are being introduced later this year. Schools will be required to designate a person to promote the education of the looked-after children on their roll. This is currently in statutory guidance, but we wanted to make it a statutory requirement. The current entitlement of care leavers who wish to resume or continue their education to a personal adviser until they are 24 years of age will be extended to the age of 25. Local authorities will be required to pay a bursary to a former relevant child who agrees to go on to higher education, and we anticipate that that will be around £2,000.

In addition, we are strengthening the role of the independent reviewing officer in overseeing the child's care. This includes making it a requirement for a review to be convened where a change of placement is proposed that would interrupt the arrangements for the education of any child at key stage 4.

We know, as David mentioned, that a very small proportion of looked-after children go on to higher education. I take his point about collecting data on a Welsh level. I will ask officials to look into this, David, and I will write to you. The bursary of £2,000 that I mentioned is intended to help to break down the financial barriers that that group of children, at least, might face once they are in higher education.

We had looked to introduce extra financial support for looked-after children through the child trust fund, and had put in an extra £100 in Wales for each looked-after child, to add to the £100 that they already receive through a scheme that we administer on behalf of the UK Government. I hope that the Members opposite will begin to fully comprehend the

bob awdurdod lleol gydgysylltydd sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag anghenion addysgol plant sy'n cael gofal, a bod gan blant sy'n cael gofal gynllun addysg personol o safon cyn pen 20 diwrnod ar ôl dechrau cael gofal neu symud i ysgol newydd.

Bydd y ddogfen newydd yn cynnwys arweiniad ar dair dyletswydd newydd ar agweddau addysgol yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 2008 sy'n cael eu cyflwyno'n ddiweddarach eleni. Bydd yn ofynnol i ysgolion ddewis unigolyn i hybu addysg y plant ar eu cofrestr sy'n cael gofal. Canllaw statudol yw hyn ar hyn o bryd, ond yr ydym yn awyddus i'w wneud yn ofyniad statudol. Bydd yr hawl bresennol i'r rheini sy'n gadael gofal ac sy'n dymuno ailafael yn eu haddysg neu barhau eu haddysg i gael cynghorydd personol nes byddant yn 24 oed, yn cael ei hymestyn i 25 oed. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol dalu bwrsari i blentyn perthnasol sydd wedi bod mewn gofal ac sy'n cytuno i fynd ymlaen i addysg uwch, a rhagwelwn y bydd hwnnw tua £2,000.

Yn ogystal, yr ydym yn cryfhau rôl y swyddog adolygu annibynnol wrth oruchwylio gofal y plentyn. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad pan fydd cynnig i newid lleoliad a fyddai'n amharu ar y trefniadau ar gyfer addysg unrhyw blentyn yng nghyfnod allweddol 4.

Gwyddom, fel y soniodd David, fod cyfran fach iawn o blant sy'n cael gofal yn mynd ymlaen i addysg uwch. Yr wyf yn derbyn ei bwynt ynghlŷn â chasglu data ar lefel Cymru gyfan. Byddaf yn gofyn i swyddogion ymchwilio i hyn, David, ac ysgrifennaf atoch. Bwriedir i'r bwrsari o £2,000 y soniais amdano helpu dileu'r rhwystrau ariannol y gallai'r grŵp hwnnw o blant, o leiaf, eu hwynebu pan fyddant mewn addysg uwch.

Yr oeddem wedi bwriadu cyflwyno cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer plant sy'n cael gofal drwy'r gronfa ymddiriedolaeth plant, ac yr oeddem wedi rhoi £100 ychwanegol yng Nghymru ar gyfer pob plentyn sy'n cael gofal, i'w ychwanegu at y £100 y maent eisoes yn ei gael drwy gynllun a weinyddir gennym ar ran Llywodraeth y DU. Gobeithio

level of concern, and even bitterness, on this side of the Chamber as regards the demise of the child trust fund. It is not just the general run of Wales's children who will suffer, although of course they will, but the most vulnerable children of all; it is they who will suffer the most, including looked-after and severely disabled children, who were receiving top-ups of £100 a month from the Westminster Government, which would have left all these children with a nest egg at 18 years of age. That would have cushioned their transition into adult life in an entirely innovative way. It is because of the effect on those two groups of children, if for no other reason, that Members on this side of the Chamber are deeply disappointed at the decision of the UK Government to wind up the child trust fund.

6.30 p.m.

**Brian Gibbons:** You are right about the importance of the child trust fund, particularly for looked-after children, who often cannot go back to their parents to get that extra few hundred pounds to furnish a flat and so on. That is important. The view taken elsewhere in relation to the child trust fund makes it difficult for looked-after children to benefit from the money that the Assembly Government is providing them, which is of the order of £0.25 million in top-up funding. In turn, that has been supplemented by what is provided by local government. Consequently, not only are children losing their trust funds because of a decision taken in Westminster, but the very framework through which the Assembly Government provides extra support for looked-after children will also be kicked from underneath them.

**Huw Lewis:** Brian has said it all. It is looked-after and severely disabled children who will really be clobbered by the demise of the trust fund.

David mentioned that HE institutions in Wales have made good progress, and he was right to do so. All 11 HE institutions have achieved the Frank Buttle Trust quality mark, as David mentioned. The Reaching Wider

y bydd Aelodau gyferbyn yn dechrau amgyffred yn llawn lefel y pryder, a hyd yn oed y chwewder, ar yr ochr hon o'r Siambr am dranc y gronfa ymddiriedolaeth plant. Nid plant cyffredin Cymru'n unig a fydd yn dioddef, er y byddant yn dioddef, wrth gwrs, ond y plant sydd fwyaf agored i niwed; hwy a fydd yn dioddef fwyaf, gan gynnwys plant sy'n cael gofal a phlant ag anabledd difrifol. Yr oeddent yn cael taliadau atodol o £100 y mis gan Lywodraeth San Steffan, a fyddai wedi rhoi arian wrth gefn i'r plant hyn pan fyddent yn 18 oed. Byddai hynny wedi'u helpu i symud ymlaen yn fwy esmwyth i'w bywydau fel oedolion, mewn ffordd arloesol iawn. Yr effaith ar y ddau grŵp hyn o blant, os nad unrhyw beth arall, sydd i gyfrif fod Aelodau ar yr ochr hon o'r Siambr yn siomedig iawn am benderfyniad Llywodraeth y DU i ddirwyn y gronfa ymddiriedolaeth plant i ben.

**Brian Gibbons:** Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod y gronfa ymddiriedolaeth plant yn bwysig, yn arbennig i blant sy'n cael gofal ac sy'n methu mynd at eu rhieni i gael ychydig gannoedd o bunnoedd yn ychwanegol i ddodrefnu fflat, ac yn y blaen. Mae hynny'n bwysig. Mae'r safbwynt a gymerwyd mewn man arall yn ei gwneud yn anodd i blant sy'n cael gofal elwa o'r arian y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi iddynt, sef oddeutu £0.25 miliwn o arian ychwanegol. Yn ei dro, mae hwnnw wedi'i ategu gan yr hyn a ddarperir gan lywodraeth leol. O ganlyniad, nid yn unig y mae plant yn colli eu cronfeydd ymddiriedolaeth oherwydd penderfyniad a wnaed yn San Steffan, ond bydd yr union fframwaith a ddefnyddir er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu cymorth ychwanegol i blant sy'n cael gofal hefyd yn cael ei dynnu oddi arnynt.

**Huw Lewis:** Mae Brian wedi dweud y cyfan. Plant sy'n cael gofal a phlant ag anabledd difrifol a fydd yn cael eu taro waethaf o ganlyniad i dranc y gronfa ymddiriedolaeth.

Soniodd David fod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi gwneud cynnydd da, ac yr oedd yn gywir i ddweud hynny. Mae pob un o'r 11 sefydliad addysg uwch wedi ennill marc ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle,



partnerships in Wales have produced a care leavers' guide for those looked-after children who are considering applying, or are applying, for HE, and they hold a number of recruitment activities to raise the aspirations and participation levels of looked-after children and care leavers in lifelong learning, which include summer club activities, providing literature and making visits. In my work over the summer and autumn, I will be challenging HE institutions to step up their level of activity when it comes to access issues surrounding underrepresented groups, including looked-after children, in relation to recruitment. There are HE institutions that could do much more in relation to innovation and sheer quantity of work on this issue.

Our work on promoting the education of looked-after children fits into wider policies to promote inclusion and to support vulnerable groups of children. For example, the needs of looked-after children are considered in the pilot work that we are doing as part of the reform of the statutory assessment process and in our action plan for behaviour and attendance. They will be a key consideration when taking forward the plan that we are currently developing on reducing the number of young people who have become NEET—not in employment, education or training. As we know, unfortunately, a large proportion of looked-after children become NEET. We have already taken the step of requiring schools to treat looked-after children as a priority in their admissions process, but we also need to ensure that we work with schools and local authorities to avoid looked-after children continuing to be excluded from school at a rate vastly disproportionate to that for their peers.

We cannot think of education as a completely separate element from other parts of looked-after children's lives, as their care arrangements are intrinsically linked to their ability to learn. Children and young people's plans are the key in co-ordinating services for looked-after children. Legislation also matters. Things such as 'Towards a Stable

fel y soniodd David. Mae'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yng Nghymru wedi cynhyrchu canllaw gadael gofal i'r plant hynny sy'n cael gofal ac sy'n ystyried gwneud cais, neu sydd yn gwneud cais, i ddilyn cwrs addysg uwch. Maent yn cynnal nifer o weithgareddau recriwtio i godi uchelgais a lefelau cyfranogiad plant sy'n cael gofal a'r rheini sy'n gadael gofal mewn dysgu gydol oes. Mae hynny'n cynnwys gweithgareddau clybiau haf, darparu taflenni gwybodaeth a gwneud ymweliadau. Yn fy ngwaith dros yr haf a'r hydref, byddaf yn herio sefydliadau addysg uwch i gynyddu lefel eu gweithgarwch yn gysylltiedig â mynediad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys plant sy'n cael gofal, mewn cysylltiad â recriwtio. Gallai rhai sefydliadau addysg uwch wneud llawer mwy i gynyddu arloesedd a maint y gwaith a wnant ar y mater hwn.

Mae ein gwaith i hybu addysg plant sy'n cael gofal yn cyd-fynd â pholisiau ehangach i hybu cynhwysiant ac i gefnogi grwpiau o blant sy'n agored i niwed. Er enghraifft, caiff anghenion plant sy'n cael gofal eu hystyried yn y gwaith pilot yr ydym yn ei wneud fel rhan o'r gwaith i ddiwygio'r broses asesu statudol ac yn ein cynllun gweithredu ar ymddygiad a phresenoldeb. Byddant yn ystyriaeth allweddol wrth weithredu'r cynllun yr ydym wrthi'n ei ddatblygu i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fel y gwyddom, yn anffodus, mae cyfran fawr o blant sy'n cael gofal yn dod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Yr ydym eisoes wedi cymryd y cam o fynnu bod ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i blant sy'n cael gofal yn eu proses dderbyn. Fodd bynnag, mae angen inni hefyd sicrhau ein bod yn gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae nifer y plant sy'n cael gofal yn cael eu heithrio o'r ysgol ar raddfa uwch o lawer na'u cyfoedion.

Ni allwn ystyried addysg fel elfen hollol ar wahân i rannau eraill o fywydau plant sy'n cael gofal, oherwydd mae cyswllt sylfaenol rhwng eu trefniadau gofal a'u gallu i ddysgu. Mae cynlluniau plant a phobl ifanc yn hollbwysig wrth gydgyssylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n cael gofal. Mae deddfwriaeth hefyd yn bwysig. Mae pethau fel 'Tuag at

Life and a Brighter Future', the Children and Young Persons Act 2008, the Children and Families (Wales) Measure 2010, the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (No. 3) Order 2007 relating to vulnerable children, and the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Education and Training) Order 2008 all matter and will contribute.

I do not underestimate the challenge of improving the educational achievement of looked-after children—no-one here does. I know that we have a hell of a way to go. However, we are making progress through the initiatives that we have already put in place, such as RAISE, the raising attainment and individual standards in education in Wales grant. I also believe that there is great potential in many of our other developing approaches to build on that progress.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's business to a close.

Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell', Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008, Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) 2007 ynghylch plant sy'n agored i niwed, a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 i gyd yn bwysig a byddant yn cyfrannu.

Nid wyf yn bychanu'r her o wella cyflawniad addysgol plant sy'n cael gofal—nid oes neb yma'n gwneud hynny. Gwn fod gennym lawer iawn o waith i'w wneud eto. Fodd bynnag, yr ydym yn gwneud cynnydd drwy'r mentrau yr ydym eisoes wedi'u sefydlu, megis Rhagori, y grant codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru. Credaf hefyd fod potensial mawr mewn nifer o'r dulliau gweithredu eraill yr ydym yn eu datblygu i adeiladu ar y cynnydd hwnnw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Dyna ddiwedd ein busnes am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.33 p.m.  
The meeting ended at 6.33 p.m.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)

Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)